



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 30 Mehefin 2010
Wednesday, 30 June 2010**

Cynnwys
Contents

3	Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General
7	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government
30	Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning
53	Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant— 'Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel' The Communities and Culture Committee's Report— 'Youth Justice: The Experience of Welsh Children in the Secure Estate'
76	Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Swyddogion wedi'u Hethol yn Uniongyrchol Welsh Conservatives Debate: Directly Elected Officials
107	Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Tollau Pontydd Hafren Welsh Liberal Democrats Debate: Severn Bridges Tolls
133	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Counsel General.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol Questions to the Counsel General

Devolved Matters

Q1 Peter Black: What recent discussions has the Counsel General had with the UK Government regarding devolved matters? OAQ(3)0152(CGE)

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths): The Counsel General regularly discusses devolved matters with the UK Government.

Peter Black: Thank you for that comprehensive reply, Counsel General. [*Laughter.*] As you may be aware, the Law Commission for England and Wales is currently consulting on plans to develop a new adult social care statute. My understanding is that the commission is consulting on a single piece of legislation, which will affect both England and Wales. However, as this is a devolved matter, will you confirm that you will be liaising with the commission and arguing that we should be having a separate adult social care statute for Wales?

John Griffiths: As Counsel General, I am obviously involved with discussions on legal matters, although inevitably, they remain confidential, as that is very much the nature of the role of the Counsel General. However, I take a keen interest in any matter that would affect the law, as it operates in Wales with regard to a devolved area. However, I am sure that the appropriate portfolio Ministers here in the Assembly will be considering and reporting on these matters in due course.

Materion Datganoledig

C1 Peter Black: Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynghylch materion datganoledig? OAQ(3)0152(CGE)

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths): Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn trafod materion datganoledig â Llywodraeth y DU yn rheolaidd.

Peter Black: Diolch ichi am yr ymateb cynhwysfawr hwnnw, Gwnsler Cyffredinol. [*Chwerthin.*] Fel y gwyddoch efallai, mae Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr wrthi'n ymgynghori ynghylch cynlluniau i ddatblygu statud newydd ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion. Yr wyf ar ddeall bod y comisiwn yn ymgynghori ynghylch un darn o ddeddfwriaeth, a fydd yn effeithio ar Gymru a Lloegr. Fodd bynnag, gan fod hwn yn fater datganoledig, a wnewch chi gadarnhau y byddwch yn trafod â'r comisiwn ac yn dadlau y dylai Cymru fod yn cael statud ar wahân ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion?

John Griffiths: A minnau'n Gwnsler Cyffredinol, yr wyf, yn amlwg, yn cymryd rhan mewn trafodaethau am faterion cyfreithiol, er ei bod yn anorfod bod y rheini'n cael eu cadw'n gyfrinachol, gan mai dyna natur rôl y Cwnsler Cyffredinol i raddau helaeth iawn. Serch hynny, yr wyf yn dangos diddordeb mawr mewn unrhyw fater a fyddai'n effeithio ar y gyfraith, fel y caiff ei gweithredu yng Nghymru, yng nghyswllt maes sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidogion sydd â chyfrifoldeb am y portffolios priodol yma yn y Cynulliad yn ystyried y materion hyn ac yn adrodd yn eu cylch maes o law.

Christine Chapman: We are all aware of the recent decision by the Wales Office that it will now, after all, be taking forward the unamended draft National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Housing and Local Government) Order 2010, which was passed by the Assembly in February. Will the Counsel General give an indication as to how quickly this will now be progressed?

John Griffiths: I think that we all know the background to that draft LCO; the consensus behind it within the relevant sectors here in Wales; and the very positive scrutiny it received here and from the Welsh Affairs Committee. I am very pleased that the Wales Office has reconsidered its position, and we now expect this draft LCO, in its original unamended form, to be put before Parliament as quickly as possible. I understand that the Minister has committed to doing just that.

Legislative Programme

Q2 Nerys Evans: What recent discussions has the Counsel General had regarding the UK Government's legislative programme? OAQ(3)0151(CGE)

John Griffiths: As Counsel General, I have regular discussions regarding the UK Government's legislative programme.

Nerys Evans: The Tory-Lib Dem Government is planning big changes to court cases for rape, with a view to giving anonymity to rape defendants. I understand that false allegations of rape can lead to distress and personal upset to the defendant. However, the current false allegation rate is similar to that of other crimes and, in fact, is lower than false accusations rate for crimes such as car insurance fraud. Currently, the rape conviction rate stands at 6.5 per cent, and this does not mean, as I am sure you are aware, that 94 per cent of allegations are false. In fact, it more likely shows that many men are getting away with rape. The

Christine Chapman: Gŵyr pob un ohonom am y penderfyniad a wnaed gan Swyddfa Cymru yn ddiweddar, sef y bydd, wedi'r cyfan, yn mynd ati i symud yn ei flaen Orchymyn Drafft Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Tai a Llywodraeth Leol) 2010, a basiwyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror, a hynny heb ei newid. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi syniad inni o ba mor gyflym y bydd y Gorchymyn hwn yn cael ei symud yn ei flaen yn awr?

John Griffiths: Credaf fod pob un ohonom yn gyfarwydd â chefnidir y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwnnw; y consensws yn ei gylch yn y sectorau perthnasol yma yng Nghymru; a'r gwaith craffu cadarnhaol iawn a wnaed arno yn y fan hon a chan y Pwyllgor Materion Cymreig. Yr wyf yn falch iawn i Swyddfa Cymru ailystyried ei safbwynt, ac erbyn hyn yr ydym yn disgwyl i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft hwn gael ei roi gerbron Senedd y DU cyn gynted â phosibl, a hynny yn ei ffurf wreiddiol a heb ei newid. Deallaf i'r Gweinidog ymrwymo i wneud yr union beth.

Rhaglen Ddeddfwriaethol

C2 Nerys Evans: Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar ynghylch rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU? OAQ(3)0151(CGE)

John Griffiths: Fel Cwnsler Cyffredinol, yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd ynghylch rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

Nerys Evans: Mae Llywodraeth y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cynllunio newidiadau mawr i achosion llys lle ceir cyhuddiad o drais rhywiol, gyda'r bwriad o roi'r hawl i ddiffynyddion sydd wedi'u cyhuddo o drais rhywiol aros yn ddiennw. Deallaf y gall honiadau ffug o drais beri gofid a thrallod personol i'r diffynnydd. Fodd bynnag, mae'r gyfradd bresennol o honiadau ffug mewn achosion o'r fath yn debyg i'r gyfradd o honiadau ffug ar gyfer troseddau eraill, ac yn wir, mae'n is na'r gyfradd o honiadau ffug ar gyfer troseddau megis twyll yswiriant car. Ar hyn o bryd, 6.5 y cant o ddiffynyddion sy'n cael eu dyfarnu'n euog o

Government is not offering anonymity to defendants in murder cases, so what makes rape different?

drais rhywiol, ac yr wyf yn siŵr y byddwch yn sylweddoli nad yw hynny'n golygu bod 94 y cant o honiadau'n rhai ffug. Mewn gwirionedd, mae'n fwy tebygol bod hynny'n dangos bod llawer o ddynion yn llwyddo i osgoi cael eu cosbi am dreisio rhywun. Nid yw'r Llywodraeth yn cynnig yr hawl i ddiffnyddion mewn achosion o lofruddiaeth gael bod yn ddienw, felly pam mae trais yn wahanol?

Global statistics show that one in three women is sexually assaulted, and the findings of my survey of Assembly Members two years ago show that three female Assembly Members have been raped. Does the Counsel General agree that these changes by the Tory and Lib Dem Government imply that women and men make false allegations of rape, when the Government should be concentrating on securing stronger conviction rates and help victims? Does the Counsel General also agree that these proposals undermine the very good work being done by Carl Sargeant and the Government on the violence against women strategy, and will you agree to take these concerns to the justice department of the UK Government?

Mae ystadegau byd-eang yn dangos y bydd un o bob tair menyw yn dioddef ymosodiad rhywiol, ac mae canfyddiadau'r arolwg a gynhelias o Aelodau'r Cynulliad ddwy flynedd yn ôl yn dangos i dri Aelod benywaidd o'r Cynulliad gael eu treisio. A yw'r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno bod y newidiadau hyn gan Lywodraeth y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn awgrymu bod menywod a dynion yn gwneud honiadau ffug o drais, pan ddylai'r Llywodraeth fod yn canolbwyntio ar helpu dioddefwyr a sicrhau bod mwy o ddiffnyddion yn cael eu dyfarnu'n euog? A yw'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn cytuno bod y cynigion hyn yn tansilio'r gwaith da iawn y mae Carl Sargeant a'r Llywodraeth yn ei wneud ar y strategaeth trais yn erbyn menywod, ac a wnewch chi gytuno i godi'r pryderon hyn gydag adran gyfiawnder Llywodraeth y DU?

John Griffiths: These are very important and emotive matters. However, they are not devolved matters and they are not matters for me as Counsel General. However, I recognise your strength of feeling, Nerys, and I know that many women's groups have made their views clear on the proposed changes. I am sure that Carl Sargeant will make his views known in due course.

John Griffiths: Mae'r rhain yn faterion pwysig ac emosiynol iawn. Fodd bynnag, nid ydynt yn faterion datganoledig, ac nid ydynt yn faterion sy'n berthnasol imi fel Cwnsler Cyffredinol. Fodd bynnag, yr wyf yn cydnabod bod gennych deimladau cryf, Nerys, a gwn i lawer o grwpiau menywod fynegi eu safbwyntiau ynghylch y newidiadau arfaethedig. Yr wyf yn siŵr y bydd Carl Sargeant yn mynegi ei safbwyntiau maes o law.

Darren Millar: You will be aware of the UK Government's plans to bring forward a decentralisation and localism Bill. There will be opportunities there for the Assembly Government to seek the devolution of further powers over planning in respect of energy projects greater than 50 MW. What discussions have you had with the Department of Communities and Local Government at Westminster regarding the opportunities that may exist to devolve those

Darren Millar: Gwyddoch am gynlluniau Llywodraeth y DU i gyflwyno Mesur datganoli a gweithredu'n lleol. Bydd cyfleoedd yn codi dan y Mesur hwnnw i Lywodraeth y Cynulliad wneud cais i ddatganoli mwy o bwerau ym maes cynllunio ar gyfer prosiectau ynni sy'n fwy na 50 MW. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn San Steffan ynghylch y cyfleoedd a allai fodoli i ddatganoli'r pwerau hyn i'r

powers to the Assembly?

John Griffiths: These are matters for my colleague, Jane Davidson, as the relevant Minister. All Assembly Ministers are currently considering the contents of the Queen's Speech, as well as the policies and proposals of the new UK Government. All portfolio Ministers will be making statements and addressing these issues in due course.

UK Government Ministers

Q3 Nerys Evans: What recent discussions has the Counsel General had with UK Government Ministers? OAQ(3)0150(CGE)

John Griffiths: As Counsel General, I have regular discussions with the UK Government.

Nerys Evans: There is a growing appetite among police forces, lawyers and judges in Wales for a Welsh legal jurisdiction to be developed. This is a logical next step, especially as a body of Welsh law is being created. Does the Counsel General agree that now is the time to start the debate about creating a Welsh legal jurisdiction, and is he prepared to raise this issue with his counterparts in the UK Government?

John Griffiths: Since being appointed Counsel General, I have regularly met with representatives of the legal profession in Wales, as well as others who are involved in the law. This issue has been raised, namely that we might have a fuller debate and discussion on moving towards a single legal jurisdiction in Wales. I believe that it is healthy to have that debate and discussion. What I have said until now is that there have been significant developments regarding law in Wales, and the legal administration and profession in Wales, since devolution and since the Government of Wales Act 2006. We have a growing body of Welsh law, and we have also seen some interesting developments, such as the Administrative Court sitting in Cardiff, and the Court of Appeal sometimes sitting in Wales. Therefore, matters are moving on, and it is

Cynulliad?

John Griffiths: Mae'r rhain yn faterion ar gyfer fy nghydweithiwr, Jane Davidson, fel y Gweinidog perthnasol. Ar hyn o bryd, mae holl Weinidogion y Cynulliad yn ystyried cynnwys Araith y Frenhines, yn ogystal â pholisïau a chynigion Llywodraeth newydd y DU. Bydd pob Gweinidog sy'n gyfrifol am bortffolio yn gwneud datganiad ac yn mynd i'r afael â'r materion hyn maes o law.

Gweinidogion Llywodraeth y DU

C3 Nerys Evans: Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU? OAQ(3)0150(CGE)

John Griffiths: Fel Cwnsler Cyffredinol, yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth y DU.

Nerys Evans: Ceir mwyfwy o awydd ymysg heddluoedd, cyfreithwyr a barnwyr yng Nghymru i ddatblygu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Mae hwn yn gam rhesymegol i'w gymryd nesaf, yn enwedig gan fod corff o gyfreithiau i Gymru'n cael ei greu. A yw'r Cwnsler Cyffredinol yn cytuno mai dyma'r amser i ddechrau'r ddadl ynghylch creu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru, ac a yw'n barod i godi'r mater hwn gyda'i gymheiriaid yn Llywodraeth y DU?

John Griffiths: Ers cael fy mhenodi'n Gwnsler Cyffredinol, yr wyf wedi cyfarfod â chynrychiolwyr y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru yn rheolaidd, yn ogystal ag â phobl eraill sy'n ymwneud â'r gyfraith. Mae'r mater hwn wedi'i godi, sef y gallem gael dadl a thrafodaeth lawnach ynghylch symud tuag at sicrhau un awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Credaf ei bod yn beth iach inni gael y ddadl a'r drafodaeth honno. Yr hyn yr wyf wedi'i ddweud hyd yma yw i ddatblygiadau sylweddol gael eu gwneud o safbwynt y gyfraith yng Nghymru, a'r weinyddiaeth a'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru, ers datganoli ac ers cyflwyno Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae gennym gorff cynyddol o gyfreithiau i Gymru, ac yr ydym hefyd wedi gweld rhai datblygiadau diddorol, megis y Llys Gweinyddol yn eistedd yng Nghaerdydd, a'r Llys Apêl yn

healthy to have this sort of discussion and debate; I believe that that will happen. One aspect of that debate will be a single legal jurisdiction, and I welcome the fact that we are considering these matters.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): You will be aware that the Emyr Jones Parry report stressed the fact that a 'yes' vote will be neutral in terms of the time spent in the Assembly, because of the time that we currently spend on legislative competence Orders, and that will be taken up in the new procedures. Have you discussed this matter with UK Government Ministers, because it is important in any referendum campaign that we get that message across? You do not have to give a long, rambling reply.

John Griffiths: I try to be succinct whenever possible, Nick. I am currently undertaking a review of our legislative processes, and there are many aspects to that. Some of them are about the duplication of the time and cost of the LCO and Measure processes. Therefore, those matters, and those to which you refer, will be highlighted during the referendum campaign, and I hope that my review can play an important part in that.

Y Llywydd: Diolch i'r Cwnsler Cyffredinol am ei atebion cryno.

1.40 p.m.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol **Questions to the Minister for Social Justice and Local Government**

Cyllideb

C1 Gareth Jones: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith toriad sylweddol yn ystod y flwyddyn yng nghyllideb ei adran ar ei ddyheadau ar gyfer mwy o gyfiawnder cymdeithasol? OAQ(3)1271(SJL)

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): Along with

eistedd yng Nghymru weithiau. Felly, mae materion yn symud yn eu blaen, ac mae'n iach cael y math hwn o drafodaeth a dadl; credaf y bydd hynny'n digwydd. Un agwedd ar y ddadl honno fydd sicrhau un awdurdodaeth gyfreithiol, a chroesawaf y ffaith ein bod yn ystyried y materion hyn.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Gwyddoch i adroddiad Emyr Jones Parry bwysleisio'r ffaith y bydd pleidlais 'ie' yn niwtral o ran yr amser a gaiff ei dreulio yn y Cynulliad, oherwydd yr amser yr ydym yn ei dreulio ar Orchmynion cymhwysedd deddfwriaethol ar hyn o bryd, a bydd hynny'n cael ei ystyried yn y gweithdrefnau newydd. Mae'n bwysig inni gyfleu'r neges honno mewn unrhyw ymgyrch refferendwm, felly a ydych wedi trafod y mater hwn â Gweinidogion Llywodraeth y DU? Nid oes yn rhaid ichi roi ateb maith a hirwyntog.

John Griffiths: Ceisiaf fod yn gryno pan fo hynny'n bosibl, Nick. Yr wyf wrthi'n cynnal adolygiad o'n prosesau deddfwriaethol ar hyn o bryd, a cheir llawer o agweddau i hynny. Mae a wnelo rhai o'r agweddau â'r gost a'r amser a gaiff eu datblygu ar brosesau sy'n gysylltiedig â Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol a Mesurau. Felly, tynnir sylw at y materion hynny a'r materion y cyfeiriwch atynt yn ystod ymgyrch y refferendwm, a gobeithiaf y gall fy adolygiad chwarae rhan bwysig yn hynny o beth.

The Presiding Officer: I thank the Counsel General for his succinct answers.

Budget

Q1 Gareth Jones: What assessment has the Minister made of the impact of a substantial in-year cut in his department's budget on his aspirations for greater social justice? OAQ(3)1271(SJL)

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl

other Ministers, I am currently reviewing options in light of last week's budget. The Minister for Business and Budget will be making an announcement about the approach to managing these cuts before summer recess.

Gareth Jones: A fyddech yn cytuno â mi bod y tynhau ar fudd-daliadau a gyhoeddwyd yng nghyllideb y Canghellor yr wythnos diwethaf yn gyfystyr ag ymosodiad wedi'i dargedu'n uniongyrchol at y bobl dlotaf a mwyaf bregus yng Nghymru? Mae hwn yn ymosodiad diangen ac eto'n un sy'n cael ei gyflawni'n fwiadol a sinigaidd gan y pleidiau gyferbyn. Yn wyneb y tebygrwydd o gyhoeddiadau pellach o ragor o doriadau anferth i grant bloc Cymru yn yr hydref, pa asesiad ydych chi'n gallu ei wneud o'r effaith ar lefelau tlodi tanwydd a thlodi plant yng Nghymru?

Carl Sargeant: Thank you, Gareth, for your detailed question. As has been highlighted across the media by many professionals, what is particularly evident in this budget is that it will hit hard the most vulnerable in our communities, but will have less of an impact on the richest in society. This is of concern to me and I know that you share those concerns. In particular, the increase in value added tax to 20 per cent, the two-year public sector pay freeze, and the freezing of child benefit for three years will have a direct impact on the constituents that we represent across the whole of Wales.

Jonathan Morgan: Minister, with no mention of the development of volunteering or future engagement with the third sector in the manifesto on which the First Minister ran his leadership campaign, does this mean that the Assembly Government has no plans at all on how it will harness the use of the voluntary sector to help deliver public services and help provide new development opportunities for young people? With the Assembly Government charged with responsibility for volunteering in Wales, what plans has he to work closer with the sector to ensure that flexible and innovative

Sargeant): Yr wyf finnau, ynghyd â Gweinidogion eraill, wrthi ar hyn o bryd yn adolygu'r opsiynau yng ngoleuni cyllideb yr wythnos diwethaf. Bydd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn gwneud cyhoeddiad cyn toriad yr haf ynghylch sut y bwriedir rheoli'r toriadau hyn.

Gareth Jones: Would you agree with me that the tightening of benefit payments that were announced in the Chancellor's budget last week amount to a direct attack targeted at the poorest and most vulnerable people in Wales? This is an unnecessary attack and yet one that is being carried out deliberately and cynically by the parties opposite. Given the likelihood of further announcements of further massive cuts to the Welsh block grant in the autumn, what assessment can you make of the impact on fuel poverty levels and child poverty in Wales?

Carl Sargeant: Diolch, Gareth, am eich cwestiwn manwl. Fel y mae llawer o weithwyr proffesiynol wedi pwysleisio ar draws y cyfryngau, yr hyn sy'n arbennig o amlwg yn y gyllideb hon yw'r ffaith y bydd yn peri i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ddioddef waethaf, ac y bydd yn cael llai o effaith ar y bobl gyfoethocaf yn y gymdeithas. Mae hynny'n peri pryder i mi, a gwn eich bod chithau hefyd yn pryderu am hynny. Yn benodol, bydd y ffaith bod treth ar werth yn codi i 20 y cant, bod cyflogau yn y sector cyhoeddus yn cael eu rhewi am ddwy flynedd, a bod budd-daliadau plant yn cael eu rhewi am dair blynedd yn cael effaith uniongyrchol ar yr etholwyr yr ydym yn eu cynrychioli ar draws Cymru gyfan.

Jonathan Morgan: Weinidog, gan nad oedd sôn ym manifesto'r Prif Weinidog, yn ei ymgyrch ar gyfer yr arweinyddiaeth, am ddatblygu gwirfoddoli neu ymgysylltu â'r trydydd sector yn y dyfodol, a yw hynny'n golygu nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad gynlluniau o gwbl ar gyfer sut y bydd yn defnyddio'r sector gwirfoddol i helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a helpu i ddarparu cyfleoedd newydd o ran datblygiad i bobl ifanc? Gan mai Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am faterion gwirfoddoli yng Nghymru, pa gynlluniau sydd ganddo i weithio'n agosach gyda'r

solutions are not lost in the process of rebalancing the public sector debt problem?

Carl Sargeant: The third sector falls within my portfolio. I have had many meetings with the third sector to discuss the important impact that volunteers across Wales and the UK have on service delivery. We have modified the way that we fund the volunteering teams to ensure that we can better influence the support given to volunteers. I am indebted to the work that they do and it is something that will be even more important as the pressures of the financial climate are felt.

Brian Gibbons: Minister, you will be aware that a key element of your social justice delivery programme is improving benefit uptake, particularly for people with sickness and disability. Prior to the last election, Citizen's Advice reported that around 60 per cent of medical assessments under the employment and support allowance were unduly restrictive and that many of them were successful on appeal. However, we know that the UK Government is now proposing to take more than £1 billion out of incapacity benefit payments. Surely, on the basis of the evidence from Citizen's Advice, this is bound to lead to greater hardship for people with a disability in Wales, where, unfortunately, we have a higher proportion of people with disabilities than the rest of the United Kingdom.

Carl Sargeant: When there is a removal of benefits and increased pressure on the most vulnerable in society, there is a direct consequence that puts more pressure on advice agencies that provide services. I am already aware that Citizen's Advice, following the budget announcements of the last couple of months from the UK Government, has had significant cuts to its operating budgets. I am concerned about this. I have already met with Citizen's Advice and I intend to meet with it again soon to have further discussions on the impact of the UK budget on these organisations.

sector i sicrhau na chaiff atebion hyblyg ac arloesol eu colli wrth ailfantoli problem ddyled y sector cyhoeddus?

Carl Sargeant: Mae'r trydydd sector yn rhan o'm portffolio i. Yr wyf wedi cael llawer o gyfarfodydd gyda'r trydydd sector i drafod yr effaith bwysig a gaiff gwirfoddolwyr ar draws Cymru a'r DU ar ddarparu gwasanaethau. Yr ydym wedi addasu'r modd yr ydym yn ariannu'r timau gwirfoddoli er mwyn sicrhau y gallwn ddylanwadu'n well ar y cymorth a roddir i wirfoddolwyr. Yr wyf yn ddyledus i'r gwaith y maent yn ei wneud, ac mae'n rhywbeth a fydd yn bwysicach fyth wrth inni deimlo pwysau'r hinsawdd ariannol.

Brian Gibbons: Weinidog, gwyddoch mai un o brif elfennau eich rhaglen ar gyfer sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yw cynyddu'r niferoedd sy'n hawlio eu budd-daliadau, yn enwedig pobl sydd â salwch ac anabledd. Cyn yr etholiad diwethaf, nododd Cyngor ar Bopeth fod oddeutu 60 y cant o asesiadau meddygol dan y lwfans cyflogaeth a chymorth yn rhy gaeth, a bod llawer ohonynt yn llwyddiannus yn dilyn apêl. Fodd bynnag, gwyddom fod Llywodraeth y DU yn awr yn bwriadu cymryd dros £1 biliwn allan o fudd-daliadau analluogrwydd. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd gan Gyngor ar Bopeth, siawns na fydd hynny'n arwain at fwy o galedi i bobl sydd ag anabledd yng Nghymru, lle mae gennym, yn anffodus, gyfradd uwch o bobl ag anableddau na gweddill y Deyrnas Unedig.

Carl Sargeant: Pan gaiff budd-daliadau eu dileu, a phan roddir mwy o bwysau ar y bobl fwyaf bregus yn y gymdeithas, ceir canlyniad uniongyrchol sy'n rhoi mwy o bwysau ar asiantaethau cynghori sy'n darparu gwasanaethau. Yr wyf eisoes yn ymwybodol i Gyngor ar Bopeth ddiodeff toriadau sylweddol i'w gyllidebau gweithredu, yn dilyn y cyhoeddiadau a gafwyd yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf gan Lywodraeth y DU am y gyllideb. Yr wyf yn poeni am hynny. Yr wyf eisoes wedi cyfarfod â Chyngor ar Bopeth, a bwriadaf gyfarfod â'r sefydliad eto'n fuan i gael trafodaethau pellach ynglŷn ag effaith cyllideb y DU ar y sefydliadau hyn.

Sgowtiaid Cymru

C2 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi Sgowtiaid Cymru? OAQ(3)1273(SJL)

Carl Sargeant: The Welsh Assembly Government supports a range of youth services offering young people opportunities for personal development. Scouts Wales benefited from our national voluntary organisations grant and was awarded £66,000 this year. Scouting organisations can also apply to the 'One Wales' youth service fund, which is distributed via local authorities.

David Lloyd: Diolch am yr ateb, Weinidog. Yr ydych yn ymwybodol bod y sgowtiaid yn cyflawni gwaith aruthrol gyda phobl ifanc ac ystod eang o weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r agenda cynhwysiant cymdeithasol yng Nghymru. Byddwch hefyd yn ymwybodol bod nifer y sgowtiaid wedi cynyddu'n rhyfeddol yn y blynyddoedd diweddar yng Nghymru. O gofio hynny, pa drafodaethau a ydych yn eu cynnal fel Llywodraeth gyda'r sgowtiaid i hyrwyddo'u gwaith ymhellach yng Nghymru?

Carl Sargeant: As Baden-Powell said, without adventure life would be deadly dull. We all understand that view, along with scouts here in Wales and across the world. The question is linked to a point raised by Jonathan Morgan regarding volunteering. There is a growth in the number of scouts taking part in activities across Wales, but there is a difficulty in attracting leaders to support the scouting movement. That is why the Assembly Government is keen that they are in receipt of grant aid from the Assembly Government's national voluntary organisations grant, which comes through via local authorities. It is the European Year of Volunteering in 2011, which the Welsh Assembly Government supports. I hope that the scouting movement will make full use of our four grant schemes, totalling over £4 million, to promote volunteering and to help them achieve good support for the movement across Wales.

Scouts Wales

Q2 David Lloyd: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to support Scouts Wales? OAQ(3)1273(SJL)

Carl Sargeant: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi ystod o wasanaethau ieuencid sy'n cynnig cyfleoedd o ran datblygiad personol i bobl ifanc. Bu i Sgowtiaid Cymru elwa o'n grant i fudiadau gwirfoddol cenedlaethol, a chafodd £66,000 eleni. Gall sefydliadau sgowtiaid hefyd gyflwyno cais i gronfa gwasanaethau ieuencid 'Cymru'n Un', y caiff arian ohoni ei ddosbarthu drwy law awdurdodau lleol.

David Lloyd: Thank you for the answer, Minister. You will be aware that the scouts undertake great work with young people, including a wide range of activities associated with the social inclusion agenda in Wales. You will also be aware that scout numbers have increased dramatically in recent years in Wales. Bearing that in mind, what discussions are you, as a Government, conducting with the scouts to further promote their work in Wales?

Carl Sargeant: Fel y dywedodd Baden-Powell, heb antur byddai bywyd yn ofnadwy o ddiflas. Mae pob un ohonom yn deall y safbwynt hwnnw, ac mae sgowtiaid yma yng Nghymru ac ar draws y byd yn ei ddeall hefyd. Mae'r cwestiwn yn gysylltiedig â phwynt a godwyd gan Jonathan Morgan ynghylch gwirfoddoli. Ceir twf yn nifer y sgowtiaid sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ar draws Cymru, ond mae'n anodd denu arweinwyr i gefnogi mudiad y sgowtiaid. Dyna pam mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i'r mudiad gael cymorth gan grant Llywodraeth y Cynulliad i fudiadau gwirfoddol cenedlaethol, a ddaw drwy law awdurdodau lleol. Bydd 2011 yn Flwyddyn Ewropeaidd Gwirfoddoli, ac mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi hynny. Gobeithiaf y bydd mudiad y sgowtiaid yn defnyddio'n llawn ein pedwar cynllun grant, sy'n cynnig cyfanswm o dros £4 miliwn, i hybu gwirfoddoli a'i helpu i sicrhau cefnogaeth dda i'r mudiad ar draws Cymru.

Mohammad Asghar: I recently spoke with a representative from the Muslim Scout Fellowship who highlighted that there has been a significant increase in recent years in the number of Muslim children participating in the scout movement. There is, for example, an active scout group in Cardiff catering for young Muslim children, while across the UK more children from ethnic minorities are joining the movement. However, considerable work remains to be done in encouraging young people from all ethnic backgrounds to join groups like Scouts Wales. What role does the Minister believe that the Welsh Assembly Government can play in encouraging young people and, considering the shortage of volunteers in the scout movement, adults from the ethnic minority community to join groups like Scouts Wales, given the role that this can play in aiding personal development with respect and discipline and promoting social integration?

Carl Sargeant: It is important to recognise that the scouts are doing a lot of work with regard to community cohesion and bringing all walks of life into the scouting movement. The programme is delivered within five age groups across the scouting movement, which are called sections. In 1976, girls aged 14 or over were welcomed into the senior section and, since 1981, girls have been able to join at all levels of the scouting movement. We must encourage the scouting movement to have a broad base of membership, and I believe that it is doing some good work around that, which I will be keen to support in future.

Cymunedau yn Gyntaf

C3 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni Cymunedau yn Gyntaf yn y gorllewin? OAQ(3)1272(SJL)

Carl Sargeant: Communities First remains fundamental to the vision of building a better Wales with local partnerships working closely with service deliverers and other partners to regenerate their communities. I have commissioned an independent evaluation of the Communities First

Mohammad Asghar: Siaredais â chynrychiolydd y Gymdeithas Sgowtiaid Moslemaidd yn ddiweddar, a dynnodd sylw at y ffaith i nifer y plant Moslemaidd sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau mudiad y sgowtiaid gynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, ceir grŵp sgowtiaid gweithgar yng Nghaerdydd, sy'n darparu ar gyfer plant ifanc Moslemaidd, ac mae mwy o blant o leiafrifoedd ethnig ar draws y DU yn ymuno â'r mudiad. Fodd bynnag, mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd o ran annog pobl ifanc o bob cefndir ethnig i ymuno â grwpiau megis Sgowtiaid Cymru. Pa rôl y mae'r Gweinidog yn credu y gall Llywodraeth y Cynulliad ei chwarae o ran annog pobl ifanc ac, o ystyried y prinder gwirfoddolwyr ym mudiad y sgowtiaid, annog oedolion hefyd o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig i ymuno â grwpiau megis Sgowtiaid Cymru, o gofio'r rôl y gall y mudiad ei chwarae o ran hybu datblygiad personol drwy barch a disgyblaeth, a hybu integreiddio cymdeithasol?

Carl Sargeant: Mae'n bwysig cydnabod bod y sgowtiaid yn gwneud llawer o waith o safbwynt datblygu cydlyniant cymunedol a denu pobl o bob cefndir i fudiad y sgowtiaid. Caiff y rhaglen ei darparu mewn pum grŵp oedran ar draws mudiad y sgowtiaid, a elwir yn adrannau. Yn 1976, croesawyd merched 14 oed neu hŷn i'r adran hŷn ac, er 1981, mae merched wedi gallu ymuno â mudiad y sgowtiaid ar bob lefel. Rhaid inni annog mudiad y sgowtiaid i gael aelodaeth eang, a chredaf ei fod yn gwneud rhywfaint o waith da ynghylch hynny, y byddaf yn awyddus i'w gefnogi yn y dyfodol.

Communities First

Q3 Rhodri Glyn Thomas: Will the Minister make a statement on Communities First programmes in west Wales? OAQ(3)1272(SJL)

Carl Sargeant: Mae Cymunedau yn Gyntaf yn parhau'n hanfodol i'r weledigaeth o adeiladu Cymru well, gyda phartneriaethau lleol yn gweithio'n agos gyda darparwyr gwasanaethau a phartneriaid eraill i adfywio'u cymunedau. Yr wyf wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o raglen

programme, and this report is expected to be published in spring 2011.

Rhodri Glyn Thomas: Fel y bydd y Gweinidog yn gwybod, mae'r cynllun a oedd yn gwasanaethu rhan uchaf dyffryn Aman bellach wedi'i ddileu ac wedi'i ymgorffori yn y cynlluniau ar gyfer y de-orllewin yn ei gyfanrwydd. Ysgrifennais at y Gweinidog ar y pryd i'w annog i sicrhau bod yr arian a glustnodwyd ar gyfer rhan uchaf dyffryn Aman yn cael ei ddiogelu.

1.50 p.m.

Ysgrifennodd y Gweinidog yn ôl ataf yn syth a dweud y byddai'n edrych ar y sefyllfa a cheisio gweld beth y gellid ei ddiogelu o'r arian a oedd wedi'i glustnodi. A allwch roi diweddariad i ni ar y sefyllfa? Gobeithiaf y gallwch roi sicrwydd i mi fod yr arian ar gyfer Brynaman a'r ardal honno wedi'i ddiogelu.

Carl Sargeant: I will give you an assurance that I will write to you with the detail relevant to the upper Amman valley cross-border area. On the broader principle of Communities First, it is important that we recognise the reasons why we are there in the first place. My commitment is to find new opportunities to engage our communities to change, and to bring them through a process that will economically stimulate the area and community relationships. I am very keen on the work that my colleague Huw Lewis is doing on wraparound family services and the child poverty agenda and, for areas where there are gaps in the Communities First programme, that will help. I have already opened discussions with the Deputy Minister for Children on how we can move this agenda forward. I see the upper Amman valley as a key to this programme, enabling us to look at a new style of Communities First and do some more trials. I would be happy to have further discussions with you.

Angela Burns: In your reply to Rhodri Glyn Thomas, you mentioned that one of the key

Cymunedau yn Gyntaf, ac mae disgwyl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2011.

Rhodri Glyn Thomas: As the Minister will know, the scheme that served the upper Amman valley has been eradicated and incorporated into the schemes for south-west Wales in its entirety. I wrote to the Minister at the time to encourage him to ensure that the money for the upper Amman valley would be safeguarded.

The Minister replied immediately to say that he would look at the situation to see what could be safeguarded from the funding allocated. Could you give us an update on the situation? I hope that you can give me an assurance that the funding for Brynamman and the wider area has been safeguarded.

Carl Sargeant: Hoffwn eich sicrhau y byddaf yn ysgrifennu atoch gyda'r manylion sy'n berthnasol i ardal drawsffiniol rhan uchaf dyffryn Aman. O ran egwyddor ehangach Cymunedau yn Gyntaf, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y rhesymau pam yr ydym yno yn y lle cyntaf. Yr wyf wedi ymrwymo i ddod o hyd i gyfleoedd newydd i ymgysylltu â'n cymunedau er mwyn newid, a dod â hwy drwy broses a fydd yn sbarduno'r ardal yn economaidd ac yn sbarduno cydberthnasau cymunedol. Yr wyf yn frwd iawn ynghylch y gwaith y mae fy nghydweithiwr Huw Lewis yn ei wneud ar yr agenda tlodi plant a gwasanaethau sydd wedi'u teilwra'n arbennig i deuluoedd, a fydd o gymorth i ardaloedd lle ceir bylchau yn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Yr wyf eisoes wedi dechrau cynnal trafodaethau â'r Dirprwy Weinidog dros Blant ynghylch sut y gallwn symud yr agenda hon yn ei blaen. Yr wyf yn ystyried rhan uchaf dyffryn Aman yn allweddol i'r rhaglen hon, gan ei bod yn ein galluogi i edrych ar fath arall o raglen Cymunedau yn Gyntaf, a threialu ychydig yn rhagor o waith. Byddwn yn barod i drafod ymhellach â chi.

Angela Burns: Yn eich ymateb i Rhodri Glyn Thomas, yr oeddech yn sôn mai un o

objectives of the Communities First programme was to engage with the local community. I am sure that you will recall that, during the debate on the report of the Public Accounts Committee on Communities First, I made the suggestion that we might consider bringing together best practice and rolling that out, and you replied saying that you already did that, and that partnerships were able to access best practice, especially through a training scheme. I met one of my Communities First groups just a couple of weeks ago and the issue appears to be that if the public element of the Communities First group is not happy with the way that the partnership is working, and is finding it difficult to interface, it struggles to access best practice in order to understand how it can raise its game to try to engage better with the partnership. You have this mismatch. I wondered if you have any views on how I might be able to get those people to understand how the successful Communities First programmes around Wales work, so that they can bring their partnership on board, so that it starts to deliver not what the partnership thinks that they want, but what they really want.

Carl Sargeant: The process of dealing with Communities First is difficult. This is a broad range of communities, with 157 partnerships across Wales, and it is difficult to understand local need, and what suits one area may not suit another. There is a lot of good practice around. If it would be helpful, you could write to me on the specifics of the partnership that you are talking about, and I would be happy for my officials to have a discussion with it on how it can access best practice across Wales. That is not to be negative; we have to support and promote partnerships that are struggling. Sometimes it comes down to difficulties with communication links. I would be happy to engage with them.

Alun Davies: Minister, you are aware of the excellent work of Communities First partnerships up and down Wales, and I could quote a number of examples of how they have changed people's lives. On Monday, I was invited to an event where a Communities First partnership was able to bring together a

brif amcanion y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf oedd ymgysylltu â'r gymuned leol. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cofio imi awgrymu, yn ystod y ddatl ynghylch adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gymunedau yn Gyntaf, y gallem ystyried crynhoi arfer gorau a'i ledaenu, ac atebasoch gan ddweud eich bod yn gwneud hynny eisoes, a bod partneriaethau'n gallu cael mynediad i arfer gorau, yn enwedig drwy gynllun hyfforddi. Cwrddais ag un o'm grwpiau Cymunedau yn Gyntaf rai wythnosau'n ôl, ac ymddengys mai'r broblem yw, os nad yw elfen gyhoeddus y grŵp Cymunedau yn Gyntaf yn fodlon â'r modd y mae'r bartneriaeth yn gweithio, ac os yw'n ei chael yn anodd rhyngweithio, mae'n anodd iddo gael mynediad i arfer gorau er mwyn deall sut y gall wella i geisio ymgysylltu'n well â'r bartneriaeth. Ceir anghydnawsedd. Yr oeddwn yn meddwl tybed a oedd gennych farn ynghylch sut y gallwn gael y bobl hynny i ddeall sut mae'r rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf llwyddiannus yng Nghymru yn gweithio, fel y gallant gynnwys eu partneriaeth er mwyn iddi ddechrau darparu'r hyn y mae'r bobl am ei gael yn hytrach na'r hyn y mae'r bartneriaeth yn meddwl y maent am ei gael.

Carl Sargeant: Mae ymdrin â Chymunedau yn Gyntaf yn broses anodd. Ceir ystod eang o gymunedau, gyda 157 o bartneriaethau ar draws Cymru. Mae'n anodd deall yr angen yn lleol, a gall yr hyn sy'n addas mewn un ardal fod yn anaddas mewn ardal arall. Ceir llawer o arfer da. Pe bai'n ddefnyddiol, gallech ysgrifennu ataf gan nodi manylion y bartneriaeth yr ydych yn sôn amdani, a byddwn yn fodlon i'm swyddogion fynd at y bartneriaeth i drafod sut y gall gael mynediad i arfer gorau ar draws Cymru. Nid wyf yn ceisio bod yn negyddol; rhaid inni gefnogi a hybu partneriaethau sy'n ei chael yn anodd. Weithiau, y rheswm am hynny yw trafferthion gyda chysylltiadau cyfathrebu. Byddwn yn falch o ymgysylltu â hwy.

Alun Davies: Weinidog, gwyddoch am y gwaith ardderchog y mae partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn ei wneud ar hyd a lled Cymru, a gallwn ddyfynnu sawl enghraifft o sut y maent wedi newid bywydau pobl. Ddydd Llun, fe'm gwahoddiwyd i ddigwyddiad lle'r oedd partneriaeth

number of different organisations to remember a tragedy in the community, creating a memorial to the Six Bells mining disaster. Will you join me in congratulating that Communities First partnership on its work?

Carl Sargeant: You are quite right that across the Communities First family there are some fine examples of work going on in our communities. This week, we saw evidence of that at Six Bells, with the commemoration of the fiftieth anniversary of the colliery disaster, and the unveiling of the 20m Guardian statue on Monday. I would like to place on record my thanks to Mair Sheen of the Communities First partnership in that area, who brought this programme together. It is recognised as being a result for the support and commitment to the project shown by the friends and family of the victims. I would like to place on record the Welsh Assembly Government's position, in that it respects and supports the families and friends of those who were involved in the Six Bells colliery disaster.

Local Authority Outcome Agreements

Q4 Brian Gibbons: Will the Minister make a statement on local authority outcome agreements? OAQ(3)1262(SJL)

Carl Sargeant: I issued the outcome agreement prospectus to local authorities on 31 March 2010. My officials have met, or have arranged to meet, every local authority to discuss and support the development of individual agreements. To date, we have received three complete draft agreements.

Brian Gibbons: Thank you for that answer, Minister; that progress is very welcome. Would you agree that a key objective of outcome agreements is to deliver better alignment between the Welsh Assembly Government's national priorities and local authorities' priorities, and to do so in a way that will deliver better value and better outcomes for citizens? Do you agree that this approach is entirely consistent with the important statement that the Minister made

Cymunedau yn Gyntaf yn gallu dod â llawer o wahanol fudiadau ynghyd i gofio trasiedi yn y gymuned, a chreu cofeb i goffáu'r drychineb ym mhwill glo Six Bells. A wnewch ymuno â mi i longyfarch y bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf honno ar ei gwaith?

Carl Sargeant: Yr ydych yn hollol iawn wrth ddweud y ceir rhai enghreifftiau o waith gwych sy'n digwydd yn ein cymunedau, ar draws y teulu o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Yr wythnos hon, gwelsom dystiolaeth o hynny yn Six Bells, wrth i'r gymuned goffáu hanner can mlynedd ers trychineb y pwll glo a dadorchuddio cerflun 20m o uchder, sef y Gwarcheidwad, ddydd Llun. Hoffwn gofnodi'n swyddogol fy niolch i Mair Sheen o'r bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardal honno, a luniodd y rhaglen hon. Cydnabyddir bod y rhaglen yn ganlyniad i gymorth ac ymrwymiad ffrindiau a theuluoedd y dioddefwyr. Hoffwn gofnodi safbwynt Llywodraeth y Cynulliad yn swyddogol, drwy ddweud ei bod yn parchu ac yn cefnogi teuluoedd a ffrindiau'r sawl a oedd yn rhan o drychineb pwll glo Six Bells.

Cytundebau Canlyniadau Awdurdodau Lleol

C4 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gytundebau canlyniadau awdurdodau lleol? OAQ(3)1262(SJL)

Carl Sargeant: Dosberthais brosbectws y cytundebau canlyniadau i awdurdodau lleol ar 31 Mawrth 2010. Mae fy swyddogion wedi cyfarfod â phob awdurdod lleol, neu maent wedi trefnu eu cyfarfod, i drafod a chefnogi gwaith datblygu cytundebau unigol. Hyd yn hyn, mae tri chytundeb drafft cyflawn wedi dod i law.

Brian Gibbons: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog; mae'r cynnydd hwnnw i'w groesawu'n fawr iawn. A fydddech yn cytuno mai un o brif amcanion y cytundebau canlyniadau yw sicrhau bod blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth y Cynulliad a blaenoriaethau awdurdodau lleol yn cyd-fynd â'i gilydd yn well, a gwneud hynny mewn modd a fydd yn sicrhau gwell gwerth a gwell canlyniadau i ddinasyddion? A ydych yn cytuno bod y dull gweithredu hwn yn gwbl

yesterday on the efficiency and improvement board, which will ensure better value for service users in Wales?

Carl Sargeant: I pay tribute to you, Brian, because it was you who introduced the outcome agreements, and we are driving that agenda forward. Change is not an easy process, and the important issue for me and my colleagues is that this is about being citizen-centred and ensuring that we drive improvement forward. The outcome agreements capture local authorities so that, in collaboration with us, they will agree voluntary and non-statutory objectives for driving improvement forward. That has to be the best way of taking this forward in terms of achieving outcomes for the citizens who we represent. There have been accusations that I have tightened up the scoring system and that I am setting authorities difficult challenges in a way that sets them up to fail. Let me be clear in saying that that is not the case at all; the outcome agreements are set by local authorities to drive improvement through. I will do everything that I can to support them in ensuring that they achieve the outcome, which is not for me or them, but for the citizen, who is the focus of this.

Darren Millar: As you know, the Conservative Party has always supported outcome agreements, and we believe that they are a key tool in driving forward improvements in the performance of local authorities across Wales. However, when you set outcome agreements, they should allow local authorities the discretion to determine how they will meet the objectives and how they will spend their local resources to do that. Your Government ring-fences around £600 million-worth of spending in local authorities across Wales every year. Do you think that, in return for the outcome agreements that you are getting from local authorities, you ought to reduce the proportion of their budgets that is hypothecated, so that they can meet the needs of local people according to their local priorities, in a way that does not necessarily mean that they spend the money as you have dictated?

gyson â'r datganiad pwysig a wnaed gan y Gweinidog ddoe ynghylch y bwrdd effeithlonrwydd a gwella, a fydd yn sicrhau gwell gwerth i ddefnyddwyr gwasanaethau yng Nghymru?

Carl Sargeant: Hoffwn dalu teyrnged ichi, Brian, oherwydd chi a gyflwynodd y cytundebau canlyniadau, ac yr ydym yn gyrru'r agenda honno yn ei blaen. Nid yw newid yn broses hawdd, a'r mater pwysig i mi a'm swyddogion yw bod a wnelo hyn â chanolbwyntio ar y dinesydd, a sicrhau ein bod yn hybu gwelliannau. Mae'r cytundebau canlyniadau'n mynnu bod awdurdodau lleol, mewn cydweithrediad â ni, yn cytuno ar amcanion gwirfoddol ac anstatudol ar gyfer hybu gwelliannau. Rhaid mai dyma'r ffordd orau o symud y mater hwn yn ei flaen o safbwynt sicrhau canlyniadau ar gyfer y dinasyddion yr ydym yn eu cynrychioli. Yr wyf wedi cael fy nghyhuddo o dynhau'r system sgorio, ac o osod heriau anodd i awdurdodau mewn modd sy'n golygu eu bod yn siŵr o fethu. Gadewch imi egluro nad dyna'r sefyllfa o gwbl; caiff y cytundebau canlyniadau eu llunio gan awdurdodau lleol i hybu gwelliannau. Byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i'w cefnogi i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniad, nad yw er fy mwyn i nac er eu mwyn hwy, ond er mwyn y dinesydd, sef canolbwynt y cyfan.

Darren Millar: Fel y gwyddoch, mae'r Blaid Geidwadol bob amser wedi cefnogi cytundebau canlyniadau, a chredwn eu bod yn adnodd allweddol o ran hybu gwelliannau ym mherfformiad awdurdodau lleol ar draws Cymru. Fodd bynnag, pan fyddwch yn llunio cytundebau canlyniadau, dylent roi'r rhyddid i awdurdodau lleol benderfynu sut y byddant yn bodloni'r amcanion, a sut y byddant yn defnyddio eu hadnoddau lleol i wneud hynny. Mae eich Llywodraeth yn neilltuo gwerth oddeutu £600 miliwn o wariant mewn awdurdodau lleol ar draws Cymru bob blwyddyn. A ydych yn credu y dylech leihau'r gyfran a neilltuir o'u cyllidebau, yn gyfnewid am y cytundebau canlyniadau yr ydych yn eu cael gan awdurdodau lleol, fel y gallant ddiwallu anghenion pobl leol yn ôl eu blaenoriaethau lleol, mewn modd nad yw o reidrwydd yn golygu eu bod yn gwario'r arian fel yr ydych chi wedi gorchymyn?

Carl Sargeant: You are slightly behind our operations in this respect. I am saying that when it is proven to me that local authorities are, and will be, delivering on the outcome agreements, I will relax some of the ruling behind them. That is the right way to go. I believe that local authorities should be given that credibility, once they have proven that they can deliver, when they will be given some leeway.

We are doing an awful lot to reduce the hypothecation of funding in relation to specific grants, and we have moved significantly to reduce that. There is a long way to go; I acknowledge that. However, it is a question of having a partnership between us and the local authorities, and having a grown-up discussion about how we can drive improvement forward, with the citizen being the primary focus.

Darren Millar: You have finally caught up with our party in respect of hypothecation, Minister, because we know that £60 million-worth of taxpayers' money is wasted as a result of bureaucracy each year. Do you agree that a great way for local citizens to get involved in local democracy is to have the outcome agreements published online, and, in addition, to have the expenditure of local authorities published online, so that we can adopt the same sort of approach that the new UK coalition Government has adopted for England by requiring every local authority across the country to publish information on expenditure above £500? Do you welcome the fact that the Vale of Glamorgan Council will be doing that from September and taking a lead in Wales?

2.00 p.m.

Carl Sargeant: No. I do not agree with you.

Helen Mary Jones: I know that you and your ministerial colleagues will agree that a most serious area in which there is a gap between national policy and aspiration in Wales and delivery by some local authorities

Carl Sargeant: Yr ydych ychydig ar ei hôl hi o ran ein gwaith yn y maes hwn. Yr hyn a ddywedaf yw y byddaf yn llacio rhai o'r rheolau sydd y tu ôl i'r cytundebau canlyniadau pan brofir imi bod, ac y bydd, awdurdodau lleol yn cyflawni'r cytundebau hynny. Dyna'r ffordd orau o weithredu. Yn fy marn i, dylai awdurdodau lleol gael yr hygydedd hwnnw, pan fyddant wedi profi y gallant gyflawni'r cytundebau, pan fyddant yn cael rhywfaint o ryddid.

Yr ydym yn gwneud llawer iawn i leihau'r modd y caiff cyllid ei neilltuo yng nghyswllt grantiau penodol, ac yr ydym wedi cymryd camau sylweddol i leihau hynny. Mae ffordd hir i fynd; yr wyf yn cydnabod hynny. Fodd bynnag, mae'n fater o gael partneriaeth rhyngom ni a'r awdurdodau lleol, a chael trafodaeth gall ynghylch sut y gallwn hybu gwelliannau, gan sicrhau y canolbwyntir yn bennaf ar y dinesydd.

Darren Millar: O'r diwedd, yr ydych wedi cyrraedd yr un man â'n plaid ni o safbwynt neilltuo arian, Weinidog, oherwydd gwyddom y caiff gwerth £60 miliwn o arian y trethdalwyr ei wastraffu o ganlyniad i fiwrocratiaeth bob blwyddyn. A ydych yn cytuno bod cyhoeddi'r cytundebau canlyniadau ar-lein ac, yn ogystal â hynny, cyhoeddi gwariant awdurdodau lleol ar-lein, yn ffordd wych i ddinasyddion lleol gymryd rhan mewn democratiaeth leol, fel y gallwn fabwysiadu'r un math o ddull gweithredu ag y mae Llywodraeth glymbleidiol newydd y DU wedi'i fabwysiadu ar gyfer Lloegr, drwy fynnu bod pob awdurdod lleol ar hyd a lled y wlad yn cyhoeddi gwybodaeth am unrhyw wariant dros £500? A ydych yn croesawu'r ffaith y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn gwneud hynny o fis Medi, ac yn arwain yn y maes hwn yng Nghymru?

Carl Sargeant: Nac ydwyf. Nid wyf yn cytuno â chi.

Helen Mary Jones: Gwn y byddwch chi a'ch cyd-Weinidogion yn cytuno mai un maes difrifol iawn lle ceir bwlch rhwng polisi a dyhead cenedlaethol yng Nghymru a'r hyn a gyflawnir gan rai awdurdodau lleol yw'r

is that of information sharing, safeguarding children and the outcomes for looked-after children. Are these issues being raised with local authorities in the discussions that you and your officials have with them on the outcome agreements? Is there capacity within the outcome agreement framework to drive improvement in those areas, which I know are of concern to us all?

Carl Sargeant: You are absolutely right. First, outcome agreements are driven by local authorities, and our discussions with them are about developing an achievable target that drives improvements. There are clear issues about data sharing across departments and outside departments through the public sector, wholesale. These are issues that could be developed using an outcome agreement, should an authority wish to go down that road.

We all talk about reducing bureaucracy, but the issue that Darren raised, about publishing data about local authorities' spending above £500, would create bureaucracy. Local authorities are currently subject to the Freedom of Information Act 2000, which means that you can get hold of those data. You do not need to publish them on a website because if you publish a great deal of information it will just get lost in the ether and there will be information overload. Therefore, I welcome positive interventions that would drive improvements through, if, as with data sharing, they make a difference to the citizen, but not if they would introduce more bureaucracy, as would be the case if we had to publish information on the internet about every £500 a local authority spends. That information is already available through the freedom-of-information requests system, although I welcome your comments.

Transparency in Local Government

Q5 Peter Black: Will the Minister make a statement on transparency in local government? OAQ(3)1286(SJL)

maes sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth, diogelu plant a sicrhau canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. A yw'r materion hyn yn cael eu codi gydag awdurdodau lleol yn y trafodaethau yr ydych chi a'ch swyddogion yn eu cael gyda hwy ynghylch y cytundebau canlyniadau? A oes lle, yn y fframwaith cytundebau canlyniadau, i hybu gwelliannau yn y meysydd hynny, sydd, mi wn, yn peri pryder i bob un ohonom?

Carl Sargeant: Yr ydych yn hollol iawn. Yn gyntaf, caiff cytundebau canlyniadau eu hybu gan awdurdodau lleol, ac mae ein trafodaethau gyda hwy'n ymwneud â datblygu targed cyraeddadwy sy'n hybu gwelliannau. Ceir problemau amlwg o ran rhannu data ar draws adrannau a'r tu allan i adrannau drwy'r sector cyhoeddus, ar raddfa eang. Mae'r problemau hyn yn rhai y gellid eu datblygu drwy ddefnyddio cytundeb canlyniadau, pe bai awdurdod yn dymuno dilyn y trywydd hwnnw.

Mae pob un ohonom yn sôn am leihau biwrocratiaeth, ond byddai'r mater a gododd Darren, ynghylch cyhoeddi data am wariant awdurdodau lleol dros £500, yn creu biwrocratiaeth. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn rhwym wrth Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n golygu y gallwch gael gafael ar y data hynny. Nid oes angen eu cyhoeddi ar wefan, oherwydd o gyhoeddi llawer iawn o wybodaeth, bydd yn mynd ar goll ar donnau'r awyr a bydd gormod o wybodaeth ar gael. Felly, byddwn yn croesawu ymyriadau cadarnhaol a fyddai'n hybu gwelliannau pe baent, o safbwynt rhannu data, yn gwneud gwahaniaeth i'r dinesydd, ond ni fyddwn yn eu croesawu pe baent yn creu rhagor o fiwrocratiaeth, a fyddai'n digwydd pe bai'n rhaid inni gyhoeddi gwybodaeth ar y rhyngwyd am bob £500 y mae awdurdod lleol yn ei wario. Mae'r wybodaeth honno eisoes ar gael drwy'r system ceisiadau rhyddid gwybodaeth, er fy mod yn croesawu eich sylwadau.

Tryloywder mewn Llywodraeth Leol

C5 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dryloywder mewn llywodraeth leol? OAQ(3)1286(SJL)

Carl Sargeant: The Local Government Act 2000 introduced political structures that give the decision-making process in local authorities greater transparency. Authorities are also obliged to allow public access to meeting agendas and reports and to most meetings. Local authorities are subject to the Freedom of Information Act 2000.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. You have made great play in recent weeks of the collaboration agenda and of encouraging local authorities to work together to deliver services. However, you will also be aware that, despite that rhetoric, all local authorities still have individual targets that are set for them on their services, and those targets do not take account of delivering services in a regional way. Regional waste disposal is a good example of that. Can you explain how we can achieve a more transparent approach to this, given the disparity between the targets that local authorities are being asked to achieve and the agenda that you set for them?

Carl Sargeant: We are trying to move the agenda forward in a dynamic way. I have met with the 22 authorities across Wales and have said that we cannot continue to do business as we used to. Most people in the Chamber now recognise that need to change. Just because we have done something in one way for the past 10 years does not make it right. It may have been right for then, but that does not make it right for now. It is about developing new operational ways of working. I was on a visit this morning and I spoke to employees in a local authority department who told me that they could change how they operate on a regional basis. I welcome those discussions. If what is tying their hands from working on a regional basis is the way in which a target is measured, I will be happy to have a discussion about how we can change that or alter the functions that prevent progress. If I can intervene in that respect, I will.

Carl Sargeant: Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 ststrwythuraurwythurau gwleidyddol sy'n rhoi mwy o dryloywder i'r broses o wneud penderfyniadau mewn awdurdodau lleol. Mae'n orfodol hefyd i awdurdodau ganiatáu i'r cyhoedd weld agendâu cyfarfodydd ac adroddiadau, a chael cyfle i fynychu'r rhan fwyaf o gyfarfodydd. Mae awdurdodau lleol yn rhwym wrth Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, yr ydych wedi rhoi pwys mawr ar yr agenda gydweithio ac ar annog awdurdodau lleol i weithio gyda'i gilydd i ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol hefyd, er gwaetha'r rhethreg, bod gan bob awdurdod lleol dargedau unigol i'w cyrraedd o hyd, a osodir ar eu cyfer ar sail eu gwasanaethau, ac nid yw'r targedau hynny'n ystyried gwaith darparu gwasanaethau mewn modd rhanbarthol. Mae gwaredu gwastraff yn rhanbarthol yn enghraifft dda o hynny. A allwch esbonio sut y gallwn gael dull mwy tryloyw o weithredu yn y cyswllt hwn, o gofio'r gwahaniaeth rhwng y targedau y mae gofyn i awdurdodau lleol eu cyflawni, a'r agenda yr ydych yn ei gosod ar eu cyfer?

Carl Sargeant: Yr ydym yn ceisio symud yr agenda yn ei blaen mewn modd dynamig. Yr wyf wedi cyfarfod â'r 22 awdurdod ar draws Cymru, ac wedi dweud na allwn barhau i weithredu fel yr arferem. Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o bobl yn y Siambr yn cydnabod yr angen hwnnw i newid. Nid yw'r ffaith inni wneud rhywbeth mewn un ffordd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf yn golygu mai dyna'r ffordd iawn. Efallai iddi fod yn iawn ar gyfer yr adeg dan sylw, ond nid yw'n golygu ei bod yn iawn ar gyfer heddiw. Mae'n ymwneud â datblygu dulliau gweithredol newydd o weithio. Yr oeddwn ar ymweliad y bore yma, a siaredais â gweithwyr mewn adran awdurdod lleol a ddywedodd wrthyf y gallent newid y modd y maent yn gweithredu'n rhanbarthol. Croesawaf y trafodaethau hynny. Os yr hyn sy'n eu rhwystro rhag gweithio'n rhanbarthol yw'r modd y caiff targed ei fesur, byddwn yn falch o drafod sut y gallwn newid hynny neu newid y swyddogaethau sy'n atal cynnydd. Os gallaf ymyrryd yn hynny o beth, dyna a wnaaf.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister, which is helpful. All local authorities would welcome a commitment to look at the targets and measures for which they are accountable, not because they want them relaxed, but because we need to take account of this new agenda. As part of that agenda, and given the need to collaborate across sectors, will you also liaise with Ministers in your Government on higher education and health to deliver that cross-sectoral working and to ensure that the Government's targets and measurements are not tying down proper collaboration across the public sector?

Carl Sargeant: I will make two points, if I may. I do not accept that local government is overregulated on the basis that it does not want to change. If there is a willingness to change, I will look at the regulation end of things.

On working across departments in the Welsh Assembly Government, as you will be aware, the Minister for Business and Budget chairs the efficiency and innovation board, which brings a host of representation from the public sector and the Welsh Assembly Government together to drive through some of these exciting new proposals.

Behind all of this is the willingness to change. If there is the will, people will change, but we can always put up barriers, regulation sometimes being used as an excuse for not changing. If there is a genuine barrier, however, I would be happy to listen.

Joyce Watson: Minister, transparency in local government is often compromised, despite the Local Government Act 2000 setting up new political structures. The Act clearly advised councils to share out the chairing roles for committees, and scrutiny committees in particular. However, I believe that the chairship of scrutiny committees really needs to be addressed. Minister, will you look at the situation that exists throughout Wales, but particularly in Pembrokeshire County Council, where all the chairs of the scrutiny committees are held by

Peter Black: Diolch am yr ateb defnyddiol hwnnw, Weinidog. Byddai pob awdurdod lleol yn croesawu ymrwymiad i edrych ar y targedau a'r mesurau y maent yn atebol amdanynt, nid oherwydd eu bod am iddynt gael eu llacio, ond oherwydd bod angen inni ystyried yr agenda newydd hon. Yn rhan o'r agenda newydd, ac o gofio'r angen i gydweithio ar draws sectorau, a wnewch chi hefyd drafod â'r Gweinidogion hynny yn eich Llywodraeth sy'n gyfrifol am addysg uwch ac iechyd, er mwyn gweithio yn y modd hwnnw ar draws sectorau, a sicrhau nad yw targedau a mesurau'r Llywodraeth yn rhwystro cydweithio priodol ar draws y sector cyhoeddus?

Carl Sargeant: Yr wyf am wneud dau bwynt, os caf. Ni dderbyniaf fod llywodraeth leol yn cael ei gor-reoleiddio ar y sail nad yw am newid. Os ceir parodrwydd i newid, ystyriaif y gweithdrefnau rheoleiddio.

O ran gweithio ar draws adrannau yn Llywodraeth y Cynulliad, fel y gwyddoch, mae'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn cadeirio'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, sy'n dod â llu o gynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus a Llywodraeth y Cynulliad ynghyd i hybu rhai o'r cynigion newydd cyffrous hyn.

Mae'r parodrwydd i newid yn sail i hynny i gyd. Os ceir ewyllys i newid, bydd pobl yn barod i newid, ond gallwn bob amser adeiladu rhwystrau, gyda rheoleiddio'n cael ei ddefnyddio weithiau fel esgus i beidio â newid. Os ceir rhwystr gwirioneddol, fodd bynnag, byddwn yn ddigon bodlon gwrando.

Joyce Watson: Weinidog, caiff tryloywder mewn llywodraeth leol ei beryglu'n aml, er gwaetha'r ffaith i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 greu strwythurau gwleidyddol newydd. Yr oedd y Ddeddf yn argymhell yn glir y dylai cynghorau rannu gwaith cadeirio pwyllgorau, yn enwedig pwyllgorau craffu. Fodd bynnag, mae gwir angen mynd i'r afael â'r modd y caiff pwyllgorau craffu eu cadeirio, yn fy marn i. Weinidog, a ystyriwch y sefyllfa a geir drwy Gymru, ond yn enwedig yng Nghyngor Sir Benfro, lle caiff pob pwyllgor craffu eu cadeirio gan aelodau'r grŵp sy'n

members of the ruling group, which means that it is not only setting the agenda, but self-scrutinising, too? I do not think that that arrangement will instil confidence in the public that real, meaningful and genuine scrutiny is taking place. I respectfully ask you, Minister, to look at that situation.

Carl Sargeant: I hope that local authorities would look at good practice and an example of good practice is ensuring a political balance. We are probably there or thereabouts in the Assembly, in that our primary scrutiny committees have to be chaired by opposition party Members, and rightly so. For example, the Chair of our audit committee is in the hands of the opposition, and rightly so. I hope that that practice can be spread across Wales. As you will be aware, I expect to introduce a proposal for a Measure later this year to look at local government structures such as committee chairs and scrutiny functions. This issue may well form a part of the considerations that I can take forward.

Nick Bourne: Good afternoon, Minister. I have written to you on this issue, but it may be that you have not yet received the correspondence. It relates to the Aberystwyth seafront. The county council proposes to take away a large chunk of it and devote it to be used as a parking area for motor cyclists. I do not have a problem with the motor cyclists; they currently have a perfectly fine parking area, which they like. The question for you is about transparency and whether it is good practice for a local authority to consult with the local people and with traders on the promenade in such circumstances. Are there statutory guidelines, or it is just a case of offending good practice not to consult local people on such a fundamental scheme? However, I appreciate that you may not have the detail in front of you.

Carl Sargeant: Thank you for your question, Nick. I do not recall having seen the correspondence, but it may be sitting on my desk. Returning to Joyce's question, this is about good practice and transparency on the part of councils, in that they should engage

llywodraethu, sy'n golygu bod y grŵp nid yn unig yn gosod yr agenda, ond yn craffu arno'i hun hefyd? Ni chredaf y bydd y trefniant hwnnw'n rhoi hyder i'r cyhoedd bod gwaith craffu go iawn, ystyriol a dilys yn digwydd. Gofynnaf yn barchus ichi ystyried y sefyllfa honno, Weinidog.

Carl Sargeant: Gobeithiaf y byddai awdurdodau lleol yn ystyried arfer da, ac un enghraifft o arfer da yw sicrhau cydbwysedd gwleidyddol. Yr ydym bron â chyrraedd y nod yn y Cynulliad, fwy na thebyg, gan fod yn rhaid i'n pwyllgorau craffu sylfaenol gael eu cadeirio gan Aelodau o'r gwrthbleidiau, ac mae hynny'n gwbl briodol. Er enghraifft, mae swydd Cadeirydd ein pwyllgor archwilio yn nwylo'r wrthblaid, ac mae hynny'n gwbl briodol. Gobeithiaf y gellir lledaenu'r arfer hwnnw ar draws Cymru. Fel y gwyddoch, disgwyliaf gyflwyno cynnig ar gyfer Mesur yn nes ymlaen eleni i edrych ar strwythurauau llywodraeth leol, megis cadeiryddion pwyllgorau a swyddogaethau craffu. Mae'n eithaf tebygol y bydd y mater hwn yn rhan o'r ystyriaethau y gallaf eu symud yn eu blaen.

Nick Bourne: Prynawn da, Weinidog. Yr wyf wedi ysgrifennu atoch ynghylch hyn, ond efallai nad ydych wedi cael yr ohebiaeth eto. Mae'n ymwneud â glan y môr yn Aberystwyth. Mae'r cyngor sir yn bwriadu cymryd darn mawr o lan y môr, a'i ddynodi'n fan parcio i feicwyr modur. Nid oes gennyf broblem â'r beicwyr modur; mae ganddynt fan parcio hollol dderbyniol ar hyn o bryd, y maent yn hoff ohono. Mae'r cwestiwn sydd gennyf ar eich cyfer yn ymwneud â thryloywder, a ph'un a yw'n arfer da i awdurdod lleol ymgynghori â phobl leol a masnachwyr sydd ar y promenâd, mewn amgylchiadau o'r fath. A oes canllawiau statudol, ynteu ai mater o fynd yn groes i arfer da'n unig yw peidio ag ymgynghori â phobl leol ynghylch cynllun mor sylfaenol? Fodd bynnag, gwerthfawrogaf na fydd y manylion gennych o'ch blaen yn awr efallai.

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn, Nick. Ni allaf gofio imi weld yr ohebiaeth, ond mae'n bosibl ei bod ar fy nesg. Gan ddychwelyd at gwestiwn Joyce, mae a wnelo hyn ag arfer da a thryloywder ar ran cynghorau, o ran y ffaith y dylent ymgysylltu

with the communities that they represent. We are all political animals, and, while we may not always like what people tell us, we are nonetheless representatives for our communities, and we should engage with them and listen to their views. It is again about good practice and good governance by councils, which should engage in these processes. On the particular issue that you raised with me, however, I cannot comment, as I am not aware of it.

David Lloyd: Ymhellach i un o'r themâu yr ydych wedi'u trafod yn y cwestiynau, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cynnal ag arweinwyr llywodraeth leol i sicrhau na fydd toriadau cyllidol yn tanseilio gweithgareddau sy'n sicrhau tryloywder llywodraeth leol?

2.10 p.m.

Carl Sargeant: I have met all 22 local authority leaders and chief executives across Wales. I have clearly spelled out that there are some difficult times to come in delivering public services. My ministerial colleagues across portfolios have also conveyed strong messages about the need to look at service delivery and service needs, as opposed to salami-slicing all budgets. It is about taking priorities forward for local authorities and others—and the rest of my portfolio includes the third sector. There are statutory duties, including those relating to freedom of information and transparency, which are fundamental to the structure of local government, and the public looks to local authorities to be transparent. Therefore, I would not like to see it take a particular hit in the cuts that are expected to be made.

The Independent and Voluntary Sectors

Q6 David Melding: Will the Minister make a statement on the role of the independent and voluntary sectors in the provision of public services in South Wales Central? OAQ(3)1267(SJL)

Carl Sargeant: Providing quality services

â'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Mae pob un ohonom yn greaduriaid gwleidyddol, ac er na fyddwn bob amser efallai'n hoffi'r hyn y bydd pobl yn ei ddweud wrthym, yr ydym serch hynny'n cynrychioli ein cymunedau, a dylem ymgysylltu â hwy a gwranddo ar eu barn. Unwaith yn rhagor, mae a wnelo ag arfer da a llywodraethu da ar ran cynghorau, a ddylai fod yn ymwneud â'r prosesau hyn. Fodd bynnag, o ran y mater penodol yr ydych wedi'i godi gyda mi, ni allaf wneud sylw gan nad wyf yn ymwybodol ohono.

David Lloyd: Further to one of the themes that you have covered in questions, what discussions have you held with local government leaders to ensure that budgetary cuts do not undermine activities that ensure the transparency of local government?

Carl Sargeant: Yr wyf wedi cyfarfod ag arweinyddion a phrif weithredwyr pob un o'r 22 awdurdod lleol ar draws Cymru. Yr wyf wedi esbonio'n ddigon clir bod adegau anodd i ddod o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae fy nghydweithwyr sy'n Weinidogion ar draws portffolios hefyd wedi cyfleu negeseuon cadarn ynghylch yr angen i ystyried gwaith darparu gwasanaethau ac anghenion gwasanaethau, yn hytrach na chyflwyno llw o fân doriadau i bob cyllideb. Mae a wnelo â symud blaenoriaethau yn eu blaen ar gyfer awdurdodau lleol ac eraill—ac mae gweddill fy mhortffolio'n cynnwys y trydydd sector. Ceir dyletswyddau statudol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â rhyddid gwybodaeth a thryloywder, sy'n hanfodol i strwythurau llywodraeth leol, ac mae'r cyhoedd yn disgwyl i awdurdodau lleol fod yn dryloyw. Felly, ni fyddwn yn dymuno gweld tryloywder yn dioddef yn benodol yn sgîl y toriadau a ddisgwylir.

Y Sectorau Annibynnol a Gwirfoddol

C6 David Melding : A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth y sectorau annibynnol a gwirfoddol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1267(SJL)

Carl Sargeant: Mae darparu gwasanaethau o

across Wales remains central to the Welsh Assembly Government's agenda. The third sector continues to have a role in this and has representation on the enterprise and innovation board work stream, looking at new models of service delivery. Further actions will stem from the board's recommendations.

David Melding: You may know that this is the second week of Co-operatives Fortnight, which I know you have been celebrating, as I have. We on these benches certainly think that it is a wonderful ethic to promote—*[Interruption.]* Calm down. I am trying to build consensus here.

The Presiding Officer: Order. I cannot hear the supplementary question.

David Melding: There are 29,000 people employed full time in social enterprises in Wales, 20,000 are employed part time, and some 105,000 people volunteer in some form of social enterprise. Those are incredible figures. Minister, have you studied yet the Wales Co-operative Centre's report on developing a co-operative model for increasing involvement in the delivery of public services? It is certainly my view that involving people in community regeneration through social enterprises is a rich way to ensure that we get the best services possible in our local communities.

Carl Sargeant: I will try to be as kind to you as you were to me, but, to paraphrase what Darren Millar said before, 'Nice of you to catch up—it only took you 125 years to catch up on supporting social enterprises and the co-operative movement'. That aside, I am positive about social enterprises in Wales and how we are driving that agenda forward. We have invested heavily in this, and I meet regularly with the ministerial advisory group. I do not underestimate the future opportunities for development in social enterprises and the co-operative movement across Wales. I have met the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport to talk about his further proposals

safon ar draws Cymru yn dal yn ganolog i agenda Llywodraeth y Cynulliad. Mae gan y trydydd sector rôl i'w chwarae o hyd yn hynny o beth, ac mae cynrychiolaeth o'r trydydd sector ar ffrwd waith y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, sy'n ystyried modelau newydd ar gyfer darparu gwasanaethau. Bydd camau gweithredu pellach yn deillio o argymhellion y bwrdd.

David Melding: Efallai y gwyddoch mai hon yw ail wythnos Pythefnos Mentrau Cydweithredol, a gwn i chithau ddathlu'r pythefnos hwnnw, fel finnau. Mae'r rheini ohonom sydd ar y meinciau hyn yn bendant o'r farn bod yr etheg yn un ardderchog i'w hyrwyddo—*[Torri ar draws.]* Gan bwyll. Yr wyf yn ceisio adeiladu consensws.

Y Llywydd: Trefn. Ni allaf glywed y cwestiwn atodol.

David Melding: Cyflogir 29,000 o bobl yn llawn amser mewn mentrau cymdeithasol yng Nghymru, cyflogir 20,000 yn rhan amser, ac mae oddeutu 105,000 o bobl yn gwirfoddoli mewn rhyw fath o fenter gymdeithasol. Mae'r ffigurau hynny'n anhygoel. Weinidog, a ydych wedi astudio adroddiad Canolfan Cydweithredol Cymru ar ddatblygu model cydweithredol i gynyddu'r graddau yr ymwneir â gwaith darparu gwasanaethau cyhoeddus? Yr wyf yn bendant o'r farn bod cynnwys pobl mewn gwaith adfywio cymunedol drwy fentrau cymdeithasol yn ffordd gyfoethog o sicrhau ein bod yn cael y gwasanaethau gorau posibl yn ein cymunedau lleol.

Carl Sargeant: Ceisiaf fod mor garedig i chi ag yr oeddech chithau i minnau, ond, gan aralleirio'r hyn a ddywedodd Darren Millar gynnu, 'Chwarae teg ichi am ymuno â ni—dim ond 125 mlynedd a gymerodd ichi ymuno â ni i gefnogi mentrau cymdeithasol a'r mudiad cydweithredol'. Heblaw am hynny, mae gennyf agwedd gadarnhaol at fentrau cymdeithasol yng Nghymru a'r modd yr ydym yn gyrru'r agenda honno yn ei blaen. Yr ydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr agenda hon, ac yr wyf yn cyfarfod â grŵp cynghori'r Gweinidog yn rheolaidd. Yr wyf yn sylweddoli'r cyfleoedd ar gyfer datblygu mentrau cymdeithasol a'r mudiad cydweithredol ar draws Cymru yn y dyfodol.

for regeneration in Wales, and social enterprise will play a key part in the development of economic structures in the future.

Leanne Wood: Minister, there is no doubt that we face some grim times ahead given the austerity measures being implemented by the Conservative-Liberal Democrat UK Government. We are already seeing the public sector being squeezed, but it is inevitable that the same will happen to the voluntary sector as well. Is it now time to consider reviewing the funding arrangements that prevent voluntary sector organisations from seeking to make savings and build reserves? The present system can encourage spending sprees at the end of the financial year because organisations are financially penalised for holding reserves, and they can face bigger cuts in the following financial year if they make those savings. That does not make sense at all to me, Minister, so will you agree to review the situation?

Carl Sargeant: We have a good relationship with the third or voluntary sector, which I hope will continue in the future. It is time to think of different ways of doing business, and we will have to consider how the funding streams come through in more detail. I would not like to think that money is wasted at the end of the fiscal year because it makes sense to do so as you would be penalised the year after that. However, judging by the look on your face, I have a feeling that you might have some evidence on that. However, the fact of the matter is that very difficult times lie ahead of us. I have meetings with the Minister for Business and Budget regarding how we can best service the voluntary sector financially. This is also about these organisations understanding that they have a strong part to play in how they deliver their services and how they use their finances appropriately.

Yr wyf wedi cyfarfod â'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth i drafod ei gynigion pellach ar gyfer adfywio yng Nghymru, a bydd menter gymdeithasol yn chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu strwythurau economaidd yn y dyfodol.

Leanne Wood: Weinidog, nid oes amheuaeth nad ydym yn wynebu amseroedd anodd o gofio'r mesurau llymder a gaiff eu gweithredu gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn y DU. Yr ydym eisoes yn gweld y sector cyhoeddus yn cael ei wasgu, ond mae'n anochel y bydd yr un peth yn digwydd i'r sector gwirfoddol yn ogystal. A yw'n bryd ystyried adolygu'r trefniadau cyllido sy'n atal mudiadau yn y sector gwirfoddol rhag ceisio gwneud arbedion a datblygu cronfeydd wrth gefn? Gall y system bresennol annog sbri wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, oherwydd caiff mudiadau eu cosbi'n ariannol am gadw cronfeydd wrth gefn, a gallant wynebu toriadau mwy yn y flwyddyn ariannol ganlynol os byddant yn gwneud arbedion o'r fath. Nid yw hynny'n gwneud synnwyr o gwbl i mi, Weinidog, felly a wnewch chi gytuno i adolygu'r sefyllfa?

Carl Sargeant: Mae gennym berthynas dda â'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol, a gobeithiaf y bydd hynny'n parhau yn y dyfodol. Mae'n bryd meddwl am ffyrdd gwahanol o gyflawni busnes, a bydd yn rhaid inni ystyried yn fanylach sut y bydd y ffyrddiau ariannu'n cael eu cyflwyno. Ni fyddwn yn hoffi meddwl bod arian yn cael ei wastraffu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, oherwydd bod hynny'n gwneud synnwyr gan y byddech yn cael eich cosbi'r flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, o weld yr olwg ar eich wyneb, caf yr argraff bod gennych ryw faint o dystiolaeth ynghylch hynny. Fodd bynnag, y ffaith yw bod amseroedd anodd iawn o'n blaen. Yr wyf yn cael cyfarfodydd â'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb ynghylch y ffordd orau o wasanaethu'r sector gwirfoddol yn ariannol. Mae a wnelo hyn hefyd â'r ffaith bod angen i'r mudiadau dan sylw ddeall bod ganddynt ran fawr i'w chwarae o ran sut maent yn darparu eu gwasanaethau a sut maent yn defnyddio eu harian yn briodol.

Poverty

Q7 Irene James: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to tackle poverty in Wales? OAQ(3)1277(SJL)

Carl Sargeant: The Welsh Assembly Government is committed to tackling poverty and we have a range of anti-poverty initiatives in place to help address this issue. We are also undertaking a range of analytical work to support the development, monitoring and evaluation of our current and planned anti-poverty initiatives.

Irene James: Thank you for your response, Minister. We have seen alarming news reports today that the slash and burn Tory-Liberal Government cuts may well cost the economy 1.3 million jobs. Can you make an assessment of how many more people this will push into poverty here in Wales?

Carl Sargeant: It is too early to understand those numbers, but the Welsh Assembly Government thinks that there is a real risk of a double-dip recession, and agrees with eminent economists such as Paul Krugman and David Blanchflower that now is not the time to make radical cuts in budgets. Clearly, major cost reductions of the kind outlined in the figures that you mentioned will be associated with job losses. The figure of 1.3 million for the UK was apparently obtained as a result of a leak, and we do not know how accurate that is. However, this does concern me in terms of the child poverty agenda and the anti-poverty agenda. Employment reductions do have consequences in terms of increasing the poverty rate, all other things being equal.

Brynle Williams: Minister, in light of the national disgrace—with the Labour Government having been in power for some 11 years—that one in three Welsh children grows up in poverty and nearly one in five grows up in a workless household, would you join me in welcoming the new UK Government's plans to encourage and support the long-term jobless back into the workplace, as well as the steps that the Government has taken to remove low-paid

Tlodi

C7 Irene James: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(3)1277(SJL)

Carl Sargeant: Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fynd i'r afael â thlodi, ac mae gennym ystod o fentrau gwrthdlodi ar waith i helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon. Yr ydym hefyd yn gwneud ystod o waith dadansoddi i gefnogi'r broses o ddatblygu, monitro a gwerthuso ein mentrau gwrthdlodi presennol ac arfaethedig.

Irene James: Diolch am eich ymateb, Weinidog. Yr ydym wedi gweld adroddiadau brawychus yn y newyddion heddiw y gallai toriadau dinistriol Llywodraeth y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol gostio 1.3 miliwn o swyddi i'r economi. A allwch asesu faint yn rhagor o bobl y bydd hynny'n eu gwthio i dlodi yma yng Nghymru?

Carl Sargeant: Mae'n rhy gynnar i ddeall y ffigurau hynny eto, ond mae Llywodraeth y Cynulliad yn meddwl bod perygl go iawn y gwelwn ail ddirwasgiad, ac mae'n cytuno ag economegwyr amlwg megis Paul Krugman a David Blanchflower nad nawr yw'r amser i dorri cyllidebau'n radical. Yn amlwg, bydd y math o doriadau sylweddol mewn cost a amlinellir yn y ffigurau yr oeddech yn sôn amdanynt yn golygu colli swyddi. Mae'n debyg i'r ffigur o 1.3 miliwn ar gyfer y DU gael ei ddatgelu'n answyddogol, ac ni wyddom pa mor gywir ydyw. Fodd bynnag, mae'r ffigur yn peri pryder imi o safbwynt yr agenda tlodi plant a'r agenda gwrthdlodi. Bydd gostyngiadau ym maes cyflogaeth yn arwain at gynyddu tlodi, os yw popeth arall yn aros yr un fath.

Brynle Williams: Weinidog, yng ngoleuni'r gwarth cenedlaethol—gyda'r Llywodraeth Lafur wedi bod mewn grym am oddeutu 11 mlynedd—sy'n golygu bod un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn cael ei fagu mewn tlodi, a bod bron i un o bob pum phlentyn yn cael ei fagu mewn cartref di-waith, a ymunwch â mi i groesawu cynlluniau Llywodraeth newydd y DU i annog a chefnogi'r sawl a fu'n ddi-waith ers amser hir i fynd yn ôl i'r gweithle, a chroesawu hefyd y

workers from the tax system and to end the perverse incentives in the benefits system for people not to work?

Carl Sargeant: I find it astonishing that you even want to ask me that question, Brynle. The fact is that I will take no lessons from the Conservatives and the Liberal Democrats on poverty in Wales. We have seen that in our Valleys and in all of our communities, and I have seen it in my own constituency of Alyn and Deeside. Brynle, you are the one who should explain why you have cut the Future Jobs fund in Wales. You should explain why you are introducing a 20 per cent VAT rate. You should also explain to the people of Wales why child tax credits are being thrown out the window. You are the ones attacking the most vulnerable people in Wales.

Bethan Jenkins: I want to follow up on the issue of child poverty. Prior to the general election, the Labour Government had eradicating child poverty by 2020 as a priority on a UK level, as does the coalition Government here. What progress have you made with the current UK Government with regard to eradicating child poverty? We know that this will prove to be much more difficult in light of the in-work poverty that many people now face. How do we tackle this issue in Wales, given that we do not have some of the powers that we should have over the benefits system and taxation?

Carl Sargeant: You have outlined some of the key challenges that lie ahead for us, one of which is the economic climate. That makes it more important that we focus our work on ensuring that our policies and processes respond to the needs of those living in poverty. I am very pleased that my colleague Huw Lewis recently launched a strategy to combat poverty, which is something of a first here in Wales. We are leading the way on that. There are some issues relating to the development of legislation around the anti-poverty agenda. However, as I said in response to Brynle Williams, some of the actions of the Liberal

camau y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd i symud gweithwyr sydd ar gyflog isel allan o'r system drethi, a rhoi terfyn ar y cymhellion gwrthnysig yn y system fudd-daliadau sy'n annog pobl i beidio â gweithio?

Carl Sargeant: Yr wyf yn synnu eich bod hyd yn oed am ofyn y cwestiwn hwnnw imi, Brynle. Y ffaith yw nad wyf am gymryd dim gwersi gan y Ceidwadwyr na'r Democratiaid Rhyddfrydol ynghylch tlodi yng Nghymru. Yr ydym wedi gweld y tlodi hwnnw yn ein Cymoedd ac ym mhob un o'n cymunedau, ac yr wyf wedi'i weld yn fy etholaeth fy hun, sef Alun a Glannau Dyfrdwy. Brynle, chi yw'r un a ddylai esbonio pam yr ydych wedi torri cronfa Swyddi'r Dyfodol yng Nghymru. Dylech esbonio pam yr ydych yn cyflwyno cyfradd treth ar werth o 20 y cant. Dylech hefyd esbonio i bobl Cymru pam y caiff credydau treth plant eu taflu o'r neilltu. Chi yw'r rhai sy'n ymosod ar y bobl fwyaf bregus yng Nghymru.

Bethan Jenkins: Yr wyf am fynd ar drywydd tlodi plant. Cyn yr etholiad cyffredinol, yr oedd dileu tlodi plant erbyn 2020 yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth Lafur ar lefel y DU, fel yr oedd i'r Llywodraeth glymbleidiol yn y fan hon. Pa gynnydd yr ydych wedi'i wneud gyda Llywodraeth bresennol y DU o ran dileu tlodi plant? Gwyddom y bydd hynny'n llawer anos o gofio'r tlodi mewn gwaith y mae llawer o bobl yn ei wynebu'n awr. Sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r mater hwn yng Nghymru, o gofio nad oes gennym rai o'r pwerau a ddylai fod gennym dros y system fudd-daliadau a threthi?

Carl Sargeant: Yr ydych wedi amlinellu rhai o'r prif heriau sy'n ein hwynebu, ac un o'r heriau hynny yw'r hinsawdd economaidd. Mae hynny'n golygu ei bod yn bwysicach fyth inni ganolbwyntio ar sicrhau bod ein polisïau a'n prosesau'n ymateb i anghenion y sawl sy'n byw mewn tlodi. Yr wyf yn falch iawn i'm cydweithiwr Huw Lewis lansio strategaeth yn ddiweddar i ymladd tlodi, sy'n rhywbeth newydd yma yng Nghymru. Yr ydym yn arwain y ffordd o safbwynt hynny. Ceir rhai problemau'n ymwneud â datblygu deddfwriaeth o gwmpas yr agenda gwrthdlodi. Fodd bynnag, fel y dywedais wrth ymateb i Brynle Williams, mae rhai o'r

Democrat and Conservative Government in Westminster have been a direct attack on the poorest and most vulnerable communities in Wales.

camau sydd wedi'u cymryd gan Lywodraeth y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn San Steffan wedi ymosod yn uniongyrchol ar y cymunedau tlotaf a mwyaf bregus yng Nghymru.

2.20 p.m.

Collaboration

Q8 Nerys Evans: Will the Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government is collaborating with local government? OAQ(3)1291(SJL)

Carl Sargeant: The local government partnership scheme underpins our relationship with local government. The new understanding signed last year builds on our outlining crucial actions for both the Assembly Government and local authorities to improve and cement our mutual commitment to make Wales a better place for our citizens.

Nerys Evans: Your strategy on violence against women is dependent on collaboration and working with local government and other partners. Further to my question to the Counsel General about the Tory-Lib Dem proposals in this regard, do you agree that the proposals to give anonymity to rape defendants undermine the good work that you are doing through the strategy on violence against women to increase rape conviction rates, increase help for rape victims and ensure that more women speak out and report what has happened to them? Giving anonymity to rape defendants sends a message that women falsely accuse. As I said earlier, false rape allegation rates are similar to those for other crimes and, indeed, are lower than those for other crimes. That will worsen the already low reporting rates for rape and the even lower conviction rate of 6.5 per cent. Will you join me in condemning those proposals?

Cydweithio

C8 Nerys Evans: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydweithio â llywodraeth leol? OAQ(3)1291(SJL)

Carl Sargeant: Mae'r cynllun partneriaeth llywodraeth leol yn sail i'n perthynas â llywodraeth leol. Mae'r ddealltwriaeth newydd a lofnodwyd y llynedd yn adeiladu ar y ffaith inni amlinellu camau gweithredu hollbwysig ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol i wella a chadarnhau ymrwymiad y naill a'r llall i wneud Cymru yn lle gwell i'n dinasyddion.

Nerys Evans: Mae eich strategaeth ar drais yn erbyn menywod yn dibynnu ar gydweithio a chydweithredu â llywodraeth leol a phartneriaid eraill. Yn dilyn fy nghwestiwn i'r Cwnsler Cyffredinol am gynigion y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol ynghylch hyn, a gytunwch fod y cynigion i roi'r hawl i ddiffnyddion sydd wedi'u cyhuddo o drais rhywiol aros yn ddiennw'n tansellio'r gwaith da yr ydych yn ei wneud drwy'r strategaeth ar drais yn erbyn menywod i gynyddu cyfradd y bobl a gaiff eu dyfarnu'n euog o drais rhywiol, rhoi rhagor o help i ddioddefwyr trais rhywiol, a sicrhau bod rhagor o fenywod yn siarad am yr hyn sydd wedi digwydd iddynt ac yn adrodd yn ei gylch? Mae rhoi'r hawl i ddiffnyddion sydd wedi'u cyhuddo o drais rhywiol aros yn ddiennw'n cyfleu'r neges bod menywod yn cyhuddo pobl ar gam. Fel y dywedais yn gynharach, mae cyfraddau honiadau ffug ar gyfer trais rhywiol yn debyg i'r cyfraddau ar gyfer troseddau eraill, ac yn wir, yn is na'r cyfraddau hynny. Bydd rhoi'r hawl honno'n gwaethygu cyfraddau'r achosion o drais rhywiol yr adroddir yn eu cylch, sydd eisoes yn isel, a'r gyfradd ar gyfer nifer y bobl a gaiff eu dyfarnu'n euog, sef 6.5 y cant, sydd hyd yn oed yn is. A wnewch chi ymuno â mi i gondemnio'r cynigion hyn?

Carl Sargeant: Thank you for your question. These new proposals complicate and compromise our position and how we are driving this agenda forward, in which, I believe, we are leading in the UK. I have already written to the Minister expressing my concerns on this.

Jenny Randerson: There has been a lot of Welsh Assembly Government rhetoric lately about the importance of collaboration, and the pressure is on for forced collaboration. I recognise fully that increased collaboration between local authorities is very important, and there are some extremely good examples, particularly in the case of waste recycling and disposal. When giving evidence to the legislation committee on the new Proposed Waste (Wales) Measure, the Minister for Environment, Sustainability and Housing indicated that it would not be appropriate for local authorities to collaborate on achieving their targets. Would you please comment on that? How do you envisage that local authorities will be able to provide accurate figures when, in practice, on a daily basis, they join forces with neighbouring authorities for the disposal and recycling of their waste?

Carl Sargeant: On the detail of the waste element, I will ask Jane Davidson to respond to you directly. To address the issue of collaboration across authorities or the public sector, there are some excellent examples of people driving through change. I am reluctant to name individuals on this, but Jo Farrar in Bridgend and Mohammed Mehmet in Denbighshire are leading the way on some of the work streams that Jane Hutt is leading on in the efficiency and innovation board. Some of the complexities around collaboration are being worked through by the innovation board, such as how and when collaboration is the right thing to do. Collaboration is not a silver bullet, but it is about a movement and a process going through local government and across the public sector to provide citizen-centred services that are better for them. It is about taking down the silos of operation to broaden the interest groups and bring them together to provide a better service. Jane Hutt, through the efficiency and innovation

Carl Sargeant: Diolch am eich cwestiwn. Mae'r cynigion newydd hyn yn cymhlethu ac yn peryglu ein sefyllfa a'r modd yr ydym yn gyrru'r agenda hon yn ei blaen, sy'n agenda yr ydym, mi gredaf, yn ei harwain yn y DU. Yr wyf eisoes wedi ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi'r pryderon sydd gennyf ynghylch hyn.

Jenny Randerson: Cafwyd llawer o rethreg gan Lywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar am bwysigrwydd cydweithio, a cheir pwysau i gydweithio dan orfodaeth. Yr wyf yn cydnabod yn gyfan gwbl bod sicrhau mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol yn bwysig iawn, a cheir rhai enghreifftiau eithriadol o dda, yn enwedig o safbwynt ailgylchu a gwaredu gwastraff. Wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor deddfu am Fesur Arfaethedig ynghylch Gwastraff (Cymru), dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai na fyddai'n briodol i awdurdodau lleol gydweithio wrth gyflawni eu targedau. A wnewch chi sylw ynghylch hynny, os gwelwch yn dda? Sut yr ydych yn rhagweld y bydd awdurdodau lleol yn gallu darparu ffigurau cywir pan fyddant, yn ymarferol, yn ymuno ag awdurdodau cyfagos yn ddyddiol i waredu ac ailgylchu eu gwastraff?

Carl Sargeant: O ran manylion yr elfen wastraff, gofynnaf i Jane Davidson ymateb ichi'n uniongyrchol. O ran mynd i'r afael â chydweithio ar draws awdurdodau neu'r sector cyhoeddus, ceir rhai enghreifftiau ardderchog o bobl yn hybu newid. Yr wyf yn gyndyn o enwi unigolion sy'n gwneud hynny, ond mae Jo Farrar ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Mohammed Mehmet yn sir Ddinbych yn arwain y ffordd ar rai o'r ffrydiau gwaith y mae Jane Hutt yn eu harwain ar y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi. Mae'r bwrdd arloesi wrthi'n datrys rhai o'r cymhlethdodau sy'n ymwneud â chydweithio, megis pryd y mae'n iawn cydweithio, a sut y dylid gwneud hynny. Nid yw cydweithio'n ateb i bopeth, ond mae a wnelo â newid a phroses sy'n mynd drwy lywodraeth leol ac ar draws y sector cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau y mae dinasyddion yn ganolog iddynt, sy'n well ar eu cyfer. Mae a wnelo â rhoi'r gorau i weithredu'n ynysig, er mwyn ehangu'r grwpiau diddordeb a dod â hwy at ei gilydd i

board, is leading on that. Representatives from health and local government sit on that board to drive this agenda forward. On some of the complications of when it is right and when it is wrong, it is about backing the right horse when it comes to collaboration projects. I am not sure about Jane's position on the waste element, but I will ask her to write to you.

ddarparu gwell gwasanaeth. Mae Jane Hutt, drwy'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, yn arwain y gwaith hwnnw. Mae cynrychiolwyr o feysydd iechyd a llywodraeth leol yn aelodau o'r bwrdd hwnnw er mwyn gyrru'r agenda hon yn ei blaen. O ran rhai o'r cymhlethdodau ynghylch pryd mae'n briodol a phryd mae'n amhriodol cydweithio, mae a wnelo â chefnogi'r prosiectau cydweithio cywir. Nid wyf yn siŵr beth yw safbwynt Jane ar yr elfen wastraff, ond gofynnaf iddi ysgrifennu atoch.

Services for Ex-Service Personnel

Gwasanaethau i Gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

Q9 Chris Franks: Will the Minister make a statement on provision of services for ex-service personnel? OAQ(3)1270(SJL)

C9 Chris Franks: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau i gyn-aelodau'r lluoedd arfog? OAQ(3)1270(SJL)

Carl Sargeant: Saturday's Armed Forces Day celebrations here in Cardiff demonstrated the high esteem in which we hold our ex-service personnel. They benefit from a full range of public services. However, we make extra provision in the case of some services to recognise their sacrifice or to meet particular needs arising from their military service.

Carl Sargeant: Yr oedd y dathliadau a welwyd yma yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn ar gyfer Diwrnod y Lluoedd Arfog yn dangos y parch mawr sydd gennym at gyn-aelodau ein lluoedd arfog. Maent yn elwa o ystod lawn o wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, yr ydym yn rhoi darpariaeth ychwanegol i rai gwasanaethau, i gydnabod eu haberth neu i ddiwallu anghenion penodol sy'n codi o'u gwasanaeth milwrol.

Chris Franks: Thank you, Minister, for that reply. Figures show that, last year, there were twice as many veterans in prison as troops in Afghanistan. We expect so much of our troops that the very least that we can offer them and their families is help to ensure that ex-personnel reintegrate with civilian society when they return home. Many suffer from alcohol and substance misuse problems, mental health problems and homelessness as a result of previous Governments' inability to put in place the proper procedure for support. What discussions have you had with the Ministry of Defence regarding aftercare for veterans? A strategic defence review is long overdue, but would you support a review into spend on veterans and support for returning troops?

Chris Franks: Diolch, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Mae ffigurau'n dangos bod nifer y cyn-filwyr a oedd yn y carchar y llynedd ddwywaith gymaint â nifer y milwyr a oedd yn Affganistan. Yr ydym yn disgwyl cymaint gan ein milwyr, a'r peth lleiaf y gallwn ei gynnig iddynt hwy a'u teuluoedd yw help i sicrhau bod cyn-aelodau'r lluoedd arfog yn ailymdoddi i'r gymdeithas sifil pan fyddant yn dychwelyd adref. Mae llawer ohonynt yn dioddef o broblemau camddefnyddio alcohol a sylweddau, problemau iechyd meddwl a digartrefedd o ganlyniad i anallu Llywodraethau blaenorol i roi'r weithdrefn briodol ar waith i gynnig cymorth iddynt. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael â'r Weinyddiaeth Amddiffyn ynghylch darparu ôl-ofal i gyn-filwyr? Mae'n hen bryd cynnal adolygiad strategol o'r gwasanaeth amddiffyn, ond a fydddech yn cefnogi cynnal adolygiad o'r hyn a gaiff ei wario ar gyn-filwyr a chymorth i filwyr sy'n dychwelyd adref?

Carl Sargeant: This is a very difficult problem that we face, and it is not just in Wales; it is a UK-wide problem. In taking a lead on supporting ex-service personnel, veterans and serving personnel, Wales has looked at the needs that are specific to Wales. That is why, at the request of the First Minister, I set up the ministerial advisory group on the armed services. It is a very positive group with representatives from the armed forces, the families, the Royal British Legion and other interested partners. I have had no shortage of people offering their services to the panel. However, with the greatest of respect, and acknowledging the added value that they would bring, I would probably need a room as big as the Chamber to engage with everybody. I think that what we are trying to do is to focus the group on the needs of service personnel and veterans. I welcome your contribution on this. I will ask the working group here in Wales to identify the scale of the problem. I will either write to you or make a statement in the Chamber on how we envisage our service provision going forward.

David Melding: There is a great need to have the best level of training for people delivering public services so that they can respond adequately to those who have been in military service, because there is a growing body of evidence that it can be many years later that the consequences of a military trauma become apparent. So, people working in the health service and in housing services need to realise that someone presenting with a problem may be exhibiting a delayed symptom. I note that the American Government now has a special strategy for helping homeless veterans from the Vietnam war, which was 40 years ago. That demonstrates the fact that the problems caused by a particular conflict can arise a couple of generations later.

Carl Sargeant: Indeed. The issues of war and trauma can present themselves in many different forms at any stage in life. My family has a military background, so I understand fully some of the issues that service

Carl Sargeant: Yr ydym yn wynebu problem anodd iawn, ac nid yw'n bodoli yng Nghymru yn unig; mae'n broblem ar draws y DU. Wrth arwain gwaith cefnogi cyn-aelodau'r lluoedd arfog, cyn-filwyr ac aelodau gweithredol y lluoedd arfog, mae Cymru wedi ystyried yr anghenion sy'n benodol i Gymru. Dyna pam y sefydlais grŵp cynghori'r Gweinidog ar y lluoedd arfog, ar gais y Prif Weinidog. Mae gan y grŵp agwedd gadarnhaol iawn, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r lluoedd arfog, eu teuluoedd, y Lleng Frenhinol Brydeinig a phartneriaid eraill â diddordeb. Mae digonedd o bobl yn cynnig eu gwasanaeth i'r panel. Fodd bynnag, gyda phob parch, a chan gydnabod y gwerth ychwanegol y byddent yn ei gyfrannu, byddai angen ystafell mor fawr â'r Siambr arnaf, fwy na thebyg, i ymwneud â phawb. Credaf mai'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud yw canolbwyntio gwaith y grŵp ar anghenion aelodau'r lluoedd arfog a chyn-filwyr. Croesawaf eich cyfraniad i'r mater hwn. Gofynnaf i'r gweithgor yma yng Nghymru nodi maint y broblem. Byddaf naill ai'n ysgrifennu atoch neu'n gwneud datganiad yn y Siambr ynghylch sut yr ydym yn rhagweld y bydd ein darpariaeth o ran gwasanaethau'n symud ymlaen.

David Melding: Mae gwir angen sicrhau'r hyfforddiant gorau posibl i bobl sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, fel y gallant ymateb yn briodol i'r sawl a fu'n filwyr, oherwydd ceir mwyfwy o dystiolaeth sy'n dangos y gall canlyniadau trawma milwrol ddod i'r amlwg nifer o flynyddoedd yn ddiweddarach. Felly, mae angen i'r bobl sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd ac mewn gwasanaethau tai sylweddoli y gallai rhywun sy'n dod atynt gyda phroblem fod yn dangos symptom hwyr. Yr wyf am nodi bod gan Lywodraeth America strategaeth arbennig yn awr ar gyfer helpu cyn-filwyr digartref a fu yn rhyfel Fiet-nam, a ddiwyddodd 40 mlynedd yn ôl. Mae hynny'n dangos y gall y problemau a achoswyd gan wrthdaro penodol ddod i'r amlwg rai cenedlaethau'n ddiweddarach.

Carl Sargeant: Yn wir. Gall y problemau sy'n gysylltiedig â rhyfel a thrawma ymddangos mewn llawer o wahanol ffyrdd yn ystod unrhyw gyfnod mewn bywyd. Mae gan fy nheulu i gefndir milwrol, felly deallaf

personnel have to deal with. I am pleased that, in Wales, all health boards have named a champion for the health of veterans and armed forces personnel. Their role is to ensure that the needs of the armed forces community are reflected fully in the services and planning for the future. On the board that we have set up, there is a strong health dimension with regard to understanding the needs of service personnel and veterans; it deals with people at whatever stage in their service life, from serving personnel right through to veterans. So, it is something that I am very keen to take forward.

The Presiding Officer: Thank you, Minister, for your answers.

yn iawn rai o'r materion y mae'n rhaid i aelodau'r lluoedd arfog ymdrin â hwy. Yr wyf yn falch bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi enwi hyrwyddwr ar gyfer iechyd cyn-filwyr ac aelodau'r lluoedd arfog. Eu rôl yw sicrhau y caiff anghenion cymuned y lluoedd arfog eu hadlewyrchu'n llawn yn y gwasanaethau ac wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Ar y bwrdd yr ydym wedi'i sefydlu, ceir dimensiwn iechyd cryf o ran deall anghenion aelodau'r lluoedd arfog a chyn-filwyr; mae'n ymdrin â phobl ni waeth pa gyfnod y maent ynddo yn eu hamser gyda'r lluoedd arfog, o fod yn aelod gweithredol i fod yn gyn-filwr. Felly, mae'n rhywbeth yr wyf yn awyddus iawn i'w symud yn ei flaen.

Y Llywydd: Diolch, Weinidog, am eich atebion.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning

Policy Priorities for 2010

Q1 Jonathan Morgan: Will the Minister make a statement on his policy priorities for 2010? OAQ(3)1428(CEL)

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): The Government's priorities remain as set out in 'One Wales', with additional measures in response to the economic downturn. I also want to see more funding reaching the education front line by freeing up resources, as highlighted in the review of the costs of administering the education system.

Jonathan Morgan: Thank you, Minister, for that response. You will be aware that the governing body at Whitchurch High School has submitted to you a proposal for it to become a foundation school. I understand that there is a process of dialogue now between your officials and the school governing body about the range of information that your department requires to advise you on a decision. While I appreciate that you would not want to comment on the merits of the proposal, Minister, when will you make a decision on what is being proposed by the school governing body?

Blaenoriaethau Polisi ar gyfer 2010

C1 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau polisi ar gyfer 2010? OAQ(3)1428(CEL)

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth yn dal yr un fath â'r rhai a nodwyd yn 'Cymru'n Un', gyda mesurau ychwanegol i ymateb i'r dirywiad economaidd. Yr wyf hefyd am weld rhagor o gyllid yn cyrraedd rheng flaen addysg drwy ryddhau adnoddau, fel y pwysleisiwyd yn yr adolygiad o gost gweinyddu'r system addysg.

Jonathan Morgan: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Gwyddoch fod corff llywodraethu Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd wedi cyflwyno cynnig ichi lle mae'n gofyn am gael bod yn ysgol sefydledig. Yr wyf yn deall bod proses o drafod yn mynd rhagddi'n awr, rhwng eich swyddogion a chorff llywodraethu'r ysgol, am yr ystod o wybodaeth y mae ei hangen ar eich adran i'ch cynghori ynghylch penderfyniad. Er fy mod yn sylweddoli na fydddech yn dymuno gwneud sylw am rinweddau'r cynnig, Weinidog, pryd y byddwch yn gwneud penderfyniad ynghylch yr hyn a gynigir gan

gorff llywodraethu'r ysgol?

2.30 p.m.

Leighton Andrews: When advice comes to me.

Leighton Andrews: Pan gaf gyngor.

Val Lloyd: I welcomed the commitment that you made last February to deliver the young person's guarantee in Wales and the announcement that additional funding of nearly £5 million had been allocated for it, which was on top of the package of just over £20 million to tackle youth unemployment. I am sure that you will be aware of the recent announcement by the Liberal Democrat Chief Secretary to the Treasury that the coalition Government in London has cut the extension of the young person's guarantee in 2010-11 with immediate effect. What impact will this cut have on the delivery of the young person's guarantee in Wales, and do you agree that it is vital that we protect what has been achieved in tackling youth unemployment against further savage cuts from the UK Government?

Val Lloyd: Croesawaf eich ymrwymiad fis Chwefror diwethaf i weithredu'r gwarant i bobl ifanc yng Nghymru, a'r cyhoeddiad bod cyllid ychwanegol gwerth bron i £5 miliwn wedi'i ddyrannu ar ei gyfer, a oedd yn ychwanegol at y pecyn o ychydig dros £20 miliwn ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r cyhoeddiad diweddar gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, sy'n Ddemocrat Rhyddfrydol, bod y Llywodraeth glymbleidiol yn Llundain wedi torri'r estyniad i'r gwarant i bobl ifanc yn 2010-11, a hynny ar unwaith. Pa effaith y bydd hynny'n ei chael ar weithredu'r gwarant i bobl ifanc yng Nghymru, ac a ydych yn cytuno ei bod yn hanfodol inni warchod yr hyn a gyflawnwyd o ran mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc rhag mwy o doriadau llym gan Lywodraeth y DU?

Leighton Andrews: This morning I visited Groundwork Bridgend and Neath Port Talbot in Ton-du, which is in the constituency of my colleague Janice Gregory. Groundwork expressed its disappointment at the cut in the extension of the young person's guarantee and in the Future Jobs fund overall. We have had some excellent schemes across Wales that have enabled young people to take their first steps on to the employment ladder. The work that has been done is inspirational, and it is clearly making a difference. I met one young person today who has become responsible for the administration of 150 Future Jobs fund jobs. The current proposals from the Department for Work and Pensions are deeply disappointing. We have supported the Future Jobs fund and the young person's guarantee.

Leighton Andrews: Y bore yma bŵm yn ymweld â Groundwork Pen-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot yn Nhon-du, sydd yn etholaeth fy nghydweithiwr Janice Gregory. Mynegodd Groundwork ei siom ynghylch y penderfyniad i dorri'r estyniad i'r gwarant i bobl ifanc a thorri cronfa Swyddi'r Dyfodol yn gyffredinol. Yr ydym wedi cael rhai cynlluniau ardderchog ar draws Cymru, sydd wedi galluogi pobl ifanc i gamu i fyd gwaith am y tro cyntaf. Mae'r gwaith sydd wedi'i wneud yn ysbrydoledig, ac mae'n amlwg ei fod yn gwneud gwahaniaeth. Cyfarfŵm ag un unigolyn ifanc heddiw sydd wedi dod yn gyfrifol am weinyddu 150 o swyddi dan gronfa Swyddi'r Dyfodol. Mae cynigion cyfredol yr Adran Gwaith a Phensiynau yn siomedig tu hwnt. Yr ydym wedi cefnogi cronfa Swyddi'r Dyfodol a'r gwarant i bobl ifanc.

Paul Davies: As we heard yesterday, one of the Minister's policy priorities is to increase higher education institutions' intake of students from disadvantaged backgrounds, including raising the proportion of the total student intake from Communities First areas

Paul Davies: Fel y clywsom ddoe, un o flaenoriaethau'r Gweinidog o ran polisi yw cynyddu nifer y myfyrwyr o gefndiroedd difreintiedig a gaiff eu derbyn i sefydliadau addysg uwch, sy'n cynnwys cynyddu cyfran yr holl fyfyrwyr a dderbynnir o ardaloedd

to 17.2 per cent by 2013. I am sure that all parties will welcome the Minister's commitment to protecting student numbers and to increasing the proportion of higher education students from disadvantaged communities in Wales. Given that that is the case, will the Minister outline specifically how he intends to meet these targets, as he made it clear yesterday that there will be fewer higher education institutions in future?

Leighton Andrews: I thought that I had answered similar questions on my statement yesterday in considerable detail. As I set out yesterday, the challenge is there for the Higher Education Funding Council for Wales. It has responded to the challenges that we set out, first in our strategy document, 'For Our Future', last autumn, and, subsequently, in my remit letter to the council. It has outlined in its corporate plan its target for lifting participation rates in the Heads of the Valleys and Communities First areas. There was nothing in yesterday's statement that suggested that there would need to be fewer locations in higher education. The statement was very much about driving and supporting collaboration between further and higher education institutions in terms of progression rates. We expect those targets to be delivered, and we believe that we are opening up new routes into higher education through foundation degrees, part-time study and greater collaboration between further and higher education. That will be the way in which we help the achievement of those targets.

Paul Davies: I am grateful to the Minister for that answer. Another of his priorities is the delivery of foundation degrees through further education colleges. Yesterday he mentioned that he will shortly be announcing his plan to expand foundation degrees in Wales as part of the 'For Our Future' strategy. Will the Minister confirm when he intends to make a statement on foundation degrees, and will he detail the additional support that the Welsh Assembly Government will be providing to further education colleges to deliver higher education courses?

Leighton Andrews: Shortly, when I make

Cymunedau yn Gyntaf i 17.2 y cant erbyn 2013. Yr wyf yn siŵr y bydd pob plaid yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i warchod niferoedd myfyrwyr, a chynyddu cyfran y myfyrwyr o gymunedau difreintiedig yng Nghymru sydd mewn sefydliadau addysg uwch. O gofio hynny, a wnaiff y Gweinidog amlinellu'n benodol sut mae'n bwriadu cyrraedd y targedau hyn, gan iddo egluro ddoe y bydd llai o sefydliadau addysg uwch yn y dyfodol?

Leighton Andrews: Yr oeddwn yn meddwl imi ateb cwestiynau tebyg ynghylch fy natganiad ddoe yn fanwl iawn. Fel yr eglurais ddoe, mae'r her yno i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Mae wedi ymateb i'r heriau a osodwyd gennym, yn gyntaf yn ein strategaeth 'Er Mwyn ein Dyfodol', yr hydref diwethaf, ac yn dilyn hynny, yn fy llythyr cylch gwaith i'r cyngor. Yn ei gynllun corfforaethol, mae wedi amlinellu ei darged ar gyfer codi cyfraddau cyfranogiad ym Mlaenau'r Cymoedd ac mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Nid oedd dim yn y datganiad ddoe a oedd yn awgrymu y byddai angen cael llai o leoliadau addysg uwch. Yr oedd a wnelo'r datganiad hwnnw i raddau helaeth iawn â hybu a chefnogi cydweithredu rhwng sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch o safbwynt cyfraddau dilyniant. Yr ydym yn disgwyl i'r targedau hynny gael eu cyflawni, a chredwn ein bod yn agor llwybrau newydd i addysg uwch drwy raddau sylfaen, cyfleoedd i astudio'n rhan amser a mwy o gydweithredu rhwng addysg bellach ac addysg uwch. Dyna sut y byddwn yn helpu i gyflawni'r targedau hynny.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Un arall o'i flaenoriaethau yw cyflwyno graddau sylfaen drwy golegau addysg bellach. Ddoe, crybwyllodd y byddai yn fuan yn cyhoeddi ei gynllun i ehangu graddau sylfaen yng Nghymru, yn rhan o'r strategaeth 'Er Mwyn ein Dyfodol'. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pryd y mae'n bwriadu gwneud datganiad ynghylch graddau sylfaen, ac a wnaiff roi manylion y gefnogaeth ychwanegol y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ei rhoi i golegau addysg bellach i'w galluogi i gyflwyno cyrsiau addysg uwch?

Leighton Andrews: Gwnaf hynny'n fuan,

the statement.

Nerys Evans: Cafwyd llawer o drafod a chynnwrf ers eich datganiad ddoe am addysg uwch. A allwch gadarnhau unwaith eto, yn dilyn y datganiad am addysg uwch, nad bwriad Llywodraeth Cymru yw canoli addysg uwch a bod Llywodraeth Cymru am weld parhad i'r ystod eang o leoliadau daearyddol sydd ar gael i dderbyn addysg uwch? A wnewch hefyd gadarnhau na fydd hyn yn lleihau dewisiadau myfyrwyr, a bod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ehangu mynediad yn parhau?

Leighton Andrews: I agree completely, Nerys. We have a dispersed higher education system across Wales, and we will continue to have a dispersed set of locations and entry points. The proposal that the Higher Education Funding Council for Wales published on its website yesterday was that 75 per cent of higher education institutions in Wales should be above the UK median by 2013, not 100 per cent. So clearly, there is flexibility within the context of that strategy.

Jenny Randerson: Minister, you made clear yesterday your priorities for higher education and some of your comments were very critical. I am absolutely sure that higher education is far from being beyond criticism, but critical comments of that nature are in danger of talking down universities in Wales. Yesterday, I raised with you the success of the University of Wales Institute, Cardiff, and you said that you were always happy to congratulate universities. Will you therefore congratulate Welsh universities in general? The national student survey found that students studying in Wales are more satisfied than their counterparts in England. Does that not suggest to you that the picture may not be as bad as you painted it yesterday?

Leighton Andrews: I did not paint a bad picture yesterday. I pointed out that we were a net importer of students in Wales, and that that indicated great success among our higher education institutions in attracting students to Wales. In fact, I have already congratulated

pan fyddaf yn gwneud y datganiad.

Nerys Evans: There has been a great deal of discussion and excitement since your statement yesterday on higher education. Can you confirm once again, following the statement on higher education, that it is not the Welsh Government's intention to centralise higher education and that the Welsh Government wants higher education to continue to be delivered in a wide variety of geographical locations? Will you also confirm that this will not reduce the options available to students, and that the Welsh Government's commitment to widening access continues?

Leighton Andrews: Yr wyf yn cytuno'n llwyr, Nerys. Mae gennym system addysg uwch wasgaredig ar draws Cymru, a byddwn yn parhau i gynnal cyfres wasgaredig o bwyntiau mynediad a lleoliadau. Y cynnig a gyhoeddwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ddoe ar ei wefan oedd y dylai 75 y cant o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru fod uwchlaw canolrif y DU erbyn 2013, nid 100 y cant. Felly, mae'n amlwg bod hyblygrwydd yng nghyd-destun y strategaeth honno.

Jenny Randerson: Weinidog, bu ichi egluro eich blaenoriaethau ar gyfer addysg uwch ddoe, ac yr oedd rhai o'ch sylwadau yn feiriadol iawn. Yr wyf yn hollol siŵr bod addysg uwch ymhell o fod y tu hwnt i feiriadaeth, ond mae perygl i sylwadau beiriadol o'r fath ddibrisio prifysgolion yng Nghymru. Ddoe, tynnais eich sylw at lwyddiant Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd, a dywedasoeh eich bod bob amser yn barod i longyfarch prifysgolion. Felly, a wnewch chi longyfarch prifysgolion Cymru yn gyffredinol? Yn ôl yr arolwg cenedlaethol o fyfyrwyr, mae myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru yn fwy bodlon na'u cymheiriaid yn Lloegr. Onid yw hynny'n awgrymu ichi nad yw'r darlun cynddrwg, efallai, â'r un a grëwyd gennych ddoe?

Leighton Andrews: Ni chreais ddarlun gwael ddoe. Dywedais fod mwy o fyfyrwyr yn dod i Gymru nag sy'n ei gadael, a bod hynny'n arwydd o lwyddiant mawr ymhlith ein sefydliadau addysg uwch o ran denu myfyrwyr i Gymru. Mewn gwirionedd, yr

universities in Wales on their success in the national student survey. I also, in my recent lecture at Cardiff University, outlined in some detail the successful research that is being undertaken in Welsh universities. However, we still punch below our weight in terms of research council income, and we are still not achieving the significant contribution to the Welsh economy that we believe our higher education institutions can achieve. I am also interested in the comments that I have seen overnight from such individuals as Sir Adrian Webb, chair of the Wales Employment and Skills Board, who welcomed the announcement that we made yesterday. Indeed, the only dissenting voice in the entire Chamber yesterday, Jenny, was yours.

Jenny Randerson: That is the point of ministerial scrutiny, Minister. I pursue the issue that Nerys raised earlier, which relates to what happens when universities collaborate and merge. I am sure that you are not intending to reduce the number of locations, but, as I pointed out to you yesterday, universities have a great deal of autonomy in how they do things. As a result, once they have merged, it will be very much in their hands—in a world in which you envisage much less competition—as to in how many locations they operate. Will you ensure that there are mechanisms in place that do not allow the new, larger universities to make savings by reducing their number of locations, or will it be left up to them to decide?

Leighton Andrews: As you pointed out yesterday, universities are autonomous institutions. However, we can influence their overall decision making through the Higher Education Funding Council for Wales and the detailed advice that we give in our remit letter. I do not think that university institutions in Wales will face less competition in the future; they may face less competition within Wales, but the higher education sector is extraordinarily competitive. There is competition from other institutions in the UK and from global institutions. In a time when more and more

wyf eisoes wedi llongyfarch prifysgolion Cymru ar eu llwyddiant yn yr arolwg cenedlaethol o fyfyrwyr. Yn ogystal, yn fy narlith ddiweddar ym Mhrifysgol Caerdydd, nodais yn fanwl iawn y gwaith ymchwil llwyddiannus sy'n cael ei gyflawni ym mhrifysgolion Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn cystadlu â'r goreuon o ran incwm gan gynghorau ymchwil, ac nid ydym yn sicrhau'r cyfraniad sylweddol i economi Cymru y credwn y gall ein sefydliadau addysg uwch ei sicrhau. Mae gennyf ddi-ddordeb hefyd yn y sylwadau yr wyf wedi'u gweld dros nos gan unigolion megis Syr Adrian Webb, cadeirydd Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, a groesawodd y cyhoeddiad a wnaethom ddoe. Yn wir, yr unig lais anghytún yn y Siambr gyfan ddoe, Jenny, oedd eich llais chi.

Jenny Randerson: Dyna ddiben craffu ar weinidogion, Weinidog. Yr wyf am fynd ar drywydd y mater a godwyd gan Nerys yn gynharach, sy'n ymwneud â'r hyn sy'n digwydd pan fydd prifysgolion yn cydweithredu ac yn uno. Yr wyf yn siŵr nad yw'n fwriad gennych leihau nifer y lleoliadau, ond, fel y dywedais wrthyh ddoe, mae gan brifysgolion lawer o ymreolaeth o ran y modd y byddant yn gwneud pethau. O ganlyniad, pan fyddant wedi uno, nhw fydd yn penderfynu i raddau helaeth iawn—mewn byd lle'r ydych yn rhagweld llawer llai o gystadleuaeth—faint o leoliadau y byddant yn gweithredu ynddynt. A wnewch chi sicrhau bod systemau ar waith sy'n rhwystro prifysgolion newydd, mwy o faint, rhag gwneud arbedion drwy leihau nifer y lleoliadau sydd ganddynt, ynteu ai nhw fydd yn cael penderfynu hynny?

Leighton Andrews: Fel y dywedasoeh ddoe, mae prifysgolion yn sefydliadau ymreolaethol. Fodd bynnag, gallwn ddylanwadu ar eu prosesau gwneud penderfyniadau cyffredinol drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a'r cyngor manwl a roddwn yn ein llythyr cylch gwaith. Nid wyf yn credu y bydd sefydliadau prifysgol yng Nghymru yn wynebu llai o gystadleuaeth yn y dyfodol; efallai y byddant yn wynebu llai o gystadleuaeth yng Nghymru, ond mae'r sector addysg uwch yn gystadleuol tu hwnt. Ceir cystadleuaeth gan sefydliadau eraill yn y DU a chan sefydliadau

resources are being put online—we saw yesterday that the Open University has now scored a record number of downloads on iTunes of its lectures—there will be competition across the piece. That is why we need a smaller number of stronger and better-resourced higher education institutions in Wales. That is not just my policy or the policy of the Assembly Government and its Cabinet, but the policy that has been pursued through the Assembly for some time, and it is the policy that has been endorsed, on an all-party basis, by successive committees, including by the Audit Committee in recommendations made just last year that argued for greater collaboration between higher education institutions in Wales.

ar draws y byd. Ar adeg pan fo mwyfwy o adnoddau'n cael eu darparu ar-lein—gwelsom ddoe fod y Brifysgol Agored bellach wedi gweld y nifer uchaf erioed o lawrlwythiadau o'i darlithoedd ar iTunes—bydd cystadleuaeth yn beth cyffredin. Dyna pam mae arnom angen nifer llai o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, sy'n gryfach ac sydd â gwell adnoddau. Nid fy mholisi i'n unig yw hwnnw, neu bolisi Llywodraeth y Cynulliad a'i chabinet. Dyna'r polisi y mae'r Cynulliad wedi'i ddilyn ers cryn amser, ac mae'n bolisi sydd wedi'i gymeradwyo, ar draws pob plaid, gan y naill bwyllgor ar ôl y llall, gan gynnwys y Pwyllgor Archwilio mewn argymhellion a wnaed mor ddiweddar â'r llynedd, a oedd yn dadlau o blaid mwy o gydweithredu rhwng sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

2.40 p.m.

Departmental Budget

Q2 Darren Millar: Will the Minister make a statement on his departmental budget? OAQ(3)1446(CEL)

Leighton Andrews: The departmental budget for 2010-11 was approved by the Assembly in December. It stands at just over £2 billion, which is a slight increase on the previous year. In addition, the majority of funding to support local authority provision to schools and other educational services is provided through the revenue support grant.

Darren Millar: As a result of Gordon Brown's mismanagement of public finances, this institution will face a cut in its budget next year. Do you agree that you need to look carefully at your budget over the next 12 months, and that gimmicks such as free breakfasts should be scrapped, because they are a waste of taxpayers' money, and because parents should be giving their children breakfast, not teachers?

Leighton Andrews: We will be protecting the budget for free school breakfasts.

Gareth Jones: Mae Darren Millar newydd

Cyllideb Adrannol

C2 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllideb ei adran? OAQ(3)1446(CEL)

Leighton Andrews: Cymeradwyodd y Cynulliad gyllideb yr adran ar gyfer 2010-11 ym mis Rhagfyr. Cyfanswm y gyllideb yw ychydig dros £2 biliwn, sydd ychydig yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, darperir y rhan fwyaf o'r cyllid i gefnogi darpariaeth awdurdodau lleol i ysgolion a gwasanaethau addysgol eraill drwy'r grant cynnal refeniw.

Darren Millar: O ganlyniad i'r modd y cafodd arian cyhoeddus ei gamreoli gan Gordon Brown, bydd y sefydliad hwn yn wynebu toriad yn ei gyllideb y flwyddyn nesaf. A ydych yn cytuno bod angen ichi edrych yn ofalus ar eich cyllideb dros y 12 mis nesaf, ac y dylid cael gwared ar gimics megis brecwast am ddim, am eu bod yn gwastraffu arian y trethdalwyr ac am mai'r rhieni ddylai fod yn rhoi brecwast i'w plant, ac nid athrawon?

Leighton Andrews: Byddwn yn gwarchod y gyllideb ar gyfer brecwast am ddim mewn ysgolion.

Gareth Jones: Darren Millar has just

gyfeirio at fygythiad y fwyell sydd uwch ein pennau—bwyell y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol sy'n debygol o ddisgyn ar wariant cyhoeddus yng Nghymru yn yr hydref. Ni wyddom faint na graddfa'r toriadau hyn. Ymhellach i hynny, mae cyllid i ysgolion Cymru yn seiliedig ar niferoedd cyfnewidiol disgyblion—dyna'r system a gyflwynwyd gan y Torïaid beth amser yn ôl. Pa gynlluniau sydd gennych, felly, i ariannu ein hysgolion mewn dull mwy cyson, symlach a haws ei ragweld, sy'n seiliedig ar anghenion y cwricwlwm, fel y gall ysgolion gynllunio ar gyfer y dyfodol a chyflawni'n hyderus y polisiau addysgol rhagorol ac arloesol sydd wrthi'n cael eu cyflwyno fesul cam drwy Gymru ar hyn o bryd?

Leighton Andrews: We fund schools in several ways. Funding is provided through the RSG, and there are also grants for specific items, such as the foundation phase, which, again, we will be seeking to protect, in line with the 'One Wales' agreement. Earlier this year, we announced that we had also put in place regulations to allow three-year budgets for schools. We always look carefully at the budget. That is why one of my first actions was to commission a review by PricewaterhouseCoopers of the cost of administering the education system in Wales. We believe that significantly more funding could be driven to the front line if we and our partners across Wales took a concentrated look at that. The question of school funding is always topical, and there are always issues surrounding that. I intend to look carefully over the summer recess at several of the reports that have been published in recent years—I have already looked at them, but I want to study them again—to see whether, as we move forward, there are new ways in which we can address these issues.

STEM Subjects

Q3 William Graham: Will the Minister outline policies to promote the teaching of STEM subjects—science, technology, engineering and mathematics—in Wales? OAQ(3)1410(CEL)

referred to the threat hanging over our heads of the Conservative and Liberal Democrat axe that is likely to fall on public spending in Wales in the autumn. We do not yet know the size or level of these cuts. Further to that, funding for Welsh schools is based on fluctuating pupil numbers—that is the system introduced by the Tories some time ago. What plans do you have, therefore, to fund our schools via a more consistent, simpler and easier to predict method, based on curriculum requirements, so that schools can plan for the future and implement confidently the excellent and innovative education policies that are being introduced, step by step, throughout Wales at present?

Leighton Andrews: Yr ydym yn ariannu ysgolion mewn sawl ffordd. Darperir cyllid drwy'r grant cynnal refeniw, a cheir grantiau hefyd ar gyfer eitemau penodol, megis y cyfnod sylfaen, ac eto byddwn yn ceisio gwarchod y rheini yn unol â'r cytundeb 'Cymru'n Un'. Yn gynharach eleni, bu inni gyhoeddi ein bod hefyd wedi cyflwyno rheoliadau i ganiatáu cyllidebau tair blynedd i ysgolion. Yr ydym bob amser yn edrych yn ofalus ar y gyllideb. Dyna pam mai comisynu adolygiad gan PricewaterhouseCoopers o gost gweinyddu'r system addysg yng Nghymru oedd un o'r pethau cyntaf a wneuthum. Credwn y gellid cyfeirio mwy o lawer o gyllid at y rheng flaen pe baem ni a'n partneriaid ar draws Cymru yn edrych o ddifrif ar hynny. Mae ariannu ysgolion bob amser yn bwnc amserol, ac mae problemau'n gysylltiedig â'r mater bob amser. Dros doriad yr haf, yr wyf yn bwriadu edrych yn ofalus ar nifer o'r adroddiadau sydd wedi'u cyhoeddi yn ystod y blynyddoedd diwethaf—yr wyf eisoes wedi edrych arnynt, ond yr wyf am eu hastudio eto—er mwyn gweld a oes ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r problemau hyn wrth inni symud ymlaen.

Pynciau STEM

C3 William Graham: A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisiau i hyrwyddo dysgu pynciau STEM—gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg—yng Nghymru? OAQ(3)1410(CEL)

Leighton Andrews: My colleague Lesley Griffiths recently announced the establishment of the National Science Academy for Wales, which will promote the take-up of STEM subjects, from primary education through to higher education. My remit letter to the Higher Education Funding Council for Wales gave clear guidance on STEM subjects. I also met the Chief Scientific Adviser for Wales recently to discuss the issue.

William Graham: A few weeks ago, I had the privilege of hosting a visit from Dark Sky Wales. It is a team that has been set up by the University of Glamorgan's professional education unit to provide astronomy-themed workshop sessions designed to inspire learners and to encourage them to take an interest in science, mathematics and engineering. It is sponsored by EADS Defence and Security UK Ltd, Newport. I am sure that you will agree that that is a good example of private industry and universities trying to encourage students to take these particular subjects, which have never been the easiest ones to study.

Leighton Andrews: I agree. I believe that EADS has been working with St Julian's Comprehensive School in Newport to develop more initiatives around the teaching of mathematics, for example, and encouraging young people to think about mathematics as a future career opportunity. Therefore, I welcome that and any other moves that business partners wish to make in this area.

Jeff Cuthbert: I welcome the fact that William has raised this important subject today; it is an issue very close to my heart. I will focus my supplementary question on its link with the 14-19 learning pathways, which will be one of Labour's finest and most visionary achievements in Wales. However, to ensure that it is welcomed by the education community, we must ensure that vocational subjects are given parity of esteem when offered to learners, and there is no better way to do that with regard to science, technology, engineering and mathematics than by showing how things like mathematics and

Leighton Andrews: Yn ddiweddar, cyhoeddodd fy nghydweithiwr Lesley Griffiths y byddai Academi Wyddoniaeth Genedlaethol Cymru yn cael ei sefydlu, a fydd yn annog disgyblion a myfyrwyr i astudio pynciau STEM, o addysg gynradd i addysg uwch. Cafwyd arweiniad clir ynghylch pynciau STEM yn fy llythyr cylch gwaith i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Cyfarfûm hefyd â Phrif Gyngorydd Gwyddonol Cymru yn ddiweddar i drafod y mater.

William Graham: Rai wythnosau'n ôl, cefais y frainc o groesawu ymweliad gan Awyr Dywyll Cymru. Tîm ydyw a sefydlwyd gan uned addysg broffesiynol Prifysgol Morgannwg i ddarparu gweithdai'n ymwneud â seryddiaeth, y bwriedir iddynt ysbrydoli dysgwyr a'u hannog i ymddiddori mewn gwyddoniaeth, mathemateg a pheirianneg. Caiff ei noddi gan gwmni EADS Defence and Security UK Cyf yng Nghasnewydd. Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod y prosiect yn enghraifft dda o ddiwydiant preifat a phrifysgolion yn ceisio annog myfyrwyr i ddilyn y pynciau penodol hyn, nad ydynt erioed wedi bod ymhlith y pynciau hawsaf i'w hastudio.

Leighton Andrews: Yr wyf yn cytuno. Credaf fod EADS wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Gyfun St Julian yng Nghasnewydd i ddatblygu mwy o fentrau sy'n gysylltiedig ag addysgu mathemateg, er enghraifft, ac annog pobl ifanc i feddwl am fathemateg fel cyfle ar gyfer gyrfa yn y dyfodol. Felly, croesawaf hynny ac unrhyw gamau eraill y mae partneriaid busnes yn dymuno'u cymryd yn y maes hwn.

Jeff Cuthbert: Croesawaf y ffaith i William godi'r pwnc pwysig hwn heddiw; mae'n fater sy'n agos iawn at fy nghalon. Bydd fy nghwestiwn atodol yn canolbwyntio ar y cyswllt rhwng y mater hwn a'r llwybrau dysgu 14-19, a fydd yn un o gyflawniadau gorau a mwyaf ysbrydoledig Llafur yng Nghymru. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei groesawu gan y gymuned addysg, rhaid inni sicrhau bod pynciau galwedigaethol yn cael yr un parch pan gânt eu cynnig i ddysgwyr, ac nid oes ffordd well o wneud hynny yng nghyswllt gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg na drwy

science can link into everyday aspects of life, skills and jobs of the future. Therefore, do you agree that STEM subjects must continue to be at the core of the learning pathways?

Leighton Andrews: Yes, I do. I am delighted that, in the past two years, we have managed to double the number of vocational courses that are being studied from 1,000 to 2,000. That indicates great progress. STEM subjects remain essential to us, but it is equally important that we ensure that basic skills are properly learnt at all stages of the curriculum, which is why, as I mentioned yesterday in the statement on the school effectiveness framework, we are ensuring that literacy and numeracy will be key elements of that framework.

Brian Gibbons: Does the Minister agree that a key way of supporting STEM subjects is to show the exciting and positive career prospects for school pupils if they choose to pursue them? Trade unions are taking a positive attitude through the Wales union learning fund in promoting learning in these areas. However, in many instances, business is not particularly good at promoting career opportunities. Will the Minister commend the good work of Corus in my constituency in making school pupils aware of the value of pursuing STEM subjects?

Leighton Andrews: I will of course pay tribute to the work of Corus, as I did for EADS. Airbus and many other companies are working closely to develop relationships with schools to encourage them to consider STEM subjects, not least in the field of engineering. We want to see that developed across the whole of Wales.

Y Llywydd: Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ(3)1464(CEL), yn ôl.

Future Job Fund

Q5 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on the Future Jobs fund in Wales?

ddangos sut y gall pethau fel mathemateg a gwyddoniaeth gysylltu ag agweddau pob dydd ar fywyd, sgiliau a swyddi'r dyfodol. Felly, a ydych yn cytuno bod yn rhaid i bynciau STEM barhau i fod wrth wraidd y llwybrau dysgu?

Leighton Andrews: Ydw, yr wyf yn cytuno. Yr wyf wrth fy modd ein bod wedi llwyddo, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, i ddyblu nifer y cyrsiau galwedigaethol sy'n cael eu hastudio, o 1,000 i 2,000. Mae hynny'n arwydd o gynnydd mawr. Mae pynciau STEM yn parhau'n hanfodol inni, ond mae'r un mor bwysig inni sicrhau bod sgiliau sylfaenol yn cael eu dysgu'n briodol ym mhob cyfnod yn y cwricwlwm, a dyna pam, fel y crybwyllais ddoe yn y datganiad ar y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, yr ydym yn sicrhau mai llythrennedd a rhifedd fydd elfennau allweddol y fframwaith hwnnw.

Brian Gibbons: A yw'r Gweinidog yn cytuno mai un ffordd allweddol o gefnogi pynciau STEM yw dangos i ddisgyblion ysgol y posibiladau cyffrous a chadarnhaol o ran gyrfa a allai fod ganddynt wrth ddewis dilyn y pynciau hynny? Mae undebau llafur yn mabwysiadu agwedd gadarnhaol at hyrwyddo gwaith dysgu yn y meysydd hyn, drwy gronfa ddysgu undebau Cymru. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, nid yw byd busnes yn dda iawn am hyrwyddo cyfleoedd o ran gyrfa. A wnaiff y Gweinidog gymeradwyo gwaith da Corus yn fy etholaeth i o ran sicrhau bod disgyblion ysgol yn ymwybodol o werth dilyn pynciau STEM?

Leighton Andrews: Talaf deyrnged wrth gwrs i waith Corus, fel y gwneuthum i EADS. Mae Airbus a llawer o gwmnïau eraill yn gweithio'n agos i ddatblygu perthynas ag ysgolion i'w hannog i ystyried pynciau STEM, yn enwedig ym maes peirianeg. Yr ydym am weld hynny'n cael ei ddatblygu ar draws Cymru gyfan.

The Presiding Officer: Question 4, OAQ(3)1464(CEL), is withdrawn.

Cronfa Swyddi'r Dyfodol

C5 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gronfa Swyddi'r Dyfodol yng

OAQ(3)1455(CEL)

Leighton Andrews: I am pleased with the success of our 28 Future Jobs fund projects in Wales and disappointed by the recent decision by the Department for Work and Pensions to close the fund.

Lynne Neagle: As this morning's leaked Treasury report in *The Guardian* revealed, the true cost of the Tory-Liberal Democrat 'scorched earth' budget could be the loss of 1.3 million jobs across the UK over the next five years. That is a truly terrifying prospect, particularly for those young people who have already been hit hard by the down-turn and who must often bear the brunt of job losses and reduced employment opportunities on leaving full-time education. By offering young people who are out of work for more than 26 weeks paid job placements, the Future Jobs fund showed that Labour was willing to invest in the future of our young people, helping them to get a foothold on the employment ladder, rather than consigning them to the scrapheap like the Tory Governments of the past.

Do you agree, Minister, that by slashing the Future Jobs fund and gambling with 1.3 million jobs, for the sake of cutting faster and deeper than is necessary, we run the risk of destroying the future of a whole generation of young people in this country? Could you look at whether there is anything more that the Assembly Government could be doing to plug the gap left by the removal of the fund, despite the limited resources available to us?

Leighton Andrews: I completely agree with you, Lynne. It is deeply disappointing to see the cuts in the Future Jobs fund. We have had 28 Future Job funds projects in Wales, with the potential to create approximately 10,500 jobs and attract around £60 million-worth of funding to Wales. In your constituency of Torfaen, there is a successful Future Jobs fund project up and running as part of the wider Heads of the Valleys programme, which successfully bid to create more than 800 jobs in the first bidding round of the

Nghymru? OAQ(3)1455(CEL)

Leighton Andrews: Yr wyf yn falch o lwyddiant y 28 o brosiectau sydd gennym yng Nghymru dan gronfa Swyddi'r Dyfodol, ac yr wyf yn siomedig â phenderfyniad diweddar yr Adran Gwaith a Phensiynau i gau'r gronfa honno.

Lynne Neagle: Fel y mae adroddiad y Trysorlys, y datgelwyd ei fanylion ym mhapur newydd *The Guardian* y bore yma, yn dangos, gallai gwir gost cyllideb tir llosg y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol olygu y bydd 1.3 miliwn o swyddi'n cael eu colli ar draws y DU dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r posibilrwydd hwnnw'n wirioneddol ddychrynlyd, yn enwedig i'r bobl ifanc hynny sydd eisoes wedi dioddef yn fawr yn sgîl y dirywiad, ac sy'n aml yn gorfod dioddef waethaf yn sgîl achosion o golli swyddi a llai o gyfleoedd gwaith wrth iddynt adael addysg amser llawn. Drwy gynnig lleoliadau gwaith gyda thâl i bobl ifanc sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod sy'n hwy na 26 wythnos, yr oedd cronfa Swyddi'r Dyfodol yn dangos bod y Blaid Lafur yn barod i fuddsoddi yn nyfodol ein pobl ifanc, drwy eu helpu i gael eu swydd gyntaf, yn hytrach na'u taflu ar y domen fel y gwnaeth Llywodraethau Toriaidd y gorffennol.

Drwy dorri cronfa Swyddi'r Dyfodol a pheryglu 1.3 miliwn o swyddi, er mwyn torri'n gynt ac yn ddyfnach nag y mae angen, a ydych yn cytuno, Weinidog, bod perygl inni dministrio dyfodol cenhedlaeth gyfan o bobl ifanc yn y wlad hon? A allech ystyried a oes unrhyw beth arall y gallai Llywodraeth y Cynulliad fod yn ei wneud, er gwaetha'r adnoddau prin sydd ar gael inni, i lenwi'r bwlch y bydd dileu'r gronfa hon yn ei adael?

Leighton Andrews: Yr wyf yn cytuno'n llwyr â chi, Lynne. Mae'n siomedig tu hwnt gweld y toriadau i gronfa Swyddi'r Dyfodol. Yr ydym wedi cael 28 o brosiectau yng Nghymru dan gronfa Swyddi'r Dyfodol, gyda'r potensial i greu oddeutu 10,500 o swyddi a denu gwerth oddeutu £60 miliwn o gyllid i Gymru. Yn eich etholaeth chi, sef Tor-faen, mae prosiect llwyddiannus wedi'i sefydlu dan gronfa Swyddi'r Dyfodol, yn rhan o raglen ehangach Blaenau'r Cymoedd, a gyflwynodd gais llwyddiannus i greu dros

fund. We have our own initiatives, such as SkillBuild, supported by European funding, but it is important to underline that it is not our job to plug the gap when the DWP imposes cuts in programmes. It is for the DWP to replace those programmes with programmes that provide proper resourcing to help young people into jobs in Wales.

2.50 p.m.

Nick Ramsay: I listened carefully to what Lynne Neagle said and I agree that the Future Jobs fund was a great idea, but do you agree, Minister, that it is a great shame that that fund has had to be cut as a result of the total inability of the former Labour Government to effectively manage the economy of this country over a period of 13 years, which has resulted in the position that we are in now? Would you also agree, Minister, that the funding gap—*[Interruption.]*

The Presiding Officer: Order. I have noted a tendency to shout about the implications of the United Kingdom Government's budget on the Assembly. I would prefer it if this discussion were conducted rationally, because, clearly, until the autumn statement the effects are unknown. It is a very suitable subject for debate, but I would like to hear debate, and I would like to hear questions and supplementary questions, so that I can follow the debate. Shouting does not provide sweetness or light.

Nick Ramsay: Minister, the £100 million gap between the funding for higher education in Wales and that in England continues to be a real problem for people who will want to find jobs in the future, because if the funding is not in place at that level the opportunities will not be there later. If your Government is not plugging the gap caused by the DWP, what are you doing to plug the funding gap of £100 million, which continues to be a real problem for students here?

Leighton Andrews: The previous UK

800 o swyddi yn y rownd gyntaf o geisiadau i'r gronfa. Mae gennym ein mentrau ein hunain, megis Adeiladu Sgiliau, a gefnogir gan gyllid Ewropeaidd, ond mae'n bwysig pwysleisio nad ein gwaith ni yw llenwi'r bwlch pan fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn cyflwyno toriadau i raglenni. Cyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau yw cyflwyno rhaglenni newydd yn lle'r rhaglenni a dorrir, gan ddarparu adnoddau priodol i helpu pobl ifanc yng Nghymru i gael swyddi.

Nick Ramsay: Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a oedd gan Lynne Neagle i'w ddweud, a chytunaf fod cronfa Swyddi'r Dyfodol yn syniad gwych, ond a ydych yn cytuno, Weinidog, ei bod yn drueni mawr bod y gronfa honno wedi gorfod cael ei thorri o ganlyniad i anallu llwyr y Llywodraeth Lafur flaenorol i reoli economi'r wlad hon yn effeithiol dros gyfnod o 13 blynedd, sydd wedi arwain at y sefyllfa yr ydym ynddi yn awr? A fydddech hefyd yn cytuno, Weinidog, bod y bwlch ariannu—*[Torri ar draws.]*

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf wedi sylwi bod tuedd i bobl weiddi am oblygiadau cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r Cynulliad. Byddai'n well gennyf pe bai'r drafodaeth hon yn cael ei chynnal mewn modd rhesymegol, gan ei bod yn amlwg na fydd yr effeithiau'n hysbys nes ceir y datganiad yn yr hydref. Mae'n bwnc addas iawn i'w drafod, ond hoffwn glywed y ddadl, a hoffwn glywed cwestiynau a chwestiynau atodol, fel y gallaf ddilyn y ddadl. Nid yw gweiddi yn ffordd hynaws o ymddwyn.

Nick Ramsay: Weinidog, mae'r bwlch o £100 miliwn rhwng y cyllid a ddarperir ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a'r cyllid a ddarperir yn Lloegr yn broblem wirioneddol o hyd i bobl a fydd am ddod o hyd i swyddi yn y dyfodol, oherwydd os nad yw'r cyllid ar gael ar y lefel honno, ni fydd y cyfleoedd ar gael yn ddiweddarach. Os nad yw eich Llywodraeth yn llenwi'r bwlch a achoswyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, beth yr ydych yn ei wneud i lenwi'r bwlch ariannu o £100 miliwn, sy'n dal i fod yn broblem wirioneddol i fyfyrwyr yn y fan hon?

Leighton Andrews: Yr oedd Llywodraeth

Government had taken action to reduce the deficit while keeping the Future Jobs fund—that is the difference between the previous UK Government and the current one.

In respect of the allegations of a funding gap between Wales and England in higher education, let me point out to the Member that, if you add together the money that we invest through the Higher Education Funding Council for Wales in the higher education institutions and the money that we put into student support, it is hard to detect any funding gap between Wales and England. The most recent estimate was certainly not in the order of £100 million, even if you look at only the funding of higher education institutions. The last figure was about £66 million, comprising £33 million of revenue and £33 million of capital. Nobody from that side of the Chamber has yet been able to tell me what the cuts that have been announced over the last six months to the funding of higher education in England would mean, and whether there is indeed still any funding gap.

School Funding

Q6 Lynne Neagle: Will the Minister provide an update on school funding in Wales? OAQ(3)1452(CEL)

Leighton Andrews: Overall, local authorities in Wales have increased their education budgets in 2010-11 by 3.2 per cent. We have also invested significantly in initiatives such as the foundation phase.

Lynne Neagle: Thank you for that answer, Minister. I congratulate you on the work that you have undertaken in this area since your appointment. The review that you commissioned into the cost of administering education in Wales is a valuable piece of analysis, and I am sure that we would all agree that increasing the proportion of funding that goes to the front line will be vital against the backdrop of the cuts that we face. As you are aware, Minister, there is significant variation between local authorities in the amount that they spend on school children per head. That variation is a result of local decision making, and could become

flaenorol y DU wedi cymryd camau i leihau'r diffyg gan gadw cronfa Swyddi'r Dyfodol—dyna'r gwahaniaeth rhwng Llywodraeth flaenorol y DU a'r Llywodraeth bresennol.

O ran yr honiadau o fwllch ariannu rhwng Cymru a Lloegr ym maes addysg uwch, gadewch imi ddweud wrth yr Aelod, pe baech yn ychwanegu'r arian yr ydym yn ei fuddsoddi yn y sefydliadau addysg uwch, drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a'r arian yr ydym yn ei roi i gymorth i fyfyrwyr, mae'n anodd gweld unrhyw fwllch ariannu rhwng Cymru a Lloegr. Yn sicr, nid oedd yr amcangyfrif mwyaf diweddar yn agos at £100 miliwn, hyd yn oed pe baech yn ystyried y cyllid a roddir i sefydliadau addysg uwch yn unig. Tua £66 miliwn oedd y ffigur diwethaf, a oedd yn cynnwys £33 miliwn o refeniw a £33 miliwn o gyfalaf. Nid oes neb o'r ochr acw i'r Siambr wedi gallu dweud wrthyf eto beth y byddai'r toriadau sydd wedi'u cyhoeddi dros y chwe mis diwethaf i gyllid addysg uwch yn Lloegr yn eu golygu, ac a oes unrhyw fwllch ariannu o hyd mewn gwirionedd.

Ariannu Ysgolion

C6 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ariannu ysgolion yng Nghymru? OAQ(3)1452(CEL)

Leighton Andrews: At ei gilydd, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cynyddu eu cyllidebau addysg 3.2 y cant yn 2010-11. Yr ydym hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn mentrau megis y cyfnod sylfaen.

Lynne Neagle: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn eich llongyfarch ar y gwaith yr ydych wedi'i wneud yn y maes hwn ers ichi gael eich penodi. Mae'r adolygiad a gomisiynwyd gennych o gost gweinyddu addysg yng Nghymru yn ddadansoddiad gwerthfawr, ac yr wyf yn siŵr y byddai pob un ohonom yn cytuno y bydd cynyddu cyfran y cyllid sy'n mynd i'r rheng flaen yn hanfodol o ystyried y toriadau yr ydym yn eu hwynebu. Fel y gwyddoch, Weinidog, mae'r swm y mae awdurdodau lleol yn ei wario fesul plentyn ysgol yn amrywio'n sylweddol. Mae hynny o ganlyniad i benderfyniadau a wneir yn lleol, a

worse as a result of spending pressures brought about by planned cuts by the Tory-Liberal Democrat Government. What plans do you have to address this issue and to ensure a fair deal for all Welsh schoolchildren?

Leighton Andrews: I am grateful to the Member for her comments about the PricewaterhouseCoopers review of the cost of administering the education system in Wales. We are now starting to work on the implementation side of that, with a delivery board that will oversee the implementation of the actions that should flow from trying to address the cost of administration. School funding, whatever formula is used, is always difficult. The current formula is largely pupil-based, and there are variations in it in respect of deprivation and sparsity. We have to be careful, when making adjustments to it, that we do not set up further difficulties for local authorities. However, I am convinced that, through more effective collaboration between local authorities, we can free up more resources for the front line.

Public expenditure cuts that are over and above what we were expecting have been imposed on us already. We are still working through the implications of those, and when we publish the Assembly's draft budget in the autumn, things will be clearer as to the actions that we have taken. School funding is an issue that I am keeping under review, and I will be looking at it again over the summer recess.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Minister, the funding that local authorities get to provide educational services for young people comes, as you rightly say, through the revenue support grant, but also through specific special grants from your department, which usually run for three years and are then subsumed into the revenue support grant. However, those grants often have two different formulae for allocating resources and councils can be in the position of seeing a significant drop in the notional amount of money available for a specific project when

gallai waethygu o ganlyniad i bwysau ar wariant, a achosir gan doriadau arfaethedig gan Lywodraeth y Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol. Pa gynlluniau sydd gennych i fynd i'r afael â'r broblem hon, a sicrhau chwarae teg i holl blant ysgol Cymru?

Leighton Andrews: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ei sylwadau ar yr adolygiad a gynhaliwyd gan PricewaterhouseCoopers o gost gweinyddu'r system addysg yng Nghymru. Yr ydym yn dechrau gweithio'n awr ar yr agwedd sy'n ymwneud â gweithredu, gyda bwrdd cyflawni a fydd yn goruchwyllo'r gwaith o weithredu'r camau a ddylai ddeillio o geisio mynd i'r afael â chost gweinyddu. Mae cyllid i ysgolion bob amser yn fater anodd, ni waeth pa fformiwla a ddefnyddir. Mae'r fformiwla bresennol yn seiliedig i raddau helaeth ar nifer y disgyblion, a cheir amrywiadau yn y fformiwla ar gyfer amddifadedd ac ardaloedd prin eu poblogaeth. Rhaid inni ofalu, wrth addasu'r fformiwla, nad ydym yn creu mwy o anawsterau i awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yr wyf yn argyhoeddedig y gallwn ryddhau mwy o adnoddau ar gyfer y rheng flaen, drwy gael cydweithredu mwy effeithiol rhwng awdurdodau lleol.

Mae toriadau ar wariant cyhoeddus, sy'n fwy na'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl, eisoes wedi'u gorfodi arnom. Yr ydym yn dal i ystyried goblygiadau'r toriadau hynny, a phan fyddwn yn cyhoeddi cyllideb ddrafft y Cynulliad yn yr hydref, bydd pethau'n gliriach o ran y camau yr ydym wedi'u cymryd. Mae ariannu ysgolion yn fater yr wyf yn cadw golwg arno, a byddaf yn ailedrych arno yn ystod toriad yr haf.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Weinidog, mae'r cyllid a gaiff awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau addysgol i bobl ifanc yn dod, fel y dywedasoch yn gywir ddigon, o'r grant cynnal refeniw, ond hefyd drwy grantiau arbennig penodol gan eich adran, sy'n rhedeg am gyfnod o dair blynedd fel rheol cyn cael eu cynnwys yn y grant cynnal refeniw. Fodd bynnag, yn aml, mae gan y grantiau hynny ddwy fformiwla wahanol ar gyfer dyrannu adnoddau, a gall cynghorau fod mewn sefyllfa lle gwelant ostyngiad sylweddol yn y swm tybiannol o arian sydd ar gael ar gyfer

that money moves from the special grant to the revenue support grant. For example, in my constituency, we have seen the money available to fund places for three-year-olds drop significantly since the ending of the special grant and its rolling into the revenue support grant.

Mention has been made of this previously in the Chamber in discussions on reports by the Finance Committee. When you look at implementing some of the work arising from your review, will you look at how these difficulties can arise when there is a shift from the special grant to the revenue support grant? Will that be looked at to avoid some of the difficult situations that some local authorities find themselves in?

Leighton Andrews: I am not sure whether you are inviting me to say that I am looking at hypothecation in terms of educational spending, although that would always be an option for the Assembly Government. The concern that I currently have, and I have discussed it with the Minister for Social Justice and Local Government and others, is that, where we provide funding for education through the RSG, it is quite clear that not every local authority is using that money for education. Indeed, some use the money, notionally provided to them to fund education, to support social services or other services. That causes considerable concern among parents, headteachers and teachers around Wales and is clearly something that we will have to reflect on.

Andrew Davies: I am grateful for your earlier response to Lynne Neagle and your response to Kirsty Williams because I am concerned about funding for my local authority. The point that you made about the diversion of funds intended for education is one well made. I am concerned, having spoken to headteachers in my constituency, about the cuts that the Liberal-Democrat-led administration in Swansea has made. It is the only local authority in Wales that has cut its education spending. For example, the funding per pupil in secondary schools has decreased from £4,040 to £4,024 and funding per pupil

prosiect penodol pan fydd yr arian hwnnw'n symud o'r grant arbennig i'r grant cynnal refeniw. Er enghraifft, yn fy etholaeth i, yr ydym wedi gweld yr arian sydd ar gael i ariannu lleoedd ar gyfer plant tair oed yn gostwng yn sylweddol ers i'r grant arbennig ddod i ben ac ers iddo gael ei gynnwys yn y grant cynnal refeniw.

Cyfeiriwyd at hyn o'r blaen yn y Siambr, yn ystod trafodaethau ar adroddiadau gan y Pwyllgor Cyllid. Pan fyddwch yn ystyried gweithredu rhywfaint o'r gwaith sy'n deillio o'ch adolygiad, a wnewch chi edrych ar sut y gall yr anawsterau hyn godi pan fydd arian yn symud o'r grant arbennig i'r grant cynnal refeniw? A fyddwch yn edrych ar hynny er mwyn osgoi rhai o'r sefyllfaoedd anodd y mae rhai awdurdodau lleol yn eu hwynebu?

Leighton Andrews: Nid wyf yn siŵr a ydych yn fy ngwahodd i ddweud fy mod yn ystyried neilltuo arian o safbwynt gwariant ar addysg, er y byddai hynny bob amser yn opsiwn i Lywodraeth y Cynulliad. Fy mhryder ar hyn o bryd, ac yr wyf wedi'i drafod â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a phobl eraill, yw ei bod yn eithaf amlwg, lle'r ydym yn darparu cyllid ar gyfer addysg drwy'r grant cynnal refeniw, nad yw pob awdurdod lleol yn defnyddio'r arian hwnnw ar gyfer addysg. Yn wir, mae rhai ohonynt yn defnyddio'r arian, a ddarparwyd yn dybiannol er mwyn ariannu addysg, i gefnogi gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau eraill. Mae hynny'n peri pryder sylweddol i rieni, penaethiaid ac athrawon ledled Cymru, ac mae'n amlwg yn rhywbeth y bydd yn rhaid inni fyfyrion yn ei gylch.

Andrew Davies: Yr wyf yn ddiolchgar am eich ymateb cynharach i Lynne Neagle a'ch ymateb i Kirsty Williams, oherwydd yr wyf yn pryderu am gyllid ar gyfer fy awdurdod lleol. Mae'r pwynt a wnaethoch ynghylch y ffaith bod arian a fwriadwyd ar gyfer addysg yn cael ei ddargyfeirio yn bwynt da. Yr wyf yn pryderu, o siarad â phenaethiaid yn fy etholaeth, am y toriadau a wnaed gan y weinyddiaeth a arweinir gan y Democratiaid Rhyddfrydol yn Abertawe. Dyma'r unig awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi torri ei wariant ar addysg. Er enghraifft, mae'r cyllid y pen mewn ysgolion uwchradd wedi

in primary schools has decreased from £3,205 to £3,187. Those figures are significantly below those of the neighbouring local authority of Neath Port Talbot. It has done that because of its complete incompetence and mismanagement of the child and family social services, which, two years ago, was already spending £105 per child more than the Welsh average. It put an extra £6.4 million into children's services and social services and the result is that school budgets are now being slashed across my constituency and the constituencies of my colleagues Val Lloyd and Edwina Hart.

gostwng o £4,040 i £4,024, ac mae'r cyllid y pen mewn ysgolion cynradd wedi gostwng o £3,205 i £3,187. Mae'r ffigurau hynny'n sylweddol is na'r ffigurau yng Nghastell-nedd Port Talbot, yr awdurdod lleol cyfagos. Mae'r awdurdod yn Abertawe wedi gwneud hynny oherwydd y camreoli a'r blerwch llwyr a welwyd ganddo yng nghyswllt gwasanaethau cymdeithasol i blant a theuluoedd, a oedd eisoes, ddwy flynedd yn ôl, yn gwario £105 y plentyn yn fwy na chyfartaledd Cymru. Rhoddodd yr awdurdod £6.4 miliwn ychwanegol i wasanaethau plant a gwasanaethau cymdeithasol, a chanlyniad hynny yw bod cyllidebau ysgolion yn awr yn cael eu torri ar draws fy etholaeth, ac etholaethau fy nghyd-Aelodau Val Lloyd ac Edwina Hart.

I understand that you have written to the local authority, asking for its response. Have you had a response? In my experience, it takes a long time to respond, if ever, to letters. However, what has been its response and what are your comments on its funding policy?

Deallaf eich bod wedi ysgrifennu at yr awdurdod lleol yn gofyn am ei ymateb. A ydych wedi cael ymateb? O'm profiad i, mae'r awdurdod yn cymryd amser hir i ymateb i lythyrau, os yw'n ymateb o gwbl. Fodd bynnag, beth fu ei ymateb, a beth yw eich sylwadau ar ei bolisi ariannu?

Leighton Andrews: You are right that I wrote to the local authority in question and you are also right about the length of time it takes to respond, because the response took some time to arrive. I asked for an explanation of the funding that it had put in place. It gave an explanation and I am perfectly happy to share its response with you.

Leighton Andrews: Yr ydych yn iawn wrth ddweud imi ysgrifennu at yr awdurdod lleol dan sylw, ac yr ydych hefyd yn iawn ynghylch yr amser a gymer i ymateb, oherwydd cymerodd yr ymateb gryn amser i gyrraedd. Gofynnais am esboniad ynghylch y cyllid yr oedd wedi'i ddarparu. Cefais esboniad ganddo, ac yr wyf yn fwy na pharod i rannu ei ymateb â chi.

Rhodri Glyn Thomas: Yng nghyd-destun ariannu ysgolion, mae'n fwriad gan Gyngor Sir Caerfyrddin i adeiladu ysgol newydd yn nyffryn Tywi i wasanaethu anghenion addysg uwchradd yn y dyffryn hwnnw. A allwch fy sicrhau'r prynhawn yma fod arian ar gael i gynorthwyo Cyngor Sir Caerfyrddin i adeiladu'r ysgol newydd hon yn ardal Ffair-fach?

Rhodri Glyn Thomas: In the context of school funding, Carmarthenshire County Council intends to build a new school in the Tywi valley to meet the secondary school needs of that valley. Can you assure me this afternoon that money will be available to assist Carmarthenshire County Council to build this new school in the Ffair-fach area?

Leighton Andrews: Carmarthenshire submitted an application for funding for the project in May 2009 and the authority's strategic outline case was given approval in principle. We allocated £1.1 million to assist the authority to take forward the programme to a stage where it could make a further business case submission. It has now

Leighton Andrews: Cyflwynodd sir Gaerfyrddin gais am gyllid ar gyfer y prosiect ym mis Mai 2009, a chafodd achos amlinellol strategol yr awdurdod ei gymeradwyo mewn egwyddor. Dyrannwyd £1.1 filiwn gennym i gynorthwyo'r awdurdod i fynd â'r rhaglen yn ei blaen i gam lle gallai gyflwyno achos busnes arall. Mae bellach wedi cyflwyno'i

submitted its outline business case for assessment and that is being considered by officials.

achos busnes amlinellol i'w asesu, ac mae hwnnw'n cael ei ystyried gan swyddogion.

3.00 p.m.

Prisoner Education

Q7 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on prisoner education in Welsh prisons? OAQ(3)1429(CEL)

Leighton Andrews: We are committed to improving the literacy and numeracy skills of offenders and ensuring that they have the essential skills to take up employment and maintain their employability in the labour market. This should, in turn, reduce reoffending rates.

Leanne Wood: I am sure that you will be concerned to hear that research recently carried out by my office has found that spending on education in the three state-run Welsh prisons has gone down by 7 per cent according to the latest figures. In this era of cuts, I am concerned that prisoner education may be viewed as an easy target for making savings, which would be a retrograde step, because education can offer a way out of the downward spiral that leads to further offending and a life without employment. What steps can you take to ensure that prisoners in Wales have access to a decent standard of education while they are inside, and will you make representations to the Ministry of Justice to ensure that that can happen?

Leighton Andrews: As you will be aware, there is a complicated situation regarding the funding of education in prisons. We do provide some additional funding, but funding also comes through the National Offender Management Service. I would be happy to respond in more detail on the issues that you raise, if you want to write me about them.

Brynle Williams: Good afternoon, Minister. Given the benefits of rehabilitating, training and educating offenders who are serving their sentence in a prison that is close to the support of their families, and given the particular needs of Welsh-speaking prisoners,

Addysgu Carcharorion

C7 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg i garcharorion yng ngharchardai Cymru? OAQ(3)1429(CEL)

Leighton Andrews: Yr ydym yn ymrwymedig i wella llythrennedd a rhifedd troseddwyr a sicrhau bod ganddynt y sgiliau hanfodol i ennill a chadw swydd yn y farchnad lafur. Dylai hyn gyfrannu at leihau cyfraddau aildroseddu.

Leanne Wood: Yr wyf yn siŵr y byddwch yn pryderu o glywed bod ymchwil a gynhaliwyd gan fy swyddfa yn ddiweddar wedi darganfod bod gwariant ar addysg yn y tri charchar gwladol sydd yng Nghymru wedi gostwng 7 y cant yn ôl y ffigurau diweddaraf. Yn y cyfnod hwn o doriadau, yr wyf yn pryderu y gallai addysg i garcharorion gael ei hystyried yn darged hawdd ar gyfer gwneud arbedion, a fyddai'n gam am yn ôl, oherwydd gall addysg gynnig ffordd allan o'r patrwm o anawsterau cynyddol sy'n arwain at droseddu pellach a bywyd heb waith. Pa gamau y gallwch eu cymryd i sicrhau bod gan garcharorion yng Nghymru fynediad i addysg o safon foddhaol tra byddant yn y carchar, ac a wnewch chi gyflwyno sylwadau i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod hynny'n gallu digwydd?

Leighton Andrews: Fel y gwyddoch, mae ariannu addysg mewn carchardai yn sefyllfa gymhleth. Yr ydym yn darparu rhywfaint o gyllid ychwanegol, ond mae cyllid hefyd yn dod drwy'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Byddwn yn barod i roi ymateb manylach i'r materion a godwch, os hoffech ysgrifennu ataf yn eu cylch.

Brynle Williams: Prynawn da, Weinidog. O ystyried manteision adsefydlu, hyfforddi ac addysgu troseddwyr sy'n treulio eu tymor mewn carchar sy'n agos i gefnogaeth eu teuluoedd, ac o ystyried anghenion penodol carcharorion sy'n siarad Cymraeg, a allwch

can you provide an assurance that you and your Cabinet colleagues remain committed to the new prison in north Wales, and that no effort is being spared to secure this development and the new jobs that it would bring with it during its construction and operation? Do you agree that the proposed site at St Asaph, given its proximity to the A55, would be an excellent location for this north Wales prison?

Leighton Andrews: The Member has done a very good job of publicising his position in respect of his preferred site for a new prison in north Wales. As he will appreciate, responsibility for that issue does not lie with me; it lies with my colleague the Minister for Social Justice and Local Government. I hope that the Member is able to exercise influence on his colleagues in London in that regard. I noticed that there seems to be some disagreement between one of the Member's colleagues here and the new Secretary of State for Justice on the new prisons policy that the Secretary of State announced earlier today. We look forward to him clarifying his party's positions on these matters.

Eleanor Burnham: Leanne mentioned education and perhaps the lack of it. Given that the transfer of functions Order conferred responsibility for the education of offenders to Welsh Ministers, I want to know what is happening and why there have not been many more improvements. We know from the conclusions of many pieces of research that prisoners who do not take part in education are three times more likely to be reconvicted than those who do. UK figures for 2009 show that half of all prisoners have a reading age lower than that of an 11-year-old, and that 80 per cent have a writing age lower than that of an 11-year-old. We know that there are problems because many prisoners are given short sentences and cannot therefore continue some of the courses, but the Prison Reform Trust has highlighted a lot of these difficulties in its 'No One Knows' report. What research or monitoring have you done, Minister, to check on what is happening and whether the transfer of functions with regard to the prison population is having a positive

roi sicrwydd eich bod chi a'ch cyd-Weinidogion wedi ymrwymo o hyd i gael carchar newydd yn y gogledd, ac y gwneir pob ymdrech i sicrhau'r datblygiad hwn a'r swyddi newydd a fyddai'n dod yn sgîl y gwaith o'i adeiladu a'i redeg? A ydych yn cytuno y byddai'r safle a gynigir yn Llanelwy yn lleoliad ardderchog ar gyfer y carchar hwn yn y gogledd, o ystyried ei fod yn agos i'r A55?

Leighton Andrews: Mae'r Aelod wedi tynnu sylw'n dda iawn at ei safbwynt ynghylch y safle y mae'n ei ffafrio ar gyfer carchar newydd yn y gogledd. Fel y bydd yn sylweddoli, nid fi sy'n gyfrifol am y mater hwnnw; fy nghydweithiwr y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol sy'n gyfrifol amdano. Gobeithiaf y bydd yr Aelod yn gallu dylanwadu ar ei gydweithwyr yn Llundain i'r perwyl hwnnw. Sylwais ei bod yn ymddangos bod rhywfaint o anghytuno rhwng un o gydweithwyr yr Aelod yn y fan hon a'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Gyfiawnder ynghylch y polisi newydd ar garchardai a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn gynharach heddiw. Edrychwn ymlaen at ei glywed yn egluro safbwyntiau ei blaid ar y materion hyn.

Eleanor Burnham: Cyfeiriodd Leanne at addysg, a diffyg addysg efallai. Gan fod y Gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau wedi rhoi cyfrifoldeb i Weinidogion Cymru am ddarparu addysg i droseddwr, yr wyf am wybod beth sy'n digwydd a pham na chafwyd llawer mwy o welliannau. Gwyddom o gasgliadau llawer o ymchwil fod carcharorion nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg deirgwaith yn fwy tebygol o gael eu dyfarnu'n euog o droseddau pellach na'r rheini sy'n cymryd rhan mewn addysg. Mae ffigurau ar lefel y DU ar gyfer 2009 yn dangos bod oedran darllen hanner yr holl garcharorion yn is nag oedran darllen plentyn 11 oed, a bod oedran ysgrifennu 80 y cant ohonynt yn is nag oedran ysgrifennu plentyn 11 oed. Gwyddom fod problemau oherwydd bod llawer o garcharorion yn cael dedfrydau byr, ac na allant, felly, barhau â rhai o'r cyrsiau, ond mae'r Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai wedi tynnu sylw at lawer o'r anawsterau hyn yn ei adroddiad 'No One Knows'. Pa waith ymchwil neu fonitro yr

effect?

Leighton Andrews: Since the transfer of functions Order, we have set key performance indicators and targets within the memorandum of understanding that we have with NOMS Cymru. We have also established mechanisms for learning and skills managers in prisons to have access to our resources to improve the quality of services that are delivered. We made an investment during the financial year 2009-10 of £3.5 million to support the provision of learning and skills for adult offenders, with most of that money coming from the resource transfer from the UK Government. We have also funded basic skills co-ordinators in each probation area of Wales. So, we have made significant funding available. At the same time, the Ministry of Justice has a contract with Her Majesty's Prison and Young Offenders Institution Parc. We have also provided additional funding in that area. We have been doing what we should have been doing under the new arrangements, and we have been giving support to it. If Members wish to raise specific issues, as I said to Leanne Wood, I would be happy to respond to those.

Strategaeth Addysg Gymraeg

C8 David Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth addysg Gymraeg? OAQ(3)1406(CEL)

Leighton Andrews: Mae'r gwaith o weithredu'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar y gweill. Bydd cynnydd yn erbyn y targedau a osodwyd o fewn y strategaeth yn cael ei fonitro'n ofalus. Cynhelir cynhadledd wedi ei threfnu ar y cyd gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 8 Gorffennaf i drafod ei gweithredu gyda rhanddeiliaid.

David Lloyd: Diolch yn fawr am yr ateb hwnnw, Weinidog. Pa drafodaethau a ydych yn eu cynnal gydag awdurdodau lleol unigol

ydych wedi'i wneud, Weinidog, ar yr hyn sy'n digwydd, i weld a yw trosglwyddo swyddogaethau yng nghyswllt y bobl sydd mewn carchardai yn cael effaith gadarnhaol?

Leighton Andrews: Ers y Gorchymyn trosglwyddo swyddogaethau, yr ydym wedi pennu dangosyddion perfformiad a thargedau allweddol yn y memorandwm cydddealltwriaeth sydd gennym â NOMS Cymru. Yr ydym hefyd wedi sefydlu systemau er mwyn i reolwyr dysgu a sgiliau mewn carchardai gael mynediad i'n hadnoddau er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Buddsoddwyd £3.5 miliwn gennym yn ystod blwyddyn ariannol 2009-10 i gefnogi'r gwaith o gynnig darpariaeth dysgu a sgiliau i oedolion sy'n troseddu, gyda'r rhan fwyaf o'r arian hwnnw'n dod o'r adnoddau a drosglwyddwyd o Lywodraeth y DU. Yr ydym hefyd wedi ariannu cydgysylltwyr sgiliau sylfaenol ym mhob ardal brawf yng Nghymru. Felly, yr ydym wedi darparu cyllid sylweddol. Ar yr un pryd, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder gontract gyda Charchar Ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc. Yr ydym hefyd wedi darparu cyllid ychwanegol yn y maes hwnnw. Yr ydym wedi bod yn gwneud yr hyn y dylem fod yn ei wneud dan y trefniadau newydd, ac yr ydym wedi bod yn rhoi cefnogaeth i hynny. Os yw'r Aelodau'n dymuno codi materion penodol, byddwn yn fodlon ymateb i'r rheini, fel y dywedais wrth Leanne Wood.

Welsh-medium Education Strategy

Q8 David Lloyd: Will the Minister make a statement on the Welsh-medium education strategy? OAQ(3)1406(CEL)

Leighton Andrews: Work on implementing the Welsh-medium education strategy is under way. Progress against targets set within the strategy will be closely monitored. A conference organised in conjunction with the Welsh Language Board will be held on 8 July to discuss its implementation with stakeholders.

David Lloyd: Thanks for that answer, Minister. What discussions are you holding with individual local authorities in Wales to

yng Nghymru i sicrhau eu bod yn ymateb yn ddigonol i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg?

Leighton Andrews: Mae fy swyddogion wedi dechrau trafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sut y gall yr adran gydweithio gyda hwy i wella'r gwaith o gynllunio'r ddarpariaeth. Yr ydym yn meddwl am greu uned gefnogaeth i helpu awdurdodau lleol i weithio fel consortiwm, er enghraifft.

Paul Davies: Gwnaethoch ddatganiad ddoe, Weinidog, ynglŷn â'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion. Yr wyf yn siŵr y byddech yn cytuno ei bod yn hollbwysig fod y fframwaith yn cynnwys anghenion ysgolion sydd yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, mae'n bwysig fod y fframwaith yn cydnabod anghenion ysgolion gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. A wnaiff y Gweinidog esbonio sut y bydd strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth yn gweithio gyda'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion er mwyn sicrhau ein bod yn gweld addysg cyfrwng Cymraeg yn ehangu, yn enwedig yn yr ardaloedd lle mae angen?

Leighton Andrews: I realised as you were asking that question that I did not know the Welsh for 'aligned with', so I had better answer in English.

As I tried to explain yesterday, we have tried to ensure throughout the policy that we have developed on the school effectiveness framework that it works with all the other policies in the department. It is important that our officials work on a cross-departmental basis as we develop new approaches. The school effectiveness framework is about a way of doing business. It is not a new initiative; it is a way that we will carry on doing things in the future. It means that it has to work in alignment with our Welsh-medium education strategy. Officials who support and deliver that strategy have to work with those who are delivering the school effectiveness framework.

Priorities

ensure that they respond adequately to the increasing demand for Welsh-medium education?

Leighton Andrews: My officials have begun discussing with the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Education in Wales how the department can work with them to improve the planning of provision. We are thinking about creating a support unit to assist local authorities with working as consortia, for example.

Paul Davies: You made a statement yesterday, Minister, about the school effectiveness framework. I am sure that you would agree that it is vital that the framework includes the needs of schools that teach through the medium of Welsh. Therefore, it is important that the framework acknowledges the needs of different schools in different areas. Will the Minister explain how the Government's Welsh-medium education strategy will be aligned with the school effectiveness framework to ensure that we see Welsh-medium education expanding, particularly in the areas of need?

Leighton Andrews: Sylweddolais, wrth ichi ofyn y cwestiwn, nad oeddwn yn gwybod sut i ddweud 'aligned with' yn Gymraeg, felly, byddai'n well imi ateb yn Saesneg.

Fel y ceisiais egluro ddoe, yr ydym wedi ceisio sicrhau, drwy'r holl bolisi yr ydym wedi'i ddatblygu ar y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, ei fod yn gweithio gyda holl bolisiau eraill yr adran. Mae'n bwysig bod ein swyddogion yn gweithio ar draws adrannau wrth inni ddatblygu dulliau gweithredu newydd. Mae a wnelo'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion â ffordd o gyflawni busnes. Nid menter newydd mohono; mae'n ffordd y byddwn yn parhau i wneud pethau yn y dyfodol. Golyga hynny fod yn rhaid iddo weithio ochr yn ochr â'n strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Rhaid i swyddogion sy'n cefnogi ac yn gweithredu'r strategaeth honno weithio gyda'r sawl sy'n gweithredu'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion.

Blaenoriaethau

Q9 Mohammad Asghar: Will the Minister outline his priorities for education in South Wales East? OAQ(3)1415(CEL)

Leighton Andrews: The Assembly Government's priorities remain as set out in 'One Wales', with additional measures in response to the economic downturn. I have also made it clear that I want more funding to reach the education front line by freeing up resources, as highlighted in the review of administering the education system.

Mohammad Asghar: Minister, recent figures have shown that children across South Wales East secured the strongest key stage 1 and key stage 2 results in core subjects of any of Wales's five electoral regions. Well done. While that is a source of pride, it is also worrying to note the rapid decline when comparing South Wales East's achievements in the core subjects at key stage 3 with those in the rest of Wales. Minister, South Wales East has some terrific secondary schools, such as St Julian's Comprehensive School in Newport, whose headteacher, Stephen Marshall, recently picked up Wales's secondary headteacher of the year award in Cardiff. However, there are clearly difficulties as children make the big step up from primary to secondary education. Will the Minister outline what steps he is taking and any discussions that he has had to address potential problems of pupil disengagement in our schools, particularly as children move between key stage 2 and key stage 3?

3.10 p.m.

Leighton Andrews: I also offer my congratulations to the headteacher, Stephen Marshall, on winning that award. We know that there is an issue across Wales in terms of the dip in performance between key stage 2 and key stage 3 and we are seeking to challenge that in a number of ways. As you will be aware, I have outlined the need for a national literacy plan from the ages of seven

C9 Mohammad Asghar: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer addysg yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)1415(CEL)

Leighton Andrews: Mae blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad yn dal yr un fath â'r rhai a nodwyd yn 'Cymru'n Un', gyda mesurau ychwanegol i ymateb i'r dirywiad economaidd. Yr wyf hefyd wedi egluro fy mod am weld rhagor o gyllid yn cyrraedd rheng flaen addysg drwy ryddhau adnoddau, fel y pwysleisiwyd yn yr adolygiad o gost gweinyddu'r system addysg.

Mohammad Asghar: Weindog, mae ffigurau diweddar wedi dangos mai plant ar draws Dwyrain De Cymru a gafodd y canlyniadau gorau mewn pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, o blith pum rhanbarth etholiadol Cymru. Da iawn. Er bod hynny'n destun balchder, mae hefyd yn destun pryder nodi'r dirywiad cyflym wrth gymharu cyflawniadau Dwyrain De Cymru yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 3 â chyflawniadau gweddill Cymru. Weindog, mae gan Ddwyrain De Cymru rai ysgolion uwchradd ardderchog, megis Ysgol Gyfun St Julian yng Nghasnewydd, yr enillodd ei phennaeth, Stephen Marshall, wobwr yng Nghaerdydd yn ddiweddar, sef gwobr pennaeth uwchradd gorau'r flwyddyn Cymru. Fodd bynnag, mae'n amlwg y ceir anawsterau wrth i blant gymryd y cam mawr o addysg gynradd i addysg uwchradd. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gamau y mae'n eu cymryd a pha drafodaethau y mae wedi'u cael i fynd i'r afael â phroblemau posibl sy'n gysylltiedig â disgyblion yn ymddieithrio yn ein hysgolion, yn enwedig wrth i blant symud o gyfnod allweddol 2 i 3?

Leighton Andrews: Yr wyf innau'n llongyfarch y pennaeth, Stephen Marshall, ar ennill y wobwr honno. Gwyddom fod dirywiad mewn perfformiad rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 yn broblem ar draws Cymru, ac yr ydym yn ceisio herio hynny mewn nifer o ffyrdd. Fel y gwyddoch, yr wyf wedi amlinellu'r angen am gynllun llythrennedd cenedlaethol ar gyfer plant

to 11. I hope that that will help to boost the numbers of young people who have the required reading ages when they reach secondary school. That should contribute to combating disengagement in the early years of secondary school, and it is something on which we need to follow through.

It is also interesting, as we go around Wales, to see examples of good practice emerging, whereby secondary school teachers are learning from the examples set by primary school teachers in the ways in which they deploy their classroom resources and organise their classrooms. I have seen very good examples of that at Newport High School, to cite another school in South Wales East. I know that these issues are very much on the agendas of headteachers in primary and secondary schools, and they are seeking to work together to address transitional issues.

Jeff Cuthbert: Minister, as you know, I work closely with The College Ystrad Mynach in my constituency, and I am keen to promote greater collaboration between the college and local secondary schools, with particular reference to the implementation of the 14-19 learning pathways. However, the college tells me that the number of schools taking part in these links is still too low. It says that, despite efforts to offer a wider range of work under our very own Learning and Skills (Wales) Measure 2009, the range of vocational subjects being taken up in the Caerphilly area remains fairly limited. Minister, will you continue to work with The College Ystrad Mynach and the local education authority to ensure that the spirit of our Measure is fulfilled and to ensure effective collaborative working?

Leighton Andrews: Yes. The reality is that delivering the Measure will require collaboration between a number of institutions. I have seen examples of secondary schools managing to deliver, in some cases, all of the obligations under the Measure, but others have to send pupils to other institutions. Often, there are very good

rhwng saith ac 11 oed. Gobeithiaf y bydd hynny'n helpu i gynyddu nifer y bobl ifanc sydd â'r oedran darllen gofynnol erbyn iddynt gyrraedd yr ysgol uwchradd. Dylai hynny gyfrannu at fynd i'r afael ag ymddieithrio yn ystod y blynyddoedd cyntaf mewn ysgol uwchradd, ac mae'n rhywbeth y mae angen inni fynd ar ei drywydd ymhellach.

Wrth inni fynd o amgylch Cymru, mae hefyd yn ddiddorol gweld enghreifftiau o arfer da'n dod i'r amlwg, lle mae athrawon ysgolion uwchradd yn dysgu o'r esiampl a osodir gan athrawon ysgolion cynradd o ran y modd y maent yn trefnu eu hystafelloedd dosbarth a'r modd y maent yn defnyddio adnoddau eu hystafelloedd dosbarth. Yr wyf wedi gweld enghreifftiau da iawn o hynny yn Ysgol Uwchradd Casnewydd, a chyfeirio at ysgol arall yn Nwyrain De Cymru. Gwn fod y problemau hyn yn amlwg iawn ar agendâu penaethiaid mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac maent yn ceisio cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau pontio.

Jeff Cuthbert: Weinidog, fel y gwyddoch, yr wyf yn gweithio'n agos gyda Choleg Ystrad Mynach yn fy etholaeth, ac yr wyf yn awyddus i hyrwyddo mwy o gydweithredu rhwng y coleg ac ysgolion uwchradd lleol, gan gyfeirio'n benodol at weithredu'r llwybrau dysgu 14-19. Fodd bynnag, dywed y coleg wrthyf fod nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y cysylltiadau hyn yn rhy isel o hyd. Er gwaethaf ymdrechion i gynnig ystod ehangach o waith dan ein mesur ni ein hunain, sef Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, dywed fod ystod y pynciau galwedigaethol a gaiff eu hastudio yn ardal Caerffili yn parhau'n weddol gyfyngedig. Weinidog, a wnewch chi barhau i weithio gyda Choleg Ystrad Mynach a'r awdurdod addysg lleol i sicrhau bod ysbryd ein Mesur yn cael ei wireddu, a sicrhau bod cydweithredu effeithiol yn digwydd?

Leighton Andrews: Gwnaf. Y gwir amdani yw y bydd angen cydweithredu rhwng nifer o sefydliadau er mwyn gwireddu'r Mesur. Yr wyf wedi gweld enghreifftiau o ysgolion uwchradd yn llwyddo, mewn rhai achosion, i gyflawni'r holl rwymedigaethau dan y Mesur, ond mae eraill yn gorfod anfon disgyblion i sefydliadau eraill. Yn aml, ceir

exchanges taking place between institutions, where one delivers one course and then sends its students to another institution for a different course. People are being creative and imaginative in implementing those initiatives, and it is very important that that process continues. We particularly want, as you said in an earlier intervention, to boost the numbers of those who have the opportunity to study vocational courses, which was one of the big imperatives behind the Measure in the first place.

enghreifftiau da iawn o gyfnewid rhwng sefydliadau, lle mae un sefydliad yn darparu un cwrs ac yna'n anfon ei fyfyrwyr i sefydliad arall i ddilyn cwrs arall. Mae pobl yn greadigol ac yn ddychmygus yn y modd y maent yn gweithredu'r mentrau hynny, ac mae'n bwysig iawn bod y broses honno'n parhau. Fel yr ydych eisoes wedi dweud, yr ydym am gynyddu, yn benodol, nifer y rheini sy'n cael cyfle i astudio cyrsiau galwedigaethol, sef un o'r elfennau hollbwysig a oedd yn sail i'r Mesur yn y lle cyntaf.

School Reorganisation Proposals

Q10 Chris Franks: Will the Minister make a statement on school reorganisation proposals in South Wales Central? OAQ(3)1423(CEL)

Leighton Andrews: In common with local authorities in every other part of Wales, local authorities in South Wales Central are expected to review continuously their existing school provision and bring forward proposals for change where they believe it is appropriate.

Chris Franks: What recent discussions have you had regarding school reorganisation in Cardiff and Rhondda Cynon Taf? There is widespread concern about the future of children's education not only in Cardiff, but in RCT, where the council—as I am sure that you are aware—has threatened to close successful sixth forms. There has also been a Welsh Government forecast of a rise in the Cardiff population. What impact will this have on school intake in the future? What help has been provided by your officials to resolve outstanding education issues in Cardiff? Would you also comment on the collapse of the policy on tackling surplus school places?

Leighton Andrews: The policy of tackling surplus school places is essential, and it is essential that the policy is carried out by local authorities across Wales. We will continue to drive that policy forward. In respect of RCT, as a constituency Member, I have had

Cynigion i Ad-drefnu Ysgolion

C10 Chris Franks: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynigion i ad-drefnu ysgolion yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1423(CEL)

Leighton Andrews: Yn yr un modd ag awdurdodau lleol ym mhob rhan arall o Gymru, mae disgwyl i awdurdodau lleol yng Nghanol De Cymru adolygu'n barhaus eu darpariaeth bresennol o ran ysgolion a chyflwyno cynigion ar gyfer newid os ydynt yn credu bod hynny'n briodol.

Chris Franks: Pa drafodaethau diweddar yr ydych wedi'u cael ynghylch ad-drefnu ysgolion yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf? Ceir pryder helaeth am ddyfodol addysg plant nid yn unig yng Nghaerdydd, ond yn Rhondda Cynon Taf hefyd, lle mae'r cyngor—fel y gwyddoch yr wyf yn siŵr—wedi bygwth cau dosbarthiadau chwech llwyddiannus. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi rhagweld y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu. Pa effaith y bydd hynny'n ei chael ar nifer y disgyblion a dderbynnir i ysgolion yn y dyfodol? Pa gymorth a ddarparwyd gan eich swyddogion i ddatrys problemau addysg sy'n parhau yng Nghaerdydd? Yn ogystal, a allech wneud sylw ynghylch y modd y mae'r polisi ar fynd i'r afael â lleoedd gwag mewn ysgolion wedi methu?

Leighton Andrews: Mae'r polisi o fynd i'r afael â lleoedd gwag mewn ysgolion yn hanfodol, ac mae'n hanfodol bod y polisi'n cael ei weithredu gan awdurdodau lleol ar draws Cymru. Byddwn yn parhau i yrru'r polisi hwnnw yn ei flaen. O ran Rhondda

representations on that issue. It would be inappropriate for me, however, to comment on proposals that may subsequently come to me or—in the case of RCT—to other Welsh Ministers for determination. With regard to Cardiff Council, while Cardiff councillors threaten in the pages of the *South Wales Echo* to seek a judicial review, it is difficult for dialogue to take place on those issues.

Andrew R.T. Davies: Thank you for that answer, Minister. The last part might preclude the offer of assistance made by the First Minister in his statement about Treganna school in Canton. He said that he would instruct Welsh Assembly Government officials to liaise with Cardiff city council to try to map out a way forward or offer what assistance they could to the local authority. I visited the school on Monday. I would be grateful if you could indicate whether that assistance has yet been given to Cardiff Council and whether it has taken up the First Minister's offer for your officials to work with it to try to find a solution? Following that, will there be a dialogue with the school and the governing body to keep them in the loop so that they understand what assistance has been afforded the local authority to move forward and find a solution?

Leighton Andrews: My officials talk to officers of Cardiff county council all the time. For instance, they recently had cause to talk to officers regarding the statutory notice that they had incorrectly issued in respect of Whitchurch High School. However, as I have said, while Cardiff councillors threaten judicial review through the pages of the *South Wales Echo*, it is difficult for there to be a dialogue in respect of the other issue.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Gweinidog am ei atebion. Symudwn yn awr at fusnes y Cynulliad.

Cynon Taf, fel Aelod etholaethol, mae sylwadau wedi'u cyflwyno imi am y mater hwnnw. Fodd bynnag, byddai'n amhriodol imi wneud sylw ar gynigion y gallai fod yn rhaid i mi neu—yn achos Rhondda Cynon Taf—Weinidogion eraill Cymru benderfynu yn eu cylch. O ran Cyngor Caerdydd, mae'n anodd cael trafodaeth ynghylch y materion hynny tra bydd bygythiadau gan gynghorwyr Caerdydd ynghylch ceisio adolygiad barnwrol yn ymddangos ar dudalennau'r *South Wales Echo*.

Andrew R.T. Davies: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae'n bosibl bod y rhan olaf yn hepgor y cymorth a gynigiwyd gan y Prif Weinidog yn ei ddatganiad am ysgol Treganna. Dywedodd y byddai'n gofyn i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad drafod â chyngor dinas Caerdydd er mwyn ceisio dod o hyd i ffordd ymlaen neu gynnig pa gymorth bynnag a allent i'r awdurdod lleol. Ymwelais â'r ysgol ddydd Llun. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud a yw'r cymorth hwnnw wedi'i roi i Gyngor Caerdydd eto, ac a yw wedi derbyn cynnig y Prif Weinidog i'ch swyddogion weithio gydag ef i geisio dod o hyd i ateb? Yn dilyn hynny, a fydd trafodaeth yn cael ei chynnal â'r ysgol a'r corff llywodraethu i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â hwy, er mwyn iddynt ddeall pa gymorth sydd wedi'i roi i'r awdurdod lleol er mwyn symud y mater yn ei flaen a dod o hyd i ateb?

Leighton Andrews: Mae fy swyddogion yn siarad â chyngor dinas Caerdydd drwy'r amser. Er enghraifft, yn ddiweddar, cawsant reswm i siarad â'i swyddogion ynghylch yr hysbysiad statudol a gyhoeddwyd yn anghywir ganddynt ynghylch Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd. Fodd bynnag, fel y dywedais, mae'n anodd cael trafodaeth ynghylch y mater arall tra bydd cynghorwyr Caerdydd yn defnyddio tudalennau'r *South Wales Echo* i fygwth adolygiad barnwrol.

The Presiding Officer: I thank the Minister for his answers. We now come to Assembly business.

**Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant—
'Cyfiawnder Ieuenctid: Profiad Plant Cymru mewn Sefydliadau Diogel'**

**The Communities and Culture Committee's Report—
'Youth Justice: The Experience of Welsh Children in the Secure Estate'**

Sandy Mewies: I move that

the National Assembly for Wales:

notes the report of the Communities and Culture Committee, 'Youth Justice: The Experience of Welsh children in the Secure Estate', laid in the Table Office on 24 February 2010. (NDM4503)

I am pleased to open this debate today on the Communities and Culture Committee's inquiry, 'Youth Justice: The Experience of Welsh Children in the Secure Estate'. Improving the youth justice system and the experiences of Welsh children in the secure estate is in all our interests. The justice system serves many purposes, including punishment, deterrence, containment of potential threats to the public and rehabilitation.

Throughout this inquiry, the committee was mindful of the fact that victims should be at the top of our agenda, especially given their natural desire to stop what happened to them happening to others. A key role of the youth justice system has to be to prevent further offending, and part of the solution is to recognise that juvenile offenders are children first and offenders second. By the way, the committee did not believe that Wales should become a soft touch for juvenile offenders, but it realised that ignoring the underlying causes of why these young people have committed crimes will not help any of us in the long run.

The evidence taken in this inquiry exposed the fact that 90 per cent of young offenders have previously been lured into drug abuse, 60 per cent have speech, language and communication difficulties, 43 per cent have emotional and mental health needs, 33 per cent of girls in the secure estate have previously been victims of physical and sexual abuse, and 37 per cent have spent time in the care of social services because of problems at home. Those are grim statistics. When high-profile crimes occur, it can be

Sandy Mewies: Cynigaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Ceir stereoteipiau niferus o droseddwr ifanc sy'n gwybod sut i fanteisio ar y system ac anwybyddu i raddau helaeth yr hyn a ddywedir wrthynt. Mae'r realiti yn fwy cymhleth, gyda llawer o droseddwr ifanc yn dioddef o afiechyd meddwl. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau cydbwysedd rhwng sicrhau bod pobl sydd wedi cyflawni troseddau'n cael eu cadw'n briodol, a chynnig cyfle i droseddwr ifanc gael eu hadsefydlu. Yn y Siambr, yr ydym wedi ymrwymo i lynu wrth egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n rhoi hawliau pobl ifanc yn gyntaf. Rhaid inni gynnig cyfle i droseddwr ifanc ailymdoddi i'r gymdeithas. Felly, yr wyf yn cefnogi argymhelliad 17 yr adroddiad yn arbennig, am ei fod yn mynd i'r afael ag iechyd meddwl troseddwr ifanc.

Un o'm prif bryderon yn y maes hwn yw'r hyn sy'n digwydd i droseddwr ifanc pan fydd yn cyrraedd 18 oed. Mae'r gwasanaeth carchardai'n darparu llety diogel i bobl ifanc hyd at 17 oed, ac ar ôl hynny cânt eu rhoi mewn sefydliad troseddwr ifanc, nad yw'n wahanol iawn i fywyd mewn carchar i oedolion—ar wahân i Hillside, wrth gwrs. Mae'r polisi hwn yn mynd yn groes i bolisi Llywodraeth y Cynulliad o ymestyn hawliau, sy'n ystyried person ifanc yn unigolyn dan 25 oed. Yn aml, ni fydd troseddwr ifanc yn barod ac ni fydd ganddynt y sgiliau cywir i ymdopi â newid o'r fath. Bydd hynny'n rhoi unigolion sydd eisoes yn agored i niwed mewn amgylchedd hynod o heriol—sefyllfa sy'n annhebygol o wella'u hiechyd na'u proses adsefydlu. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n amlwg yn annheg asesu addasrwydd

for their surroundings according to their chronological age as opposed to their mental age. Specially trained staff should be employed to gauge a young offender's ability to adapt to new, more challenging surroundings, otherwise there exists a danger that all the work to rehabilitate that person will be negated within a matter of weeks.

The report calls for a robust community alternative to custody, and I believe that this would be an extremely effective way of reintroducing young offenders to society. The young offender's relationship with society should be central to Government policy, with reciprocal respect and responsibility key to ensuring rehabilitation and the prevention of crimes being committed. It is often society that lets people down in the first place, and restoring their trust in services and providing opportunities is the most effective way of preventing a young person from turning to crime. Hand in hand with this approach is the provision of skilled and experienced professionals who have an understanding of the rehabilitation of young offenders. Such staff should be available to young offenders at each stage of their time within the secure estate, and during their rehabilitation and reintroduction to society. I am glad that this report explicitly recognises this as a key component of a successful system and I sincerely hope that the Government continues to pay close attention to this area.

I will close by saying that it is important that we strike a balance between keeping young offenders safe from themselves and keeping society safe from them. The most effective way of achieving this is to provide relevant services, such as mental health services, while a young person is being detained and to address their needs once they are released. These have to include housing, finding employment and, if applicable, an extension of mental health services. If an offender is released and returns to either poor or no accommodation, as is often the case, or has no employment prospects, the chances of rehabilitation are greatly reduced. It is imperative that a policy that properly addresses the conditions of a young offender

unigolyn i'w amgylchedd yn ôl ei oedran cronolegol yn hytrach na'i oedran meddyliol. Dylid defnyddio staff sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig i fesur gallu troseddwr ifanc i addasu i amgylchedd newydd, mwy heriol. Fel arall, mae perygl y bydd yr holl waith i adsefydlu'r unigolyn hwnnw'n cael ei ddadwneud mewn ychydig wythnosau.

Mae'r adroddiad yn galw am drefniant cadarn i gadw unigolyn yn y gymuned yn hytrach na mewn dalfa, a chredaf y byddai hynny'n ffordd hynod effeithiol o ailgyflwyno troseddwr ifanc i'r gymdeithas. Dylai perthynas y troseddwr ifanc â'r gymdeithas fod yn ganolog i bolisi'r Llywodraeth, gyda pharch a chyfrifoldeb gan y naill ochr a'r llall yn allweddol i sicrhau proses adsefydlu lwyddiannus ac atal troseddau rhag cael eu cyflawni. Y gymdeithas sy'n siomi pobl yn y lle cyntaf yn aml, ac adfer eu hyder mewn gwasanaethau a chynnig cyfleoedd iddynt yw'r ffordd fwyaf effeithiol o atal unigolyn ifanc rhag troi at drosedd. Law yn llaw â'r dull hwn o weithredu y mae'r broses o ddarparu gweithwyr proffesiynol medrus a phrofiadol sy'n deall sut mae adsefydlu troseddwr ifanc. Dylai staff o'r fath fod ar gael i droseddwr ifanc yn ystod pob cyfnod o'u tymor mewn sefydliadau diogel, ac wrth iddynt gael eu hadsefydlu a'u hailgyflwyno i'r gymdeithas. Yr wyf yn falch bod yr adroddiad hwn yn cydnabod yn glir bod hynny'n elfen allweddol o system lwyddiannus, ac yr wyf yn gobeithio'n fawr y bydd y Llywodraeth yn parhau i roi sylw manwl i'r maes hwn.

Hoffwn gloi drwy ddweud ei bod yn bwysig inni sicrhau cydbwysedd rhwng diogelu troseddwr ifanc rhagddynt eu hunain a diogelu'r gymdeithas rhagddynt hwy. Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau hynny yw drwy ddarparu gwasanaethau perthnasol, megis gwasanaethau iechyd meddwl, tra caiff unigolyn ifanc ei gadw, a mynd i'r afael â'i anghenion pan gaiff ei ryddhau. Rhaid i'r anghenion hynny gynnwys anghenion o ran tai, dod o hyd i waith ac, os yw'n berthnasol, ymestyn gwasanaethau iechyd meddwl. Os bydd troseddwr, pan gaiff ei ryddhau, yn dychwelyd i lety gwael neu'n ddigartref, fel sy'n aml yn wir, neu os nad oes ganddo obaith cael gwaith, bydd y tebygolrwydd y caiff ei adsefydlu'n lleihau'n sylweddol. Mae

upon release is implemented. That approach provides the best opportunity for achieving what the system should provide, which is a combination of punishment for wrongdoing and rehabilitation upon release. These two objectives should be at the forefront of policy in this area, and are the most likely way that we will achieve reformed characters and, by extension, a safer society.

I thank the committee staff, the Chair and the witnesses for helping us to put together a very valuable report.

Eleanor Burnham: It was a privilege to sit on the committee, and I, like others, thank Janice Gregory, the former Chair, and Sandy, the current Chair. Many of us have a huge interest in this issue. As Members will know, I sat as a magistrate, and also worked with many disaffected youths before I came here. Frankly, as Joyce so eloquently put it, we are letting down an enormous amount of young people. I know that the Deputy Minister for Children is very sincere in his work and wishes to improve the situation.

I do worry about this. I have visited Stoke Heath prison twice. The first time that I went there, I visited in my capacity as a magistrate. On my most recent visit, I felt that it had improved significantly and that there was not the bullying that there was when I had visited it previously.

There are many issues that others have touched upon, and I am pleased that the Government has decided to accept most of the recommendations. I have a concern relating to preventing the incarceration of our youth. Most of those who are incarcerated are male. It is saddening to look at this issue. What has always struck me, and what struck me again, were the points made by speech and language therapists. The therapists are very concerned that there are not enough of them to help when communication first breaks down with many of these youngsters, who, in many respects, are living in a fog. It

o'r pwys mwyaf bod polisi'n cael ei weithredu sy'n mynd i'r afael yn iawn ag amodau troseddwr ifanc pan gaiff ei ryddhau. Mae'r dull hwnnw o weithredu'n cynnig y cyfle gorau i gyflawni'r hyn y dylai'r system ei ddarparu, sef cyfuniad o gosb am gyflawni trosedd a phroses adsefydlu pan gaiff y troseddwr ei ryddhau. Dylai'r ddau amcan dan sylw fod yn arwain polisi yn y maes hwn, a dyma'r amcanion sydd fwyaf tebygol o sicrhau bod unigolion yn newid ac y bydd gennym, o ganlyniad, gymdeithas fwy diogel.

Diolchaf i staff y pwyllgor, y Cadeirydd a'r tystion am ein helpu i lunio adroddiad gwerthfawr iawn.

Eleanor Burnham: Yr oedd yn ffrainc bod yn aelod o'r pwyllgor, ac yr wyf innau, fel pobl eraill, am ddiolch i Janice Gregory, y Cadeirydd blaenorol, a Sandy, y Cadeirydd presennol. Mae gan lawer ohonom ddi-ddordeb enfawr yn y mater hwn. Fel y gŵyr Aelodau, bûm yn ynad a, chyn imi ddod yma, bûm yn gweithio gyda llawer o bobl ifanc a oedd wedi'u dadrithio. A dweud y gwir, fel y dywedodd Joyce mor huawdl, yr ydym yn siomi nifer enfawr o bobl ifanc. Gwn fod y Dirprwy Weinidog dros Blant yn ddiffuant iawn yn ei waith, a'i fod am wella'r sefyllfa.

Byddaf yn poeni am hyn. Yr wyf wedi ymweld â charchar Stoke Heath ddwywaith. Y tro cyntaf imi fynd yno, ymwelais yn rhinwedd fy swydd fel ynad. Yn ystod fy ymweliad diweddaraf, yr oeddwn yn teimlo'i fod wedi gwella'n sylweddol ac nad oedd y bwlio a ddigwyddai yno pan ymwelais o'r blaen yn digwydd yno bellach.

Ceir llawer o faterion y mae pobl eraill wedi sôn amdanynt, ac yr wyf yn falch bod y Llywodraeth wedi penderfynu derbyn mwyafrif yr argymhellion. Yr wyf yn pryderu am y camau a gymerir i atal ein pobl ifanc rhag cael eu carcharu. Gwrywaidd yw mwyafrif y rheini a gaiff eu carcharu. Mae'n ddigalon edrych ar y mater hwn. Yr hyn sydd wedi fy nharo bob tro, a'r hyn a'm trawodd eto, oedd y pwyntiau a wnaed gan therapyddion lleferydd ac iaith. Mae'r therapyddion yn pryderu'n fawr nad oes digon ohonynt i helpu pan fydd prosesau cyfathrebu'n methu am y tro cyntaf yn achos

was pointed out that, even if you present the best possible package in these worthy places to help these youngsters, because they cannot communicate properly, they cannot accept it or process what is going on around them. That is worrying. I hope that the Deputy Minister will look at that issue, because I am not sure that it has been brought out sufficiently. I still have concerns about that aspect. As Sandy said in her opening speech, 60 per cent of these youths have speech and language difficulties.

Much of what I was going to say has been said already. The other issue that I am very concerned about is the revolving door. That is to do with the integration of local community-based networks, of which there are many, and how they feed back to people in the institutions and, likewise, once the young people have been in those institutions, how they can feed back to the networks. I am not making a criticism; it is something that we all see. I chair a group in north Wales called Making Tracks, which helps youngsters, and sometimes older people, who have become caught in this revolving door. Deputy Minister, it would be helpful if you could remind us of how you are going to improve that situation, because many of the comments and one recommendation—I cannot remember whether it is recommendation 13 or 14—surround that. It is not a matter of money; it is a matter of attitude. When secure estates are more closely aligned with Wales, perhaps more time will be available.

I went to Rugby with Mark, which is a long way away, geographically and otherwise. That causes communication difficulties with regard to what is happening to the young people there, because they are so far away from north Wales. In addition, there is the language issue. Many youngsters in my region do not want to, or cannot, speak anything other than Welsh. There is an issue in that regard. I know that in Stoke Heath, which is quite close to the border, provisions are made, but moving youngsters so far away from their culture, let alone their language, poses many difficulties.

llawer o'r bobl ifanc hyn sydd, ar sawl ystyr, yn byw yn y niwl. Hyd yn oed o gyflwyno'r pecyn gorau posibl yn y lleoedd teilwng hyn i helpu'r bobl ifanc dan sylw, nodwyd na allant ei dderbyn na phrosesu'r hyn sy'n digwydd o'u cwmpas am na allant gyfathrebu'n iawn. Mae hynny'n peri pryder. Gobeithiaf y bydd y Dirprwy Weinidog yn edrych ar y mater hwnnw, oherwydd nid wyf yn siŵr a yw wedi cael ei bwysleisio'n ddigonol. Yr wyf yn pryderu o hyd am yr agwedd honno. Fel y dywedodd Sandy yn ei haraith agoriadol, mae gan 60 y cant o'r bobl ifanc hyn anawsterau o ran lleferydd ac iaith.

Mae llawer o'r hyn yr oeddwn yn bwriadu ei ddweud wedi cael ei ddweud eisoes. Y mater arall yr wyf yn pryderu'n fawr amdano yw'r drws tro. Mae'n ymwneud ag integreiddio rhwydweithiau cymunedol lleol, y ceir llawer ohonynt, a'r modd y maent yn bwydo'n ôl i bobl yn y sefydliadau ac, yn yr un modd, pan fydd y bobl ifanc wedi bod yn y sefydliadau hynny, sut y gallant hwy fwydo'n ôl i'r rhwydweithiau. Nid wyf yn beirniadu; mae'n rhywbeth yr ydym i gyd yn ei weld. Yr wyf yn gadeirydd grŵp yn y gogledd o'r enw Making Tracks, sy'n helpu pobl ifanc, a phobl hŷn weithiau, sydd wedi cael eu dal yn y drws tro hwn. Ddirprwy Weinidog, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ein hatgoffa o sut yr ydych yn bwriadu gwella'r sefyllfa honno, oherwydd mae llawer o'r sylwadau ac un argymhelliad—ni allaf gofio ai argymhelliad 13 ynteu 14 ydyw—yn ymwneud â hynny. Nid oes a wnelo ag arian; mae a wnelo ag agwedd. Pan fydd sefydliadau diogel yn cyd-fynd yn agosach â'r sefyllfa yng Nghymru, efallai y bydd mwy o amser ar gael.

Euthum i Rugby gyda Mark, sydd ymhell i ffwrdd, yn ddaearyddol ac fel arall. Mae hynny'n achosi anawsterau cyfathrebu o safbwynt yr hyn sy'n digwydd i'r bobl ifanc yno, gan eu bod mor bell o'r gogledd. Yn ogystal, mae'r broblem o ran iaith. Nid yw llawer o bobl ifanc yn fy rhanbarth i'n dymuno neu'n gallu siarad yr un iaith arall ar wahân i'r Gymraeg. Mae hynny'n broblem. Gwn y darperir ar gyfer hynny yn Stoke Heath, sy'n weddol agos i'r ffin, ond mae symud pobl ifanc mor bell oddi wrth eu diwylliant, heb sôn am eu hiaith, yn creu llawer o anawsterau.

I am grateful to everyone who helped us. It was a very thorough investigation, and it was a salutary and humbling experience to look at the issues and the complexities that these youngsters, who are very vulnerable, have to put up with. Some of the people who work with them were, frankly, awe inspiring. Thank you, Deputy Minister, and thanks to everybody in the committee; I look forward to having even more discussions and positive responses, and to the integration of work on this difficult and ongoing issue.

3.50 p.m.

Bethan Jenkins: Like the other speakers, I thank Sandy Mewies and the team that worked with us on the committee to ensure that this inquiry was a success. I had my eyes opened as did my fellow Members, I am sure, when we visited the prisons and young offender institutions; we visited Hillside Secure Centre and Parc prison in Bridgend to see how these young people are treated. I echo what Sandy said at the beginning, that the most important point arising out of the report is that we sincerely need to look at devolving the youth criminal justice system to Wales. It is not just an ideological point; it is because the priorities of the UK Government are clearly different from those that we are trying to follow in Wales. The UN Convention on the Rights of the Child is enshrined here; we want to put children at the heart of all that we do, and previous UK Governments have been intent on incarcerating young people—I am not sure whether Ken Clarke will change that; time will tell—before fully considering their rights as children. We should all be thinking about that here. We have to acknowledge children's rights.

I feel passionately about devolving youth criminal justice, because we can then look at alternative ways of dealing with offenders, such as restorative justice, which have been trialled in some places in Wales but which are not implemented fully across the length and breadth of the country. I say that also

Yr wyf yn ddiolchgar i bawb a'n helpodd. Yr oedd yn ymchwiliad trylwyr iawn, ac yr oedd edrych ar y materion a'r cymhlethodau y mae'n rhaid i'r bobl ifanc hyn, sy'n agored iawn i niwed, ymdopi â hwy, yn brofiad llesol a'n difrifolodd. Yr oedd rhai o'r bobl sy'n gweithio gyda hwy yn ysbrydoledig, a dweud y gwir. Diolch, Ddirprwy Weinidog, a diolch i bawb ar y pwyllgor. Edrychaf ymlaen at gael hyd yn oed mwy o drafodaethau ac ymatebion cadarnhaol, ac at integreiddio gwaith ar y broblem anodd a pharhaus hon.

Bethan Jenkins: Fel y siaradwyr eraill, diolchaf i Sandy Mewies a'r tîm a fu'n gweithio gyda ni ar y pwyllgor i sicrhau bod yr ymchwiliad hwn yn llwyddiant. Cefais agoriad llygad, yn yr un modd â'm cyd-Aelodau, yr wyf yn siŵr, pan aethom i ymweld â'r carchardai a'r sefydliadau troseddwr ifanc; aethom i ymweld â Chanolfan Ddiogel Hillside a charchar y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr i weld sut y caiff y bobl ifanc hyn eu trin. Hoffwn adleisio'r hyn a ddywedodd Sandy ar y dechrau, sef mai'r pwynt pwysicaf sy'n codi o'r adroddiad yw bod gwir angen inni edrych ar ddatganoli'r system cyfiawnder troseddol ieuencid i Gymru. Nid pwynt ideolegol yn unig mohono; fe'i gwneir oherwydd bod blaenoriaethau Llywodraeth y DU yn amlwg yn wahanol i'r rhai yr ydym ni'n ceisio eu dilyn yng Nghymru. Rhoddir pwys mawr yma ar Gorfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; yr ydym am roi plant wrth galon popeth a wnawn, ac mae Llywodraethau blaenorol y DU wedi bod yn benderfynol o garcharu pobl ifanc—nid wyf yn siŵr a fydd Ken Clarke yn newid hynny; amser a ddengys—cyn ystyried yn llawn eu hawliau fel plant. Dylem i gyd fod yn meddwl am hynny yma. Rhaid inni gydnabod hawliau plant.

Yr wyf yn teimlo'n gryf iawn am ddatganoli cyfiawnder troseddol ieuencid, oherwydd byddwn wedyn yn gallu edrych ar ffyrdd amgen o ymdrin â throseddwr, megis cyfiawnder adferol, sydd wedi cael eu treialu mewn rhai lleoedd yng Nghymru ond na chânt eu gweithredu'n llawn ar hyd a lled y

because, in evidence to the committee, a representative of the Howard League for Penal Reform said that he was astounded that Assembly Members had to go to English prisons to talk to Welsh children; it is ironic that we have to go to England to see Welsh children and to talk to them about their experiences. That, in itself, was eye opening for me, and made me think much more about how we treat our young children in Wales. These children do not have proper access to mental health services or to educational facilities, when that is their right.

I note that the Deputy Minister said that the age of criminal responsibility is a reserved matter, but we have to look at that in Wales, because that age, at 10 years, is very low. Scotland recently raised the age of criminal responsibility to 12 years, bringing it in line with that in the rest of Europe, but the minimum age at which a child can be charged and brought before a court in the rest of the UK is 10 years. The committee considered it appropriate that the Government should consider the potential for raising the age of criminal responsibility as part of the review, but we would need systems in place to be able to deal with the fact that there would be much greater pressure on services if we were to raise the age. I know that the Liberal Democrats were not so clear about their stance on the age of criminal responsibility, but they have now made a statement that they support raising the age; it is important for all parties to come together to raise the age of criminal responsibility.

With regards to short sentencing, covered in recommendation 10, the former director of the National Offender Management Service has said that offenders who serve sentences of six months or less are not being rehabilitated, and that they usually go on to commit further offences; they are also usually released earlier under the current legislation. Statistics show that prisoners released after less than 12 months go on to commit an average of three crimes each in their first year of freedom, while criminals who are subject to restorative justice penalties, such as community service, have lower re-offending

wlad. Dywedaf hynny hefyd oherwydd, mewn tystiolaeth i'r pwyllgor, dywedodd cynrychiolydd o Gynghrair Howard er Diwygio Cosbau ei fod yn synnu bod yn rhaid i Aelodau'r Cynulliad fynd i garchardai yn Lloegr i siarad â phlant o Gymru; mae'n eironig bod yn rhaid inni fynd i Loegr i weld plant o Gymru a siarad â hwy am eu profiadau. Yr oedd hynny, ynddo'i hun, yn agoriad llygad i mi, a gwnaeth imi feddwl mwy o lawer am sut yr ydym yn trin ein plant ifanc yng Nghymru. Nid oes gan y plant hyn fynediad priodol i wasanaethau iechyd meddwl na chyfleusterau addysgol, er bod hynny'n un o'u hawliau.

Sylwaf i'r Dirprwy Weinidog ddweud bod oedran cyfrifoldeb troseddol yn fater a gadwyd yn ôl, ond rhaid inni edrych ar hynny yng Nghymru, oherwydd mae'r oedran hwnnw, sef 10 oed, yn isel iawn. Yn ddiweddar, cododd yr Alban oedran cyfrifoldeb troseddol i 12 oed, er mwyn cydfynd â'r oedran yng ngweddill Ewrop, ond yr oedran ieuengaf y gall plentyn gael ei gyhuddo a'i ddwyn gerbron llys yng ngweddill y DU yw 10 oed. Credai'r pwyllgor ei bod yn briodol i'r Llywodraeth ystyried y posibilrwydd o godi oedran cyfrifoldeb troseddol yn rhan o'r adolygiad, ond byddai arnom angen systemau i allu ymdrin â'r ffaith y byddai mwy o bwysau o lawer ar wasanaethau pe baem yn codi'r oedran. Gwn nad oedd y Democratiaid Rhyddfrydol mor glir ynghylch eu safbwynt ar oedran cyfrifoldeb troseddol, ond maent wedi gwneud datganiad yn awr sy'n nodi eu bod yn cefnogi codi'r oedran; mae'n bwysig i bob plaid ddod at ei gilydd i godi oedran cyfrifoldeb troseddol.

O safbwynt dedfrydau byr, yr ymdriniwyd â hwy yn argymhelliad 10, mae cyn-gyfarwyddwr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd wedi dweud nad yw troseddwyd sy'n treulio tymor o chwe mis neu lai mewn dalfa'n cael eu hadsefydlu, ac y byddant fel rheol yn mynd ymlaen i gyflawni troseddau eraill; yn ogystal, cânt eu rhyddhau'n gynharach fel rheol, dan y ddeddfwriaeth gyfredol. Mae ystadegau'n dangos bod carcharorion a gaiff eu rhyddhau ar ôl llai na 12 mis yn mynd ymlaen i gyflawni tri throsedd yr un, ar gyfartaledd, yn ystod eu blwyddyn gyntaf o ryddid, tra bydd

rates than those who are given short-term jail sentences. Witnesses in the inquiry commented that the use of custodial sentences for children and young people in Wales is high. Wales has one of the highest rates of children and young people in custody in Europe. However, research also shows that only 31 per cent of children in prison are charged with, or convicted of, violent or sexual offences. There was also a broad consensus among witnesses that when children and young people enter the youth justice system, custodial sentences should remain a measure of last resort and reserved for the most serious offences. That view was backed by the Children's Commissioner for Wales.

I will finish on another comment from the Howard League for Penal Reform. Its spokesman, Andrew Neilson, said that

'the problem with prisons is that they often make us prisoners in our thinking'.

That, again, clarifies what we found as a committee in that just incarcerating young people—putting them in a box and throwing away the key—was not the way to address our social problems in Wales. Why do people offend? Why do young people go out on to the streets? I am worried about the changes that the current UK Government is making to benefits and so on. Will more young people offend? Will more people be pushed into poverty thereby increasing the offending rates? If so, we must have policies here in Wales to protect us from those UK Government policies and to ensure that young people do not end up in prison. We need to protect them and show them that they can be useful and respected members of our society. They should be respected, just as we all should.

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): I welcome the thoughtful remarks that Members have made in this important

gan droseddwyr sy'n cael cosbau cyfiawnder adferol, megis gwasanaeth cymunedol, gyfraddau aildroseddu is na'r rheini sy'n cael dedfrydau byr o garchar. Gwnaeth tystion yn yr ymchwiliad sylwadau ynghylch y ffaith y caiff dedfrydau o gyfnod mewn dalfa eu defnyddio'n fynych yng nghyswllt plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae gan Gymru un o'r cyfraddau uchaf yn Ewrop o safbwynt nifer y plant a'r bobl ifanc sydd mewn dalfa. Fodd bynnag, mae ymchwil hefyd yn dangos mai 31 y cant yn unig o'r plant sydd mewn carchar a gaiff eu cyhuddo neu'u dyfarnu'n euog o droseddau treisgar neu rywiol. Pan fydd plant a phobl ifanc yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuencid, cytunai'r tystion yn gyffredinol hefyd mai yn niffyg dim arall yn unig y dylid eu dedfrydu i gyfnod mewn dalfa, ac y dylid cadw dedfrydau o'r fath ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig. Yr oedd Comisiynydd Plant Cymru yn cefnogi'r farn honno.

Hoffwn orffen gyda sylw arall gan Gynghrair Howard er Diwygio Cosbau. Dywedodd ei lefarydd, Andrew Neilson, mai'r

broblem gyda charchardai yw eu bod yn aml yn peri inni feddwl fel carcharorion.

Mae hynny, eto, yn egluro'r hyn a ganfuom fel pwyllgor, sef nad carcharu pobl ifanc—eu rhoi mewn blwch ac anghofio amdanynt—oedd y ffordd i fynd i'r afael â'n problemau cymdeithasol yng Nghymru. Pam mae pobl yn troseddu? Pam mae pobl ifanc yn mynd allan ar y strydoedd? Yr wyf yn poeni am y newidiadau y mae Llywodraeth bresennol y DU yn eu gwneud i fudd-daliadau ac yn y blaen. A fydd mwy o bobl ifanc yn troseddu? A fydd mwy o bobl yn cael eu gwthio i dlodi, gan gynyddu'r cyfraddau troseddu? Os felly, rhaid inni gael polisiau yma yng Nghymru i'n hamddiffyn rhag y polisiau hynny sydd gan Lywodraeth y DU, a sicrhau nad yw pobl ifanc yn mynd i'r carchar. Mae angen inni eu hamddiffyn a dangos iddynt y gallant fod yn aelodau defnyddiol o'n cymdeithas, a gaiff eu parchu. Dylent hwy gael eu parchu, fel y dylai pob un ohonom ni gael ein parchu.

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Yr wyf yn croesawu'r sylwadau ystyriol y mae Aelodau wedi'u gwneud yn y

debate today. There is clearly a desire to improve how we respond to children who get into trouble here in Wales. As near as makes no difference, there is unanimity of view between the Assembly Government and the committee. The future is constrained only by finance and a degree of political reality.

However, there is much more that the Assembly Government and others can do and this is set out, I hope, in detail in my response to the committee report. I will ask my officials on the Wales Youth Justice Committee to examine carefully the transcript of today's debate to ensure that the ideas that have been put forward can influence the direction of policy. Any questions that I do not have time to answer now, I will attempt to answer by letter.

I very much recognise the powerful point that Joyce made about the mental health of our children and young people being a crucial factor in the reduction of youth offending. An additional £6.9 million has been made available from 2008 to 2011 and an additional £8 million has been allocated to counselling in schools over the same period. Significant capital spend of £35.7 million has been made available to develop two new NHS residential units for young people up to the age of 18 at the Princess of Wales Hospital in Bridgend and at Abergele Hospital in north Wales, which opened last year. There will be improved psychiatric support for youth offending teams. That is an indirect way in which we can influence the agenda of youth and juvenile offending. However, I accept Joyce's point that more needs to be done on direct access to mental health services by those inside the secure estate. My written response to the committee covers some of the points that Joyce raised. However, it is an issue that must be explored further.

On the safer communities fund, which was raised by Sandy, it is not possible to give guarantees on the continuation of that funding. It will be considered alongside other priorities as part of the current spending review, but we are all well aware of the noises coming out of the UK Government in terms of public expenditure cuts and we will

ddadl bwysig hon heddiw. Mae'n amlwg bod awydd i wella'r modd yr ydym yn ymateb i blant sy'n mynd i helynt yma yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad a'r pwyllgor yn unfryd eu barn, i bob pwrpas. Dim ond arian a rhywfaint o realiti gwleidyddol sy'n cyfyngu ar y dyfodol.

Fodd bynnag, mae mwy o lawer y gall Llywodraeth y Cynulliad ac eraill ei wneud, a gobeithiaf y caiff hynny ei egluro'n fanwl yn fy ymateb i adroddiad y pwyllgor. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion ar Bwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid Cymru archwilio trawsgriafiad y ddadl heddiw'n ofalus i sicrhau bod modd i'r syniadau a gyflwynwyd ddylanwadu ar gyfeiriad polisi. Ceisiaf ateb unrhyw gwestiynau nad oes gennyf amser i'w hateb yn awr drwy lythyr.

Yr wyf yn cydnabod yn helaeth iawn y pwynt cryf a wnaeth Joyce am y ffaith bod iechyd meddwl ein plant a'n pobl ifanc yn ffactor hollbwysig o safbwynt lleihau troseddau ieuenctid. Sicrhawyd bod £6.9 miliwn ychwanegol ar gael o 2008 i 2011, ac mae £8 miliwn ychwanegol wedi'i ddyrannu i waith cwnsela mewn ysgolion dros yr un cyfnod. Sicrhawyd bod gwariant cyfalaf sylweddol o £35.7 miliwn ar gael i ddatblygu dwy uned breswyl newydd yn y GIG ar gyfer pobl ifanc hyd at 18 oed, yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn Ysbyty Abergele yn y gogledd, a agorodd y llynedd. Bydd cymorth seiciatrig gwell ar gael i dimau troseddau ieuenctid. Mae'n ffordd anuniongyrchol y gallwn ddylanwadu ar yr agenda troseddau ieuenctid. Fodd bynnag, yr wyf yn derbyn pwynt Joyce bod angen gwneud mwy ynghylch mynediad uniongyrchol i wasanaethau iechyd meddwl gan y sawl sydd mewn sefydliadau diogel. Mae fy ymateb ysgrifenedig i'r pwyllgor yn ymdrin â rhai o'r pwyntiau a gododd Joyce. Fodd bynnag, mae'n fater y mae'n rhaid ei archwilio ymhellach.

O safbwynt y gronfa cymunedau diogelach, sy'n fater a gododd Sandy, nid yw'n bosibl rhoi sicrwydd ynghylch parhad y cyllid hwnnw. Caiff ei ystyried ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill yn rhan o'r adolygiad presennol o wariant, ond yr ydym i gyd yn ymwybodol iawn o'r synau sy'n dod o gyfeiriad Llywodraeth y DU ynghylch

have to see, come the autumn spending round, exactly what that means. So, I cannot give a cast-iron guarantee about the safer communities fund, tragic as that is and as much as it hurts me to even say that.

On alternatives to custody, which was a theme running through most of your contributions and through the committee's report, we are engaged in a dialogue about this through the Wales Youth Justice Committee, which includes representatives from local authorities.

On the question of a review of the high rates of custody, we have already begun work on the two highest custody areas in Wales and detailed analysis of performance information, interviews with magistrates, youth justice practitioners and young people themselves are nearing completion. We are about to start comparative analyses of sample case histories. The fieldwork for these areas will be completed by the end of August and a final report will emerge before the end of September. We will then enter an implementation phase in which we will facilitate change in those areas of high custody, followed by a wider application to other areas that show a higher than average rate of custodial alternatives.

4.00 p.m.

Eleanor was quite right to mention the speech and language elements, and her concerns regarding those. We are collecting, and hoping to disseminate, good practice on this, working with youth offending teams across Wales. Eleanor also, quite rightly, drew attention to the concerns of many Members regarding the absence of secure accommodation in north Wales. The Assembly Government has received strong support from all six local authorities in the region for a new secure unit. To date, however, despite an extensive search, we have not identified a potential site. Financial constraints in Whitehall have caused some

toriadau ar wariant cyhoeddus, a bydd yn rhaid inni aros i weld beth yn union y mae hynny'n ei olygu, pan ddaw cylch gwariant yr hydref. Ni allaf roi sicrwydd pendant, felly, ynghylch y gronfa cymunedau diogelach, er bod hynny'n drueni mawr a'i bod yn ofid imi orfod hyd yn oed dweud hynny.

O safbwynt opsiynau eraill heblaw cyfnod mewn dalfa, a oedd yn thema a redai drwy'r rhan fwyaf o'ch cyfraniadau a drwy adroddiad y pwyllgor, yr ydym yn cynnal trafodaethau ynghylch hynny drwy Bwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol.

O safbwynt adolygu'r nifer mawr o blant a phobl ifanc sydd mewn dalfa, yr ydym eisoes wedi dechrau cyflawni gwaith ar y ddwy ardal sydd â'r niferoedd mwyaf yng Nghymru, ac mae dadansoddiad manwl o wybodaeth am berfformiad, a chyfweiliadau ag ynadon, ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid a'r bobl ifanc eu hunain yn tynnu at y terfyn. Yr ydym ar fin dechrau cynnal dadansoddiadau cymharol o achosion enghreifftiol. Bydd y gwaith maes ar gyfer yr ardaloedd hyn wedi ei gwblhau erbyn diwedd mis Awst, a bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Medi. Yna, byddwn yn dechrau ar gyfnod gweithredu pan fyddwn yn hwyluso newid yn yr ardaloedd hynny lle mae nifer mawr o blant a phobl ifanc mewn dalfa, cyn gweithredu'n ehangach mewn ardaloedd eraill lle ceir cyfradd uwch na'r cyffredin.

Yr oedd Eleanor yn llygad ei lle wrth sôn am leferydd ac iaith, a'i phryderon ynghylch yr agweddau hynny. Yr ydym yn casglu arfer da o ran hynny, ac yn gobeithio ei ledaenu, drwy weithio gyda thimau troseddau ieuenctid ledled Cymru. Tynnodd Eleanor sylw hefyd, yn gywir ddigon, at bryderon llawer o Aelodau ynghylch diffyg llety diogel yn y gogledd. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cael cefnogaeth gref gan bob un o chwe awdurdod lleol y rhanbarth ar gyfer uned ddiogel newydd. Hyd yma, fodd bynnag, er inni chwilio'n helaeth, nid ydym wedi canfod safle posibl. Mae cyfyngiadau ariannol yn Whitehall wedi achosi rhywfaint o oedi o

delay in further developing this project, but I am heartened by the assurances that the Youth Justice Board for England and Wales will continue to work closely with the Assembly Government to find ways of pursuing this development in future. In other words, the project remains alive.

These further discussions will take place, however, against a backdrop of significant decreases in the number of children going into custody, which is not a bad thing. I know that the shortcomings in provision in north Wales is an important matter for Members, however, and I shall be discussing this matter with Frances Done, chair of the youth justice board, at our next regular meeting.

I think that it was Joyce who mentioned the treatment of 18 to 21-year-olds in custody. In England and Wales, those who are over 18 are held on split-site young offender institutions and adult establishments, including Parc in Bridgend. This means that 18 to 21-year-olds should not mix with older adults. I will take this matter up with the National Offender Management Service to ensure that this practice is adhered to in Parc. I shall be visiting Parc very soon to take a look at this and other issues.

To summarise, I once more thank the committee for a hefty piece of thought-provoking work. It is the politics and the financial considerations that we must now grapple with in order to bring this sort of vision, which is shared right across the Chamber, into reality.

The Presiding Officer: I am grateful to the Deputy Minister. As Members will realise, I allowed the Deputy Minister a little latitude, because this is in Assembly time and a committee report on which there is consensus, and it has been debated well within its 60 minute slot. If the Chair wishes to emulate the Deputy Minister, she may do so. If she does not, then I am sure that my deputy, who is on her way, would be very grateful.

safbwynt datblygu'r prosiect hwn ymhellach, ond mae'r sicrwydd y bydd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y Cynulliad i ganfod ffyrdd o fynd ar drywydd y datblygiad hwn yn y dyfodol yn fy nghalonogi. Mewn geiriau eraill, mae'r prosiect yn fyw o hyd.

Cynhelir y trafodaethau pellach hyn, fodd bynnag, yn erbyn cefndir o ostyngiadau sylweddol yn nifer y plant sy'n mynd i ddalfa, ac nid yw hynny'n beth drwg. Gwn fod y diffygion o ran darpariaeth yn y gogledd yn fater pwysig i Aelodau, fodd bynnag, a byddaf yn trafod y mater hwn gyda Frances Done, cadeirydd y bwrdd cyfiawnder ieuenctid, yn ein cyfarfod rheolaidd nesaf.

Credaf mai Joyce a soniodd am sut y cedwir pobl ifanc rhwng 18 ac 21 oed mewn dalfa. Yng Nghymru a Lloegr, caiff y bobl ifanc sydd dros 18 oed eu cadw mewn sefydliadau troseddwr ifanc a sefydliadau oedolion sy'n rhannu'r un safle, gan gynnwys y Parc ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Golyga hynny na ddylai pobl ifanc rhwng 18 ac 21 oed gymysgu ag oedolion hŷn. Byddaf yn codi'r mater hwn gyda'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwr i sicrhau bod y Parc yn glynu at yr arfer hwn. Byddaf yn ymweld â'r Parc yn fuan iawn i edrych ar y mater hwn a materion eraill.

I grynhoi, diolchaf unwaith eto i'r pwyllgor am ddarn sylweddol o waith sy'n ysgogi'r meddwl. Rhaid inni fynd i'r afael yn awr â'r wleidyddiaeth a'r ystyriaethau ariannol er mwyn gwireddu'r math hwn o weledigaeth, a rennir ar draws y Siambr.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog. Fel y bydd yr Aelodau yn sylweddoli, rhoddais ryw faint o benrhyddid i'r Dirprwy Weinidog, oherwydd bod amser y Cynulliad yn caniatáu hynny a bod yma adroddiad pwyllgor y ceir consensws yn ei gylch, a chynhaliwyd y ddadl amdano ymhell o fewn y 60 munud a ganiatawyd. Os yw'r Cadeirydd yn dymuno efelychu'r Dirprwy Weinidog, caiff wneud hynny. Fel arall, yr wyf yn siŵr y byddai fy nirprwy, sydd ar ei ffordd, yn ddiolchgar iawn.

Sandy Mewies: My contribution will be brief.

Thank you, Deputy Minister, for your positive response. I am sure that every member of the committee, and most Members here, will await, with some anxiety, the results of the urgent talks that you are to have with the coalition Government to assess what impact Government will have on these issues in future.

Committee members will be delighted to hear that senior police officers have said that they do not want to criminalise young people. That is an aspiration that we all share, and it is one that was mentioned by several people.

I thank Mark Isherwood for listing much of the evidence that became the subject of recommendations and for pointing out that Wales often leads the way while other nations follow. Joyce Watson pointed out the fact that the youth justice system is not wholly devolved, but that policies in areas that are, such as education, housing and health, impact very severely on those young people who enter the system. She rightly emphasised the need for mental health support, and the need for psychiatric nurse support for the youth offending teams is the subject of recommendation 17. She also talked about the need for a range of skilled professionals to help rehabilitate juvenile offenders during their time in the secure estate and as soon as they come out.

With others, Eleanor made several visits. She raised her concerns about preventing young people from entering the secure estate. That is a point that has often been echoed. She also mentioned the problems that young people have—speech, language and communication difficulties—and whether those who speak Welsh can use the language safely in the secure estate.

Bethan passionately raised the issue of the age of criminal responsibility, which is something that she has campaigned for consistently throughout the inquiry. She raised it again at the launch, and I would have been disappointed if she had not raised it

Sandy Mewies: Bydd fy nghyfraniad yn fyr.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich ymateb cadarnhaol. Yr wyf yn siŵr y bydd pob aelod o'r pwyllgor, a mwyafrif yr Aelodau yma, yn disgwyl yn bryderus braidd am ganlyniadau'r trafodaethau brys y byddwch yn eu cael â'r Llywodraeth glymbleidiol i asesu'r effaith y bydd y Llywodraeth yn ei chael ar y materion hyn yn y dyfodol.

Bydd aelodau'r pwyllgor yn falch o glywed i uwch-swyddogion heddlu ddweud nad ydynt am droi pobl ifanc yn droseddwr. Mae hwnnw'n ddyhead gan bob un ohonom, a soniodd sawl unigolyn amdano.

Diolchaf i Mark Isherwood am restru llawer o'r dystiolaeth a ddaeth yn destun argymhellion, ac am dynnu sylw at y ffaith bod Cymru yn aml yn arwain y ffordd a bod gwledydd eraill yn dilyn. Tynnodd Joyce Watson sylw at y ffaith nad yw'r system cyfiawnder ieuentid wedi'i datganoli'n llawn, ond bod polisiau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli, megis addysg, tai ac iechyd, yn cael effaith ddifrifol iawn ar y bobl ifanc hynny sy'n mynd i mewn i'r system. Pwysleisiodd yn gywir ddigon yr angen am gymorth iechyd meddwl; yr angen am gymorth nyrsys seiciatrig ar gyfer y timau troseddau ieuentid yw byrdwn argymhelliad 17. Yn ogystal, soniodd am yr angen am ystod o weithwyr proffesiynol medrus i helpu i adsefydlu troseddwr ifanc yn ystod eu tymor mewn sefydliadau diogel a chyn gynted ag y dânt allan.

Gydag eraill, bu Eleanor ar sawl ymweliad. Mynegodd ei phryderon ynghylch atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i sefydliadau diogel. Mae hwnnw'n bwynt sydd wedi'i adleisio'n aml. Yn ogystal, soniodd am anawsterau pobl ifanc o ran lleferydd, iaith a chyfathrebu, a ph'un a all y rheini sy'n siarad Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn ddiogel mewn sefydliadau diogel.

Soniodd Bethan yn angerddol am oedran cyfrifoldeb troseddol, sy'n rhywbeth y mae wedi ymgyrchu drosto'n gyson drwy gydol yr ymchwiliad. Fe'i cododd eto yn ystod y lansiad, a byddwn wedi cael fy siomi pe na bai wedi'i godi heddiw. Yr wyf yn falch y

today. I am glad that it may be part of a wider review of the subject in the future. We have heard today, Bethan, how ironic it was that Welsh children had to be in English prisons to meet with Welsh Assembly Members. That exemplifies the problems that Welsh children in the secure estate not in Wales have in accessing any of the benefits that we can give to our children.

With that, I will close, and I thank everyone who took part in the debate. Thank you for giving me the opportunity to present such an important report to the Assembly.

Y Llywydd: Y cynnig yw y dylid nodi adroddiad y pwyllgor. A oes unrhyw wrthwynebiad? Ymddengys nad oes, felly yr wyf yn datgan fod yr adroddiad wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 4.06 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.06 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Swyddogion wedi'u Hethol yn Uniongyrchol Directly Elected Officials

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendments 2, 3 and 4 in the name of Peter Black. If amendment 1 is agreed, amendment 3 will be deselected.

Darren Millar: I move that

the National Assembly for Wales:

1. believes that the creation of the office of directly elected mayor would be of benefit to a number of Welsh councils, provide strong local leadership and improve democratic accountability to citizens;

gallai'r mater fod yn rhan o adolygiad ehangach o'r pwnc yn y dyfodol. Yr ydym wedi clywed heddiw, Bethan, mor eironig ydoedd bod yn rhaid i blant Cymru fod mewn carchardai yn Lloegr i gyfarfod ag Aelodau Cynulliad Cymru. Mae hynny'n dangos y problemau y mae plant Cymru sydd mewn sefydliadau diogel y tu allan i Gymru yn eu hwynebu o safbwynt cael mynediad i'r manteision y gallwn eu rhoi i'n plant.

Yr wyf am gloi gyda hynny, a diolchaf i bawb a gymerodd ran yn y ddadl. Diolch am roi'r cyfle imi gyflwyno adroddiad mor bwysig i'r Cynulliad.

Y Llywydd: The motion is to note the committee's report. Are there any objections? There appear to be none, therefore the report is accepted.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt, a gwelliannau 2, 3 a 4 yn enw Peter Black. Os derbynir gwelliant 1, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol.

Darren Millar: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn credu y byddai creu swydd maer wedi'i ethol yn uniongyrchol yn fanteisiol i nifer o gynghorau Cymru, yn darparu arweinyddiaeth leol gref ac yn gwella atebolrwydd democrataidd i ddinasyddion;

2. *welcomes the UK Government's plans to make the police more accountable through oversight by a directly elected individual.* (NDM4504)

The issue of elected mayors and elected police commissioners is something that we feel strongly about on this side of the Chamber. Before I talk about these two points individually, I wish to spend a few moments providing some context to this debate. The background is found within the continued debate of defining real devolution, which is something that I feel passionately about, and why not? We recently passed our 10-year mark as a National Assembly, and, with the prospect of a referendum for more powers on the horizon, discussion on devolution will only heat up in the future.

When the people of Wales voted to establish the National Assembly, they were not voting simply to replace the centralised state control of their lives from London with centralised state control from Cardiff; they voted for devolution, to have a greater say in decision making that affects their everyday lives. Instead, we have seen more centralisation under successive Assembly Governments. Powers have been stripped away from local authorities through ministerial guidance, direction and intervention, forcing councils to dance to the tune of Labour and Plaid Ministers, rather than responding to the needs of their local communities. Discretion over so much, from access to social housing, planning and the local environment has ebbed away from those who know their communities best. That is why it is time for a shift of responsibility back to local communities.

As Members will know, I am a big fan of the UK Government's proposed decentralisation and localism Bill, which I mentioned in the Queen's Speech debate in the Chamber a few weeks ago. It is about understanding that local communities know what is best for their area. A Cardiff-centric, one-hat-fits-all approach is not the best option for anyone. Not everything that works in Cardiff is good

2. *yn croesawu cynlluniau Llywodraeth y DU i wneud yr heddlu'n fwy atebol drwy oruchwyliaeth gan unigolyn wedi'i ethol yn uniongyrchol.* (NDM4504)

Mae meiri etholedig a chomisiynwyr heddlu etholedig yn fater yr ydym yn teimlo'n gryf yn ei gylch yr ochr hon i'r Siambr. Cyn sôn am y ddau bwynt hynny'n unigol, hoffwn neilltuo ychydig eiliadau i roi rhywfaint o gyd-destun i'r ddadl hon. Mae'r cefndir i'w weld yn y ddadl barhaus ynghylch diffinio datganoli go iawn, sy'n rhywbeth yr wyf yn teimlo'n angerddol yn ei gylch, a pham lai? Yn ddiweddar, bu inni gyrraedd ein pen-blwydd yn 10 oed yn y Cynulliad Cenedlaethol, a chyda'r posibilrwydd o refferendwm ynghylch rhagor o bwerau ar y gorwel, bydd y drafodaeth am ddatganoli'n siŵr o dwymo yn y dyfodol.

Pan bleidleisiodd pobl Cymru dros sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, nid pleidleisio'r oeddent dros gael gwared ar reolaeth y wladwriaeth ar eu bywydau, wedi'i chanoli yn Llundain, er mwyn rhoi rheolaeth debyg yn ei lle, wedi'i chanoli yng Nghaerdydd; yr oeddent yn pleidleisio o blaid datganoli, er mwyn cael mwy o lais yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau pob dydd. Yn lle hynny, gwelsom fwy o ganoli dan y naill Lywodraeth ar ôl y llall yn y Cynulliad. Mae pwerau wedi eu cymryd oddi wrth awdurdodau lleol drwy arweiniad, cyfarwyddyd ac ymyrraeth gan Weinidogion, gan orfodi cynghorau i ufuddhau i Weinidogion y Blaid Lafur a Phlaid Cymru, yn hytrach nag ymateb i anghenion eu cymunedau lleol. Mae rhyddid i weithredu fel y gwelant yn ddoeth ynghylch cynifer o faterion megis mynediad i dai cymdeithasol, gwaith cynllunio a'r amgylchedd lleol wedi ymbellhau oddi wrth y bobl sy'n adnabod eu cymunedau orau. Dyna pam mae'n bryd rhoi cyfrifoldeb yn ôl i gymunedau lleol.

Gŵyr yr Aelodau fy mod yn un o gefnogwyr brwd Mesur arfaethedig Llywodraeth y DU ynghylch datganoli a gweithredu'n lleol, y soniais amdano yn y ddadl ynghylch Araith y Frenhines yn y Siambr ychydig wythnosau'n ôl. Mae a wnelo â deall mai cymunedau lleol a ŵyr beth sydd orau ar gyfer eu hardal. Nid dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar Gaerdydd ac sy'n credu bod yr un peth yn

for Conwy. What is right for Pembrokeshire can be wrong for Powys.

It is time to give local communities the powers that they need to apply local solutions to local problems. The bad press that politics as a whole has had of late has strengthened the public appetite for bringing important decision making back towards local communities. The distance that is often perceived to exist between the electorate and the elected needs to be bridged.

Take the issue of planning, something that I have banged on about before. I have lost track of the number of occasions that democratically elected community and town councils and local people have thrown up their hands in disbelief at centralised planning decisions that walk all over their local knowledge and opinions. I met with Llanrhaeadr Community Council in Denbighshire on Monday night, where we briefly discussed the county's local development plan. Local councillors were appalled at the thought that their local development plan, which will apply in their locality, will not be determined locally, but will instead be subject to sign-off by an unelected official in the Planning Inspectorate. That is wrong.

Conwy's drafting of its local development plan has caused similar sentiment, where housing growth projections and the Assembly Government's policy seem miles away from what is happening at a local level. The general feeling is that big Government is forcing its agenda on the views of local communities. This needs to stop.

4.10 p.m.

There is a risk when you pass further powers to local communities and local councils. Not all councils will manage themselves well. However, there is a safeguard, and it is called the ballot box. If we really believe in

addas i bawb yw'r opsiwn gorau ar gyfer neb. Ni fydd popeth sy'n gweithio yng Nghaerdydd o fudd i Gonwy. Gallai'r hyn sy'n addas i Sir Benfro fod yn anaddas i Bowys.

Mae'n bryd sicrhau bod cymunedau lleol yn cael y pwerau y mae eu hangen arnynt i ddefnyddio atebion lleol i ddatrys problemau lleol. Mae'r sylw gwael y mae gwleidyddiaeth yn gyffredinol wedi'i gael yn y wasg yn ddiweddar wedi cryfhau awydd y cyhoedd i ddod â'r broses o wneud penderfyniadau pwysig yn ôl i gyfeiriad cymunedau lleol. Mae angen pontio'r pellter y canfyddir yn aml ei fod yn bodoli rhwng yr etholwyr a'r sawl a etholwyd.

Ystyriwch y maes cynllunio, sy'n rhywbeth yr wyf wedi rhygnu ymlaen yn ei gylch o'r blaen. Yr wyf wedi colli cyfrif o nifer y troeon y mae pobl leol a chynghorau cymuned a thref, a etholwyd yn ddemocrataidd, wedi methu'n lân â chredu penderfyniadau cynllunio a wnaed yn ganolog, sy'n diystyru eu barn a'u gwybodaeth leol hwy. Cyfarfûm â Chyngor Cymuned Llanrhaeadr yn Sir Ddinbych nos Lun, lle cawsom drafodaeth fer ynghylch cynllun datblygu lleol y sir. Yr oedd y cynghorwyr lleol wedi'u harswydo o feddwl na fydd eu cynllun datblygu lleol, a fydd yn berthnasol i'w hardal, yn cael ei bennu'n lleol, ond y bydd, yn hytrach, yn cael ei gymeradwyo gan swyddog anetholedig yn yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae hynny'n anghywir.

Mae proses cyngor Conwy ar gyfer drafftio ei gynllun datblygu lleol wedi creu teimladau tebyg, lle ymddengys fod amcanestyniadau ynghylch twf o ran tai, a pholisi Llywodraeth y Cynulliad, yn hollol wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn lleol. Y teimlad cyffredinol yw bod Llywodraeth fawr yn gorfodi ei agenda ar safbwyntiau cymunedau lleol. Mae angen i hynny ddod i ben.

Mae risg ynghlwm wrth drosglwyddo rhagor o bwerau i gymunedau lleol a chynghorau lleol. Ni fydd pob cyngor yn ei reoli ei hun yn dda. Fodd bynnag, ceir trefn ddiogelu, sef y blwch pleidleisio. Os ydym yn credu'n

devolution, we must be prepared to trust the electorate to deliver its verdict on polling day.

In short, we believe that local communities need to be trusted, and local government needs to be re-energised. How do we do that? We believe that one way to achieve this is to create the office of directly elected mayors for cities and our largest towns in Wales—people who are directly accountable to local communities for the decisions that they make. You only have to look at London to see how directly elected mayors have given a huge boost to the democratic process. For example, the turnout in the three London mayoral elections to date has increased in each election, from 34 per cent in 2004 to 45 per cent in 2008. Boris Johnson is the first elected politician in the UK to have a personal mandate of over 1 million votes. We believe that directly elected mayors could provide strong leadership and deliver new agendas for delivering real change for their citizens in towns and cities across Wales. We need an empowering state rather than the overbearing state that has developed in the United Kingdom over the past 13 years of Labour rule. If Mansfield, Bedford and Torbay can have their own directly elected mayors, then so can Cardiff, Swansea, Newport and Wrexham and yes, dare I say it, even Bangor needs a Boris.

I must say that it is very disappointing to note the amendments, which refer to the current provision under the Local Government Act 2000, under which elections for directly elected mayors can be triggered. They demonstrate not only a clear lack of support for the post of a directly elected mayor, but also, to some degree, a lack of understanding about what our proposal is trying to bring forward. I know that the Local Government Act 2000 provides a threshold trigger for a local referendum, but with the trigger set at 10 per cent of the local electorate, it is no wonder that there has been little uptake so far. That is why we believe that the Assembly Government should arrange for referenda to be held in our major cities and towns,

wirioneddol mewn datganoli, rhaid inni fod yn barod i ymddiried yn yr etholwyr i fynegi eu barn ar y diwrnod pleidleisio.

Yn gryno, credwn fod angen ymddiried mewn cymunedau lleol, a bod angen adfywio llywodraeth leol. Sut mae gwneud hynny? Credwn mai un ffordd o wneud hynny yw creu swydd maer a etholir yn uniongyrchol ar gyfer ein dinasoedd a'n trefi mwyaf yng Nghymru—pobl sy'n atebol yn uniongyrchol i gymunedau lleol am y penderfyniadau a wnânt. Nid oes ond rhaid edrych ar Lundain i weld sut mae meiri a etholir yn uniongyrchol wedi rhoi hwb enfawr i'r broses ddemocrataidd. Er enghraifft, mae nifer y bobl a bleidleisiodd yn y tri etholiad a gynhaliwyd hyd yma i ethol maer ar gyfer Llundain wedi cynyddu ym mhob etholiad, o 34 y cant yn 2004 i 45 y cant yn 2008. Boris Johnson yw'r gwleidydd etholedig cyntaf yn y DU i gael mandad personol o dros 1 filiwn o bleidleisiau. Credwn y gallai meiri a etholir yn uniongyrchol ddarparu arweinyddiaeth gref a chyflwyno agendâu newydd er mwyn sicrhau newid go iawn ar gyfer eu dinasyddion mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru. Mae arnom angen gwladwriaeth rymusol yn lle'r wladwriaeth lethol sydd wedi datblygu yn y Deyrnas Unedig dros y 13 blynedd diwethaf dan reolaeth y Blaid Lafur. Os gall Mansfield, Bedford a Torbay gael meiri a etholir yn uniongyrchol, gall Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam gael un hefyd. Yr wyf am fentro dweud bod ar Fangor, hyd yn oed, angen rhywun tebyg i Boris.

Rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig iawn o weld y gwelliannau, sy'n cyfeirio at y ddarpariaeth gyfredol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, sy'n ei gwneud yn bosibl ysgogi etholiadau ar gyfer meiri a etholir yn uniongyrchol. Yn ogystal â dangos diffyg cefnogaeth amlwg i swydd maer a etholir yn uniongyrchol, maent hefyd, i ryw raddau, yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r hyn y mae ein cynnig yn ceisio'i gyflwyno. Gwn fod Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn darparu trothwy ar gyfer ysgogi refferendwm lleol, ond gan mai 10 y cant o'r etholwyr lleol yw'r trothwy hwnnw, nid oes rhyfedd nad oes llawer wedi manteisio ar y cyfle hyd yma. Dyna pam y credwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad drefnu i refferenda

regardless of that trigger being reached. The Lib Dem amendment refers to the failed Ceredigion referendum held in 2004—at least I assume that that is what it refers to. I am not exactly sure that that is the best example to use in coming up with an argument against elected mayors, because that was a totally different situation. We are not talking about county-wide elections; we are talking about cities and larger towns, and devolving more powers to them, giving them significant responsibility in places where there are significant populations.

We must not get sidetracked by thinking that elected mayors are only for the great metropolises like London. While the Mayor of London is responsible for an authority covering 7.4 million people and a budget of £3 billion, the directly elected Mayor of Bedford, for example, is responsible for a population of 155,000 and a budget of £87 million, and is equally effective in undertaking his mayoral responsibilities. We believe that directly elected mayors have the potential to transform their localities. This system gives them the power to roll up their sleeves and get the job done. A number of independent think tanks feel the same way. The Institute for Public Policy Research and the New Local Government Network have indicated a number of benefits from having directly elected mayors. These include: greater visibility, engagement and accountability; greater leadership and direction; more partnership working and integration of policy, because mayors are better placed to lead in an area; and better performance and delivery of public services.

However, we should not stop our agenda for directly elected officials at local government. We also need to reform policing. I understand that policing is not a devolved matter, but this issue falls well within the context of this debate on real devolution and localism. Bringing greater accountability into the police force by implementing the role of directly elected individuals is something that we all ought to support. I note the

gael eu cynnal yn ein prif ddinasoedd a'n prif drefi, ni waeth a gyrhaeddwyd y trothwy ai peidio. Mae gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol yn cyfeirio at y refferendwm aflwyddiannus a gynhaliwyd yng Ngheredigion yn 2004—o leiaf tybiaf mai at hynny y mae'n cyfeirio. Nid wyf yn hollol siŵr mai dyna'r enghraifft orau i'w defnyddio wrth gyflwyno dadl yn erbyn meiri a etholir yn uniongyrchol, gan fod y sefyllfa honno'n hollol wahanol. Nid ydym yn sôn am etholiadau sirol; yr ydym yn sôn am ddinasoedd a threfi mawr, ac am ddatganoli rhagor o bwerau iddynt, gan roi cyfrifoldeb sylweddol iddynt mewn mannau lle ceir poblogaeth sylweddol.

Rhaid inni beidio â dechrau meddwl mai ar gyfer metropolisau mawr megis Llundain yn unig y mae meiri a etholir yn uniongyrchol. Er bod Maer Llundain yn gyfrifol am awdurdod sy'n ymdrin â 7.4 miliwn o bobl a chyllideb o £3 biliwn, mae Maer Bedford, er enghraifft, a etholwyd yn uniongyrchol, yn gyfrifol am boblogaeth o 155,000 a chyllideb o £87 miliwn, ac mae'r un mor effeithiol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau fel maer. Credwn y gallai meiri a etholir yn uniongyrchol drawsnewid eu hardaloedd. Mae'r system hon yn rhoi'r pŵer iddynt dorchi eu llewys a chyflawni'r gwaith. Mae llawer o gyrff trafod annibynnol o'r un farn. Mae'r Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus a'r Rhwydwaith Llywodraeth Leol Newydd wedi nodi llawer o fanteision sy'n gysylltiedig â chael meiri a etholir yn uniongyrchol. Mae'r manteision hynny'n cynnwys: mwy o amlygrwydd, ymgysylltiad ac atebolrwydd; mwy o arweinyddiaeth a chyfeiriad; mwy o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio polisi, oherwydd bod meiri mewn gwell sefyllfa i arwain mewn ardal; a gwell darpariaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus a gwell perfformiad ganddynt.

Fodd bynnag, ni ddylai ein hagenda ar gyfer swyddogion a etholir yn uniongyrchol gael ei chyfyngu i lywodraeth leol. Mae angen hefyd inni ddiwygio gwaith plismona. Deallaf nad yw plismona'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ond mae'n berthnasol tu hwnt i gyd-destun y ddadl hon ynghylch datganoli go iawn a gweithredu'n lleol. Mae cyflwyno mwy o atebolrwydd i'r heddlu, drwy weithredu rôl unigolion a etholir yn uniongyrchol, yn

Government amendment that refers to the structure and membership of police authorities. One of the roles of police authorities, as I know only too well from experience, is to provide accountability. However, if you ask most people whether they feel like they have a say in how police forces are run, or what their perception of police accountability is, my guess is that it is something different from the rosy picture painted by the amendment, which—by the way—we will be opposing. The Government has to accept that having police authorities is not the right way to hold the police to account.

I work with a very colourful chief constable in north Wales, whom the Minister knows well. I know the dedication that is required to work on a police authority. However, I also know that many decisions were taken that did not have public support in north Wales. You know that only too well, Minister, and that is why I am astonished that you will not support the proposal that we have put forward today without amending it. There is no doubt that there is dedication and hard work from police authority members, but that does not mean that the current situation cannot be improved to make the police more accountable and responsive to the people they serve. When it comes to direct public involvement, there is little opportunity for input under the current system. A recent report by the independent think tank, Policy Exchange, concluded that policing in England and Wales is in 'desperate need of democratic renewal' and that

'Home Office micromanagement has undermined public confidence in the service and weakened the historic bonds between the police and the communities they serve'.

We are of the opinion on this side of the Chamber that a directly elected individual would help to repair that historic bond.

The UK Government has agreed to introduce measures to make the police more

rhywbeth y dylai pob un ohonom ei gefnogi. Sylwaf fod gwelliant y Llywodraeth yn cyfeirio at strwythurau ac aelodaeth awdurdodau heddlu. Un o rolau awdurdodau heddlu, fel y gwn yn dda iawn o brofiad, yw darparu atebolrwydd. Fodd bynnag, os gofynnwch i'r mwyafrif o bobl a ydynt yn teimlo bod ganddynt lais yn y modd y caiff heddluoedd eu rhedeg, neu beth yw eu barn am atebolrwydd yr heddlu, tybiaf fod y darlun yn wahanol iawn i'r darlun delfrydol a ddisgrifir gan y gwelliant, y byddwn—gyda llaw—yn ei wrthwynebu. Rhaid i'r Llywodraeth dderbyn nad cael awdurdodau heddlu yw'r ffordd gywir o ddwyn yr heddlu i gyfrif.

Yr wyf yn gweithio gyda phrif gwnstabl lliwgar iawn yn y gogledd, y mae'r Gweinidog yn gyfarwydd iawn ag ef. Gwn am yr ymroddiad sy'n ofynnol i weithio ar awdurdod heddlu. Fodd bynnag, gwn hefyd i lawer o benderfyniadau gael eu gwneud nad oedd y cyhoedd yn eu cefnogi yn y gogledd. Gwyddoch hynny'n iawn, Weinidog, a dyna pam yr wyf wedi synnu na fyddwch yn cefnogi'r cynnig yr ydym wedi'i gyflwyno heddiw, heb ei wella. Nid oes amheuaeth nad yw aelodau awdurdodau heddlu yn ymroi i'w rôl ac yn gweithio'n galed, ond nid yw hynny'n golygu na ellir gwella'r sefyllfa gyfredol i wneud yr heddlu'n fwy atebol ac ymatebol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu. Pan ddaw'n fater o gynnwys y cyhoedd yn uniongyrchol, prin yw'r cyfle i gyfrannu dan y system gyfredol. Daeth adroddiad diweddar gan y corff trafod annibynnol, Policy Exchange, i'r casgliad fod taer angen i waith plismona yng Nghymru a Lloegr gael ei adfywio'n ddemocrataidd, a bod

prosesau microreoli'r Swyddfa Gartref wedi tansilio hyder y cyhoedd yn y gwasanaeth ac wedi gwanhau'r cysylltiadau hanesyddol rhwng yr heddlu a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Yr ydym o'r farn, yr ochr hon i'r Siambr, y byddai unigolyn a etholir yn uniongyrchol o gymorth i adfer y cysylltiad hanesyddol hwnnw.

Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i gyflwyno mesurau i wneud yr heddlu'n fwy

accountable through elected individuals. Whether they will be called police commissioners or something else is yet to be discussed and debated, but they will be subject to strict checks and balances by locally elected representatives. More importantly, they will be apolitical. We are not talking about a political post, but about having someone who is directly elected by the people, with the consent of the people, to ensure that policing is done with the consent of the people. It is one of the most attractive proposals that this Government is putting forward.

Under Labour, the Home Office interfered too much in the running of the police, and it treated policing as a science that can be perfectly measured and controlled on a one-size-fits-all basis. It did not deliver the real change that we need. Rather than being out and about catching criminals, police officers were filling in forms, with just 14 per cent of their time spent out on the beat, where people want to see them. Directly elected individuals would have the opportunity to respond to public priorities or they would lose their jobs when up for re-election.

I am aware of some of the criticism that this proposal has attracted, but much of that criticism wrongly assumes that this would be a highly politicised role. As I have stressed to you on a number of occasions, Minister, we feel that this is an apolitical opportunity for someone to deliver a policing agenda that is in tune with local people without the interference of party politics. Let us get our nose to the grindstone and ensure that there is direct accountability in Wales and beyond, and support the UK Government on its proposals on the policing front. I urge Members to support the motion.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt: delete all and replace with:

the National Assembly for Wales:

atebol drwy unigolion etholedig. Mae a fyddant yn cael eu galw'n gomisiynwyr heddlu ynteu'n rhywbeth arall yn fater sydd i'w drin a'i drafod eto, ond byddant yn cael eu harchwilio a'u cloriannu'n fanwl iawn gan gynrychiolwyr a etholir yn lleol. Yn bwysicach na hynny, byddant yn anwleidyddol. Nid ydym yn sôn am swydd wleidyddol, ond am gael rhywun a etholir yn uniongyrchol gan y bobl, gyda chydysyniad y bobl, i sicrhau y caiff gwaith plismona ei gyflawni gyda chydysyniad y bobl. Mae'n un o'r cynigion mwyaf deniadol a gynigir gan y Llywodraeth hon.

Dan y Blaid Lafur, yr oedd y Swyddfa Gartref yn ymyrryd yn ormodol yn y modd y câi heddluoedd eu rhedeg, ac yr oedd yn trin gwaith plismona fel gwyddor y gellir ei mesur a'i rheoli'n berffaith gan gymryd bod yr un dull gweithredu'n addas i bawb. Nid oedd yn sicrhau'r newid go iawn y mae arnom ei angen. Yn hytrach na bod allan yn dal troseddwy, yr oedd swyddogion heddlu'n llenwi ffurflenni, ac yn treulio 14 y cant yn unig o'u hamser y tu allan i'r swyddfa, lle mae pobl am eu gweld. Byddai gan unigolion a etholir yn uniongyrchol gyfle i ymateb i flaenoriaethau cyhoeddus, neu byddent yn colli eu swyddi pan fyddent am gael eu hailethol.

Yr wyf yn ymwybodol o rywfaint o'r feirniadaeth y mae'r cynnig hwn wedi'i denu, ond mae llawer o'r feirniadaeth honno'n tybio, ar gam, y byddai'r rôl hon yn un eithriadol o wleidyddol. Fel yr wyf wedi pwysleisio wrthy ch droeon, Weinidog, yr ydym yn teimlo bod hwn yn gyfle anwleidyddol i rywun wireddu agenda blismona sy'n cyd-fynd â dyheadau pobl leol heb ymyrraeth gan wleidyddiaeth bleidiol. Gadewch inni weithio'n ddygn i sicrhau atebolrwydd uniongyrchol yng Nghymru a thu hwnt, a gadewch inni gefnogi cynigion Llywodraeth y DU ym maes plismona. Anogaf Aelodau i gefnogi'r cynnig.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt. Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. notes that the provision to move to a directly elected mayor is already contained in the Local Government Act 2000 and that it can be implemented through a successful referendum;

2. notes that police forces are already accountable to the communities they serve through police authorities, which include a majority of elected councillors as well as lay people;

3. believes that the National Assembly should be able to determine any proposals to change the current system in respect of local police accountability.

Peter Black: I move the following amendments in my name. Amendment 2: delete point 1 and replace with:

notes that local authorities have the ability to establish a directly elected mayor by holding a local referendum, and notes that there has been only one such referendum to date in Wales, which was unsuccessful.

Amendment 3: in point 2, after 'individual', insert:

, however, believes that implementation of such a policy in Wales would be best administered by the Welsh Assembly Government with the devolution of powers over policing.

Amendment 4: add a new point at the end of the motion:

believes that any decisions to establish a directly elected mayor should be taken by local people at a local level.

I will start by agreeing with some of Darren's analysis of our position in terms of local government. Darren is right to say that, over a period of several decades, the powers and influence of local government have been stripped away and that there is a desperate need to revitalise local democracy in Wales and across the UK. The provisions in the coalition agreement to which Darren referred are only applicable to England, because these

1. yn nodi bod y ddarpariaeth i symud tuag at greu swydd maer wedi'i ethol yn uniongyrchol eisoes wedi'i chynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 ac y gall gael ei gweithredu drwy refferendwm llwyddiannus;

2. yn nodi bod heddluoedd eisoes yn atebol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu drwy awdurdodau'r heddlu sy'n cynnwys mwyafrif o gynghorwyr etholedig yn ogystal â phobl leyg;

3. yn credu y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol allu penderfynu ar unrhyw gynigion i newid y system gyfredol mewn perthynas ag atebolrwydd yr heddlu lleol.

Peter Black: Cynigiau y gwelliannau canlynol yn fy enw i. Gwelliant 2: dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

yn nodi bod awdurdodau lleol yn gallu sefydlu maer a etholir yn uniongyrchol drwy gynnal refferendwm lleol, ac yn nodi mai dim ond un refferendwm o'r fath a gynhaliwyd hyd yma yng Nghymru, ac yr oedd hwnnw'n aflwyddiannus.

Gwelliant 3: ym mhwynt 2, ar ôl 'uniongyrchol' cynnwys:

, ond serch hynny, mae'n credu mai Llywodraeth Cynulliad Cymru fyddai yn y sefyllfa orau i weinyddu'r gwaith o roi polisi o'r fath ar waith yng Nghymru drwy ddatganoli pwerau dros blismona.

Gwelliant 4: ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu mai pobl leol ar lefel leol ddylai wneud unrhyw benderfyniad i sefydlu maer a etholir yn uniongyrchol.

Dechreuaf drwy gytuno â rhywfaint o ddadansoddiad Darren o'n sefyllfa o ran llywodraeth leol. Mae Darren yn iawn wrth ddweud bod pwerau a dylanwad llywodraeth leol wedi cael eu cymryd oddi wrthi, dros gyfnod o sawl degawd, a bod taer angen adfywio democratiaeth leol yng Nghymru a ledled y DU. Dim ond i Loegr y mae'r darpariaethau yng nghytundeb y glymblaid, y cyfeiriodd Darren atynt, yn berthnasol, gan

matters are devolved in Wales. My view, and that of the Welsh Liberal Democrats, is that it is not appropriate, at this stage, to carry them forward into Wales, for good reasons that I will set out for you.

The best way to tackle the democratic deficit that Darren has outlined is not to do away with the local authority and to replace it with a scrutiny committee for a directly elected mayor, but to give powers back to local government and to ensure that local councillors are elected by an accountable electoral system, preferably the single transferable vote. If you were to do that and were to look at the functions and size of local councils, ensuring that they were democratically elected, as I have described, and were to give them back the powers that have been taken away from them, you would get the democratically accountable local body that Darren has been aiming for.

4.20 p.m.

The upside is that you would have a number of local councillors who, as well as having the responsibility for administering an area, would also have that pastoral role, which goes with being a local representative and which is very much valued by local communities. It seems that one of the many weaknesses of a directly elected mayor is that that pastoral role is sacrificed so that the mayor can have greater prominence and influence as a sole directly elected, all-powerful representative for a particular area. I think that local people lose out as a result.

I also think that it is wrong to say that we should reverse the loss of democracy and accountability by concentrating all that power in the hands of an individual. That does not seem to be the best way forward. In Wales, at least, I would hope that we could take advantage of the fact that we have the democratically elected National Assembly acting as a more local and available body that people can come to, to ensure that we have a proper sequence of accountability, from community councils to county councils, up to the Assembly itself. That is one of the reasons why a directly elected mayor is not

fod y materion hyn wedi'u datganoli yng Nghymru. Yn fy marn i, a barn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, nid yw'n briodol eu cyflwyno i Gymru ar hyn o bryd, a hynny am resymau da yr hoffwn eu hegluro wrthyhch.

Y ffordd orau o fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd a amlinellodd Darren yw peidio â chael gwared ar yr awdurdod lleol a rhoi pwyllgor craffu yn ei le ar gyfer maer a etholir yn uniongyrchol, ond rhoi pwerau'n ôl i lywodraeth leol a sicrhau y caiff cynghorwyr lleol eu hethol gan system etholiadol atebol, a gorau oll os y bleidlais sengl drosglwyddadwy yw honno. Pe baech yn gwneud hynny, a phe baech yn edrych ar swyddogaethau a maint cynghorau lleol, gan sicrhau y cânt eu hethol yn ddemocrataidd, fel yr wyf wedi disgrifio, a phe baech yn rhoi'n ôl iddynt y pwerau a gymerwyd oddi wrthynt, fe gaech y corff lleol sy'n atebol yn ddemocrataidd, y mae Darren wedi bod yn anelu ato.

Y fantais yw y byddai gennych lawer o gynghorwyr lleol a fyddai nid yn unig yn gyfrifol am weinyddu ardal, ond a fyddai hefyd yn cyflawni'r rôl fugeiliol sy'n cydfynd â bod yn gynrychiolydd lleol, ac y mae cymunedau lleol yn ei gwerthfawrogi'n fawr. Ymddengys mai un o wendidau niferus maer a etholir yn uniongyrchol yw'r ffaith y caiff y rôl fugeiliol honno ei haberthu er mwyn i'r maer allu bod yn fwy amlwg a dylanwadol fel unig gynrychiolydd etholedig ar gyfer ardal benodol, ac sydd â phŵer dros bopeth. Credaf fod pobl leol ar eu colled pan geir trefn o'r fath.

Credaf hefyd ei bod yn anghywir dweud y dylem wrthdroi'r broses o golli democratiaeth ac atebolrwydd drwy roi'r pŵer hwnnw i gyd yn nwylo unigolyn. Ymddengys nad dyna'r ffordd orau o symud ymlaen. Yng Nghymru, o leiaf, byddwn yn gobeithio y gallem fanteisio ar y ffaith bod gennym y Cynulliad Cenedlaethol, a gaiff ei ethol yn ddemocrataidd, yn gorff mwy lleol a hygyrch y gall pobl ddod ato, i sicrhau bod gennym drefn briodol o atebolrwydd, o gynghorau cymuned i gynghorau sir, hyd at y Cynulliad ei hun. Dyna un o'r rhesymau pam nad yw maer a etholir yn uniongyrchol yn

appropriate here. I do not believe that we should be setting up individuals to counter this directly elected Assembly.

On the police agenda, again, I understand that it is not a devolved matter, and, clearly, the coalition Government is looking at directly elected commissioners. That is not something that I am a great fan of, I must say, but, again, an argument can be made that Wales is a separate case. We have a democratically elected Assembly, something that does not exist in Devon, Cornwall, Norfolk, Suffolk or Northumberland, and, as such, we have a body that can take responsibility for policing and ensure that there is some more local accountability with regard to the way in which police authorities are administered and that there is a proper check that is accessible to local people. In that circumstance, the present mix of elected local councillors working with co-opted members to administer the police, accountable to a Government Minister in Cardiff bay, is a far more acceptable way of securing proper accountability for the police than setting up the role of a commissioner, when it is not clear how the relationship would work between the commissioner and the Assembly Government, which would still provide half of the funding for the police authority, and between the commissioner and the chief constable for the area.

On the basis of those arguments, it seems to me that the sensible way forward with regard to a Wales solution is through the amendments that we have moved today, which I think are very similar to Labour's amendment 1. So, we will be voting for all four amendments, because we believe that that is the proper Welsh solution to the particular problems that Darren has outlined today.

Nick Bourne: It is a great privilege to take part in what is clearly a very important debate relating to local accountability. I will address my remarks particularly to the creation of directly elected mayors, and other party Members will deal with the situation regarding the police and accountability—

briodol yma. Ni chredaf y dylem fod yn sefydlu unigolion i wrthbwysu'r Cynulliad hwn a etholir yn uniongyrchol.

O ran yr agenda sy'n ymwneud â'r heddlu, unwaith eto, deallaf nad yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ac mae'n amlwg bod y Llywodraeth glymbleidiol yn ystyried comisiynwyr a gaiff eu hethol yn uniongyrchol. Nid wyf yn rhy hoff o'r syniad hwnnw, rhaid imi ddweud, ond, unwaith eto, gellir dadlau bod Cymru yn achos ar wahân. Mae gennym Gynulliad a etholir yn ddemocrataidd, sy'n rhywbeth nad yw'n bodoli yn Nynfaint, Cernyw, Norfolk, Suffolk neu Northumberland, ac, fel y cyfryw, mae gennym gorff a all gymryd cyfrifoldeb am blismona a sicrhau bod ychydig yn rhagor o atebolrwydd lleol o ran y modd y caiff awdurdodau heddlu eu gweinyddu, a bod trefn archwilio briodol ar gael sy'n hygyrch i bobl leol. Mewn amgylchiad o'r fath, mae'r cymysgedd presennol o gynghorwyr etholedig lleol, sy'n gweithio gydag aelodau cyfetholedig i weinyddu'r heddlu ac sy'n atebol i Weinidog yn y Llywodraeth ym mae Caerdydd, yn ffordd fwy derbyniol o lawer o sicrhau atebolrwydd priodol am yr heddlu na sefydlu rôl comisiynydd, pan nad yw'n glir sut y byddai'r berthynas yn gweithio rhwng y comisiynydd a Llywodraeth y Cynulliad, a fyddai'n parhau i ddarparu hanner y cyllid ar gyfer yr awdurdod heddlu, a rhwng y comisiynydd a'r prif gwnstabl ar gyfer yr ardal.

Ar sail y dadleuon hynny, ymddengys i mi mai'r ffordd synhwyrol o symud ymlaen o ran cael ateb i Gymru yw drwy'r gwelliannau yr ydym wedi'u cynnig heddiw, sydd, yn fy marn i, yn debyg iawn i welliant 1 y Blaid Lafur. Felly, byddwn yn pleidleisio o blaid pob un o'r pedwar gwelliant, oherwydd credwn mai dyna yw'r ateb priodol i Gymru yn wyneb y problemau penodol y mae Darren wedi'u hamlinellu heddiw.

Nick Bourne: Mae'n ffrainc cael cymryd rhan mewn dadl am atebolrwydd lleol, sy'n amlwg yn bwysig iawn. Yn fy sylwadau i, hoffwn ymdrin yn benodol â chreu meiri a etholir yn uniongyrchol, a bydd Aelodau eraill fy mhlaidd yn ymdrin â'r sefyllfa ynghylch yr heddlu ac atebolrwydd—er y dylwn

although I hasten to add to that, of course, I totally support the whole motion.

There is a desperate need to reinvigorate local government in Wales, as has been set out correctly and ably by Darren Millar. In fairness, I think that Peter Black agreed with this part of the analysis. Voters remain largely apathetic in local elections, with only a third of voters, on average, bothering to turn out. Wales is not massively different from the rest of the United Kingdom in that regard. People say that they are disillusioned and that they have no real say in local decisions that have an impact on their everyday lives. I agree that part of that is that not enough is devolved from this body to local government. That is something that we need to look at, but it is only one part of the story.

We should give people the opportunity to vote for directly elected mayors. After all, it is not a case of imposing this on them. There is nothing undemocratic about this; people have a say on whether they want a directly elected mayor and the directly elected mayors are not all-powerful either. Boris Johnson is certainly the figurehead in London—perhaps more than that—but he is not governing London on his own. The London Assembly is made up of elected members from different parties and from all over London.

Jenny Randerson: Do you not appreciate that those London Assembly Members very frequently express their frustration that they have virtually no power other than the power to verbally criticise the directly elected mayor?

Nick Bourne: All directly elected Members have frustrations, Jenny. We have them here. I recognise that, but there are other elected Members and they do certainly have some ability to represent their areas in the London Assembly.

The Local Government Act 2000 gave people

ychwanegu'n syth fy mod, wrth gwrs, yn llwyr gefnogi'r cynnig cyfan.

Mae taer angen adfywio llywodraeth leol yng Nghymru, fel yr eglurwyd yn gywir ac yn fedrus gan Darren Millar. Er tegwch, credaf i Peter Black gytuno â'r rhan honno o'r dadansoddiad. Mae pleidleiswyr yn parhau'n ddifater i raddau helaeth mewn etholiadau lleol ac, ar gyfartaledd, dim ond un pleidleisiwr o bob tri sy'n trafferthu bwrw eu pleidlais. Nid yw Cymru yn wahanol iawn i weddill y Deyrnas Unedig yn hynny o beth. Dywed pobl eu bod wedi'u dadrithio, ac nad oes ganddynt lais gwirioneddol mewn penderfyniadau lleol sy'n effeithio ar eu bywydau pob dydd. Cytunaf mai rhan o'r rheswm am hynny yw nad oes digon wedi'i ddatganoli o'r corff hwn i lywodraeth leol. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni ei ystyried, ond nid yw ond megis un rhan o'r stori.

Dylem roi cyfle i bobl bleidleisio ynghylch meiri a etholir yn uniongyrchol. Wedi'r cyfan, nid yw'n fater o orfodi'r drefn hon arnynt. Nid ydym yn gweithredu'n annemocrataidd o gwbl; gall pobl ddweud a ydynt am gael maer a etholir yn uniongyrchol ai peidio, ac nid oes gan feiri a etholir yn uniongyrchol bŵer dros bopeth ychwaith. Boris Johnson yn bendant yw wyneb amlwg Llundain—efallai ei fod yn fwy na hynny—ond nid yw'n llywodraethu Llundain ar ei ben ei hun. Mae Cynulliad Llundain yn cynnwys aelodau etholedig o wahanol bleidiau ac o bob cwr o Lundain.

Jenny Randerson: Oni chydabyddwch fod yr Aelodau hynny o Gynulliad Llundain yn aml iawn yn mynegi rhwystredigaeth am nad oes ganddynt ddim pŵer o gwbl, i bob pwrpas, ar wahân i'r pŵer i feirniadu ar lafar y maer a etholwyd yn uniongyrchol?

Nick Bourne: Bydd pob Aelod a gaiff ei ethol yn uniongyrchol yn teimlo'n rhwystredig ynghylch gwahanol bethau, Jenny. Mae hynny'n digwydd i ni yma. Yr wyf yn cydnabod hynny, ond ceir Aelodau etholedig eraill, ac yn bendant mae ganddynt rywfaint o allu i gynrychioli eu hardaloedd yng Nghynulliad Llundain.

Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 y

the power to trigger a referendum for a directly elected mayor. It provided for a petition signed by no fewer than 5 per cent of local electors in England, and 10 per cent of local electors in Wales. I do not see why we should have a different trigger in Wales, and I think that that trigger should come down. The signatures have to be collected within a 12-month period.

It is also true to say that a referendum has been held in Wales on one occasion—in Ceredigion, which is my home area, in 2004. As a possible prelude to the all-party ‘yes’ campaign, they had an all-party ‘no’ campaign. Along with colleagues from Plaid Cymru, the Labour Party and the Liberal Democrats, I joined the ‘no’ campaign because I did not think that it was appropriate for Ceredigion. However, I do think that it is often appropriate for urban areas. There is nothing wrong with those urban areas having the ability to say whether they want it or not. It will not be forced upon them; it is something that people can vote for if they want it. Given that the legislation is there, which was passed by a Labour Government, it seems undemocratic to say that that ability will not be exercised in Wales. We have it in many urban areas in England and not always in the largest cities. It seems to be sensible to say that there should be this right in Cardiff, Swansea, Newport, Wrexham, Bangor and perhaps beyond, for example, in Bridgend.

Mayors would be accountable to the public and have the incentive to improve the performance and delivery of local public services in their area. In 2007, David Cameron said,

‘I believe it’s time in our big cities for elected mayors, so people have one person to blame if it goes wrong and to praise if it goes right’.

Many academics have commented on improved performances in the areas where we have had directly elected mayors. The Audit Commission in England praised the

pŵer i bobl ysgogi refferendwm ynghylch maer a etholir yn uniongyrchol. Yr oedd yn darparu ar gyfer deiseb a lofnodir gan o leiaf 5 y cant o’r etholwyr lleol yn Lloegr, a 10 y cant o’r etholwyr lleol yng Nghymru. Nid wyf yn deall pam y dylai fod gennym drothwy gwahanol yng Nghymru, a chredaf y dylid ei ostwng. Rhaid casglu’r llofnodion o fewn cyfnod o 12 mis.

Mae hefyd yn wir dweud i refferendwm gael ei gynnal yng Nghymru unwaith—yng Ngheredigion, sef yr ardal yr wyf yn byw ynddi, yn 2004. Fel rhagarweiniad posibl i’r ymgyrch hollbleidiol dros bleidlais ‘ie’, cawsant hwy ymgyrch hollbleidiol dros bleidlais ‘na’. Gyda chydweithwyr o Blaid Cymru, y Blaid Lafur a’r Democratiaid Rhyddfrydol, ymunais â’r ymgyrch dros bleidlais ‘na’ gan nad oeddwn yn credu bod y drefn yn briodol i Geredigion. Fodd bynnag, credaf ei bod yn briodol yn aml i ardaloedd trefol. Nid oes dim o’i le ar sicrhau bod yr ardaloedd trefol hynny’n gallu dweud a ydynt am gael y drefn honno ai peidio. Ni fydd yn cael ei gorfodi arnynt; mae’n rhywbeth y gall pobl bleidleisio drosto os ydynt yn dymuno’i gael. O gofio bod y ddeddfwriaeth yn bodoli, a basiwyd gan Lywodraeth Lafur, ymddengys yn annemocrataidd dweud na fydd y gallu hwnnw’n cael ei arfer yng Nghymru. Mae’r gallu gennym mewn llawer o ardaloedd trefol yn Lloegr, ac nid yn y dinasoedd mwyaf bob amser. Ymddengys yn synhwyrol dweud y dylai’r hawl hon fodoli yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd, Wrecsam, Bangor, a thu hwnt efallai hefyd, er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Byddai’r meiri’n atebol i’r cyhoedd, a byddai ganddynt y cymhelliant i wella’r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus lleol a’u perfformiad yn eu hardal. Yn 2007, dywedodd David Cameron,

Credaf ei bod yn bryd i’n dinasoedd mawr gael meiri etholedig, er mwyn i bobl gael unigolyn i’w feio os bydd pethau’n mynd o chwith a’i ganmol os bydd pethau’n mynd yn dda.

Mae llawer o academyddion wedi sylwi ar well perfformiad yn yr ardaloedd lle cawsom feiri a etholwyd yn uniongyrchol. Cafodd Bwrdeistref Hackney yn Llundain

London Borough of Hackney for its improvement in performance as a local authority during the time that it has had an elected mayor. The same is also true of other areas. Therefore, mayors are well placed to orchestrate and co-ordinate the actions of various institutions to break down barriers and to speed up decision making to deliver real improvements to public services in their area.

As Darren Millar has quite correctly pointed out, the turnout increased in London mayoral elections. Although it was not a satisfactory figure, it was healthy compared to those for elections to other local authorities. We all know that it did engender interest because we all saw that in the election contest, most recently in 2008, between two nationally known figures, which was good for local democracy, London and the United Kingdom. I want to see champions for our cities in Wales, attracting inward business investment, lobbying for funding and cutting through some of the bureaucratic red tape that exists. I strongly support this motion.

David Lloyd: I am pleased to contribute to this Conservative debate. In terms of issues of governance and democratic accountability, our guiding principle in Plaid is that of collective and collaborative co-operation. We believe that collective responsibility is central. We oppose the notion of directly elected mayors. As Peter Black has said, placing so much responsibility in the hands of one person cannot be good for democracy. One individual cannot possibly be representative of an entire area and cannot be accountable to all. We have seen elected mayors, such as Ray Mallon, the self-styled Robocop and former Cleveland police chief who became the elected mayor of Middlesbrough, encompassing both titles of the Conservative debate this afternoon. We saw what happened on the streets of Middlesbrough. We have also H'Angus, the elected mayor in a monkey suit in Hartlepool, reviving the old folklore story in the Hartlepool area of the monkey that was hanged for being a French spy during the Napoleonic wars. H'Angus was the local

ganmoliaeth gan y Comisiwn Archwilio yn Lloegr am wella'i pherfformiad fel awdurdod lleol yn ystod y cyfnod y bu ganddi faer a etholwyd yn uniongyrchol. Mae'r un peth hefyd yn wir am ardaloedd eraill. Felly, mae meiri mewn sefyllfa dda i drefnu a chydlynu camau gweithredu amryw sefydliadau i ddileu rhwystrau a chyflymu'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn sicrhau gwelliannau go iawn i wasanaethau cyhoeddus yn eu hardal.

Fel y nododd Darren Millar yn gywir ddigon, cynyddodd nifer y bobl a bleidleisiodd yn yr etholiadau i ethol maer ar gyfer Llundain. Er nad oedd yn ffigur boddhaol, yr oedd yn iach o'i gymharu â'r ffigurau ar gyfer etholiadau i awdurdodau lleol eraill. Gŵyr pob un ohonom i'r drefn ennyn diddordeb, oherwydd gwelsom i gyd hynny yn yr ornest etholiadol, yn 2008 yn fwyaf diweddar, rhwng dau unigolyn sy'n adnabyddus yn genedlaethol, a oedd o fudd i ddemocratiaeth leol, Llundain a'r Deyrnas Unedig. Yr wyf am weld hyrwyddwyr ar gyfer ein dinasoedd yng Nghymru, i ddenu mewnfuddsoddiad o ran busnes, pwyso am gyllid a dileu rhywfaint o'r gwaith papur biwrocraidaidd sy'n bodoli. Yr wyf yn cefnogi'r cynnig hwn yn gryf.

David Lloyd: Yr wyf yn falch o gyfrannu at y ddadl hon gan y Ceidwadwyr. O ran llywodraethu ac atebolrwydd democrataidd, yr egwyddor sy'n ein harwain ym Mhlaid Cymru yw'r egwyddor o gydweithredu'n gyfunol. Credwn fod ysgwyddo cyfrifoldeb ar y cyd yn hanfodol. Yr ydym yn gwrthwynebu'r cysyniad o feiri a etholir yn uniongyrchol. Fel y dywedodd Peter Black, ni all trefn lle caiff cymaint o gyfrifoldeb ei roi yn nwylo unigolyn fod o fudd i ddemocratiaeth. Mae'n amhosibl i unigolyn gynrychioli ardal gyfan, ac ni all fod yn atebol i bawb. Yr ydym wedi gweld meiri etholedig, megis Ray Mallon, sy'n ei alw ei hun yn Robocop ac a arferai fod yn bennaeth heddlu Cleveland, a gafodd ei ethol yn faer Middlesbrough, gan gyfuno'r ddwy agwedd ar ddadl y Ceidwadwyr y prynhawn yma. Gwelsom yr hyn a ddigwyddodd ar strydoedd Middlesbrough. Yn ogystal, yr ydym wedi gweld H'Angus, y maer a etholwyd mewn siwt mwnci yn Hartlepool, a atgyfododd hen chwedl yn ardal Hartlepool am y mwnci a grogwyd am fod yn ysbŵr o Ffrainc yn

football mascot and he was elected mayor of Hartlepool on a raft of banana-related policies. At the time, some people rather unkindly suggested that that was not the first example of a monkey being elected to high office, but I could not possibly comment. [Laughter.] Such elected members, we feel, could be a recipe for despotic, egocentric, maverick, and potentially wild and idiosyncratic behaviour, which could find refuge for a whole four-year term, about which the local population could do nothing.

ystod rhyfeloedd Napoleon. H'Angus oedd y masgot pêl-droed lleol, a chafodd ei ethol yn faer Hartlepool ar sail llwyth o bolisiau'n ymwneud â bananas. Ar y pryd, awgrymodd rhai pobl braidd yn angharedig nad dyna'r enghraifft gyntaf o fwnci'n cael ei ethol i swydd uchel, ond nid oes wiw imi wneud sylw ar hynny. [Chwerthin.] Teimlwn y gallai aelodau etholedig o'r fath arwain at ymddygiad gormesol, hunanol, gwrthryfelgar, gwyllt a mympwyol efallai, a allai barhau am dymor cyfan o bedair blynedd, heb fod y boblogaeth leol yn gallu gwneud dim yn ei gylch.

4.30 p.m.

Similarly, in Plaid, we oppose elected police chiefs. Democratic accountability needs to be extended to local police authorities by placing more democratically elected individuals on police authorities. Elected police chiefs would be just another Conservative public relations stunt. In the current financial climate, we face cuts in police numbers but we need to tackle the reoffending rates that we heard about in the last debate on the youth justice system. Elected police chiefs have no role as regards police numbers or tackling reoffending rates. Instead, policing and the criminal justice system generally should be devolved to Wales and made accountable to the people of Wales.

Yn yr un modd, ym Mhlaid Cymru, yr ydym yn gwrthwynebu penaethiaid heddlu etholedig. Mae angen i atebolrwydd democrataidd gael ei ymestyn i awdurdodau heddlu lleol drwy gynnwys mwy o unigolion a etholir yn ddemocrataidd ar awdurdodau heddlu. Dim ond sbloet arall gan y Ceidwadwyr at ddiben hybu cysylltiadau cyhoeddus fyddai penaethiaid heddlu etholedig. Yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, yr ydym yn wynebu toriadau mewn niferoedd swyddogion heddlu, ond mae angen inni fynd i'r afael â'r cyfraddau aildroseddu y clywsom amdanynt yn y ddatl ddiwethaf ar y system cyfiawnder ieuenctid. Nid oes gan benaethiaid heddlu etholedig unrhyw rôl i'w chwarae o ran niferoedd swyddogion heddlu neu'r angen i fynd i'r afael â chyfraddau aildroseddu. Yn hytrach, dylai gwaith plismona a'r system cyfiawnder troseddol yn gyffredinol gael eu datganoli i Gymru, a'u gwneud yn atebol i bobl Cymru.

Mark Isherwood: The Sustainable Communities Act 2007 recognises that local people best know what needs to be done to promote the sustainability of their area. Regrettably, Labour and Plaid Cymru have refused to implement that in Wales. We must empower rather than overpower local people, giving them a say in the running of local services. If Mansfield and Middlesbrough benefit from elected mayors, why not Wrexham and Bangor, Dai? Ray Mallon is serving his second term as the first directly elected mayor of Middlesbrough. The success of his policies is attributed to the fact that they are based on social justice and his own

Mark Isherwood: Mae Deddf Cymunedau Cynaliadwy 2007 yn cydnabod mai pobl leol sy'n gwybod orau beth y mae angen ei wneud i hyrwyddo cynaliadwyedd eu hardal. Yn anffodus, mae'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi gwrthod gweithredu hynny yng Nghymru. Rhaid inni rymuso pobl leol yn hytrach na'u llethu, gan roi llais iddynt yn y modd y caiff gwasanaethau lleol eu rhedeg. Os yw Mansfield a Middlesbrough yn cael budd o feiri etholedig, pam na all Wrecsam a Bangor, Dai? Mae Ray Mallon yn ei ail dymor fel y maer cyntaf i'w ethol yn uniongyrchol ar gyfer Middlesbrough. Caiff llwyddiant ei bolisiau eu priodoli i'r ffaith eu

upbringing. Nicknamed 'Robocop' for his tough approach to zero-tolerance policing on the streets of Middlesbrough, he told the police that, when making arrests, they should focus on protecting the public and themselves rather than on the rights of criminals. However, he also said that society is best served by a system in which punishments and deterrents are balanced by the rehabilitation of those who offend and their diversion from future criminal activity. In his first five years as mayor of Middlesbrough, crime fell by 20 per cent or, to put it in other terms, by almost 6,000 victims a year.

Police should be accountable to the people whom they serve, not to bureaucracy. The vice-chairman of the Police Federation of England and Wales described the previous UK Government's solutions as meaningless and counter-productive, and described Jack Straw's comments about police officers hiding behind bureaucracy as irresponsible and inflammatory. It was not police officers, he said, who brought in 3,000 new laws, a 30-page prosecution file, and multiple forms to authorise the use of a pair of binoculars. Under Labour, the real problem with the politicisation of the police was micromanagement. We therefore welcome the announcement made by the Home Secretary at the Association of Chief Police Officers conference yesterday of plans to cut police bureaucracy.

The new UK coalition Government plans to make the police more accountable through oversight by a directly elected individual who will be subject to strict checks and balances by locally elected representatives. This will be about restoring the professional judgment of the police while making the police more accountable to the public. Outlined in the Queen's Speech, this will be introduced through the police reform and social responsibility Bill, applying to England and Wales. Local people will elect an official who will then set priorities for the police force. The chief constable would in turn be expected to meet those priorities. Directly

bod wedi'u seilio ar gyfiawnder cymdeithasol a'i fagwraeth ei hun. Ei llysenw yw 'Robocop' oherwydd ei agwedd ddiostur wrth fynnu na ddylid dangos dim goddefgarwch wrth blismona ar strydoedd Middlesbrough. Dywedodd wrth yr heddlu y dylent ganolbwyntio ar ddiogelu'r cyhoedd a'u diogelu eu hunain wrth arestio pobl, yn hytrach na chanolbwyntio ar hawliau troseddwy. Fodd bynnag, dywedodd hefyd y caiff cymdeithas ei gwasanaethu orau gan system lle ceir cydbwysedd rhwng dulliau o gosbi ac atal troseddwy a dulliau o adsefydlu troseddwy a'u helpu i osgoi troseddu yn y dyfodol. Yn ystod ei bum mlynedd cyntaf fel maer Middlesbrough, gostyngodd lefelau troseddu 20 y cant, neu bron i 6,000 o ddioddefwyr y flwyddyn, o'i fynegi fel arall.

Dylai'r heddlu fod yn atebol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu, ac nid i fiwrocratiaeth. Dywedodd is-gadeirydd Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr fod atebion Llywodraeth flaenorol y DU yn ddiystyr ac yn wrthgynhyrchiol, a dywedodd fod sylwadau Jack Straw ynghylch swyddogion heddlu'n cuddio y tu ôl i fiwrocratiaeth yn anghyfrifol ac yn ymfflamychol. Dywedodd nad swyddogion heddlu a gyflwynodd 3,000 o ddeddfau newydd, ffeil erlyn sy'n 30 tudalen o hyd, a lluo o ffurflenni i awdurdodi defnyddio sbienddrych. Dan y Blaid Lafur, y broblem go iawn wrth wleidyddoli'r heddlu oedd microreoli. Felly, yr ydym yn croesawu'r cyhoeddiad a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cartref yng nghynhadledd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ddoe am gynlluniau i leihau biwrocratiaeth yr heddlu.

Mae Llywodraeth glymbleidiol newydd y DU yn bwriadu gwneud yr heddlu'n fwy atebol drwy oruchwyliaeth gan unigolyn a etholir yn uniongyrchol, a fydd yn cael ei archwilio a'i gloriannu'n fanwl iawn gan gynrychiolwyr a etholir yn lleol. Bydd a wnelo'r drefn ag adfer barn broffesiynol yr heddlu, gan wneud yr heddlu'n fwy atebol i'r cyhoedd ar yr un pryd. Fe'i hamlinellwyd yn Araith y Frenhines, a bydd yn cael ei chyflwyno drwy'r Mesur ar gyfer diwygio'r heddlu a chyfrifoldeb cymdeithasol, a fydd yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Byddai pobl leol yn ethol swyddog a fyddai'n pennu blaenoriaethau ar gyfer yr heddlu. Yn ei dro,

elected individuals would ensure that the police concentrate on the crimes that most affect people's quality of life. If they did not do their job properly, as Darren said, they would not be re-elected. They would therefore not lose sight of their primary duty to protect their citizens and to meet local rather than Whitehall or Cardiff targets. The current top-down target-ridden culture would be replaced by accountability to the public.

Peter Black: You have just outlined the advantages of having a directly elected police commissioner. Putting aside the national targets, are you saying that that is not happening at the moment?

Mark Isherwood: My casework suggests that many people are concerned that it is not, and, even where it is, they do not understand how the current system of accountability works.

Scotland Yard chief Sir Paul Stephenson recently said that he thinks that policing is too important to be left to the police alone. He said that it must get effective oversight. He said that we need people to define the arrangements in which the police work, their strategic oversight and how they spend significant amounts of money, and, above all, to hold him to account. He said that it would be possible to work through concerns about how the elected role would work if politicians guaranteed the operational independence of police officers. At present, the police are supposedly accountable to the police authorities; however, few people know who sits on them or what they do.

The Police Federation has previously expressed concern that the concept of directly elected individuals could open the doors to extremists determining operational policing decisions locally. As a vice-president of Searchlight Cymru, which fights fascism and racism, I would be appalled at such an

byddai disgwyl i'r prif gwnstabl gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Byddai unigolion a etholwyd yn uniongyrchol yn sicrhau bod yr heddlu'n canolbwyntio ar y troseddau sy'n effeithio fwyaf ar ansawdd bywyd pobl. Pe na baent yn gwneud eu gwaith yn iawn, fel y dywedodd Darren, ni fyddent yn cael eu hailethol. Ni fyddent, felly, yn colli golwg ar eu prif ddyletswydd, sef diogelu eu dinasyddion a chyrraedd targedau lleol yn hytrach na thargedau Whitehall neu Gaerdydd. Byddai'r diwylliant o'r brig i lawr, a geir ar hyn o bryd ac sy'n frith o dargedau, yn cael ei ddisodli gan atebolrwydd i'r cyhoedd.

Peter Black: Yr ydych newydd amlinellu manteision cael comisiynydd heddlu a etholir yn uniongyrchol. Gan roi targedau cenedlaethol o'r neilltu, a ydych yn dweud nad yw hynny'n digwydd ar hyn o bryd?

Mark Isherwood: Mae fy ngwaith achos yn awgrymu bod llawer o bobl yn gofidio nad yw'n digwydd, a hyd yn oed lle mae'n digwydd, nid ydynt yn deall sut mae'r system gyfredol o atebolrwydd yn gweithio.

Yn ddiweddar, dywedodd pennaeth Scotland Yard, Syr Paul Stephenson, ei fod o'r farn bod plismona'n rhy bwysig i'w adael i'r heddlu'n unig. Dywedodd fod yn rhaid ei oruchwylio'n effeithiol. Dywedodd fod arnom angen pobl i ddiffinio trefniadau gweithio'r heddlu, eu goruchwyliaeth strategol, a'r modd y maent yn gwario symiau sylweddol o arian, ac yn anad dim, bod arnom angen pobl i'w ddwyn ef i gyfrif. Dywedodd y byddai'n bosibl lleddfu'r pryderon ynghylch sut y byddai rôl yr unigolyn etholedig yn gweithio pe bai gwleidyddion yn gwarantu annibyniaeth weithredol swyddogion heddlu. Ar hyn o bryd, mae'r heddlu, mae'n debyg, yn atebol i'r awdurdodau heddlu; fodd bynnag, ychydig o bobl a w'yr pwy sy'n aelodau ohonynt neu beth y maent yn ei wneud.

Mae Ffederasiwn yr Heddlu wedi mynegi pryder o'r blaen y gallai'r cysyniad o unigolion a etholir yn uniongyrchol roi cyfleoedd i eithafwyr wneud penderfyniadau'n lleol ynghylch gwaith plismona gweithredol. Fel is-lywydd Searchlight Cymru, sy'n ymladd ffasgiaeth a

outcome. However, while there are undoubtedly a small number of places that elect people with distasteful and extreme views, nowhere in the UK has come anywhere near close to electing an extremist across an entire force or police authority area. However, the fear that that could happen is one reason for ensuring that we build checks and balances into the system, so that the team scrutinising the elected figure has the power to bring extreme actions to a halt, if deemed necessary. That, Peter, I believe came from the Liberal Democrats, and I applaud it.

As the president of Association of Chief Police Officers states in respect of locally elected individuals:

‘the test is reconciling it with operational independence for policing. Squaring that circle is a matter for government.’

Nick Ramsay: It is a pleasure to be a contributor to this debate today. As all our speakers have made clear so far, we think that the advent of directly elected mayors would be of great benefit to us in Wales, for our cities as well as our communities.

I will start by quoting Tony Benn, who used to say that, whenever he spoke to an elected official, he would ask five questions: ‘What power have you got?’; ‘Where did you get it from?’; ‘In whose interests do you exercise it?’; ‘To whom are you accountable?’; and, ultimately, ‘How do we get rid of you?’ These are good questions and it is imperative that we keep asking them. I also believe that the time has come to acknowledge that our current form of democracy is in urgent need of reform.

When Mr Benn retired from the House of Commons in 2001, he claimed, ironically, that it was to devote more time to politics. Such cynicism points to an uncomfortable truth: Britain’s long-established tradition of representative democracy cannot conceal the fact that there is growing friction between local government and central Government.

hiliaeth, byddwn yn arswydo pe bai hynny’n digwydd. Fodd bynnag, er y ceir nifer fach o leoedd, heb os, sy’n ethol pobl sy’n coleddu safbwyntiau cas ac eithafol, nid oes yr un man yn y DU wedi dod yn agos at ethol eithafwr ar draws ardal gyfan heddlu neu awdurdod heddlu. Fodd bynnag, mae’r ofn y gallai hynny ddigwydd yn un rheswm dros sicrhau ein bod yn ymgorffori dulliau archwilio a chloriannu yn y system, er mwyn sicrhau bod gan y tîm sy’n craffu ar yr unigolyn a etholwyd y pŵer i roi terfyn ar weithredoedd eithafol, pe bernid bod hynny’n angenrheidiol. Y Democratiaid Rhyddfrydol a gyflwynodd y syniad hwnnw, mi gredaf, Peter, ac fe’i cymeradwyaf.

Fel y dywed llywydd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ynghylch unigolion a etholir yn lleol:

y prawf yw cysoni hynny ag annibyniaeth weithredol i blismona. Mater i’r llywodraeth yw sgwario’r cylch hwnnw.

Nick Ramsay: Mae’n bleser gennyf gyfrannu at y ddadl hon heddiw. Fel y mae pob un o’n siaradwyr wedi egluro’n barod, credwn y byddai cyflwyno meiri a etholir yn uniongyrchol o fudd mawr inni yng Nghymru, ar gyfer ein dinasoedd yn ogystal â’n cymunedau.

Hoffwn ddechrau drwy ddyfynnu Tony Benn, a arferai ddweud y byddai’n gofyn pum cwestiwn pryd bynnag y byddai’n siarad â swyddog etholedig: ‘Pa bŵer sydd gennych?’; ‘O ble y cawsoch y pŵer hwnnw?’; ‘Er budd pwy yr ydych yn ei arfer?’; ‘I bwy yr ydych yn atebol?’; ac yn olaf, ‘Sut mae cael gwared arnoch?’ Mae’r cwestiynau hyn yn rhai da, ac mae’n hanfodol ein bod yn parhau i’w gofyn. Credaf hefyd ei bod yn bryd cydnabod bod angen diwygio ein ffurf gyfredol ar ddemocratiaeth ar frys.

Pan ymddeolodd Mr Benn o Dŷ’r Cyffredin yn 2001, honnodd yn eironig ddigon ei fod yn gwneud hynny er mwyn neilltuo mwy o amser i wleidyddiaeth. Mae sinigiaeth o’r fath yn awgrymu gwirionedd anghyffyrddus: ni all traddodiad hir Prydain o ddemocratiaeth gynrychioliadol gelu’r ffaith bod tyndra cynyddol rhwng llywodraeth leol

The truth is that even more socialist countries such as France have much more freedom of choice, and far better services than those in the UK in certain areas as a result of their different type of democracy. The localist gene has been latent in all Europe's subsidiary regions: Spain's mayors rule what are effectively city states; France's communes maintain their primary schools; Germany's Länder control education and transport; and Denmark's counties run hospitals often to far higher standards than is the case here.

Local democracy in Wales has been traduced. The decisions that most tangibly affect us are made not by any elected representatives but, too often, by unelected quangos stretching as far as the European Commission. School admissions policies, health priorities, smoking bans and housing targets—all these things are often decided by a single Minister and then applied uniformly to 3 million people. Yet, there is a solution that could improve the quality of decision making at national and local levels and restore the public's faith in politics. There is a solution that is known as 'direct democracy', which involves a radical redistribution of power from London to Cardiff, from the Assembly to local authorities, from judges to the people, and from police authorities to local communities.

Under new Government plans, the role of the Home Secretary over local policing is to be reduced substantially and refocused onto areas of national policing and security. There will also be a direct and transparent funding arrangement between voters and elected commissioners so that the public can judge the effectiveness of the policing that they pay for. This debate is about challenging public perceptions about civic and local politics, and I believe that a new breed of civic leaders can re-enthuse people in their local politics.

City mayors are proven to provide greater

a Llywodraeth ganolog. Y gwir amdani yw bod gan wledydd sydd hyd yn oed yn fwy sosialaidd, megis Ffrainc, lawer mwy o ryddid i ddewis, a gwasanaethau gwell o lawer na rhai'r DU mewn rhai ardaloedd, o ganlyniad i'w math gwahanol o ddemocratiaeth. Mae'r elfen leol wedi bod ynghudd yn holl is-ranbarthau Ewrop: mae meiri Sbaen yn rheoli'r hyn sydd i bob pwrpas yn wladwriaethau dinesig; mae comiwnau Ffrainc yn cynnal eu hysgolion cynradd; mae taleithiau'r Almaen yn rheoli addysg a thrafnidiaeth; ac mae siroedd Denmarc yn rhedeg ysbytai, gan gyrraedd safonau uwch o lawer nag sy'n wir yma.

Mae democratiaeth leol yng Nghymru wedi ei bradychu. Caiff y penderfyniadau sy'n effeithio fwyaf arnom eu gwneud nid gan gynrychiolwyr a etholwyd, ond yn rhy aml o lawer gan gwangos sydd heb eu hethol, sy'n ymestyn mor bell â'r Comisiwn Ewropeaidd. Polisiau derbyn disgyblion, blaenoriaethau ym maes iechyd, gwaharddiadau ar ysmegu, a thargedau'n ymwneud â thai—caiff yr holl bethau hyn eu penderfynu'n aml gan un Gweinidog, a byddant wedyn yn dod yn berthnasol yn yr un modd i 3 miliwn o bobl. Eto i gyd, ceir ateb a allai wella ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol a lefel leol, ac a allai adfer ffydd y cyhoedd mewn gwleidyddiaeth. Ceir ateb a elwir yn 'ddemocratiaeth uniongyrchol', sy'n golygu aildosbarthu pŵer yn radical o Lundain i Gaerdydd, o'r Cynulliad i awdurdodau lleol, o farnwyr i'r bobl, ac o awdurdodau heddlu i gymunedau lleol.

Dan gynlluniau newydd y Llywodraeth, bydd rôl yr Ysgrifennydd Cartref dros blismona lleol yn cael ei lleihau'n sylweddol, a bydd yn canolbwyntio'n hytrach ar agweddau ar ddiogelwch a phlismona cenedlaethol. Yn ogystal, bydd trefniant cyllido uniongyrchol a thryloyw rhwng pleidleiswyr a chomisiynwyr etholedig, er mwyn i'r cyhoedd allu barnu effeithiolrwydd y plismona y maent yn talu amdano. Mae a wnelo'r ddadl hon â herio canfyddiadau'r cyhoedd ynghylch gwleidyddiaeth ddinesig a lleol, a chredaf y gall math newydd o arweinwyr dinesig aildanio brwdfrydedd pobl ynghylch gwleidyddiaeth leol.

Profwyd bod meiri dinasoedd yn darparu

leadership and direction in local authority areas, and improve the performance and delivery of local public services, as has happened in London under Boris Johnson, as has been mentioned, or in New York under Rudy Giuliani. If Mansfield, Bedford and Torbay can have their own directly elected mayor, why cannot Cardiff, Swansea, Newport, Wrexham or Bangor? It would be beneficial for our cities to have a figurehead, someone who is ultimately responsible to its citizens for the state of their communities.

4.40 p.m.

The Minister is right to recognise the need for greater power and further accountability. The expansion of the digital television trials has been a step in the right direction. However, the Minister has yet to set out additional plans to devolve control over local government finance to local people. I look forward to hearing the Minister's comments at the end of this debate in response to the questions that we have raised.

According to the WLGA, the administrative cost of ring-fenced grants in Wales is between £60 million and £70 million a year. How committed is the Minister to giving local authorities more discretion over their expenditure? I raise these points in this debate because that question of responsibility and where it lies could tie together many of the issues that we talk about in other debates. Although we are, on the face of it, talking about directly elected police chiefs and mayors, there are many other matters that could be factored into this discussion on local democracy.

This is a very relevant debate. We often talk about how we want to re-enthuse the electorate and re-engage people with politics, and we can do those things in a range of different ways. However, I urge the Government to consider the subjects that have been raised today by me and my fellow

mwy o arweinyddiaeth a chyfeiriad mewn ardaloedd awdurdodau lleol, a'u bod yn gwella'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus lleol a'u perfformiad, fel sydd wedi digwydd yn Llundain dan Boris Johnson, fel y soniwyd eisoes, neu yn Efrog Newydd dan Rudy Giuliani. Os gall Mansfield, Bedford a Torbay gael eu maer eu hunain a etholir yn uniongyrchol, pam na all Caerdydd, Abertawe, Casnewydd, Wrecsam neu Fangor? Byddai o fudd i'n dinasoedd gael wyneb amlwg, rhywun sy'n atebol yn y pen draw i'w ddinasyddion am gyflwr eu cymunedau.

Mae'r Gweinidog yn iawn i gydnabod yr angen am fwy o bŵer a rhagor o atebolrwydd. Mae ehangu'r prosiectau peilot ar gyfer teledu digidol wedi bod yn gam i'r cyfeiriad cywir. Fodd bynnag, nid yw'r Gweinidog wedi amlinellu cynlluniau ychwanegol eto i ddatganoli rheolaeth ar arian llywodraeth leol i bobl leol. Edrychaf ymlaen at glywed sylwadau'r Gweinidog ar ddiwedd y ddadl hon wrth iddo ymateb i'r cwestiynau yr ydym wedi'u codi.

Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae'r gost weinyddol sy'n gysylltiedig â grantiau wedi'u neilltuo yng Nghymru rhwng £60 miliwn a £70 miliwn y flwyddyn. I ba raddau y mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i roi mwy o ryddid i awdurdodau lleol weithredu fel y gwelant yn ddoeth wrth ymdrin â'u gwariant? Yr wyf yn codi'r cwestiynau hyn yn y ddadl hon oherwydd gallai'r cwestiwn hwnnw ynghylch cyfrifoldeb, ac ar ysgwyddau pwy mae'n gorwedd, glymu ynghyd nifer o'r materion yr ydym yn siarad amdanynt mewn dadleuon eraill. Er ein bod, ar yr olwg gyntaf, yn sôn am feiri a phenaethiaid heddlu a etholir yn uniongyrchol, ceir llawer o faterion eraill a allai gael eu hystyried yn y drafodaeth hon ynghylch democratiaeth leol.

Mae'r ddadl hon yn berthnasol iawn. Byddwn yn sôn yn aml am sut yr ydym am aildanio brwdfrydedd yr etholwyr ac ailgysylltu pobl â gwleidyddiaeth, a gallwn wneud y pethau hynny mewn ystod o wahanol ffyrdd. Fodd bynnag, anogaf y Llywodraeth i ystyried y pynciau a godwyd

Members, because the more we talk about these issues, the greater our ability to deliver democracy at a local level in a more beneficial way.

Jonathan Morgan: As one of the Members representing a constituency in Cardiff, I am very proud of how our capital city has developed and changed over the past 10 years alone. The city has more to offer, it has a very high international profile and it has developed to meet the demands placed on it, winning high recognition and accolades, and attracting more businesses and better leisure and shopping opportunities. It is a city with a great history and a great future.

I believe strongly in having elected mayors, and I believe that the city of Cardiff would benefit greatly from having an individual who can be identified as leading the great change that Cardiff will, no doubt, face in the next 10 or 20 years. I run the risk of causing a family rift with my belief. As some Members will know, if we have an elected mayor, it is possible that we will see a reduction in the number of county councillors, and, with a mother and a great-uncle serving on Cardiff county council, I am not entirely sure what they would make of my view on this, although I may find out a bit later.

Jenny Randerson: You have outlined the exceptional progress made in Cardiff, but I am surprised that you would want to conjure up the vision of mayor Russell Goodway as an example. When Cardiff had a leader who could have been seen as that kind of mayor, people complained about the lack of democracy.

Jonathan Morgan: Jenny makes an interesting point. She mentions Russell Goodway, but I think he had a significant vision for Cardiff as a capital city. I do not think that he was any good at running the city on a nuts and bolts level, but he had a considerable vision for where Cardiff could go, which perhaps demonstrates what an elected mayor could do if we had somebody with the right vision. I believe that we would benefit significantly from having an elected

heddiw gennyf i a'm cyd-Aelodau, oherwydd po fwyaf y siaradwn am y materion hyn, y mwyaf o allu a fydd gennym i sicrhau democratiaeth ar lefel leol mewn modd sy'n fwy buddiol.

Jonathan Morgan: Fel un o'r Aelodau sy'n cynrychioli etholaeth yng Nghaerdydd, yr wyf yn falch iawn o'r modd y mae ein prifddinas wedi datblygu ac wedi newid dros y 10 mlynedd diwethaf yn unig. Mae gan y ddinas fwy i'w gynnig, mae ganddi broffil rhyngwladol uchel iawn, ac mae wedi datblygu i ateb y galwadau a roddwyd arni, gan ennill gwobrau a chanmoliaeth uchel a denu mwy o fusnesau a gwell cyfleoedd o ran hamdden a siopa. Mae'n ddinas ac iddi hanes gwych a dyfodol disglair.

Credaf yn gryf mewn cael meiri a gaiff eu hethol, a chredaf y byddai dinas Caerdydd yn elwa'n fawr o gael unigolyn y gellir ei nodi'n rhywun a fyddai'n arwain y newid mawr y bydd Caerdydd, heb os, yn ei wynebu yn ystod y 10 neu'r 20 mlynedd nesaf. Mae perygl y bydd yr hyn a gredaf yn achosi cweryl yn y teulu. Fel y gŵyr rhai Aelodau, pe bai gennym faer a gaiff ei ethol, mae'n bosibl y gwelem nifer y cynghorwyr sir yn gostwng, a chan fod fy mam a'm hen ewythr yn gwasanaethu ar gyngor Caerdydd, nid wyf yn hollol siŵr beth fyddai eu barn am fy safbwynt ar hyn, er y caf wybod yn nes ymlaen, efallai.

Jenny Randerson: Yr ydych wedi amlinellu'r cynnydd eithriadol a wnaed yng Nghaerdydd, ond yr wyf yn synnu eich bod yn dymuno creu darlun enghreifftiol gyda Russell Goodway fel maer. Pan oedd gan Gaerdydd arweinydd y gellid bod wedi'i ystyried yn faer o'r fath, yr oedd pobl yn cwyno am y diffyg democratiaeth.

Jonathan Morgan: Mae Jenny yn gwneud pwynt diddorol. Mae'n sôn am Russell Goodway, ond yr oedd ganddo weledigaeth fawr ar gyfer Caerdydd fel prifddinas, yn fy marn i. Ni chredaf iddo redeg y ddinas yn dda ar lefel ymarferol, ond yr oedd ganddo weledigaeth fawr ar gyfer y llwybr y gallai Caerdydd ei ddilyn, sydd efallai'n dangos beth y gallai maer etholedig ei wneud pe bai gennym rywun sydd â'r weledigaeth gywir. Credaf y byddem yn elwa'n sylweddol o gael

mayor—someone who could identify with the history of the city, who could set the city on the next stages of its development, provide that very obvious and direct democratic link with the people of Cardiff, and give them some confidence that somebody was leading the city who had an idea of the journey that our capital city was embarking on.

I point to the mayoral elections in London. They sparked a considerable debate about the future of the UK's capital city, and if we find elected mayors elsewhere in England, why not in Cardiff, Newport, Swansea and Wrexham, and even Bangor, as colleagues have asked? Some Members have said that it does not work as a system, but it does. It works throughout Europe and America. There is nothing wrong with the sort of local direct democracy in which you have strong individual leaders who are able to galvanise the electorate by providing a strong vision of where the community should be heading. We should be excited by the prospect, instead of getting caught up in the technicality, as we have seen in the Government's amendment 1, which points out that there is a petition format for triggering a referendum on elected mayors.

To trigger a referendum, as Nick Bourne and Darren Millar said, 10 per cent of the people of an area need to say that they want a referendum. In my view, the Local Government Act 2000 has been designed in a way that makes it difficult to see any real progress. In Cardiff, you would need around 26,000 signatures just to trigger a referendum. Try applying that to the principle of whether the Assembly should have more powers. No-one outside of this institution has decided that we need a referendum on whether the people of Wales want us to have more power. We took that decision—no-one did a survey of the Welsh electorate or collected signatures on a petition to see whether people would like a referendum on more powers for the Assembly. We, as politicians, have taken that decision. So, I think that we should apply the same principle to electing mayors. We could run some innovative and exciting campaigns to reignite people's interest in local democracy and their

maer etholedig—rhywun a allai uniaethu â hanes y ddinas, a allai arwain y ddinas drwy'r camau nesaf yn ei datblygiad, darparu'r cyswllt democrataidd uniongyrchol ac amlwg iawn hwnnw â phobl Caerdydd, a rhoi rhywfaint o hyder iddynt bod rhywun yn arwain y ddinas, a fyddai â syniad ynghylch y siwrnai y byddai ein prifddinas yn cychwyn arni.

Hoffwn gyfeirio at etholiadau'r maer yn Llundain. Bu iddynt sbarduno dadl fawr ynghylch dyfodol prifddinas y DU, ac os gwelwn feiri etholedig mewn mannau eraill yn Lloegr, pam na chawn eu gweld yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam, a hyd yn oed Bangor, fel y mae cyd-Aelodau wedi gofyn? Mae rhai Aelodau wedi dweud nad yw'n gweithio fel system, ond mae'n gweithio. Mae'n gweithio ar hyd a lled Ewrop ac America. Nid oes dim o'i le â'r math o ddemocratiaeth uniongyrchol leol lle mae gennych arweinwyr unigol cryf sy'n gallu symbylu'r etholwyr drwy ddarparu gweledigaeth gref o'r nod y dylai'r gymuned anelu ato. Dylem ei ystyried yn gyfle cyffrous, yn hytrach na phoeni'n ormodol am y manylion, fel yr ydym wedi gweld yng ngwelliant 1 y Llywodraeth, sy'n nodi bod fformat deiseb ar gael ar gyfer ysgogi refferendwm ynghylch meiri etholedig.

I ysgogi refferendwm, fel y dywedodd Nick Bourne a Darren Millar, mae angen i 10 y cant o'r bobl mewn ardal ddweud eu bod am gael refferendwm. Yn fy marn i, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 wedi'i chynllunio mewn modd sy'n ei gwneud yn anodd gweld unrhyw gynnydd go iawn. Yng Nghaerdydd, byddai arnoch angen oddeutu 26,000 o lofnodion i hyd yn oed ysgogi refferendwm. Ceisiwch gymhwyso hynny i'r egwyddor ynghylch a ddylai'r Cynulliad gael rhagor o bwerau. Nid oes neb y tu allan i'r sefydliad hwn wedi penderfynu bod arnom angen refferendwm ynghylch a yw pobl Cymru am inni gael mwy o bŵer. Ein penderfyniad ni oedd hwnnw—ni fu neb yn cynnal arolwg o etholwyr Cymru nac yn casglu llofnodion ar ddeiseb i weld a fyddai pobl yn hoffi refferendwm ynghylch rhagor o bwerau i'r Cynulliad. Ni, fel gwleidyddion, sydd wedi gwneud y penderfyniad hwnnw. Felly, credaf y dylem roi'r un egwyddor ar waith wrth ethol meiri. Gallem gynnal rhai ymgyrchoedd

interest in the towns and cities in which they live.

David Lloyd: I think that you will find that people have been campaigning and signing petitions for a Parliament for Wales for around 60 years. That is outside of this place; it has nothing to do with this place.

Jonathan Morgan: Come on, if you really want to try to go for a petition requiring 10 per cent of the electorate of Wales to say that they would like a referendum on more powers for the Assembly, good luck. The principle that we apply to elected mayors does not apply to the principle for a referendum on more powers for this place. We, and not the people of Wales, have taken the decision on this place. This could be exciting and innovative; it could ensure that the people of Wales feel engaged, in an era when I am afraid that too many people feel disconnected from the process of politics and of democracy. We should embrace this, because I think that many people would be excited by the prospect.

Mohammad Asghar: I am grateful for the opportunity to contribute to this important discussion. I want to focus on the issue of directly elected mayors and the benefits that they could bring to Welsh councils. Directly elected mayors would provide clear accountability, visibility and engagement in the public process. These are steps that should be welcomed. A directly elected mayor would be the visible face of local issues, providing leadership and direction and helping to foster increased understanding of the local scene for members of the public.

As a single, democratically elected face of a town or city, mayors could act as important ambassadors for local areas, encouraging investment and increasing awareness of their local issues. With democratic accountability comes a pressure and expectation to perform. If mayors did not achieve these objectives for their communities, they should be voted out. It is all about involving the public in the

arloesol a chyffrous i ailennyn diddordeb pobl mewn democratiaeth leol a'u diddordeb yn y trefi a'r dinasoedd y maent yn byw ynddynt.

David Lloyd: Credaf y gwelwch fod pobl wedi bod yn ymgyrchu dros Senedd i Gymru ac yn llofnodi deisebau'n galw am hynny ers oddeutu 60 mlynedd. Mae hynny y tu allan i'r lle hwn; nid oes a wnelo â'r lle hwn.

Jonathan Morgan: Dewch, os ydych yn wirioneddol awyddus i geisio llunio deiseb i gael 10 y cant o etholwyr Cymru i ddweud y byddent yn hoffi cael refferendwm ynghylch rhagor o bwerau i'r Cynulliad, pob lwc ichi. Nid yw'r egwyddor a roddwn ar waith yng nghyswllt meiri a etholir yn berthnasol i'r egwyddor yng nghyswllt refferendwm ynghylch rhagor o bwerau i'r lle hwn. Ni, ac nid pobl Cymru, sydd wedi gwneud y penderfyniad ynghylch y lle hwn. Gallai'r syniad hwn fod yn gyffrous ac yn arloesol; gallai sicrhau bod pobl Cymru yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys, mewn oes lle mae arnaf ofn bod gormod o bobl yn teimlo nad ydynt yn rhan o broses gwleidyddiaeth a democratiaeth. Dylem groesawu'r syniad hwn, oherwydd credaf y byddai'r posibilrwydd yn cyffroi llawer o bobl.

Mohammad Asghar: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth bwysig hon. Hoffwn ganolbwyntio ar feiri a etholir yn uniongyrchol, a'r manteision y gallent eu cynnig i gynghorau Cymru. Byddai meiri a etholir yn uniongyrchol yn darparu atebolrwydd clir, amlygrwydd a dull o ymgysylltu â'r broses gyhoeddus. Mae'r rhain yn gamau y dylid eu croesawu. Byddai maer a etholwyd yn uniongyrchol yn wyneb gweladwy i faterion lleol, a byddai'n darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad ac yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'r sefyllfa leol ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Fel wyneb unigol, a etholwyd yn ddemocrataidd, ar gyfer tref neu ddinas, gallai maer fod yn llysgennad pwysig ar gyfer ardal leol, gan annog buddsoddiad a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion lleol. Ochr yn ochr ag atebolrwydd democrataidd, daw pwysau a disgwyliad i berfformio. Os na fydd meiri'n cyflawni'r amcanion hyn ar gyfer eu cymunedau, dylid pleidleisio dros

affairs of their city or town. Ministers should be aware that, if mayors are not made accountable, then we should not have them. They should be accountable and the public should be involved. If you do not want to involve the public, then you are not voting with your conscience.

For example, the citizens of Middlesbrough were dissatisfied with their mayor, with the high crime rate and the inefficiency of some councillors. They elected the independent candidate Ray Mallon as mayor, nicknamed the 'Robocop'. We all know of his record. The crime rate there has decreased, among other achievements. All over the world, in the UK and America, elected mayors have achieved more than anyone else, so why do we not take this route to get things done in Wales?

Of course, this idea faces challenges, such as how to ensure that mayoral elections achieve a decent turnout and good levels of local interest. However, the ever-increasing turnout in London's three mayoral elections provides an excellent indicator, as did the high public interest that surrounded the recent election contest between Boris Johnson and Ken Livingstone. Such challenges are ones that should be embraced in the name of improving the say that local people will be given in the running of public services.

I will also focus on the issue of elected police representatives. The police are in place to enforce the law and protect the people, thus the police force is one of the most important institutions in the country and yet, as it stands, the public has little direct say concerning how the police force is run. Currently, the police are accountable to a number of different organisations, and the overemphasis on central control means that there is a lack of local and public awareness about how the police are managed.

4.50 p.m.

While I have often praised some of the

gael gwared arnynt. Mae a wnelo â chynnwys y cyhoedd ym musnes eu dinas neu'u tref. Dylai Gweinidogion fod yn ymwybodol na ddylem gael meiri os na chânt eu gwneud yn atebol. Dylent fod yn atebol, a dylid cynnwys y cyhoedd. Os nad ydych am gynnwys y cyhoedd, ni fyddwch yn pleidleisio'n unol â'ch cydwybod.

Er enghraifft, yr oedd dinasyddion Middlesbrough yn anfodlon â'u maer, y gyfradd uchel o droseddau ac aneffeithlonrwydd rhai cynghorwyr. Felly, etholwyd Ray Mallon, yr ymgeisydd annibynnol, yn faer, a'i lysenw yw 'Robocop'. Yr ydym i gyd yn gwybod ei hanes. Ymhlith cyflawniadau eraill y mae'r ffaith bod y gyfradd troseddau yno wedi gostwng. Dros y byd i gyd, yn y DU ac yn America, mae meiri etholedig wedi cyflawni mwy na neb arall, felly beth am inni ddilyn y llwybr hwn i gyflawni pethau yng Nghymru?

Wrth gwrs, mae'r syniad hwn yn wynebu heriau, megis sut i sicrhau bod nifer boddhaol o bobl yn bwrw eu pleidlais a bod lefelau da o ddiddordeb lleol mewn etholiadau i ddewis maer. Fodd bynnag, mae'r ffaith bod nifer cynyddol o bobl wedi bwrw eu pleidlais yn y tri etholiad yn Llundain i ddewis maer yn arwydd ardderchog, fel yr oedd diddordeb mawr y cyhoedd yn yr ornest etholiadol a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng Boris Johnson a Ken Livingstone. Mae heriau o'r fath yn rhai y dylid eu croesawu er mwyn gwella'r llais a roddir i bobl leol yn y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu rhedeg.

Yn ogystal, hoffwn ganolbwyntio ar gynrychiolwyr etholedig ar gyfer yr heddlu. Mae'r heddlu yn bodoli er mwyn gorfodi'r gyfraith a diogelu pobl, ac felly, yr heddlu yw un o'r sefydliadau pwysicaf yn y wlad. Eto i gyd, fel y mae, nid oes gan y cyhoedd fawr ddim llais uniongyrchol yn y modd y caiff yr heddlu ei redeg. Ar hyn o bryd, mae'r heddlu yn atebol i nifer o wahanol sefydliadau, ac mae'r gorbwyslais ar reolaeth ganolog yn golygu bod diffyg ymwybyddiaeth leol a chyhoeddus ynghylch sut y caiff yr heddlu ei reoli.

Er imi'n aml ganmol rhywfaint o'r gwaith

excellent work done by Gwent Police, I believe that the introduction of elected police commissioners will ensure that local police priorities are more rigorously pursued and that it could also prove key in increasing public engagement in the provision of public services. This idea could remove the police from the shackles of overburdening central control and ensure that a locally focused approach is developed. Senior police officers have already praised the idea, and a similar system has worked well in the United States. There are challenges to be discussed, but this is a system that could really enhance public faith in police forces across the country and hand the people a valuable say in how their police authorities are run.

I encourage Members to support this motion. The democratic steps that we have discussed could play a crucial role in ensuring that the public feel as involved as possible in public processes. At a time when trust in the public sphere has been severely tarnished, this is so important. Surely, efforts to involve the public in the delivery of public services must be applauded. Minister, this is a time to vote with your conscience and vote for this motion for elected mayors and police representatives.

The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant): What an opportunity this is today to discuss these issues. What an opportunity when, only yesterday, Theresa May made the coalition's intentions very clear when she said at the national policing conference that

'we are not talking about a spending freeze, or a reduction of one or two per cent. The cuts will be big, they will be tough to achieve, and cuts will fall on the police as they will on other important public services.'

During this debate, you should have issued an apology to the people of Wales for the fact that there will so many fewer police to look

ardderchog a wneir gan Heddlu Gwent, credaf y bydd cyflwyno comisiynwyr heddlu etholedig yn sicrhau yr eir i'r afael yn fwy trylwyr â blaenoriaethau lleol yr heddlu, ac y gallai fod yn allweddol hefyd o ran cynyddu ymgysylltiad y cyhoedd â'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cyhoeddus. Gallai'r syniad hwn ryddhau'r heddlu o hualau rheolaeth ganolog sy'n orfeichus, a sicrhau y caiff dull gweithredu ei ddatblygu sy'n canolbwyntio ar faterion lleol. Mae uwch-swyddogion heddlu eisoes wedi canmol y syniad, ac mae system debyg wedi gweithio'n dda yn yr Unol Daleithiau. Mae heriau i'w trafod, ond mae hon yn system a allai'n wirioneddol wella hyder y cyhoedd mewn heddluoedd ledled y wlad, a rhoi llais gwerthfawr i bobl yn y modd y caiff eu hawdurdodau heddlu eu rhedeg.

Anogaf Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn. Gallai'r camau democrataidd yr ydym wedi'u trafod chwarae rôl hollbwysig o ran sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys gymaint â phosibl mewn prosesau cyhoeddus. Mae hynny'n bwysig tu hwnt ar adeg pan fo ymddiriedaeth pobl yn y sector cyhoeddus wedi cael ei ysigo'n ddifrifol. Siawns na ddylid canmol ymdrechion i gynnwys y cyhoedd yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Weinidog, mae'n bryd pleidleisio'n unol â'ch cydwybod a phleidleisio dros y cynnig hwn ynghylch cynrychiolwyr heddlu a meiri a gaiff eu hethol.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant): Dyma gyfle gwych heddiw i drafod y materion hyn. Dyma gyfle gwych, o ystyried i Theresa May, ddoe ddiwethaf, ddatgan bwriadau'r glymblaid yn glir iawn pan ddywedodd yn y gynhadledd blismona genedlaethol,

nid ydym yn sôn am rewi gwariant, neu leihau gwariant un neu ddau y cant. Bydd y toriadau'n enfawr, byddant yn anodd eu gweithredu, a byddant yn effeithio ar yr heddlu fel y byddant yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus pwysig eraill.

Yn ystod y ddadl hon, dylech fod wedi ymddiheuro i bobl Cymru am y ffaith y bydd cynifer yn llai o swyddogion heddlu ar gael i

after our communities as we go through these difficult times.

I speak in support of the Government's amendment to this Conservative motion. Directly elected mayors have been on offer to local authorities in Wales since the introduction of new political structures under the Local Government Act 2000, which came into force in 2001. The discussions that we have had here today might give people the impression that this is not achievable in Wales, when it is achievable under current legislation.

Lorraine Barrett: Do you think that the Conservatives tabled this debate to divert our attention away from the real issues and the real cuts that they are going to impose on us in Wales?

Carl Sargeant: I will give the Conservatives and Liberal Democrats some credit, as I do not think that they saw this coming. This is an opportunity for us to raise the clear agenda to cut police forces in Wales, which they need to explain.

Two alternatives have been available in Wales in terms of political structures: an elected mayor plus executive or cabinet, or an elected mayor and council manager.

Mark Isherwood *rose—*

Carl Sargeant: Let me just get into the speech before I take further interventions.

The second of the available arrangements has not raised any interest in Wales, and little interest elsewhere, having been implemented in Stoke-on-Trent only. This model has since been abolished in England, and my predecessor consulted on the proposals to do the same in Wales. I am still considering those responses, but I can tell you that there has been no support expressed for its retention in Wales.

Most councils in Wales have lived happily with the other principal choice, namely the

ofalu am ein cymunedau wrth inni fynd drwy'r cyfnod anodd hwn.

Yr wyf am siarad o blaid gwelliant y Llywodraeth i'r cynnig hwn gan y Ceidwadwyr. Mae meiri a etholir yn uniongyrchol wedi cael eu cynnig i awdurdodau lleol yng Nghymru ers cyflwyno strwythurau gwleidyddol newydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a ddaeth i rym yn 2001. Efallai y bydd y trafodaethau yr ydym wedi'u cael yma heddiw'n rhoi'r argraff i bobl nad oes modd cyflawni hyn yng Nghymru, ond mae modd ei gyflawni dan ddeddfwriaeth gyfredol.

Lorraine Barrett: A ydych yn credu bod y Ceidwadwyr wedi cyflwyno'r ddaedl hon er mwyn tynnu ein sylw oddi ar y materion go iawn a'r toriadau go iawn y maent yn bwriadu eu gorfodi arnom yng Nghymru?

Carl Sargeant: Yr wyf am roi rhywfaint o glod i'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol, oherwydd nid wyf yn credu iddynt ragweld hyn. Mae hwn yn gyfle inni godi'r agenda glir i leihau heddluoedd yng Nghymru, y mae angen iddynt ei hegluro.

Mae dau ddewis wedi bod ar gael yng Nghymru o ran strwythurau gwleidyddol: maer etholedig gyda bwrdd gweithredol neu gabinet, neu faer etholedig a rheolwr cyngor.

Mark Isherwood *a gododd—*

Carl Sargeant: Gadewch imi draddodi ychydig yn rhagor o'm haraith cyn derbyn rhagor o ymyriadau.

Nid yw'r ail drefniant o blith y rhai sydd ar gael wedi ennyn dim diddordeb yng Nghymru, ac nid yw wedi ennyn fawr ddim diddordeb mewn manau eraill, a dim ond yn Stoke-on-Trent y mae wedi'i roi ar waith. Mae'r model hwn wedi'i ddileu ers hynny yn Lloegr, a bu fy rhagflaenydd yn ymgynghori ynghylch y cynigion i wneud yr un peth yng Nghymru. Yr wyf yn dal i ystyried yr ymatebion hynny, ond gallaf ddweud wrthy ch na fynegwyd dim cefnogaeth dros ei gadw yng Nghymru.

Mae mwyafrif y cynghorau yng Nghymru wedi byw'n hapus gyda'r prif ddewis arall,

leader and cabinet model. That has operated in 19 of the 22 authorities since the structures began in 2002. The other three—Gwynedd, Merthyr Tydfil and Powys—have operated the fourth option of alternative arrangements. However, with my approval, Merthyr recently switched to the leader and cabinet model, and Members may be aware that Powys has decided to launch a consultation exercise with the proposal to move to the leader and cabinet executive model.

Before a council can operate the elected mayor model, the proposal must be approved by referendum of local electors, as has been referred to today. Such a referendum can be brought about by the council itself deciding that it would like to move to a mayoral model. It can be triggered by a petition signed by at least 10 per cent of the electorate, or a direction by a Welsh Minister. In Wales, there has only been one referendum, in Ceredigion in 2004, which has been alluded to in the debate. This was as a result of a petition, and was heavily defeated. There have been one or two failed attempts to raise a petition, and I am aware of some publicity around raising a petition in Anglesey, but I do not believe that anything has been received yet.

I was quite surprised by Darren Millar's contribution when he said that the Conservatives were passionate about devolution and about this model. At no time has any local authority in Wales proposed such a model, not even in Conservative-controlled councils—and certainly not in those controlled by the Lib Dems. So, the sudden switch by the Conservatives to support this system is somewhat surprising. They have been quiet about it in local government, and I cannot recall any strong support for this system until recently. How odd.

What I do know is that prominent Lib Dems in Wales are on the record as opposing the model, which is reflected in their amendment.

sef y model lle ceir arweinydd a chabinet. Bu'r model hwnnw ar waith mewn 19 o'r 22 awdurdod ers i'r strwythurau ddechrau yn 2002. Mae'r tri arall—Gwynedd, Merthyr Tudful a Phowys—wedi gweithredu'r pedwerydd opsiwn o drefniadau amgen. Fodd bynnag, gyda'm cymeradwyaeth i, newidiodd Merthyr yn ddiweddar i'r model o arweinydd a chabinet, ac efallai y bydd Aelodau'n ymwybodol bod Powys wedi penderfynu lansio ymarfer ymgynghori ynghylch y cynnig i symud i'r model gweithredol lle ceir arweinydd a chabinet.

Cyn y gall cyngor weithredu'r model lle caiff maer ei ethol, rhaid i'r cynnig gael ei gymeradwyo gan refferendwm i etholwyr lleol, fel y soniwyd heddiw. Gellir ysgogi refferendwm o'r fath wrth i'r cyngor ei hun benderfynu y byddai'n hoffi symud i fodel lle ceir maer. Gellir ei ysgogi gan ddeiseb a lofnodir gan o leiaf 10 y cant o'r etholwyr, neu'n dilyn cyfarwyddyd gan un o Weinidogion Cymru. Yng Nghymru, dim ond un refferendwm sydd wedi'i gynnal, yng Ngheredigion yn 2004, a chyfeiriwyd ato eisoes yn ystod y ddadl. Fe'i cynhaliwyd o ganlyniad i ddeiseb, ac fe'i trechwyd yn ddiamheuol. Cafwyd un neu ddwy ymgais arall aflwyddiannus i lunio deiseb, ac yr wyf yn ymwybodol o rywffaint o gyhoeddusrwydd ynghylch llunio deiseb yn Ynys Môn, ond nid wyf yn credu bod dim byd wedi dod i law eto.

Cefais fy synnu braidd gan gyfraniad Darren Millar pan ddywedodd fod y Ceidwadwyr yn teimlo'n angerddol ynghylch datganoli ac ynghylch y model hwn. Nid oes model o'r fath wedi'i gynnig erioed gan yr un awdurdod lleol yng Nghymru, ddim hyd yn oed mewn cynghorau a reolir gan y Ceidwadwyr—ac yn bendant nid oes model o'r fath wedi'i gynnig mewn cynghorau a reolir gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Felly, mae'r newid sydyn gan y Ceidwadwyr i gefnogi'r system hon yn peri rhywfaint o syndod. Maent wedi cadw'n dawel yn ei gylch mewn llywodraeth leol, ac ni allaf gofio gweld dim cefnogaeth gref i'r system hon tan yn ddiweddar. Mae'n rhyfedd iawn.

Un peth yr wyf yn ei wybod yw bod Democratiaid Rhyddfrydol amlwg yng Nghymru wedi gwrthwynebu'r model yn

One can only wonder why the Tory allies are willing to diverge their position in this regard, yet are prepared to accept the question of VAT increases and other spending cuts that the Tories are imposing.

Peter Black *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you take an intervention?

Carl Sargeant: Yes, go on.

Peter Black: We are diverging from the Conservatives because the coalition model is an English model, and the VAT rise and the other measures had to be taken in the budget because of Labour's mismanagement of the economy.

Carl Sargeant: I am disappointed that you signed up to the scrapping of child trust funds in Wales.

The position of the Assembly Government is simple. The elected mayor is an option available to local authorities and their electors, and we are not opposed to anyone who wants to go down this road. If opposition Members say that there is an impetus for this in their constituencies, then lead on this and take it forward to create the referendum; I would be delighted to—

Nick Bourne: I am grateful to the Minister for giving way. Does he not think that Welsh electors should have the same rights as English electors? A referendum is triggerable in England by 5 per cent of the population, which would be a reasonable position. Is that something that he would consider?

Carl Sargeant: I will certainly consider that along the same lines as asking why England is at 5 per cent when it should, perhaps, be at 10 per cent. It is an argument that I would gladly listen to and examine further.

The mayor may be elected by the whole electorate every four years, but between elections has concentrated powers that

swyddogol, a chaiff hynny ei adlewyrchu yn eu gwelliant. Ni allwn ond dyfalu pam mae cynghreiriaid y Toriaid yn barod i arddel safbwynt gwahanol i'r Toriaid ar hynny, ond eu bod yn barod er hynny i dderbyn cynnydd mewn treth ar werth, a thoriadau eraill ar wariant, y mae'r Toriaid yn eu cyflwyno.

Peter Black *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Carl Sargeant: Gwnaf, ewch yn eich blaen.

Peter Black: Yr ydym yn arddel safbwynt gwahanol i'r Ceidwadwyr oherwydd bod y model clymbleidiol yn fodel Seisnig, ac yr oedd yn rhaid cael cynnydd mewn treth ar werth a mesurau eraill yn y gyllideb am i'r Blaid Lafur gamreoli'r economi.

Carl Sargeant: Yr wyf yn siomedig ichi gefnogi dileu cronfeydd ymddiriedolaeth plant yng Nghymru.

Mae safbwynt Llywodraeth y Cynulliad yn syml. Mae maer etholedig yn opsiwn sydd ar gael i awdurdodau lleol a'u hetholwyr, ac nid ydym yn erbyn neb sydd am ddilyn y trywydd hwnnw. Os yw Aelodau'r wrthblaid yn dweud bod awydd i wneud hynny yn eu hetholaethau, boed iddynt arwain y ffordd a symud y mater yn ei flaen i greu'r refferendwm; byddwn wrth fy modd—

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. Onid yw'n credu y dylai etholwyr Cymru gael yr un hawliau ag etholwyr Lloegr? Mae modd ysgogi refferendwm yn Lloegr gyda 5 y cant o'r boblogaeth, a fyddai'n safbwynt rhesymol. A yw hynny'n rhywbeth y byddai'n fodlon ei ystyried?

Carl Sargeant: Fe'i hystyriaf, yn bendant, yn yr un modd ag y byddwn yn gofyn pam mai 5 y cant yw'r trothwy yn Lloegr pan ddylai fod yn 10 y cant, efallai. Mae'n ddadl y byddwn yn fwy na pharod i wrando arni a'i harchwilio ymhellach.

Efallai fod y maer yn cael ei ethol gan yr holl etholwyr bob pedair blynedd, ond rhwng etholiadau mae ganddo bwerau cryf, sy'n

everyone may not be happy with. He or she would be less vulnerable to pressure from local communities than a local councillor would be. I can envisage situations where that may or may not be beneficial.

Turning to the separate matter of elected police individuals, the Queen's Speech on 25 May included proposals for the police reform and social responsibility Bill. Its stated intention is to make the police service more accountable to local communities, better equipped to tackle alcohol-related violence and anti-social behaviour and crack down on people trafficking and drug trafficking through the creation of border police. The main tenets of the Bill would see the appointment of a directly elected individual to increase police accountability and allow a greater degree of community involvement in setting police priorities. The previous UK Government had proposals for directly elected members to sit on police authorities in a Green Paper published in October 2008. At the time, the proposals were opposed by the Welsh Assembly Government, police authorities and local authorities, and the proposals were dropped at a later stage.

I have written to the Home Secretary to welcome her into her new role, and to highlight the Welsh Assembly Government's role and interest in matters relating to policing. I pointed out to her the unique position that Welsh forces have among UK forces, in that they are a non-devolved public body working within a devolved landscape. I am aware of the UK coalition Government agreement relating to policing, including elected police individuals. The Welsh Assembly Government opposed proposals from the previous Government for directly elected members of police authorities, and that position has not changed.

The argument is that elected individuals will make the police more accountable to their communities, but we already have police authorities to make sure that people have a say in how they are policed. I am aware that

sefyllfa na fyddai efallai wrth fodd pawb. Byddai'r maer yn llai agored i bwysau gan gymunedau lleol nag y byddai cynghorydd lleol. Gallaf ragweld sefyllfaoedd lle gallai neu lle na allai hynny fod yn fanteisiol.

Gan droi at y mater arall, sef unigolion etholedig ar gyfer yr heddlu, yr oedd Araith y Frenhines ar 25 Mai yn cynnwys cynigion ynghylch Mesur ar gyfer diwygio'r heddlu a chyfrifoldeb cymdeithasol. Ei fwriad penodol yw gwneud gwasanaeth yr heddlu'n fwy atebol i gymunedau lleol, sicrhau bod ganddo well gallu i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais sy'n gysylltiedig ag alcohol, a lleihau'r fasnach mewn pobl a'r fasnach gyffuriau drwy greu heddlu ar gyfer y ffin. Byddai prif elfennau'r Mesur yn arwain at benodi unigolyn a etholir yn uniongyrchol i gynyddu atebolrwydd yr heddlu a chaniatáu mwy o gamau i gynnwys cymunedau wrth bennu blaenoriaethau'r heddlu. Yr oedd gan Lywodraeth flaenorol y DU gynigion ynghylch cael aelodau a etholir yn uniongyrchol i fod yn rhan o awdurdodau heddlu, mewn Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2008. Ar y pryd, cafodd y cynigion eu gwrthwynebu gan Lywodraeth y Cynulliad, awdurdodau heddlu ac awdurdodau lleol, a chawsant eu gollwng yn ddiweddarach.

Yr wyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cartref i'w chroesawu i'w rôl newydd, a thynnu ei sylw at rôl a diddordeb Llywodraeth y Cynulliad mewn materion sy'n ymwneud â phlisma. Soniais wrthi am sefyllfa unigryw heddluoedd Cymru ymhlith heddluoedd y DU, o ran y ffaith eu bod yn gorff cyhoeddus nad yw wedi'i ddatganoli, sy'n gweithio mewn amgylchedd sydd wedi'i ddatganoli. Gwn am gytundeb Llywodraeth glymbleidiol y DU o ran plisma, gan gynnwys unigolion etholedig ar gyfer yr heddlu. Gwrthwynebodd Llywodraeth y Cynulliad gynigion gan y Llywodraeth flaenorol ynghylch aelodau a etholir yn uniongyrchol ar gyfer awdurdodau heddlu, ac nid yw'r safbwynt hwnnw wedi newid.

Y ddadl yw y bydd unigolion etholedig yn gwneud yr heddlu'n fwy atebol i'w cymunedau, ond mae gennym eisoes awdurdodau heddlu i sicrhau bod gan bobl lais yn y modd y cânt eu plisma. Gwn fod

Darren Millar was a member of the North Wales Police Authority, yet he went on to tell me how the police did not understand that process. That was one of your key roles: to ensure that they understood what the police authority was for.

Darren Millar: I did not say that the police did not understand the process; I said that there was little public awareness of how policing is governed in England and Wales. That was the point that I wanted to make. Having a directly elected individual makes it much easier, does it not?

5.00 p.m.

The Deputy Presiding Officer: Order. I think that you have made your point. Minister, you are out of time. Please wind up fairly quickly.

Carl Sargeant: I have taken several interventions.

The Deputy Presiding Officer: I know that you have, but we cannot be all day.

Carl Sargeant: You have been very generous. Let me finish by saying that accountability is a good thing. The police are not trying to shy away from their responsibilities in this regard, or from matters of great concern to the public. I suggest that people want to know about the police numbers that will be protected in Wales, not about cuts to the provision. I will leave it there. There has been much interesting debate this afternoon, and I would urge Members to support our amendment.

Darren Millar: I will take the Minister's comments first. He makes reference to the cuts that are now having to be imposed by the UK Government. Those cuts are all the direct result of Gordon Brown's mismanagement of our public finances. The Minister's party is responsible for those cuts. If there is any impact on public services in Wales, it is the Minister who should carry the can.

Mark Isherwood: We were asked earlier if

Darren Millar yn aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, ond eto i gyd, aeth yn ei flaen i ddweud wrthyf nad oedd yr heddlu'n deall y broses honno. Dyna oedd un o'ch rolau allweddol: sicrhau eu bod yn deall beth oedd diben yr awdurdod heddlu.

Darren Millar: Ni ddywedais nad oedd yr heddlu'n deall y broses; dywedais nad oedd y cyhoedd yn ymwybodol iawn o'r modd y caiff gwaith plismona ei lywodraethu yng Nghymru a Lloegr. Dyna'r pwynt yr oeddwn am ei wneud. Mae cael unigolyn a etholir yn uniongyrchol yn gwneud hynny gryn dipyn yn haws, onid yw?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Credaf eich bod wedi gwneud eich pwynt. Weinidog, mae eich amser ar ben. A wnewch chi dynnu at y terfyn yn eithaf buan, os gwelwch yn dda?

Carl Sargeant: Yr wyf wedi derbyn llawer o ymyriadau.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf yn ymwybodol o hynny, ond ni allwn fod yma drwy'r dydd.

Carl Sargeant: Yr ydych wedi bod yn hael iawn. Gadewch imi orffen drwy ddweud bod atebolrwydd yn beth da. Nid yw'r heddlu'n ceisio osgoi eu cyfrifoldebau i'r perwyl hwn, na materion sy'n peri pryder mawr i'r cyhoedd. Awgrymaf fod pobl am wybod am niferoedd y swyddogion heddlu a fydd yn cael eu diogelu yng Nghymru, ac nid am doriadau i'r ddarpariaeth. Fe'i gadawaf ar hynny. Mae cryn dipyn o drafod diddorol wedi digwydd y prynhawn yma, a hoffwn annog Aelodau i gefnogi ein gwelliant.

Darren Millar: Hoffwn ymdrin â sylwadau'r Gweinidog yn gyntaf. Cyfeiriodd at y toriadau y mae'n rhaid eu cyflwyno'n awr gan Lywodraeth y DU. Mae'r toriadau hynny i gyd yn deillio'n uniongyrchol o'r ffaith i Gordon Brown gamreoli ein harian cyhoeddus. Plaid y Gweinidog sy'n gyfrifol am y toriadau hynny. Os effeithir mewn unrhyw fodd ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, y Gweinidog ddylai gymryd y cyfrifoldeb.

Mark Isherwood: Yn gynharach,

we did not see this coming. We did. In February, when we debated the police settlement for 2010, the Police Federation of England and Wales advised me in its briefing that the UK Government was pressing the police to accept £545 million in cuts at that time. Those are the cuts that dare not speak their name, which suddenly become unacceptable when we have to take the hit for the Labour Party's economic mismanagement.

Darren Millar: I find it absolutely astonishing that all the blame is now laid at the UK Government's door, when it has only been in office a few weeks. Let us put this into context: we heard Carl make an argument for not allowing referenda to take place in cities and large towns. *[Interruption.]* Yes, you did, Carl. Why not trigger a referendum? Why not trust the people and let them make up their minds, rather than the Minister making the case against the need for elected mayors, as he did, even against the policies of his own party, which has actively tried to promote the role of elected mayors? He was asked by Nick Bourne whether he should lower the trigger in Wales to 5 per cent, thereby putting it on an equal footing with that in England, and he said that he would look at increasing the trigger. It is as though the Minister does not trust people in Wales to make local decisions.

Gareth Jones: This is a very interesting debate. However, at this time of cuts and impending cuts, is investing in these kinds of referenda money well spent?

Darren Millar: That is a question that is being asked about next year's referendum on further powers for the Assembly, but I am sure that you would not like to scrap that because of the cuts, and neither would I. The issue here is whether we trust people to make decisions about their lives. That is what this whole debate is about. That is why we are calling for this extra accountability through directly elected individuals, whether mayors or police commissioners.

gofynnwyd inni a oeddem wedi rhagweld y sefyllfa hon. Fe'i rhagwelsom. Ym mis Chwefror, wrth inni ddadlau ynghylch setliad yr heddlu ar gyfer 2010, dywedodd Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr wrthyf yn ei sesiwn rhannu gwybodaeth fod Llywodraeth y DU yn pwysu ar yr heddlu i dderbyn gwerth £545 miliwn o doriadau ar y pryd. Dyna'r toriadau nad oes wiiw i neb sôn amdanynt, ac sy'n sydyn yn annerbyniol pan fo'n rhaid inni ddioddef oherwydd y modd y bu i'r Blaid Lafur gamreoli'r economi.

Darren Millar: Yr wyf yn hollol syfrdan o glywed y caiff y bai i gyd ei roi'n awr ar Lywodraeth y DU, pan nad yw wedi bod mewn grym ond am ychydig wythnosau. Gadewch inni roi'r mater hwn yn ei gyddestun: clywsom Carl yn cyflwyno dadl dros beidio â gadael i refferenda ddigwydd mewn dinasoedd a threfi mawr. *[Torri ar draws.]* Do, mi wnaethoch, Carl. Pam na wnewch chi ysgogi refferendwm? Pam na wnewch chi ymddiried mewn pobl a gadael iddynt benderfynu, yn hytrach na chael y Gweinidog yn pledio'r achos yn erbyn yr angen am feiri etholedig, fel y gwnaeth, hyd yn oed yn groes i bolisïau ei blaid ei hun, sydd wedi bod wrthi'n ceisio hyrwyddo rôl meiri etholedig? Gofynnodd Nick Bourne iddo a ddylai ostwng y trothwy yng Nghymru i 5 y cant, gan sicrhau bod y trothwy ar gyfer Cymru yr un fath â'r trothwy ar gyfer Lloegr, a dywedodd y byddai'n ystyried cynyddu'r trothwy hwnnw. Ymddengys nad yw'r Gweinidog yn ymddiried ym mhobl Cymru i wneud penderfyniadau lleol.

Gareth Jones: Mae hon yn ddadl ddiddorol iawn. Fodd bynnag, mewn cyfnod o doriadau ac o gofio'r toriadau sydd ar ddod, a yw buddsoddi yn y mathau hyn o refferenda yn ffordd dda o wario arian?

Darren Millar: Dyna gwestiwn a gaiff ei ofyn am refferendwm y flwyddyn nesaf ynghylch rhagor o bwerau i'r Cynulliad, ond yr wyf yn siŵr na fydddech am ddileu hwnnw oherwydd y toriadau, ac ni fyddwn innau ychwaith. Y mater dan sylw yw a ydym yn ymddiried mewn pobl i wneud penderfyniadau am eu bywydau. Dyna fyrdwn yr holl ddadl hon. Dyna pam yr ydym yn galw am yr atebolrwydd ychwanegol hwn drwy unigolion a etholir yn uniongyrchol,

Nick Bourne reminded us that plans for a directly elected mayor would be subject to a referendum. There is no question about that: we do not want to impose this on people against their will. However, where people have the opportunity to decide, we are pretty sure that people in places such as Cardiff, Newport and Swansea would grab this opportunity with both hands. Dai Lloyd referred to monkeys being elected to high office in Hartlepool. I have to say that I do not know to whom he is referring, because a number of monkeys have been elected to high office in that particular part of the United Kingdom. Mark Isherwood referred to the success of directly elected mayors in such places as Middlesbrough and elsewhere, which have seen a huge fall in crime as a result of policies that were able to be enacted because of the powers invested in a directly elected mayor. He also spoke at length about the need for directly elected people to oversee policing in communities. We accept that there will need to be proper checks and balances to ensure that policing is appropriate in those areas. However, we do not see any decent argument as to why there should not be a simplified arrangement such as this, with a directly elected individual to look after policing in our communities. Nick Ramsay cited some examples from France, Germany and Spain. If people in those countries have the opportunity to directly elect mayors, and the system works in those parts of continental Europe, why should we not have the opportunity here in Wales?

Carl Sargeant: This is a technical point, Darren. Do you accept that there is already an opportunity for people in Wales to directly elect a mayor?

Darren Millar: What I accept is that the threshold for a referendum to introduce a directly elected mayor is far too high. We believe that the Assembly Government ought to give the opportunity to communities—to people in Cardiff, Swansea, Newport, Wrexham and other places—to say ‘Yes, we

boed yn feiri neu’n gomisiynwyr heddlu.

Cawsom ein hatgoffa gan Nick Bourne y byddai cynlluniau ar gyfer maer a etholir yn uniongyrchol yn destun refferendwm. Nid oes amheuaeth am hynny: nid ydym am orfodi’r trefniant hwn ar bobl yn groes i’w hewyllys. Fodd bynnag, pe bai pobl yn cael cyfle i benderfynu, yr ydym yn eithaf siŵr y byddai pobl mewn mannau megis Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe yn awyddus iawn i fanteisio ar y cyfle hwnnw. Cyfeiriodd Dai Lloyd at fwncïod yn cael eu hethol i swyddi uchel yn Hartlepool. Rhaid imi ddweud na wn at bwy yr oedd yn cyfeirio, oherwydd mae llawer o fwncïod wedi’u hethol i swyddi uchel yn y rhan honno o’r Deyrnas Unedig. Cyfeiriodd Mark Isherwood at lwyddiant meiri a etholir yn uniongyrchol mewn mannau megis Middlesbrough a lleoedd eraill, sydd wedi gweld gostyngiad enfawr mewn cyfraddau troseddau o ganlyniad i bolisiau y bu modd eu gweithredu oherwydd y pwerau a roddwyd i faer a etholwyd yn uniongyrchol. Soniodd gryn dipyn hefyd am yr angen am bobl a etholir yn uniongyrchol i oruchwylio plismona mewn cymunedau. Yr ydym yn derbyn y bydd angen archwilio a chloriannu pobl yn briodol er mwyn sicrhau bod gwaith plismona’n briodol yn yr ardaloedd hynny. Fodd bynnag, ni welwn yr un ddadl foddhaol ynghylch pam na ddylid cael trefniant symlach fel hwn, gydag unigolyn a etholir yn uniongyrchol i ofalu am blismona yn ein cymunedau. Cyfeiriodd Nick Ramsay at rai enghreifftiau o Ffrainc, yr Almaen a Sbaen. Os yw pobl yn y gwledydd hynny’n cael cyfle i ethol meiri’n uniongyrchol, ac os yw’r system yn gweithio yn y rhannau hynny o gyfandir Ewrop, pam na ddylem ni gael yr un cyfle yma yng Nghymru?

Carl Sargeant: Pwynt technegol yw hwn, Darren. A ydych yn derbyn bod gan bobl yng Nghymru eisoes gyfle i ethol maer yn uniongyrchol?

Darren Millar: Derbyniaf fod y trothwy ar gyfer refferendwm i gyflwyno maer a etholir yn uniongyrchol yn rhy uchel o lawer. Credwn y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi’r cyfle i gymunedau—i bobl yng Nghaerdydd, Abertawe, Casnewydd, Wrecsam a mannau eraill—ddweud ‘Ydym,

want one', or 'No, we do not'. You want to deny them that opportunity, Minister; we want to give them that opportunity. Therefore, in closing, I encourage Members to support the motion.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Is there any objection? I see that there is. Therefore, all voting will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.
Votes deferred until voting time.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate

Tollau Pontydd Hafren Severn Bridges Tolls

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt.

Before I call on Mike German to move the motion, I understand that this will be the last time that you will participate in a Plenary debate, Mike. I am sure that all Members will join me in thanking you for your contribution to the Assembly, having served as a Member for South Wales East since the first Assembly.

During that time, you will all be aware that Mike has served as Deputy First Minister, chaired several major committees and has been an active and dedicated member of the Welsh branch of the executive of the Commonwealth Parliamentary Association. I am sure that all Members will join me in wishing you well in your new role in the House of Lords, Mike. [*Applause.*]

Michael German: I move that

the National Assembly for Wales:

1. calls on the Welsh Assembly Government to:

yr ydym am gael un', neu 'Nac ydym, nid ydym am gael un'. Yr ydych chi am wrthod rhoi'r cyfle hwnnw iddynt, Weinidog; yr ydym ni am roi'r cyfle hwnnw iddynt. Felly, wrth gloi, anogaf Aelodau i gefnogi'r cynnig.

Y Llywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn heb welliant. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriwn y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

Cyn imi alw ar Mike German i gyflwyno'r cynnig, deallaf mai dyma fydd y tro olaf y byddwch yn cymryd rhan mewn dadl mewn Cyfarfod Llawn, Mike. Yr wyf yn siŵr y bydd yr Aelodau i gyd yn ymuno â mi i ddiolch ichi am eich cyfraniad i'r Cynulliad, a chithau wedi gwasanaethu fel Aelod ar gyfer Dwyrain De Cymru ers y Cynulliad cyntaf.

Yn ystod y cyfnod hwnnw, gwyddoch i gyd fod Mike wedi gwasanaethu fel Dirprwy Brif Weinidog, wedi cadeirio sawl prif bwyllgor ac wedi bod yn aelod gweithgar ac ymroddedig o gangen Cymru o weithrediaeth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Yr wyf yn siŵr y bydd pob Aelod yn ymuno â mi i ddymunio'n dda ichi yn eich rôl newydd yn Nhŷ'r Arglwyddi, Mike. [*Cymeradwyaeth.*]

Michael German: Cynigiau fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

a) undertake an economic impact assessment of the effect of the Severn bridges tolls on the south Wales economy;

b) make further representations to the UK Government on the negative impact of the tolls, and prepare the case for supporting the withdrawal of tolls when the bridges revert to public ownership. (NDM4505)

Thank you, Deputy Presiding Officer, and I may return to that subject later, with a short paragraph of thanks to colleagues, because there are some special thanks that I want to make to everyone here, and I would like to say a little about the journey that we have all been on. Before I do that, I would like to address this motion.

We should not be worried about gathering ideas at this stage about the economic impact of the Severn bridges, because the decision as to when the bridges will come back into public ownership has already been taken, and we know that it will be about 2016 or 2017. You might say, therefore, that we are presenting this motion a little early and that we are getting ahead of ourselves, but it is important to start making the case now, so that the Minister who is responsible for taking that decision, which will be the relevant UK Minister after the next general election, will have a strong case on the desk in front of them from the National Assembly and the people of Wales that this has an impact on our economy.

Many people will know that the second Severn crossing, which is the clue to all this, opened in June 1996 and, in the intervening 14 years, a lot of money has been spent by motorists who have crossed the bridge. Perhaps I should tell those of you from north Wales how much it costs to use the bridge: it is £5.50 for a vehicle seating up to nine people, rising to £16.40 for a goods vehicle. It is Wales's only motorway exit. There is no other motorway exit out of Wales, and if you want to enter Wales by motorway, you have to pay the toll. Many Members will be thinking that there are dual carriageways, and indeed there are, but there is no other motorway into Wales. Not only is the only motorway entrance into Wales tolled, but the

a) gynnal asesiad economaidd o effaith tollau pontydd Hafren ar economi De Cymru;

b) cyflwyno sylwadau pellach i Lywodraeth y DU am effaith negyddol y tollau, a pharatoi'r achos o blaid cael gwared ar y tollau pan ddaw'r pontydd i fod dan berchnogaeth gyhoeddus. (NDM4505)

Diolch, Ddirprwy Lywydd, ac mae'n bosibl y byddaf yn dychwelyd at y pwnc hwnnw yn nes ymlaen, gyda pharagraff byr o ddiolch i'm cydweithwyr, oherwydd mae gennyf rai diolchiadau arbennig yr hoffwn eu gwneud i bawb yma, a hoffwn ddweud ychydig am y daith yr ydym ni i gyd wedi bod arni. Cyn imi wneud hynny, hoffwn fynd i'r afael â'r cynnig hwn.

Ni ddylem boeni ar hyn o bryd am gasglu syniadau ynghylch effaith economaidd pontydd Hafren, oherwydd mae'r penderfyniad ynghylch pryd y bydd y pontydd yn dod yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus eisoes wedi'i wneud, a gwyddom mai tua 2016 neu 2017 y bydd hynny. Felly, gallech ddweud ein bod yn cyflwyno'r cynnig hwn braidd yn gynnar a'n bod yn mynd o flaen gofid, ond mae'n bwysig dechrau paratoi'r achos yn awr, fel y bydd gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am gymryd y penderfyniad hwnnw, sef Gweinidog perthnasol y DU ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf, achos cryf o'i flaen gan y Cynulliad Cenedlaethol a phobl Cymru i ddangos bod hyn yn effeithio ar ein heconomi.

Gŵyr llawer o bobl i ail bont Hafren, sef yr allwedd i hyn i gyd, agor ym mis Mehefin 1996 ac, yn ystod y 14 blynedd ers hynny, mae llawer o arian wedi'i wario gan fodurwyr sydd wedi croesi'r bont. Efallai y dylwn ddweud wrth y sawl sy'n dod o'r gogledd faint mae'n ei gostio i groesi'r bont: £5.50 ar gyfer cerbyd sy'n gallu cludo hyd at naw o bobl, gan godi i £16.40 ar gyfer cerbyd nwyddau. Dyna'r unig ffordd allan o Gymru ar draffordd. Nid oes yr un ffordd arall allan o Gymru ar draffordd, ac os ydych am ddod i Gymru ar draffordd, rhaid ichi dalu'r doll. Bydd llawer o Aelodau yn meddwl bod modd defnyddio ffyrdd deuol, sy'n wir, ond nid oes yr un draffordd arall i Gymru. Ar ben y ffaith bod yr unig draffordd i Gymru yn codi toll,

tolls are the highest for any road bridge in the United Kingdom. There are higher tolls on the M6 relief road, depending upon which stretch you travel on, but these are the highest tolls on any road bridge in the United Kingdom.

If I were to take a straw poll of the Chamber, and ask, 'Do you think that the tolls on coming into Wales affect the economy of Wales?', I am sure that the answer would be 'yes', because, instinctively, we would say that the toll is an extra tax upon businesses and jobs in Wales and that it must therefore act as a barrier to businesses wanting to locate in Wales. I will give you some examples. There is a company called Owens Transport, which, as many of you will know, has bases across south Wales, and it has a direct debit or standing order for tolls on the second Severn crossing. The bill amounts to more than £200,000 a year, which is £200,000 off its bottom line. It is in competition with other haulage companies to move goods and services across the United Kingdom, and that extra bottom line figure is placed against its balance sheet.

5.10 p.m.

That is just one example. The other example that I want to cite is that of Tesco. Tesco had a distribution depot in Chepstow that distributed to the Severn region on both sides of the crossing. It had more than 780 employees. It moved its business 10 miles to the other side of the Severn, so we lost valuable income as a country from that company's business rates and also a large number of jobs, because many employees found that the cost of travelling across the bridge and back in order to commute to work was an additional expense that was too great to bear, although I must say that Tesco provided short-term support to the workforce to enable people to cross the bridge. So, 780 jobs were challenged. A huge number of companies are thinking in the same way about the extra cost that they incur.

So, where are we? The bridges will return to public ownership—I always delight in giving this figure—once £976,834,740, at 1989 prices, has been paid in tolls. Unfortunately,

mae'r tollau hynny'n uwch nag ar gyfer yr un bont ffordd arall yn y Deyrnas Unedig. Mae'r tollau'n uwch ar ffordd liniaru'r M6, yn dibynnu ar ba ran o'r ffordd yr ydych yn teithio arni, ond dyma'r tollau uchaf ar unrhyw bont ffordd yn y Deyrnas Unedig.

Pe bawn yn galw pleidlais answyddogol yn y Siambr, a gofyn 'A ydych yn credu bod y tollau i ddod i Gymru yn effeithio ar economi Cymru?', yr wyf yn siŵr mai'r ateb fyddai 'ydw', oherwydd, yn reddfoll, byddem yn dweud bod y doll yn dreth ychwanegol ar fusnesau a swyddi yng Nghymru ac felly rhaid ei bod yn rhwystr i fusnesau sydd am sefydlu'u hunain yma. Rhoddaf rai enghreifftiau ichi. Mae gan gwmni o'r enw Owens Transport, fel y gŵyr llawer ohonoch, safleoedd ar draws y de, ac mae ganddo ddebyd uniongyrchol neu archeb sefydlog ar gyfer y tollau ar ail bont Hafren. Mae'r bil yn dod i dros £200,000 y flwyddyn, sef £200,000 oddi ar ei elw. Mae'n wynebu cystadleuaeth gan gwmnïau cludo nwyddau eraill i gludo nwyddau a gwasanaethau ledled y Deyrnas Unedig, ac mae'r ffigur ychwanegol hwnnw'n cael ei nodi ar ei fantolen.

Dim ond un enghraifft yw hynny. Yr enghraifft arall yr hoffwn ei chrybwyll yw Tesco. Yr oedd gan Tesco storfa ddosbarthu yng Nghas-gwent a oedd yn dosbarthu i ranbarth Hafren ar ddwy ochr y bont. Yr oedd yn cyflogi dros 780 o bobl. Symudodd ei fusnes 10 milltir i ochr arall afon Hafren, felly bu inni golli incwm gwerthfawr fel gwlad o ardrethi busnes y cwmni hwnnw a nifer mawr o swyddi hefyd, oherwydd bod llawer o'r gweithwyr yn teimlo bod y gost o deithio'n ôl ac ymlaen dros y bont er mwyn cyrraedd y gwaith yn gost ychwanegol a oedd yn ormod i'w thalu, er, rhaid imi ddweud, bod Tesco wedi darparu cymorth byrdymor i'r gweithlu i alluogi pobl i groesi'r bont. Felly, yr oedd 780 o swyddi yn y fantol. Yr un yw barn nifer fawr o gwmnïau am y gost ychwanegol y maent yn mynd iddi.

Felly, ble'r ydym ni arni? Bydd y pontydd yn dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus—yr wyf bob amser yn cael pleser mewn dweud y ffigur hwn—pan fydd £976,834,740, yn ôl

it is not as simple as that. In 2000, the European Court of Justice ruled that VAT should be added to the tolls. At that time, the UK Government said, 'Okay, we have a bit of extra money to find. We won't pay it ourselves from the UK Exchequer; we will add it to the concession'. So, in effect, the tolls will carry on for a bit longer in order to pay the VAT that has been payable since 2000. So that explains why the date is 2016 or 2017, which, by the way, also happens to correspond with the end of the loan from the European Investment Bank, which is probably one of the biggest loans that we have had in Wales. It will all have been paid back by that time. What is the impact of the Severn bridges? The impact is on us and our economy. So, who is going to make the case for us and our economy here in Wales? It must be this National Assembly, the local authorities, other public bodies and others who have an interest in our economy. I do not think that we can expect the UK Government to want to make that decision without the case being made.

The situation with the Humber bridge is a parallel to this. The Humber bridge has tolls of around £2.40 or £2.50. The local authorities on either side of the Humber collectively commissioned a thorough impact study, which resulted in the Secretary of State in London freezing the tolls on the bridge, because the study demonstrated the negative impact that the tolls had on the economy of the Humberside region. If that is the case for a toll of around £2.40, can you imagine what the impact is of a toll that is substantially higher, particularly for freight crossing into Wales? So, the challenge for us in the National Assembly and for the Welsh Assembly Government is to start building and making that case. This motion does not call for outright opposition or shouting from the rafters at this point. That may well need to happen later on, but we need to take the importance of the Welsh economy as our baseline. I am sure that everyone here would agree that that is the baseline. So, the only question is when and how we should start building that case. It is anecdotal at the

prisiau 1989, wedi cael ei dalu mewn tollau. Yn anfodds, nid yw pethau mor syml â hynny. Yn 2000, penderfynodd Llys Cyfiawnder Ewrop y dylid ychwanegu TAW i'r tollau. Bryd hynny, dywedodd Llywodraeth y DU, 'Iawn, rhaid inni ddod o hyd i ychydig yn fwy o arian. Ni fyddwn yn ei dalu ein hunain o Drysorlys y DU; fe'i hychwanegwn at y drwydded'. Felly, mewn gwirionedd, bydd y tollau'n parhau mewn grym am gyfnod ychydig yn hwy eto er mwyn talu'r TAW a fu'n daladwy er 2000. Felly, mae hynny'n esbonio pam mai'r dyddiad yw 2016 neu 2017, sydd, gyda llaw, yn digwydd cyfateb i ddiwedd y benthyciad gan Fanc Buddsoddi Ewrop, sef un o'r benthyciadau mwyaf a gawsom erioed yng Nghymru mae'n debyg. Bydd y cyfan wedi'i ad-dalu erbyn hynny. Pa effaith y mae pontydd Hafren yn ei chael? Maent yn cael effaith arnom ni a'n heconomi. Felly, pwysyd am godi llais drosom ni a'n heconomi yma yng Nghymru? Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hwn, yr awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn ein heconomi wneud hynny. Ni chredaf y gallwn ddisgwyl i Lywodraeth y DU wneud y penderfyniad hwnnw heb fod achos yn cael ei gyflwyno iddi.

Mae'r sefyllfa gyda phont Humber yn debyg iawn i hyn. Mae gan bont Humber dollau sydd oddeutu £2.40 neu £2.50. Comisiynodd yr awdurdodau lleol ar bob ochr i afon Humber astudiaeth effaith drylwyr, ac yn sgîl hynny, rhewodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn Llundain y tollau ar y bont, am fod yr astudiaeth wedi dangos yr effaith negyddol yr oedd y tollau'n ei chael ar economi rhanbarth Glannau Humber. Os yw hynny'n wir am doll sy'n costio oddeutu £2.40, a allwch ddychmygu beth yw effaith toll sy'n uwch o lawer, yn enwedig ar gyfer cerbydau cludo nwyddau sy'n teithio i Gymru? Felly, yr her inni yn y Cynulliad Cenedlaethol ac i Lywodraeth y Cynulliad yw dechrau paratoi a dadlau'r achos hwnnw. Nid yw'r cynnig hwn yn galw am wrthwynebiad llwyr nac am inni weiddi o'r uchelfannau ar hyn o bryd. Mae'n bosibl iawn y bydd angen gwneud hynny yn nes ymlaen, ond mae angen inni ystyried pwysigrwydd economi Cymru fel ein man cychwyn. Yr wyf yn siŵr y byddai pawb yma yn cytuno mai dyna'r man cychwyn. Felly, yr unig gwestiwn yw pryd a sut y dylem

moment. I have given you two examples, but we do not have a substantive body of evidence that demonstrates the negative impact in terms of millions of pounds lost to the south Wales economy, the resulting loss of jobs and the corresponding cost of that to the public purse. All of those things need to be taken into account. The expertise is there to be able to do that work. The simple contract that I am asking for, and that our party is asking for, is to start that work; to commission that study; to take into account the cost on companies in Wales, the cost to individuals, and the cost to tourists alone of coming to Wales; and to ask the Welsh Assembly Government now to state clearly that it will commission that study, which has to be substantial and long term.

Anyone who has had any influence upon a Government will know that things do not happen overnight. I am sure that many Ministers, who are sitting around the table in front of us, have come in with the first flush of excitement and said, 'I want to change the world'. In fact, some of us may have heard some Ministers almost hinting at that. However, the reality is that it takes time for such decisions to be taken. That time span means that we have the time to do it now, and we cannot afford to wait for four or five years.

We are happy to accept the third point of the Government's amendment. I was pleased that the Liberal Democrat Under-Secretary of State, Norman Baker, made the announcement last week that—[*Interruption.*] It is the truth; he made the announcement. If someone wants to dispute the truth, please stand up and say so. The Deputy First Minister is sitting down; therefore he is not saying so.

The Liberal Democrat Minister, Norman Baker, announced last week that we will accept toll—

The Deputy First Minister *rose*—

Michael German: The Deputy First Minister now wants to speak. Let me finish the

ddechrau paratoi'r achos. Mae'r cyfan yn anecdotaidd ar hyn o bryd. Yr wyf wedi rhoi dwy enghraifft ichi, ond nid oes gennym gorff sylweddol o dystiolaeth sy'n dangos yr effaith negyddol o ran miliynau o bunnoedd yn cael eu colli o economi'r de, y swyddi a gollir yn sgil hynny, a chost hynny wedyn i bwrs y wlad. Rhaid ystyried yr holl bethau hynny. Mae'r arbenigedd yn bodoli i allu gwneud y gwaith hwnnw. Yr ymrwymiad syml yr wyf yn gofyn amdano, a'r ymrwymiad y mae ein plaid yn gofyn amdano, yw ymrwymiad i ddechrau'r gwaith hwnnw; comisiynu'r astudiaeth honno; ystyried y gost i gwmnïau yng Nghymru, y gost i unigolion, a'r gost i dwristiaid yn unig sy'n dod i Gymru; a gofyn i Lywodraeth y Cynulliad ddatgan yn glir yn awr y bydd yn comisiynu'r astudiaeth honno, y mae'n rhaid iddi fod yn sylweddol ac yn hirdymor.

Gŵyr unrhyw un sydd wedi cael unrhyw fath o ddylanwad ar Lywodraeth nad yw pethau'n digwydd dros nos. Yr wyf yn siŵr bod llawer o Weinidogion, sy'n eistedd o amgylch y bwrdd o'n blaen, wedi dod yma'n llawn cyffro ac wedi dweud, 'Yr wyf am newid y byd'. A dweud y gwir, mae'n bosibl bod rhai ohonom wedi clywed rhai Gweinidogion yn hanner awgrymu hynny. Fodd bynnag, y gwir amdani yw ei bod yn cymryd amser i wneud penderfyniadau o'r fath. Mae'r cyfnod hwnnw o amser yn golygu bod amser gennym i wneud hynny yn awr, ac ni allwn fforddio aros am bedair neu bum mlynedd.

Yr ydym yn fodlon derbyn trydydd pwynt gwelliant y Llywodraeth. Yr oeddwn yn falch bod Is-Ysgrifennydd Gwladol y Democratiaid Rhyddfrydol, Norman Baker, wedi gwneud y cyhoeddiad yr wythnos diwethaf—[*Torri ar draws.*] Dyna'r gwir; ef a wnaeth y cyhoeddiad. Os oes unrhyw un am amau'r gwir, sefwch a gwnewch hynny. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn eistedd; felly nid yw'n dweud hynny.

Cyhoeddodd Gweinidog y Democratiaid Rhyddfrydol, Norman Baker, yr wythnos diwethaf y byddwn yn derbyn toll—

Y Dirprwy Brif Weinidog *a gododd*—

Michael German: Mae'r Dirprwy Brif Weinidog am siarad yn awr. Gadewch imi

sentence and then we will see which part of the sentence that he disagrees with. It was announced last week that the authorities will start to collect tolls by credit and debit cards on the Severn bridges before the Ryder Cup in Newport.

The Deputy First Minister: Will Mike acknowledge, as I am sure that he will, being an honourable person, that the decision to have credit card payments was made before the general election?

Michael German: I asked you to tell me which part of the sentence that you disagreed with. You did not disagree with any part of that sentence; therefore I would say that you will accept what I have just said. That is fine; I would rather deal with the facts. I am not asking to spread any insinuation here. I was giving you a fact; it is true. That is fine. I am glad that you agree with me.

The point is that it will make it easier to cross the bridge; it will take a few seconds off your journey. Will it reduce the cost to the motorist? No, it will not. Will it eventually result in a change on the impact upon the economy of Wales? No, it will not. That is not the major factor in this motion. The first part of the campaign was to try to make it simpler so that one could get across the bridge more speedily, without the queues and without people being turned back unnecessarily, which happened to thousands upon thousands of people. This is the real part of real major importance for the economy of Wales, and that is the point that the Assembly and I are trying to address. I hope that the Deputy First Minister will today recognise, as we are happy with the third part of his amendment, that we would also be happy if he would say now, 'I have commissioned that study'. His amendment would then be worth while. We need to have the certainty that Wales will be making the case now for the people of Wales and for our economy, and that, by 2016-17, we will have a substantial body of well worked out evidence that our economy is being damaged and that tolls should either be frozen, reduced

orffen y frawddeg ac yna cawn weld pa ran o'r frawddeg y mae'n anghytuno â hi. Cyhoeddwyd yr wythnos diwethaf y bydd yr awdurdodau'n dechrau casglu tollau drwy gardiau credyd a debyd ar bontydd Hafren cyn cystadleuaeth Cwpan Ryder yng Nghasnewydd.

Y Dirprwy Brif Weinidog: A wnaiff Mike gydnabod, ac yr wyf yn siŵr y gwnaiff, am ei fod yn ddyn anrhydeddus, bod y penderfyniad i dderbyn taliadau cerdyn credyd wedi'i wneud cyn yr etholiad cyffredinol?

Michael German: Gofynnais ichi ddweud wrthyf pa ran o'r frawddeg yr oeddech yn anghytuno â hi. Nid ydych wedi anghytuno ag unrhyw ran o'r frawddeg honno; felly tybiaf eich bod yn derbyn yr hyn a ddywedais. Mae hynny'n iawn; byddai'n well gennyf ymdrin â'r ffeithiau. Nid wyf yn gofyn am roi unrhyw ensyniadau ar led yma. Yr oeddw'n yn cyflwyno ffaith; mae'n wir. Mae hynny'n iawn. Yr wyf yn falch eich bod yn cytuno â mi.

Y pwynt yw y bydd yn ei gwneud yn haws croesi'r bont; bydd yn tynnu ychydig eiliadau oddi ar eich taith. A fydd yn lleihau'r gost i'r modurwr? Na fydd. A fydd yn arwain at newid o ran yr effaith ar economi Cymru? Na fydd. Nid dyna brif ffactor y cynnig hwn. Rhan gyntaf yr ymgyrch oedd ceisio'i gwneud yn symlach er mwyn i bobl groesi'r bont yn gyflymach, heb y ciwiau a heb i bobl gael eu troi'n ôl yn ddiangen, a oedd yn digwydd i filoedd ar filoedd o bobl. Dyma'r rhan go iawn sydd o bwys gwirioneddol i economi Cymru, a dyna'r pwynt yr wyf i a'r Cynulliad yn ceisio mynd i'r afael ag ef. Gobeithiaf y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn cydnabod heddiw, gan ein bod yn fodlon ar drydedd ran ei welliant, y byddem hefyd yn fodlon pe bai'n dweud, 'Yr wyf wedi comisiynu'r astudiaeth honno'. Yna byddai ei welliant yn werth chweil. Mae angen inni gael sicrwydd y bydd Cymru'n dadlau'r achos yn awr ar ran pobl Cymru ac ar ran ein heconomi, ac, erbyn 2016-17, y bydd gennym gorff sylweddol o dystiolaeth gadarn sy'n dangos bod ein heconomi'n cael ei niweidio ac y dylid naill ai rhewi'r tollau, eu lleihau neu eu dileu'n llwyr.

or taken away altogether.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Cynigiaf welliant 1 yn enw Jane Hutt. Dileu popeth a rhoi yn ei le:

y Cynulliad Cenedlaethol:

1. yn croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i asesu effaith tollau pontydd Hafren ar economi de Cymru;

2. yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnal trafodaethau rheolaidd â Llywodraeth y DU ynghylch pontydd Hafren a bydd yn parhau i drafod â hwy ynghylch rheolaeth y pontydd a'u perchnogaeth yn y dyfodol;

3. yn croesawu'r mesurau i ganiatáu defnyddio cerdyn i dalu'r tollau ac yn annog Llywodraeth y DU i sicrhau bod y newidiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud cyn y Cwpan Ryder.

Jenny Randerson: I wish to add my tributes to the comments that you made about Mike German, Deputy Presiding Officer. It is important to note that this motion was tabled very much as a tribute to Mike, because it is one of the most high-profile campaigns that he has run, and one that I am sure that he will take with him to the House of Lords. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Hear, hear.']

When the tolls on the Humber bridge were frozen last year, the Minister for the Economy and Transport missed a trick, because according to the answers given to me in questions, he failed even to ask the UK Government to freeze toll charges across the Severn. It would have been very helpful at a time when we were just emerging from recession to have the advantage of being able to have lower toll charges.

5.20 p.m.

In asking for an economic impact assessment, as we do in this motion, we would expect it to take account of the impact of the freezing

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt: delete all and replace with:

the National Assembly:

1. welcomes the work being undertaken by the Welsh Assembly Government to assess the effect of the Severn bridge tolls on the south Wales economy;

2. notes that the Welsh Assembly Government has regular discussions with the UK Government about the Severn bridges and will continue to discuss the future ownership and management of the bridges with it;

3. welcomes the measures to allow card payments at the tollbooths and urges the UK Government to ensure that the necessary changes are made before the Ryder Cup.

Jenny Randerson: Hoffwn ychwanegu fy nheyrnged i'r sylwadau a wnaethoch am Mike German, Ddirprwy Lywydd. Mae'n bwysig nodi i'r cynnig hwn gael ei gyflwyno i raddau helaeth fel teyrnged i Mike, gan ei fod yn un o'r ymgyrchoedd uchaf eu proffil iddo'u cynnal, ac mae'n un y bydd yn mynd â hi i Dŷ'r Arglwyddi, yr wyf yn siŵr. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'Clywch, clywch.']

Pan rewyd y tollau ar bont Humber y llynedd, collodd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth gyfle, oherwydd yn ôl yr atebion a roddwyd imi yn ystod cwestiynau, methodd hyd yn oed â gofyn i Lywodraeth y DU rewi tollau ar draws afon Hafren. A ninnau newydd ddechrau dod allan o ddirwasgiad, byddai wedi bod yn ddefnyddiol iawn pe bai gennym y fantais o gael tollau is.

Wrth ofyn am asesiad economaidd o effaith y tollau, fel yr ydym yn ei wneud yn y cynnig hwn, byddem yn disgwyl i'r asesiad ystyried

of the Humber tolls, as well as the impact of the much more ambitious scrapping of the tolls in Scotland, and the evidence that has been amassed as a result.

We are particularly concerned about the impact on tourism, particularly day visitors, which is so far totally unassessed. It stands to reason that, if you have a choice between a day at the seaside in north Devon and one in west Wales, the £5.50 to cross the bridge could well be the deciding factor. At least, as Mike says, the new Liberal Democrat Parliamentary Under-Secretary of State for Transport in London has announced that the use of credit cards at the tolls will be allowed before the Ryder Cup, because visitors from abroad find it astonishing that you cannot use them to pay. Anyone used to the speed with which you can go through tolls in France, for instance, is amazed at the queues and the fumbling with small change that is necessary in order to get across the bridge, and the embarrassment that many people face when they have to be escorted to the nearest cash machine is not likely to win us friends internationally.

So, there is good news about the Ryder Cup, but it is not just the areas along the M4 corridor that are adversely affected by the toll. I would say that, in tourism terms, the effect goes well up into the Brecon Beacons. Whenever there is, sadly, a serious accident on the M4, and the M4 is closed for a significant period of time, the congestion spreads right up to the Heads of the Valleys road. The M4's catchment area is large, as is that of the bridges.

What about other economic impacts? At £5.50 a crossing, it would cost £27.50 to commute across the bridge for a normal five-day working week, on top of your fuel and parking. If you are not lucky enough to have an alternative train route, that could put you off applying for and taking a job on the other side of the bridge—and remember, the traffic is two-way, as is the deterrent effect. It reduces the job options for people living nearby, and it reduces the pool of talent coming into Wales and applying for jobs.

effaith rhewi tollau Humber, yn ogystal ag effaith y penderfyniad llawer mwy uchelgeisiol i ddileu'r tollau yn yr Alban, a'r dystiolaeth a gasglwyd o ganlyniad i hynny.

Yr ydym yn pryderu'n benodol am yr effaith ar dwristiaeth, yn enwedig ymwelwyr dydd, nad yw wedi cael ei hasesu o gwbl hyd yn hyn. Mae'n amlwg, os oes gennych ddewis rhwng treulio diwrnod ar lan y môr yng ngogledd Dyfnaint neu ddiwrnod yn y gorllewin, ei bod yn bosibl iawn mai'r £5.50 i groesi'r bont fyddai'r ffactor a fyddai'n troi'r fantol. O leiaf, fel y dywed Mike, mae Isygrifennydd Gwladol Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol dros Drafndiaeth yn Llundain wedi cyhoeddi y bydd modd defnyddio cardiau credyd i dalu'r tollau cyn cystadleuaeth Cwpan Ryder, oherwydd mae ymwelwyr tramor yn rhyfeddu nad oes modd defnyddio cerdyn i dalu. Mae unrhyw un sy'n gwybod mor gyflym y gallwch fynd drwy'r tollau yn Ffrainc, er enghraifft, yn rhyfeddu at y modd y mae'n rhaid ciwio ac ymbalfalu am newid mân er mwyn croesi'r bont, ac nid yw'r cywilydd y bydd pobl yn ei deimlo wrth gael eu hebrwng i'r peiriant arian agosaf yn debygol o ennill ffrindiau inni yn rhyngwladol.

Felly, ceir newyddion da am gystadleuaeth Cwpan Ryder, ond nid dim ond ar yr ardaloedd ar hyd coridor yr M4 y mae'r doll yn cael effaith niweidiol. Yn nhermau twristiaeth, byddwn yn dweud bod yr effaith yn ymestyn hyd at Fannau Brycheiniog. Yn anffodus, pryd bynnag y bydd damwain ddifrifol ar yr M4, a'r M4 yn cael ei chau am gyfnod hir, mae'r tagfeydd yn lledaenu i fyny ffordd Blaenau'r Cymoedd. Mae dalgylch yr M4 yn fawr, fel y mae dalgylch y pontydd.

Beth am yr effeithiau economaidd eraill? O dalu £5.50 i groesi'r bont bob tro, byddai'n costio £27.50 i deithio dros y bont yn ystod wythnos waith arferol o bum diwrnod, ar ben eich costau tanwydd a pharcio. Os nad ydych yn ddigon ffodus i allu teithio ar y trêrn yn lle hynny, gallai hynny fod yn ddigon i wneud ichi benderfynu peidio â chynnig am swydd ar ochr arall y bont—a chofiwch, mae'r traffig yn llifo'r ddwy ffordd, fel y mae'r effaith ataliol. Mae'n lleihau opsiynau gwaith i bobl sy'n byw gerllaw, ac mae'n lleihau'r gronfa o bobl dalentog sy'n dod i Gymru ac

yn cynnig am swyddi.

Most of this debate will inevitably focus on areas relatively near the bridge, but I want to draw your attention to a report by the Federation of Small Businesses in conjunction with Aberystwyth University that will be published soon. It looks at the bridge in the context of the pan-European road network. After all, the M4 is part of that network as an important through-route, so the Severn bridges are part of that network. Tolling policy needs to be looked at in that context. At a time when eastern European countries that have just joined the EU are lowering and abolishing their tolls in order to attract new businesses, this could have a serious impact on business in Wales.

Mae'n anochel y bydd y rhan fwyaf o'r ddadl hon yn canolbwyntio ar ardaloedd sy'n gymharol agos i'r bont, ond hoffwn dynnu eich sylw at adroddiad a luniwyd gan y Ffederasiwn Busnesau Bach ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth a gaiff ei gyhoeddi'n fuan. Mae'n ystyried y bont yng nghydestun y rhwydwaith ffyrdd traws Ewropeaidd. Wedi'r cyfan, mae'r M4 yn rhan o'r rhwydwaith hwnnw fel llwybr pwysig sy'n arwain i fannau eraill, felly mae pontydd Hafren yn rhan o'r rhwydwaith hwnnw. Mae angen edrych ar bolisiau codi tollau yn y cydestun hwnnw. Ar adeg pan fo gwledydd dwyrain Ewrop sydd newydd ymuno â'r UE yn gostwng ac yn dileu eu tollau er mwyn denu busnesau newydd, gallai hyn effeithio'n ddifrifol ar fusnes yng Nghymru.

Chris Franks: I add my congratulations to Mike. Unfortunately, we have not served on many committees together—except the Standing Order No. 25 committee. That was such a pleasure that we almost became a band of brothers and, indeed, sisters. I wish you the very best in the House of Lords.

Chris Franks: Ychwanegaf fy llongyfarchiadau i Mike. Yn anffodus, nid ydym wedi gwasanaethu ar lawer o bwyllgorau gyda'n gilydd—ar wahân i bwyllgor Rheol Sefydlog Rhif 25. Yr oedd hynny'n gymaint o bleser, bron inni ffurfio brawdoliaeth ac, yn wir, chwaeroliaeth. Dymunaf bob hwyl ichi yn Nhŷ'r Arglwyddi.

I am sure that Members will be aware that Plaid Cymru has raised concerns about the maintenance programme at the original Severn crossing, after figures revealed that only a fraction of the revenue is devoted to maintenance. I welcome this debate as a way of putting more pressure on the Government in London, including the famous Liberal Democrat Minister about whom we have heard—Norman Baker—to ensure joint ownership of the bridges once they pass into public ownership. I have serious concerns about the impact on the public purse once the taxpayer becomes directly responsible for it, which I understand will be in 2017.

Yr wyf yn siŵr y gŵyr Aelodau fod Plaid Cymru wedi mynegi pryderon am raglen cynnal a chadw'r bont Hafren wreiddiol, ar ôl i ffigurau ddatgelu mai bach iawn o'r refeniw sy'n cael ei wario ar gynnal a chadw. Croesawaf y ddadl hon fel ffordd o roi mwy o bwysau ar y Llywodraeth yn Llundain, gan gynnwys Gweinidog enwog y Democratiaid Rhyddfrydol yr ydym newydd glywed amdano—Norman Baker—i sicrhau cydberchnogaeth ar y pontydd wedi iddynt ddod dan berchnogaeth gyhoeddus. Yr wyf yn pryderu'n ddifrifol am yr effaith ar bwrs y wlad pan ddaw'r trethdalwr yn uniongyrchol gyfrifol amdani, a fydd yn digwydd yn 2017 yn ôl yr hyn yr wyf i'n ei ddeall.

I have been informed that a total of £15 million has been spent since 2006 on the main cable work on the first Severn crossing and that the Highways Agency is predicted to spend £5.8 million over the next five years. Since 2006, over £225 million has been collected in toll revenue. We seek an assurance that any significant work that may

Yr wyf wedi cael gwybod bod cyfanswm o £15 miliwn wedi'i wario er 2006 ar y prif waith ceblau ar y bont Hafren gyntaf ac y rhagwelir y bydd yr Asiantaeth Priffyrdd yn gwario £5.8 miliwn yn ystod y pum mlynedd nesaf. Er 2006, casglwyd dros £225 miliwn mewn refeniw tollau. Hoffem gael sicrwydd y bydd unrhyw waith sylweddol a allai fod yn

be necessary on the first Severn crossing takes place before the bridge is returned to public ownership. I do not believe that it would be acceptable that a private operator that has received considerable revenue and profits from the building of the second bridge should be able to pass on those serious future costs to public bodies. The UK Government should consider offering joint ownership of the bridge after handover. What discussions have taken place regarding the option of joint ownership? I believe that we in Wales should have control over one of the main gateways to our nation.

I now turn to the impact of the tolls on the Welsh economy. We will hear next month from the Minister for the Economy and Transport, Ieuan Wyn Jones, about his economic renewal strategy, which will be an important step in rebuilding our economy. In meetings with road hauliers, concerns have been raised with me regarding the rise of tolls on the bridge. I wrote to the previous Labour administration in London urging it to freeze the tolls, due to the potential impact on business and tourism in Wales. I state my disappointment at the Liberal Democrat Parliamentary Under-Secretary of State for Transport, Norman Baker, who said in the House of Commons that he has seen no evidence to suggest that the tolls impact on the economic viability of Wales. Furthermore, he did not commit to an economic impact assessment of the tolls, which is perhaps a greater disappointment. Perhaps his Liberal Democrat colleagues could advise him on these important Welsh matters. It was interesting to hear Mike German identify the Welsh Government as a key body in the Welsh economy, but, unfortunately, we do not have all the economic tools that we require.

The Welsh Government has listened to businesses and, in the strategy, will attempt to create a new business environment, which would be a change from past policies that attempted to help businesses directly. In these tough economic times, we need to do all we can to stimulate business activity, and rising tolls do not do that.

angenrheidiol ar y bont Hafren gyntaf yn cael ei wneud cyn i'r bont gael ei dychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus. Ni chredaf y byddai'n dderbyniol i weithredwr preifat sydd wedi cael refeniw ac elw sylweddol yn sgîl adeiladu'r ail bont drosglwyddo'r costau difrifol hynny a fydd yn codi yn y dyfodol i gyrff cyhoeddus. Dylai Llywodraeth y DU ystyried cynnig cydberchnogaeth ar ôl i'r bont gael ei throsglwyddo. Pa drafodaethau a gafwyd ynghylch cydberchnogaeth fel opsiwn posibl? Credaf y dylem ni yng Nghymru gael rheolaeth dros un o'r prif byrth i'n gwlad.

Trof yn awr at effaith y tollau ar economi Cymru. Fis nesaf byddwn yn clywed gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ieuan Wyn Jones, am ei strategaeth ar gyfer adnewyddu'r economi, a fydd yn gam pwysig wrth ailadeiladu ein heconomi. Mewn cyfarfodydd yr wyf wedi'u cael â chwmnïau sy'n cludo nwyddau ar y ffyrdd, mynegwyd pryderon am y cynnydd yn y tollau ar y bont. Ysgrifennais at y weinyddiaeth Lafur flaenorol yn Llundain i'w hannog i rewi'r tollau, oherwydd yr effaith bosibl ar fusnes a thwristiaeth yng Nghymru. Nodaf fy siom yn Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol dros Drafnidiaeth, Norman Baker, a ddywedodd yn Nhŷ'r Cyffredin nad yw wedi gweld dim tystiolaeth i awgrymu bod y tollau'n effeithio ar hyfywedd economaidd Cymru. Yn ogystal, ni chafwyd ymrwymiad ganddo i gynnal asesiad economaidd o effaith y tollau, sy'n peri mwy o siom o bosibl. Efallai y gallai ei gydweithwyr o blith y Democratiaid Rhyddfrydol ei gynghori ar y materion hyn sy'n bwysig i Gymru. Yr oedd yn ddiddorol clywed Mike German yn dweud bod Llywodraeth Cymru yn gorff allweddol yn economi Cymru, ond, yn anffodus, nid oes gennym yr holl arfau economaidd y mae eu hangen arnom.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwrandao ar fusnesau ac, yn y strategaeth, bydd yn ceisio creu amgylchedd busnes newydd, a fyddai'n wahanol i bolisiau'r gorffennol a oedd yn ceisio helpu busnesau yn uniongyrchol. Yn ystod y cyfnod anodd hwn o safbwynt economaidd, mae angen inni wneud popeth o fewn ein gallu i ysgogi gweithgarwch busnes, ac nid yw tollau sy'n cynyddu yn gwneud

hynny.

David Melding: I am delighted to take part in this debate, because I can make my own tribute to Lord German. Mike, you have brought great colour, warmth and humour to this Chamber and to Welsh politics. [*Interruption.*] I must say, I know that the Deputy Presiding Officer disapproves of quips from a sedentary position, but I think that the former First Minister's description of me in the role of Jeeves needs public airing, therefore I thank you. [*Laughter.*]

Mike, you have been one of devolution's big players. You fought hard to get the Assembly established, and you led your party with great distinction. You have been of great service to Wales and now you will serve Wales in the House of Lords; we wish you well with that. This is an appropriate debate for you to finish on, because you have always had a love of technical and engineering matters. Transport is perhaps what motivates you most, and many of your wonderfully delicious metaphors have related to transport.

Kirsty Williams: They were sometimes mixed metaphors. [*Laughter.*]

David Melding: I must also mention your publicity stunts. During the 2003 election, I recall that you were strapped into a super high-speed speedboat and went flying around Cardiff bay, an inch above the water. I am not quite sure what that was supposed to convey with regard to Liberal Democrat hopes or aspirations, but it was a striking image. We genuinely wish you well, Mike, and, once again, thank you for all that you have done for Welsh politics.

5.30 p.m.

This is an important matter. It is not a devolved matter, but, clearly, it has a huge impact on the Welsh economy, and is rightly a matter that we should discuss in the Assembly. On behalf of the Welsh Conservative group, I support calls for the

David Melding: Yr wyf yn falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl hon, oherwydd gallaf roi fy nheyrnged fy hun i'r Arglwydd German. Mike, yr ydych wedi dod â chryn liw, cynhesrwydd a hiwmor i'r Siambr hon ac i wleidyddiaeth Cymru. [*Torri ar draws.*] Rhaid imi ddweud, gwn nad yw'r Dirprwy Lywydd yn fodlon derbyn sylwadau gan Aelodau sydd ar eu heistedd, ond credaf fod angen sôn yn gyhoeddus am ddisgrifiad y cyn-Brif Weinidog ohonof yn rôl Jeeves, felly diolchaf ichi. [*Chwerthin.*]

Mike, chi oedd un o brif chwaraewyr datganoli. Bu ichi frwydro'n galed i sefydlu'r Cynulliad, a bu ichi arwain eich plaid mewn ffordd neilltuol iawn. Yr ydych wedi rhoi gwasanaeth rhagorol i Gymru ac yn awr byddwch yn gwasanaethu Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi; dymunwn yn dda ichi gyda hynny. Mae hon yn ddadl briodol ichi orffen â hi, oherwydd yr ydych bob amser wedi bod yn hoff iawn o faterion technegol a pheirianegol. Mae'n bosibl mai trafndiaeth sy'n eich ysgogi fwyaf, ac mae llawer o'ch trosiadau gwych wedi bod yn gysylltiedig â thrafnidiaeth.

Kirsty Williams: Yr oeddent yn drosiadau dryslyd weithiau. [*Chwerthin.*]

David Melding: Rhaid imi sôn hefyd am eich ymdrechion i gael cyhoeddusrwydd. Yn ystod etholiad 2003, cofiaf ichi wibio o amgylch bae Caerdydd, fodfedd uwchben y dŵr a chithau wedi eich strapio i mewn i gwch cyflym iawn. Nid wyf yn hollol siŵr beth yr oedd hynny i fod i'w gyfleu o ran gobeithion neu ddyheadau'r Democratiaid Rhyddfrydol, ond yr oedd yn ddelwedd drawiadol. Yr ydym yn dymuno'n dda ichi, Mike, o waelod calon ac, unwaith eto, diolch ichi am bopeth yr ydych wedi'i wneud i wleidyddiaeth Cymru.

Mae hwn yn fater pwysig. Nid yw'n fater sydd wedi'i ddatganoli, ond, yn amlwg, mae'n cael effaith enfawr ar economi Cymru, ac mae'n fater y mae'n iawn inni ei drafod yn y Cynulliad. Ar ran grŵp y Ceidwadwyr Cymreig, cefnogaf alwadau ar i Lywodraeth

Welsh Assembly Government to develop the case with the Government in London to ensure that as much progress is made as possible in resolving the issue of the tolls and the future policy that will apply. That is important, as are the secondary issues such as paying with credit and debit cards. Again, being able to do so will be of great help to people in Wales, and the convenience factor will be striking.

It is the case that, traditionally, estuarial crossings have been tolled. We now have to concentrate on convincing the Government that it is inappropriate to have a toll there, given that the crossing is part of a main UK arterial route, and, as we have heard, a main European route, and given that it is the only motorway that goes into Wales, so that it creates more of an economic burden than would be the case in other parts of the country, where the roads are not necessarily part of those integrated networks. Many people in Wales feel that they pay twice: once through the taxes that go towards the UK programme to provide motorways, and a second time when having to pay at the Severn crossings. Therefore, I think that it is a reasonable case to make, but it has to be balanced against the traditional position. We have to say clearly that the former Labour Government held the view that it should not break with tradition, and we will have to make a strong case to the Department for Transport that the time has come for a new vision, for the benefit of the Welsh economy, especially as we recover from the recession, and that it will be appropriate, come 2016 or 2017, to look at the tolls very carefully.

The legal position is that the highways authority could continue to charge a toll for a further five years, if it can demonstrate that the maintenance commitments for the bridges would require that type of revenue to be generated. It is important that we stress as much as possible that that option should not be taken up unless it is absolutely essential.

I note that the business sector is keen to have tolls abolished, and perhaps we can understand that there is a very direct case for it to make in this respect. However, we should not forget that it does not see this as being as high a priority as tackling

y Cynulliad ddatblygu'r achos gyda'r Llywodraeth yn Llundain i sicrhau y gwneir cymaint o gynnydd â phosibl i ddatrys y mater ynghylch y tollau a'r polisi a fydd yn berthnasol yn y dyfodol. Mae hynny'n bwysig, fel y mae'r materion eilaidd fel talu â chardiau credyd a chardiau debyd. Unwaith eto, bydd gallu gwneud hynny o gymorth mawr i bobl Cymru, a bydd y cyfleustra'n drawiadol.

Yn draddodiadol, mae'n wir bod toll yn cael ei chodi ar bontydd sy'n croesi aber. Yn awr, rhaid inni ganolbwyntio ar ddarbwylllo'r Llywodraeth nad yw'n briodol cael toll yno, o ystyried bod y bont yn rhan o un o brif ffyrdd y DU, ac, fel y clywsom, yn un o brif ffyrdd Ewrop, ac o ystyried mai dyma'r unig draffordd i Gymru, a'i bod, felly, yn creu mwy o faich economaidd nag y byddai mewn rhan arall o'r wlad, lle nad yw'r ffyrdd, o reidrwydd, yn rhan o'r rhwydweithiau integredig hynny. Mae llawer o bobl yng Nghymru o'r farn eu bod yn talu ddwywaith: unwaith drwy'r trethi sy'n mynd tuag at raglen y DU i ddarparu traffyrdd, ac eto wrth dalu i groesi pont Hafren. Felly, credaf ei fod yn achos rhesymol i'w gyflwyno, ond rhaid ei wrthbwyso yn erbyn y sefyllfa a gafwyd yn draddodiadol. Rhaid inni ddweud yn glir fod y Llywodraeth Lafur flaenorol o'r farn na ddylai fynd yn groes i draddodiad, a bydd yn rhaid inni gyflwyno achos cryf i'r Adran dros Drafnidiaeth bod yr amser wedi dod i gael gweledigaeth newydd, er lles economi Cymru, yn enwedig wrth inni ddod dros y dirwasgiad, ac y bydd yn briodol, erbyn 2016 neu 2017, i ystyried y tollau yn ofalus iawn.

Y sefyllfa gyfreithiol yw y gallai'r awdurdod priffyrdd barhau i godi toll am bum mlynedd arall, os gall ddangos y byddai ymrwymadau cynnal a chadw'r pontydd yn golygu y byddai angen cynhyrchu'r math hwnnw o refeniw. Mae'n bwysig inni bwysleisio gymaint â phosibl na ddylid dewis yr opsiwn hwnnw oni bai ei fod yn gwbl angenrheidiol.

Sylwaf fod y sector busnes yn awyddus i ddileu tollau, ac efallai y gallwn ddeall bod achos uniongyrchol iawn ganddo i'w wneud yn y cyswllt hwnnw. Fodd bynnag, ni ddylem anghofio nad yw'r sector yn ystyried hyn yn gymaint o flaenoriaeth â mynd i'r afael â

congestion on the M4, particularly around Newport. Therefore, we have to look at the issue strategically. If it is the case that resources will be limited, and that we can provide moneys for some things but not others, we need to put that into the balance as well.

Peter Black: I concur with the comments about Mike German's contribution to Welsh politics and to the Assembly. His contribution has been exceptional, and I know that when he gets to the House of Lords, Wales will have a champion there, who will not only be fighting for the interests of Wales, but who also fully understands the devolution process and who will be able to ensure that our voice is heard, in the interests of the Assembly and of devolution.

I am a little disappointed with the Government's amendment 1 because it misses the point of the motion. As Mike has already mentioned, we have effectively won the case on the use of credit and debit cards to pay the tolls and, as has also been mentioned, that option will be in place before the Ryder Cup. The wider issue is what will happen to the bridge and the tolls once the bridge comes back into public ownership.

Chris Franks referred earlier to Norman Baker's comments in the House of Commons, when he said that there was no evidence and that, at this stage, he was not committed to undertaking an economic impact assessment. However, the point is that it is for us, as an Assembly, to make the case; we are the ones who have devolved responsibility for a large part of the economic agenda in Wales, and the ones to whom the Welsh people are looking to fight for their interests in terms of the economic future of Wales. We are responsible for the maintenance of the M4 on this side of the bridge, and for public transport in Wales, therefore we are the ones who have to make the case to the UK Government, no matter which party is in Government, because the Labour Minister before Norman Baker did not see the case for getting rid of the tolls either. At this stage, after a few weeks in Government, Norman Baker has not yet had that case put to him, so the point of this motion is to say that we should be making the

thagfeydd traffig ar yr M4, yn enwedig o amgylch Casnewydd. Felly, rhaid inni edrych ar y mater yn strategol. Os yw'n wir y bydd adnoddau'n gyfyngedig, ac y byddwn yn gallu darparu arian ar gyfer rhai pethau ond nid ar gyfer pethau eraill, mae angen inni bwysu a mesur hynny hefyd.

Peter Black: Cytunaf â'r sylwadau am gyfraniad Mike German i wleidyddiaeth Cymru ac i'r Cynulliad. Bu ei gyfraniad yn eithriadol, a phan fydd yn cyrraedd Tŷ'r Arglwyddi, gwn y bydd gan Gymru eiriolwr yno, a fydd nid yn unig yn brwydro dros fuddiannau Cymru, ond sydd hefyd yn deall y broses ddatganoli yn llawn ac a fydd yn gallu sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed, er lles y Cynulliad a datganoli.

Yr wyf braidd yn siomedig â gwelliant rhif 1 y Llywodraeth oherwydd mae'n colli pwynt y cynnig. Fel y soniodd Mike eisoes, yr ydym, i bob pwrpas, wedi ennill yr achos o ran defnyddio cardiau credyd a debyd i dalu'r tollau ac, fel y soniwyd eisoes hefyd, bydd yr opsiwn hwnnw ar waith cyn cystadleuaeth Cwpan Ryder. Y mater ehangach yw beth fydd yn digwydd i'r bont a'r tollau pan ddaw'r bont yn ôl i berchnogaeth gyhoeddus.

Yn gynharach cyfeiriodd Chris Franks at sylwadau Norman Baker yn Nhŷ'r Cyffredin, pan ddywedodd nad oedd dim tystiolaeth ac nad oedd, ar hyn o bryd, yn ymrwmo i gynnal asesiad economaidd o effaith y tollau. Fodd bynnag, y pwynt yw mai ein gwaith ni, fel Cynulliad, yw dadlau'r achos; ni yw'r rhai sydd â chyfrifoldeb datganoledig dros ran fawr o'r agenda economaidd yng Nghymru, ac mae pobl Cymru yn disgwyl inni frwydro dros eu buddiannau o ran dyfodol economaidd Cymru. Yr ydym yn gyfrifol am gynnal a chadw'r M4 ar yr ochr hon i'r bont, ac am drafndiaeth gyhoeddus yng Nghymru, felly ni yw'r rhai sy'n gorfod cyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU, ni waeth pa blaid sydd mewn grym, oherwydd nid oedd y Gweinidog Llafur cyn Norman Baker yn derbyn yr achos dros ddileu'r tollau ychwaith. Ar hyn o bryd, ar ôl ychydig wythnosau mewn Llywodraeth, nid yw Norman Baker eto wedi cael clywed yr achos hwnnw, felly diben y cynnig hwn yw dweud y dylem fod yn dadlau'r achos; dylem fod yn

case; we should be making representations to the UK Government, and we should put together a proper economic evaluation of the impact of the tolls on the economy, on tourism and on the range of responsibilities that we deal with at the Assembly. We should say to the UK Government, 'This is our case; now we want you to listen'. That is why I am disappointed that the Minister has, effectively, sought to amend clause b of our motion, when we need to make the case to ensure that the tolls go.

Mike has been campaigning for a long time to get rid of the tolls on the bridge, and there are other politicians around Wales who have fought for the same result. Councillor John Warman, for example, a Liberal Democrat councillor on Neath Port Talbot County Borough Council in my region, has been fighting equally as long on this issue. I am sure that there are campaigners from all parties in all parts of Wales, particularly south Wales, who recognise the impact that these tolls have on the Welsh economy. We should not sit back now that the credit card issue is behind us; we need to move forward and continue to make our case.

The argument has been helped greatly by the actions of the Scottish Government in scrapping charges on the Skye, Forth and Tay bridges. That decision was made with almost universal approval from people in Scotland, where the campaign to end some of the tolls had been going on for much longer than in Wales. The lesson that we can learn from Scotland is that that sort of campaign could be replicated here. Although we are about to engage in the adventure of an all-party campaign to try to get more powers for the Assembly, there is also a case—after that campaign is out of the way in March, perhaps—for having another all-party campaign on tolls on the Severn bridge. I would hope that we, as an Assembly, could lead that campaign, and I know for certain that if we are to take up that cudgel, Mike German will be fighting for us in the House of Lords.

William Graham: The perception of the Severn bridge toll as a tax on entering Wales dates back to the earliest days of the original

cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU, a dylem lunio gwerthusiad economaidd priodol o effaith y tollau ar yr economi, ar dwristiaeth ac ar yr ystod o gyfrifoldebau yr ydym yn ymdrin â hwy yn y Cynulliad. Dylem ddweud wrth Lywodraeth y DU, 'Dyma ein hachos; yr ydym am ichi wrando yn awr'. Dyna pam yr wyf yn siomedig bod y Gweinidog, i bob pwrpas, wedi ceisio newid cymal b ein cynnig, pan fo angen inni ddadlau'r achos i sicrhau bod y tollau'n cael eu dileu.

Bu Mike yn ymgyrchu am amser i gael gwared ar y tollau ar y bont, a cheir gwleidyddion eraill ledled Cymru sydd wedi brwydro i sicrhau'r un canlyniad. Er enghraifft, bu'r Cynghorydd John Warman, un o gynghorwyr y Democratiaid Rhyddfrydol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn fy rhanbarth, yn brwydro cyhyd dros y mater hwn. Yr wyf yn siŵr bod ymgyrchwyr o bob plaid ym mhob cwr o Gymru, yn enwedig y de, sy'n cydnabod yr effaith a gaiff y tollau hyn ar economi Cymru. Ni ddylem eistedd yn ôl yn awr bod y broblem cardiau credyd y tu ôl inni; mae angen inni symud ymlaen a pharhau i ddadlau ein hachos.

Mae'r ddadl wedi'i chryfhau'n fawr gan weithredoedd Llywodraeth yr Alban wrth ddileu'r taliadau ar bontydd yr Ynys Hir, afon Gweryd ac afon Tay. Gwnaed y penderfyniad hwnnw gyda chymeradwyaeth unfrydol bron gan bobl yr Alban, lle bu'r ymgyrch i gael gwared ar rai o'r tollau yn mynd rhagddi am gyfnod hwy o lawer nag yng Nghymru. Y wers y gallwn ei dysgu gan yr Alban yw y gallai ymgyrch o'r fath gael ei chynnal yma. Er ein bod ar fin dechrau ar antur ymgyrch drawsbleidiol i geisio sicrhau mwy o bwerau i'r Cynulliad, ceir achos hefyd—pan fydd yr ymgyrch honno ar ben ym mis Mawrth, efallai—i gael ymgyrch drawsbleidiol arall ar dollau pont Hafren. Byddwn yn gobeithio y gallem ni, fel Cynulliad, arwain yr ymgyrch, a gwn i sicrwydd, os byddwn yn mynd ati i gefnogi'r achos hwnnw, y bydd Mike German yn brwydro ar ein rhan yn Nhŷ'r Arglwyddi.

William Graham: Mae'r canfyddiad bod toll pont Hafren yn dreth ar ddod i Gymru yn dyddio'n ôl i ddyddiau cynharaf y bont

Severn bridge, as described by Anglo-Welsh poet Harri Webb in his *Ode on the Severn Bridge*:

‘Two lands at last connected
Across the waters wide,
And all the tolls collected
On the English side.’

In 1966, the toll offered a real saving, set at two shillings and sixpence for all vehicles. For a small car it represented a saving of seven shillings on the price of nine shillings and sixpence for the Aust ferry crossing. As Mike has already mentioned, the end date of the concession period of Severn River Crossing plc will only be achieved when the company has collected a fixed sum of money. It is currently forecast that the concession period will end during 2017, although a precise timing will depend on the toll takings. In 2009, approximately 626,000 more eastbound journeys were made than in the toll-charging westbound direction. The contrast is even more striking when one examines the decline in the numbers of heavy goods vehicles using the bridge over the last 10 years. It is worth recording that the bridge is estimated as having allowed over 300 million vehicles across the estuary.

As suggested by the Federation of Small Businesses Cymru, there is a general case to be made for the systematic management of the road transport network in order to promote efficiency and economic welfare. If capital costs are to be recovered through charging, then, logically, on the grounds of equity, all road enhancements should recover their cost from proportionate charges, not simply those that have been exceptionally expensive. Until a politically acceptable and practically feasible scheme for achieving this can be designed, piecemeal tolls and congestion charging will continue to cause distortions that affect mobility and accessibility.

5.40 p.m.

Strategic supervision of the national transport infrastructure needs to be balanced by

Hafren wreiddiol, fel y disgrifiwyd gan y bardd Eingl-Gymreig Harri Webb yn *Ode on the Severn Bridge*:

‘Two lands at last connected
Across the waters wide,
And all the tolls collected
On the English side.’

Yn 1966, yr oedd y doll, a oedd yn ddau swllt a chwe cheiniog i bob cerbyd, yn cynnig arbedion gwirioneddol. I gar bach, yr oedd yn golygu arbed saith swllt o’i gymharu â’r naw swllt a chwe cheiniog yr oedd yn rhaid ei dalu i groesi ar fferi Aust. Fel y soniodd Mike eisoes, ni fydd drwydded Severn River Crossing ccc yn dod i ben nes bydd y cwmni wedi casglu swm penodol o arian. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd y drwydded yn dod i ben yn ystod 2017, er y bydd yr union ddyddiad yn dibynnu ar swm yr arian a gesglir drwy’r doll. Yn 2009, gwnaed oddeutu 626,000 yn fwy o deithiau tua’r dwyrain o’u cymharu â nifer y teithiau i gyfeiriad y gorllewin lle caiff y doll ei chodi. Mae’r cyferbyniad yn fwy trawiadol fyth o edrych ar y gostyngiad yn nifer y cerbydau nwyddau trwm a fu’n defnyddio’r bont dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae’n werth cofnodi yr amcangyfrifir bod y bont wedi caniatáu i dros 300 miliwn o gerbydau deithio ar draws yr aber.

Fel yr awgrymwyd gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, gellir dadlau yn gyffredinol bod angen rheoli’r rhwydwaith trafndiaeth ffyrdd mewn modd systematig er mwyn hybu effeithlonrwydd a lles economaidd. Os oes yn rhaid adfer costau cyfalaf drwy godi tâl, yna, yn rhesymegol, er mwyn sicrhau tegwch, dylai’r holl waith a wneir i wella ffyrdd adennill y costau hynny drwy daliadau cymesur, ac nid dim ond y gwaith a fu’n eithriadol o ddrud. Nes y gellir llunio cynllun sy’n dderbyniol o safbwynt gwleidyddol ac yn ddichonol o safbwynt ymarferol, bydd tollau a thaliadau atal tagfeydd a gaiff eu codi fan hyn a fan draw yn parhau i lurgunio’r sefyllfa mewn ambell fan gan effeithio ar symudedd a hygyrchedd.

Mae angen cydbwysu’r gwaith strategol o oruchwyllo’r seilwaith trafndiaeth

consideration of the more pronounced local consequences. There should at least be a co-decision framework, involving the Welsh Assembly Government and the Westminster Department for Transport, which will effectively be co-owners of the crossings when the capital cost has eventually been defrayed. An early inquiry by the Assembly's Enterprise and Learning Committee could establish the scope and relevance of any legal reform. It is now a common public perception that the cost of maintenance is a relatively small proportion, perhaps 5 per cent, of the toll revenues, and this report indicates that the cost of the charge falls disproportionately heavily on Welsh businesses.

On options for the future, however, recession and the squeeze on public spending make it highly unlikely that the annual revenue stream from the Severn bridge toll of approximately £70 million will be given up lightly by the Treasury. Furthermore, a maintenance-only charge would probably cost more to collect than it would yield. Clearly, a policy beyond 2016 is not clear cut and there is a strong case for reviewing the continuation of uniform charges and for the opening up of a well-informed debate.

In pragmatic terms, current legislation provides for the Department for Transport to have the sole power of decision, and a likely and welcome scenario might be a freezing of tolls in nominal terms and limited tolls for five more years, post-amortisation. However, given the impact reported by businesses that are highly dependent on the crossings, there are good arguments for a smarter approach, designed to offset detrimental impacts. That might include discounted toll rates for regular business usage or purchase of multitrip toll cards. The fact that it has taken until now to implement card payments is astonishing and it is imperative that card payments are introduced without the card handling charge being passed on to the traveler.

enedlaethol a'r gwaith o ystyried y canlyniadau lleol mwy amlwg. Man lleiaf, dylai fod gennym fframwaith cydbenderfynu, sy'n cynnwys Llywodraeth y Cynulliad ac Adran Drafnidiaeth San Steffan, a fydd, i bob pwrpas, yn gydberchnogion y pontydd pan fydd y gost cyfalaf wedi'i thalu yn y pen draw. Gallai ymchwiliad cynnar gan Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad ystyried hyd a lled a pherthnasedd unrhyw ddiwygiadau cyfreithiol. Canfyddiad cyffredin y cyhoedd erbyn hyn yw bod y gost cynnal a chadw yn gyfran gymharol fach, efallai 5 y cant, o refeniw'r tollau, ac mae'r adroddiad hwn yn dangos bod cost y tâl yn taro busnesau Cymru yn waeth na'r cyffredin.

Fodd bynnag, o ran opsiynau ar gyfer y dyfodol, mae'r dirwasgiad a'r wasgfa ar wariant cyhoeddus yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y bydd y Trysorlys yn mynd ati ar chwarae bach i ildio'r refeniw blynyddol a geir o doll pont Hafren, sydd oddeutu £70 miliwn. At hynny, mae'n debyg y byddai tâl ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn unig yn costio mwy i'w gasglu nag y byddai'n ei gynhyrchu. Yn amlwg, nid oes polisi cwbl glir ar gyfer y cyfnod ar ôl 2016 a cheir achos cryf dros ailystyried a ddylid parhau â'r taliadau unfurf, a thros ddechrau cynnal dadl wybodus.

Mewn termau pragmatig, dan y ddeddfwriaeth gyfredol, yr Adran dros Drafnidiaeth sydd â'r holl bŵer i benderfynu, ac mae'n bosibl mai un senario tebygol a fyddai'n cael ei groesawu fyddai rhewi'r tollau mewn enw yn unig, ar wahân i godiadau sy'n gysylltiedig â chwyddiant, a phennu tollau cyfyngedig am bum mlynedd arall, ar ôl i'r ddyled gael ei dileu. Fodd bynnag, o ystyried yr effaith a nodwyd gan fusnesau sy'n dibynnu'n fawr ar y pontydd, ceir dadleuon cadarn o blaid cael dull gweithredu craffach, â'r bwriad o wneud iawn am effeithiau niweidiol. Gallai hynny gynnwys cyfraddau is i ddefnyddwyr busnes rheolaidd neu'r opsiwn i brynu cardiau tollau ar gyfer sawl taith. Mae'r ffaith iddi gymryd cyhyd i weithredu system o dalu â cherdyn yn syfrdanol ac mae'n hanfodol bod taliadau cerdyn yn cael eu cyflwyno heb fod y teithiwr yn gorfod talu'r ffi am brosesu taliadau o'r fath.

Although revenue from the Severn crossings toll belongs by statute to the Department for Transport, and is consequently absorbed by the Exchequer, there must be an undoubtedly strong moral basis for such proceeds to be shared with the Welsh Assembly Government. Debating the bridge tolls raises the separate issue of whether the M4 in the Newport area is fit for purpose. Having raised the now sadly aborted relief road in the Assembly Chamber for over 11 years, Members will not be surprised that I contend that it is not. Were the bridge tolls to be ended, traffic volume could swell further, highlighting the inadequacies of south Wales's road infrastructure.

In conclusion, the tolls are a matter for the United Kingdom Government. As David Melding has said, it is standard practice to charge a toll for estuarial crossings. Welsh Conservatives call on the Welsh Assembly Government to engage in constructive dialogue about the Severn bridges and on how to minimise any negative impacts on businesses along the M4 corridor. Any calls for reform now by Labour must be set against its record in Government of maintaining the current arrangements. The Welsh Conservatives support a detailed exploration of the future of the Severn bridges, particularly as they move towards public ownership. We need a firm evidence base to consider the impact of the tolls.

Nick Ramsay: This debate is about moving forward and I will be very brief because I know that time is short. When the Severn bridge first opened in 1966, Queen Elizabeth described it as the dawn of a new era for south-east Wales, and she was certainly right. It is doubtful that we would have had many of the economic developments that we have had in Wales over the last few decades without it. It is unlikely that we would be sitting here today in the Chamber, in Cardiff bay, had the advantages of the Severn bridge and of the second Severn bridge in 1996 not been realised. It is vital that we undertake an independent assessment of the Severn bridge tolls and their effect on the economy. It is even more important in 2010 as we move towards the Ryder Cup competition.

Er bod y refeniw o dollau pontydd Hafren yn eiddo i'r Adran dros Drafnidiaeth yn ôl statud, a'i fod, o ganlyniad, yn mynd i goffrau'r Trysorlys, rhaid bod sail foesol gref iawn dros rannu elw o'r fath â Llywodraeth y Cynulliad. Mae cynnal dadl am dollau'r bont yn codi mater ar wahân ynghylch a yw'r M4 yn ardal Casnewydd yn addas i'w diben. Ar ôl codi'r mater ynghylch ffordd liniaru yn Siambr y Cynulliad am dros 11 mlynedd, cynllun y rhoddwyd y gorau iddo erbyn hyn, yn anffodus, ni fydd Aelodau yn synnu i'm clywed yn dadlau nad yw'n addas i'w diben. Pe bai tollau'r bont yn dod i ben, byddai'r traffig yn cynyddu ymhellach, gan amlygu diffygion seilwaith ffyrdd y de.

I gloi, mae'r tollau yn fater i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Fel y dywedodd David Melding, mae'n arfer safonol i godi toll ar bont sy'n croesi aber. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gynnal trafodaeth adeiladol am bontydd Hafren ac am sut i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar fusnesau ar hyd coridor yr M4. Rhaid i unrhyw alwadau i ddiwygio a ddaw gan y Blaid Lafur yn awr gael eu gosod yn erbyn ei hanes o gynnal y trefniadau cyfredol pan oedd mewn Llywodraeth. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi cynnal archwiliad manwl o ddyfodol pontydd Hafren, yn enwedig wrth agosáu at y cyfnod pan fyddant yn dod o dan berchnogaeth gyhoeddus. Mae angen sylfaen dystiolaeth gadarn arnom i ystyried effaith y tollau.

Nick Ramsay: Mae a wnelo'r ddadl hon â symud ymlaen a byddaf yn gryno iawn oherwydd gwn fod amser yn brin. Pan agorwyd pont Hafren am y tro cyntaf yn 1966, disgrifiodd y Frenhines Elisabeth yr achlysur fel dechrau cyfnod newydd i'r deddwyrain, ac yr oedd yn gwbl gywir. Heb y bont, mae'n amheus a fyddem wedi cael llawer o'r datblygiadau economaidd yr ydym wedi'u cael yng Nghymru yn ystod yr ychydig ddegawdau diwethaf. Mae'n annhebygol y byddem yn eistedd yma heddiw yn y Siambr, ym mae Caerdydd, pe na bai manteision pont Hafren a'r ail bont Hafren yn 1996 wedi cael eu gwireddu. Mae'n hanfodol inni gynnal asesiad annibynnol o dollau pont Hafren a'u heffaith ar yr economi. Mae'n bwysicach fyth yn 2010 wrth inni agosáu at

gystadleuaeth Cwpan Ryder.

My second point, which has already been made by many Members, is the effect of this charge on small and medium-sized enterprises. Mr Nicholas Perdikis, director of business and management at Aberystwyth University, has undertaken his own research on this and is currently working on what the implications of abolishing the tolls would be for SMEs. I do not think that it is just about the fact that there are tolls, but about the level of tolling. If you look at other bridges, clearly we are paying more to cross the Severn bridge than is being paid elsewhere and that must be having an impact.

Chris Franks has said in previous debates on this subject, over the last year, that one company alone was paying over £192,000 a year. That is a staggering amount, which must be having a real and concerning impact on business. Pre-emption is another important factor. According to Norman Baker, the Parliamentary Under Secretary of State for Transport, the Severn bridge will return to Government hands by 2017—a point that Mike German has made before. It is always fascinating to hear Mike talk about the change in ownership of the bridge and of the exact amount of money, which I cannot recall, at which point it goes into Government ownership. These are important issues and the level of engagement in this debate has shown what a serious issue this is for Members, certainly in south-east Wales, but also for Wales as a whole.

I will finish by paying tribute to Mike German. In the last three years, since I was elected to the Assembly, he has always been a source of good advice, so I thank him for that. Chris Franks mentioned the committee established under Standing Order No. 25, and I had forgotten that we had sat on that together. It is one of those committees that you find people do not want to own up to having sat on, for different reasons. That committee dealt with the dualling or otherwise of the A40 in Pembrokeshire. It is fitting, Mike, that your last debate in this place is on an issue that has been so close to your heart. I hope that you can continue to

Fy ail bwynt, a wnaed eisoes gan lawer o Aelodau, yw effaith y tâl hwn ar fusnesau bach a chanolig eu maint. Mae Mr Nicholas Perdikis, cyfarwyddwr busnes a rheoli Prifysgol Aberystwyth, wedi cynnal ei waith ymchwil ei hun ar hyn, ac ar hyn o bryd mae'n ymchwilio i'r goblygiadau posibl i fusnesau bach a chanolig pe bai'r tollau'n cael eu dileu. Credaf fod mwy i hyn na'r ffaith bod tollau'n cael eu codi, mae a wnelo hefyd â lefel y tollau. Os edrychwch ar bontydd eraill, mae'n amlwg ein bod yn talu mwy i groesi pont Hafren o'i gymharu â'r hyn a delir mewn mannau eraill ac mae'n rhaid bod hynny'n cael effaith.

Mae Chris Franks wedi dweud mewn dadleuon blaenorol ar y mater hwn, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bod un cwmni yn unig yn talu dros £192,000 y flwyddyn. Mae hwnnw'n swm syfrdanol, a rhaid bod hynny'n cael effaith wirioneddol ac effaith sy'n peri pryder ar fusnes. Mae rhagbrynu yn ffactor pwysig arall. Yn ôl Norman Baker, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth, bydd pont Hafren yn dychwelyd i ddwylo'r Llywodraeth erbyn 2017—pwynt a wnaed gan Mike German yn flaenorol. Mae bob amser yn ddi-ddorol clywed Mike yn sôn am y newid ym mherchnogaeth y bont a'r union swm o arian, na allaf ei gofio, pan fydd yn dychwelyd i berchnogaeth y Llywodraeth. Mae'r rhain yn faterion pwysig ac mae lefel yr ymwneud â'r ddadl hon wedi dangos bod y mater hwn yn bwysig iawn i Aelodau, yn enwedig yn y de-ddwyrain, ond hefyd i Gymru gyfan.

Gorffennaf drwy roi teyrnged i Mike German. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, ers imi gael fy ethol i'r Cynulliad, mae bob amser wedi bod yn ffynhonnell cyngor da, felly, diolchaf iddo am hynny. Soniodd Chris Franks am y pwyllgor a sefydlwyd dan Reol Sefydlog Rhif 25, ac yr oeddwn wedi anghofio inni eistedd ar y pwyllgor hwnnw gyda'n gilydd. Mae'n un o'r pwyllgorau hynny nad yw pobl am gyfaddef iddynt fod yn aelodau ohonynt, am resymau gwahanol. Bu'r pwyllgor hwnnw'n ymdrin â deoli neu beidio â deoli'r A40 yn sir Benfro. Mae'n addas, Mike, bod eich dadl olaf yn y fan hon yn ymwneud â mater a fu mor agos at eich

represent Wales in a different place.

Mohammad Asghar: Mike, I also give you my best wishes and thank you for raising this important issue of the Severn bridge toll. The toll has an impact on a number of areas in this country, such as the economy, business, employment, tourism—and the list goes on. Personally, I have long been an advocate of lowering or scrapping the toll when possible. I feel passionately that the ever-increasing toll over the years has not been beneficial for Wales, and a detailed exploration of its impact is needed to confirm my beliefs.

I recently heard from a constituent who is finding the drive across the bridge back into Wales each day an almost unmanageable strain on his finances, and he certainly is not alone in that. As has been discussed many times in the Chamber, the employment situation is worse in this part of the world than in any other nation in the United Kingdom. However, young graduates or school leavers may be deterred from seeking employment solutions over the bridge if they face a £5.50 toll every single day. For 252 working days each year, that means that employees will have to fork out around £1,500 a year to cross the bridge.

We also need to highlight the impact that the toll has on businesses. The Federation of Small Businesses has said that it believes that the toll inhibits business growth, and that must be assessed properly.

To conclude, I am delighted to support this motion, and I hope that my Welsh Assembly Government colleagues will do what they can to undertake a full and proper economic impact assessment into the effect of the toll. While I know that the Welsh Assembly Government does not have responsibility for the Severn crossing, it can play a leading role in drawing up an analysis to establish the toll's impact on reducing economic development, and it could highlight the role that it plays on issues such as employment and tourism. Labour MP Jessica Morden

calon. Gobeithiaf y gallwch barhau i gynrychioli Cymru mewn man arall.

Mohammad Asghar: Mike, hoffwn innau ddymunio'n dda ichi a diolch ichi am godi'r mater pwysig hwn ynghylch toll pont Hafren. Mae'r doll yn cael effaith ar nifer o feysydd yn y wlad hon, fel yr economi, busnes, cyflogaeth, twristiaeth—ac mae'r rhestr yn parhau. Yn bersonol, yr wyf wedi dadlau ers tro byd dros ostwng neu ddileu'r doll pan fydd hynny'n bosibl. Yr wyf yn teimlo'n angerddol na fu'r doll, sydd wedi cynyddu'n barhaus dros y blynyddoedd, yn fuddiol i Gymru, ac mae angen inni gael archwiliad manwl o'i heffaith er mwyn cadarnhau fy marn.

Yn ddiweddar clywais gan etholwr sy'n teimlo mai prin y gall ymdopi â'r straen ariannol a achosir gan y gost o yrru'n ôl dros y bont i Gymru bob dydd, ac yn sicr nid ef yw'r unig un sy'n teimlo hynny. Fel y trafodwyd droeon yn y Siambr, mae'r sefyllfa o ran cyflogaeth yn waeth yn y rhan hon o'r byd nag yn unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd graddedigion ifanc neu'r sawl sy'n gadael yr ysgol yn penderfynu peidio â chwilio am waith ar yr ochr arall i'r bont os byddant yn wynebu toll o £5.50 bob dydd. Ar gyfer 252 o ddiwrnodau gwaith y flwyddyn, mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid i weithwyr dalu oddeutu £1,500 y flwyddyn i groesi'r bont.

Mae angen inni amlygu'r effaith a gaiff y doll ar fusnesau hefyd. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi dweud ei fod o'r farn bod y doll yn llesteirio twf busnesau, a rhaid asesu hynny'n iawn.

I gloi, yr wyf yn falch iawn o gefnogi'r cynnig hwn, a gobeithiaf y bydd fy nghyd-Aelodau yn Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gynnal asesiad economaidd llawn a phriodol o effaith y doll. Er y gwn nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb dros bont Hafren, gall chwarae rôl flaenllaw wrth lunio dadansoddiad i weld beth yw effaith y doll ar leihau datblygiad economaidd, a gallai dynnu sylw at yr effaith a gaiff ar faterion fel cyflogaeth a thwristiaeth. Cododd yr AS Llafur Jessica Morden y mater hwn yn y

raised this issue in Parliament only a week ago, and she highlighted the role that the Welsh Assembly Government can play in drawing up an economic impact study. Norman Baker, the Parliamentary Under-Secretary of State for Transport, has confirmed that he would welcome such information from the Welsh Assembly Government. I hope that such an assessment can be undertaken and that appropriate representations can be made to the UK Government.

